Agweddau oedolion a'u defnydd o gyfryngau

Adroddiad 2017

Dogfen Ymchwil

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2017

Gair am y ddogfen hon

Cyhoeddir yr adroddiad hwn fel rhan o'n dyletswyddau yn ymwneud â llythrennedd yn y cyfryngau. Mae'n darparu ymchwil sy'n edrych ar ddefnyddio'r cyfryngau, agweddau a dealltwriaeth, a sut mae'r rhain yn newid dros amser, gan ganolbwyntio'n benodol ar y grwpiau hynny sy'n tueddu i beidio â chymryd rhan yn ddigidol. Mae'r adroddiad yn mynd i'r afael â theledu, radio, cyfryngau symudol, gemau a'r rhyngrwyd, gan ganolbwyntio'n bennaf ar yr olaf o'r rhain.

Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar y don bresennol o ymchwil a wnaed yn ystod tymor yr hydref 2016 a'r prif newidiadau o gymharu â 2015.

Cynnwys

Adran Tudalen

1 Crynodeb gweithredol 7

2 Y prif ganfyddiadau meintiol 13

2.1 Derbyn a defnyddio cyfryngau digidol 13

2.2 Ymgysylltu a chyfranogi 14

2.3 Cynnwys 15

2.4 Dealltwriaeth gritigol 16

2.5 Defnyddwyr mwy newydd, defnyddwyr cul a'r rheini sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd 18

3 Tabl ffigurau 20

4 Cyflwyniad 23

4.1 Dyletswyddau Ofcom 23

4.2 Methodoleg a dadansoddi'r ymchwil 23

5 Derbyn a defnyddio cyfryngau digidol 25

5.1 Trosolwg o'r adran 25

5.2 Prif ganfyddiadau 25

5.3 Mynediad at ddyfeisiau yn y cartref a'r defnydd ohonynt 26

5.4 Defnyddio dyfeisiau a pherthynas 32

Defnyddio ffôn clyfar 32

Llenwi ffurflenni 35

Dyfais cyfryngau y byddid yn gweld ei cholli fwyaf 37

5.5 Derbyn a defnyddio'r rhyngrwyd 41

Dyfeisiau a ddefnyddir i fynd ar-lein 41

Faint mae pobl yn defnyddio'r rhyngrwyd 46

Gweithgareddau ar-lein a wnaed yn rheolaidd (yn ystod yr wythnos diwethaf) 49

5.6 Gemau **Error! Bookmark not defined.**

Gemau, ar draws dyfeisiau **Error! Bookmark not defined.**

5.7 Defnyddio data **Error! Bookmark not defined.**

6 Ymgysylltu a chyfranogi 61

6.1 Trosolwg o'r adran 61

6.2 Prif ganfyddiadau 61

6.3 Cyfathrebu 62

6.4 Cyfryngau cymdeithasol 65

Yr hyn y mae pobl yn ei wneud ar apiau neu safleoedd cyfryngau cymdeithasol **Error! Bookmark not defined.**

Rhannu dolenni at erthyglau ar y cyfryngau cymdeithasol**Error! Bookmark not defined.**

Rhannu safbwyntiau ar apiau neu safleoedd cyfryngau cymdeithasol**Error! Bookmark not defined.**

Gweld cynnwys ar apiau neu safleoedd cyfryngau cymdeithasol sy'n cynhyrfu neu'n peri tramgwydd 79

6.5 Cael Mynediad at wasanaethau'r Llywodraeth/gweithgareddau cyhoeddus/dinesig 83

Defnyddio gwasanaethau cyhoeddus neu ddinesig ar-lein 83

Y dyfeisiau a ddefnyddir fwyaf ar gyfer cyflawni prosesau'r Llywodraeth ar-lein **Error! Bookmark not defined.**

Rhesymau dros beidio â chyflawni prosesau'r Llywodraeth ar-lein**Error! Bookmark not defined.**

6.6 Creadigrwydd **Error! Bookmark not defined.**

Llwytho cynnwys i fyny ar-lein **Error! Bookmark not defined.**

Creadigrwydd a'r cyfryngau cymdeithasol 94

6.7 Gwneud trafodion ar-lein 95

7 Cynnwys Error! Bookmark not defined.

7.1 Trosolwg o'r adran **Error! Bookmark not defined.**

7.2 Prif ganfyddiadau **Error! Bookmark not defined.**

7.3 Pryderon ynghylch y cyfryngau **Error! Bookmark not defined.**

Pryderon ynghylch cynnwys teledu **Error! Bookmark not defined.**

Pryderon ynghylch cynnwys ar y rhyngrwyd **Error! Bookmark not defined.**

Pryderon ynghylch chwarae gemau 106

Pryderon ynghylch ffonau symudol 107

7.4 Gwylio: Cynnwys ar y teledu, clipiau fideo byr a pha mor hawdd yw dod o hyd i gynnwys 108

Gwylio cynnwys ar safleoedd rhannu fideos 110

7.5 Gwrando: radio a gwasanaethau sain eraill 112

7.6 Gemau **Error! Bookmark not defined.**

Chwarae gemau ar-lein **Error! Bookmark not defined.**

Agweddau at chwarae gemau ar-lein **Error! Bookmark not defined.**

7.7 Dod o hyd i gynnwys a gwybodaeth **Error! Bookmark not defined.**

Pa mor hawdd yw dod o hyd i gynnwys **Error! Bookmark not defined.**

Dod o hyd i wybodaeth 112

7.8 Ffynonellau gwybodaeth ar-lein a ddefnyddiwyd 125

Ffynonellau sydd fwyaf tebygol o gael eu defnyddio wrth chwilio am wybodaeth ar-lein 126

Defnyddio gwefannau neu apiau nad ydyn nhw wedi cael eu defnyddio o'r blaen 128

Darllen ac ysgrifennu adolygiadau ar-lein **Error! Bookmark not defined.**

Ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddir, os nad ydy rhywun yn siŵr sut mae gwneud rhywbeth ar-lein **Error! Bookmark not defined.**

8 Dealltwriaeth Gritigol Error! Bookmark not defined.

8.1 Trosolwg o'r adran **Error! Bookmark not defined.**

8.2 Prif ganfyddiadau **Error! Bookmark not defined.**

8.3 Hyder fel defnyddiwr rhyngrwyd **Error! Bookmark not defined.**

8.4 Cyllid ar gyfer cyfryngau **Error! Bookmark not defined.**

Cyllid ar gyfer rhaglenni teledu'r BBC **Error! Bookmark not defined.**
Cyllid ar gyfer teledu masnachol **Error! Bookmark not defined.**
Cyllido iPlayer a gwefan y BBC **Error! Bookmark not defined.**
Cyllido peiriannau chwilio 141
Cyllido YouTube 142
Agweddau at gyllido cynnwys ar-lein 143
8.5 Preifatrwydd ar-lein, rheoli data personol a diogelwch ar-lein 144
Ystyried goblygiadau diogelwch data wrth roi cynnwys ar gyfryngau cymdeithasol 146
Gwiriadau a wneir cyn rhoi gwybodaeth bersonol ar-lein 150
Gwiriadau a wneir cyn rhoi gwybodaeth ariannol **Error! Bookmark not defined.**
Mesurau diogelwch ar waith **Error! Bookmark not defined.**
Agweddau at warchod gwybodaeth bersonol ar-lein **Error! Bookmark not defined.**
Profiad o ddigwyddiadau negyddol ar-lein **Error! Bookmark not defined.**
8.6 Hysbysebion ar-lein **Error! Bookmark not defined.**
Hyder wrth adnabod hysbysebion wrth weld neu ddarllen pethau ar-lein**Error! Bookmark not defined.**
Hysbysebion personol **Error! Bookmark not defined.**
Agweddau at hysbysebion ar-lein 160
Camau a gymerwyd i osgoi hysbysebion ar-lein 161
Adnabod cynnwys noddedig yng nghanlyniadau peiriant chwilio 162
8.7 Gwerthuso cynnwys **Error! Bookmark not defined.**
Deall sut mae peiriannau chwilio'n gweithio **Error! Bookmark not defined.**
Fydd mewn cynnwys ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol**Error! Bookmark not defined.**
Dilysu gwybodaeth ffeithiol ar-lein 167
9 Defnyddwyr mwy newydd, defnyddwyr cul a'r rheini sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd 170
9.1 Trosolwg o'r adran 170
9.2 Prif ganfyddiadau 170
9.3 Defnyddwyr rhyngrwyd mwy newydd 172
Faint o ddefnyddwyr mwy newydd sydd yn y boblogaeth ar-lein 172
Dyfeisiau a ddefnyddir i fynd ar-lein 173
Hyder fel defnyddiwr rhyngrwyd 175
Ymwybyddiaeth o ffynonellau cyllid ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein 176
Canlyniadau deall peiriannau chwilio 178
Deall hysbysebion personol 180
Mesurau a nodweddion diogelwch ar-lein 181
Pryderon ynghylch y rhyngrwyd 184
9.4 Defnyddwyr rhyngrwyd cul 185
Faint o ddefnyddwyr cul sydd yn y boblogaeth ar-lein 186
Mathau o weithgaredd ar-lein a wneir 188
Defnydd o'r rhyngrwyd – lleoliad defnyddio, amlder a hoff ddewis o ran dyfais 189
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r rhyngrwyd 191
Gwylio ar-alwad 193
9.5 Y rheini sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd 195

Faint o oedolion sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd 195
Proffil demograffeg o'r rheini sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd o'u cymharu â defnyddwyr rhyngrwyd 195
Rhesymau dros beidio â mynd ar-lein 196
Y rheini sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd yn ei ddefnyddio drwy ddirprwy 197

Adran 1

Crynodeb gweithredol

Mae'r *Adroddiad Agweddau Oedolion a'u Defnydd o Gyfryngau* yn tynnu sylw at y rhan mae'r cyfryngau yn ei chwarae ym mywydau pobl bob dydd. Dyma'r 12fed *Adroddiad Agweddau Oedolion a'u Defnydd o Gyfryngau* a gyhoeddwyd, ac mae'n rhoi astudiaeth arhydol werthfawr sy'n edrych ar ddefnyddio'r cyfryngau, agweddau a dealltwriaeth, a sut mae'r rhain yn newid dros amser. Eleni cafodd nifer o gwestiynau ymchwil newydd eu cyflwyno ac o'r herwydd mae'r adroddiad hwn yn cynnwys archwiliad dyfnach i'r ddealltwriaeth hollbwysig o gyfranogiad mewn cyfryngau ac yn y byd digidol.

Mae'r adroddiad yn rhan o gyfrifoldeb Ofcom i hyrwyddo, ac ymchwilio i lythrennedd yn y cyfryngau, cyfrifoldeb a roddwyd ar Ofcom drwy Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Mae llythrennedd yn y cyfryngau yn galluogi pobl i gael y sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen arnynt er mwyn gallu manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a ddaw yn sgil gwasanaethau cyfathrebu traddodiadol a newydd. Mae llythrennedd yn y cyfryngau hefyd yn helpu pobl i reoli cynnwys a chyfathrebiadau, ac i amddiffyn eu hunain a'u teuluoedd rhag y risgiau posibl sydd ynghlwm wrth ddefnyddio'r gwasanaethau hyn.

Gan roi sylw i deledu, radio, dyfeisiau symudol, gemau a'r rhyngrwyd, gyda ffocws penodol ar y grwpiau hynny nad ydynt yn tueddu i gymryd rhan yn ddigidol, mae'r adroddiad hwn yn pwyso'n bennaf ar ddata a gasglwyd o arolwg Traciwr blynyddol Llythrennedd yn y Cyfryngau Oedolion. Mae'r arolwg hwn yn seiliedig ar gyfweliadau gyda 1,846 o oedolion 16 oed a hŷn ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2016. Eleni, am y tro cyntaf, caiff hyn ei ategu gan ddata o astudiaeth ymchwil arall gan Ofcom, yr arolwg Traciwr Technoleg yn 2017,[1] ar sail 3743 o gyfweliadau gydag oedolion 16 oed a hŷn ym mis Ionawr a mis Chwefror 2017. O ganlyniad, mae rhai gwahaniaethau wrth gymharu un flwyddyn â'r llall yn yr adroddiad hwn.

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys, yn yr atodiad, dadansoddiad o arferion gwylio teledu oedolion, gan ddefnyddio data gan BARB 2016 (panel mesur teledu'r DU) a pha mor aml bydd oedolion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd yn ymweld â'r eiddo mwyaf poblogaidd ar y we, gan ddefnyddio data gan comScore (2016).

Ochr yn ochr â'r adroddiad hwn mae dau adroddiad arall am lythrennedd yn y cyfryngau:

- Mae'r adroddiad *Byw gyda'r Cyfryngau 2016* yn astudiaeth fideo ethnograffig 12 mlynedd sy'n ceisio rhoi wyneb dynol i'r data. Mae'r astudiaeth yn dilyn nifer bach o unigolion (19 yn astudiaeth eleni) o ran sut mae eu perthynas â chyfryngau digidol yn esblygu – sut mae'r cyfryngau yn plethu â'u bywydau bob dydd, beth sy'n eu cymell i fabwysiadu technoleg newydd a dysgu sgiliau newydd, eu harferion defnyddio a lefelau eu dealltwriaeth, a'u pryderon am gyfryngau.

- Mae'r *Adroddiad Dinasyddion y Rhyngrwyd* yn pwyso ar amrywiaeth o ffynonellau meintiol er mwyn rhoi trosolwg o ddefnydd ar-lein pobl o wasanaethau a chynnwys mewn amrywiaeth o feysydd sy'n ymwneud â dinasyddion.

Mae'r crynodeb gweithredol hwn yn dwyn ynghyd y canfyddiadau o'r holl adroddiadau hyn er mwyn rhoi naratif trosfwaol ar brofiadau oedolion o gyfryngau yn 2016.

[1] Mae'r ymchwil yn y Traciwr Technoleg yn digwydd dros ddwy don y flwyddyn ac mae'r data sydd yn yr adroddiad hwn (yn mynd yn ôl i 2014) yn ymwneud â'r don gyntaf a gynhelir bob blwyddyn.

Crynodeb o'r prif themâu

Yn yr adran hon, rydyn ni'n edrych ar nifer o'r prif themâu sydd wedi dod o'r data ansoddol a meintiol, er mwyn creu darlun cyfoethog o'r newidiadau yn nefnydd pobl o gyfryngau, eu hagweddau at gyfryngau a'u dealltwriaeth o gyfryngau.

Mae pobl hŷn yn cofleidio technoleg glyfar a chymdeithasol.
Er bod nifer y bobl dros 65 oed sy'n defnyddio ffonau clyfar yn dal yn is nag ar gyfer grwpiau oed eraill, roedd wedi codi'n sydyn rhwng 2015 a 2016, ymhlith y grŵp oed 65-74 (39% o'i gymharu â 28%) ac ar gyfer y rheini dros 75 oed (15% o'i gymharu â 8%); yr unig ddau grŵp oed lle bu cynnydd. Mae defnyddwyr 65-74 oed hefyd ddwywaith yn fwy tebygol yn 2016 nag oeddent yn 2015 o ddweud mai eu ffôn symudol ydy'r ddyfais y byddent yn gweld ei cholli fwyaf (20% o'i gymharu â 10%).

Mae dyfeisiau tabled, setiau teledu clyfar a chwaraewyr ffrydio cyfryngau fel Apple TV, Amazon Fire TV a Chromecast hefyd yn dod yn fwy poblogaidd ymysg y grwpiau oed hyn. Mae oedolion 65-74 oed yn fwy tebygol yn 2016 nag yn 2015 i fod â dyfais tabled (51% o'i gymharu â 39%), ac mae'r rheini sy'n 75 oed a hŷn hefyd yn fwy tebygol o fod â dyfais tabled (30% o'i gymharu â 19% yn 2015) a defnyddio un (27% o'i gymharu â 15% yn 2015). Mae'r naill grŵp oed a'r llall yn fwy tebygol o ddefnyddio teledu clyfar (27% o'i gymharu â 16% ar gyfer 65-74 a 12% o'i gymharu â 4% ar gyfer y rheini sydd dros 75) a meddu ar a defnyddio chwaraewr ffrydio cyfryngau.

Bu cynnydd sylweddol hefyd yn nifer y defnyddwyr rhyngrwyd sy'n 75 oed a hŷn sy'n cofleidio cyfryngau cymdeithasol, gyda 41% â phroffil cyfryngau cymdeithasol yn 2016 o'i gymharu â 19% yn 2015.

Mae ffonau clyfar yn dod yn rhywbeth hanfodol mewn bywyd bob dydd...
Mae canlyniadau'r ymchwil ansoddol a meintiol yn dangos mai'r ffôn symudol ydy'r ddyfais y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn gweld ei cholli fwyaf (41%). Mae'r ymchwil ansoddol hefyd yn dangos dibyniaeth gynyddol ar ffonau clyfar, wrth iddi ddod yn haws cael gafael ar ryngrwyd symudol a gan fod ffonau clyfar yn gallu cyflawni gwaith nifer o ddyfeisiau amrywiol eraill.

Nid ydy defnyddio ffonau clyfar i fynd ar-lein wedi cynyddu ers 2015, ond oherwydd bod oedolion nawr yn llai tebygol o fynd ar-lein drwy gyfrifiadur (62% o'i gymharu â 71% yn 2015), yn gymesur maent yn fwy tebygol o ddefnyddio ffôn clyfar na chyfrifiadur i fynd ar-lein (66% o'i gymharu â 62%). Bu cynnydd hefyd yn nifer y bobl sy'n mynd ar-lein drwy ddyfeisiau tabled (49% o'i gymharu â 45%) a chwaraewyr ffrydio cyfryngau (9% o'i gymharu â 5%). Mae un defnyddiwr rhyngrwyd o bob pedwar (24%) nawr *ond* yn defnyddio dyfais ar wahân i gyfrifiadur i fynd ar-lein.

Mae ffonau clyfar yn arbennig o bwysig i ddefnyddwyr newydd y rhyngrwyd (y rheini a ddechreuodd ddefnyddio'r rhyngrwyd yn ystod y pum mlynedd diwethaf). Mae wyth deg pump y cant o ddefnyddwyr mwy newydd yn defnyddio ffôn clyfar i fynd ar-lein a bydd 21% ond yn mynd ar-lein drwy ddefnyddio ffôn clyfar. Mae dros hanner y defnyddwyr mwy newydd (55%) ond yn mynd ar-lein drwy ddefnyddio dyfais ar wahân i gyfrifiadur.

Roedd yr ymchwil ansoddol a meintiol wedi canfod bod pobl yn defnyddio technoleg, a'u ffonau clyfar yn benodol, ar gyfer rhagor o weithgareddau. Er enghraifft, mae'r data meintiol yn dangos wrth gymharu â 2015, bod defnyddwyr ffonau clyfar yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi defnyddio eu ffôn fel tocyn neu docyn hedfan neu i fynd i mewn i ddigwyddiad (41% o'i gymharu â 33%) neu i wneud taliad di-gyswllt (28% o'i gymharu â 20%), a'u bod yn defnyddio eu ffôn yn wythnosol ar gyfer taliadau digyswllt (14% o'i gymharu â 9%). Fodd bynnag, mae'r gweithgareddau craidd mwy confensiynol fel ffonio ac anfon negeseuon testun yn dal i gael eu gwerthfawrogi: wrth holi pa weithgareddau ffonau clyfar y byddai

defnyddwyr yn gweld eu colli fwyaf, dywedodd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr (69%) mai ffonio a/neu anfon negeseuon testun fyddai hynny.

Er bod ffôn clyfar yn cael ei werthfawrogi am ei hyblygrwydd, roedd rhai cyfranogwyr yn yr astudiaeth ansoddol hefyd wedi siarad am deimlo weithiau eu bod yn dibynnu gormod arnynt, gan gynnwys teimlo ei bod yn rhaid iddyn nhw 'edrych' ar eu ffôn yn rheolaidd, hyd yn oed pan fyddant gyda phobl eraill, neu deimlo'n bryderus pan nad oedd eu ffôn nhw wrth law.

...ond mae rhai pethau'n dal yn anoddach ar ffôn clyfar.
Er bod nifer o'r cyfranogwyr yn yr astudiaeth ansoddol wedi dweud eu bod yn ffafrio eu ffôn clyfar yn gynyddol fel dyfais y byddent yn ei dewis, mae rhai gweithgareddau mae'n well ganddynt beidio â'u gwneud ar ffôn clyfar, fel gwylio'r teledu neu wneud gwaith ysgol neu goleg.

Caiff y canfyddiadau hyn hefyd eu cefnogi yn yr ymchwil meintiol, lle mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr ffonau clyfar (69%) yn cytuno ei bod hi'n anoddach llenwi ffurflenni a gweithio ar ddogfennau ar ffôn clyfar, wrth gymharu â chyfrifiadur bwrdd gwaith neu liniadur, gyda bron i hanner (46%) yn cytuno'n gryf. Mae chwech defnyddiwr rhyngrwyd o bob deg a fydd yn mynd ar-lein i gyflawni prosesau'r Llywodraeth yn dweud eu bod gan fwyaf yn defnyddio gliniadur/cyfrifiadur gwe neu gyfrifiadur bwrdd gwaith i wneud hyn (60% o'i gymharu â 68% yn 2015), o'i gymharu ag oddeutu un o bob chwech (17%) sy'n dweud eu bod yn defnyddio ffôn clyfar gan fwyaf i wneud hynny.

Mae hi'n gallu bod yn anodd rheoli data symudol.
Ar gyfer nifer o'r cyfranogwyr yn yr ymchwil ansoddol, mae data symudol yn ystyriaeth sy'n dod yn bwysicach wrth ddewis pecyn ffôn symudol, ond roedd nifer ohonynt wedi mynegi dryswch ynghylch faint o ddata sydd ei angen ar gyfer gweithgareddau gwahanol. O'r herwydd, maen nhw'n defnyddio amrywiaeth o strategaethau i reoli faint o ddata symudol maen nhw'n ei ddefnyddio, gan gynnwys newid contractau, prynu rhagor o ddata, peidio â gwneud rhai gweithgareddau ar-lein neu ddim ond defnyddio Wi-Fi cyhoeddus.

Mae'r data meintion yn dangos er bod y mwyafrif o'r holl ddefnyddwyr (63%) yn dweud nad ydynt byth yn defnyddio eu lwfans data, dywed un o bob deg (11%) eu bod yn gwneud hyn yn aml iawn, neu yn y rhan fwyaf o fisoedd. Mae'r grwpiau oed 16-24 (50%) a 25-34 (48%) yn fwy tebygol na defnyddwyr ffonau clyfar yn gyffredinol (36%) o ddweud eu bod yn defnyddio eu lwfans data. Dywed dau ddefnyddiwr ffonau clyfar o bob tri (67%) eu bod yn defnyddio Wi-Fi cyhoeddus; mae hyn yn uwch ymysg y grŵp oed 16-24 (76%) ac yn is ymysg y rheini sydd dros 65 (53%).

Mae pobl yn defnyddio amrywiaeth ehangach o gyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â grwpiau gwahanol
Er nad oedd nifer yr oedolion sydd â phroffil cyfryngau cymdeithasol (76% o bawb sy'n defnyddio'r rhyngrwyd) wedi cynyddu'n gyffredinol rhwng 2015 a 2016, mae pobl yn defnyddio amrywiaeth ehangach o wasanaethau cyfryngau cymdeithasol. Ers 2015, mae defnyddwyr cyfryngau cymdeithasol yn fwy tebygol o ddweud bod ganddynt broffil ar chwe safle neu ap: WhatsApp (45% o'i gymharu â 28%), Instagram (31% o'i gymharu â 22%), YouTube (30% o'i gymharu â 22%), Snapchat (23% o'i gymharu â 12%), Google+ (16% o'i gymharu â 11%) a Pinterest (12% o'i gymharu â 7%).
Facebook ydy'r prif ddarparwr cyfryngau cymdeithasol o hyd, ond mae llai o ddefnyddwyr cyfryngau cymdeithasol nawr *dim ond* â chyfrif Facebook (43% yn 2015 i 32% yn 2016).

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn dweud eu bod yn gweld barn a safbwyntiau sy'n wahanol i'w rhai nhw ar gyfryngau cymdeithasol.

Mae rhannu â ffrindiau a theulu yn llwybr pwysig at ganfod gwybodaeth a chynnwys newydd. Mae dros chwech defnyddiwr safleoedd rhannu fideos o bob deg yn dweud bod ffrindiau neu deulu yn dweud wrthynt am gynnwys neu'n ei anfon ymlaen atynt (62%). Dywed ychydig o dan hanner (49%) y rheini sy'n gwylio cynnwys ar-alwad eu bod yn dewis cynnwys ar sail argymhellion gan ffrindiau neu deulu. Roedd nifer o'r cyfranogwyr yn yr ymchwil ansoddol hefyd wedi siarad am gyfryngau cymdeithasol fel ffordd bwysig o rannu gwybodaeth ymysg ffrindiau, teulu neu eu cymuned leol. Mae cyfryngau cymdeithasol yn gallu cyflwyno barn a safbwyntiau gwahanol i bobl, gyda'r astudiaeth ansoddol yn canfod bod 85% o ddefnyddwyr cyfryngau cymdeithasol yn dweud eu bod weithiau, neu'n aml, yn gweld safbwyntiau roeddent yn anghytuno â nhw.

Fodd bynnag, nid ydy pawb yn fodlon postio neu rannu gwybodaeth. Mae dros bedwar defnyddiwr cyfryngau cymdeithasol o bob deg (44%) yn cytuno eu bod yn peidio â phostio cynnwys rhag ofn iddynt gael sylwadau neu ymatebion sarhaus. Mae rhai o'r cyfranogwyr hŷn yn yr ymchwil ansoddol yn poeni am effaith rhannu cynnwys ar eu henw da ymysg ffrindiau a theulu, a rhai o'r bobl ifanc am yr effaith ar ragolygon swyddi yn y dyfodol. Ond nid ydy penderfynu beth i'w rannu bob amser yn broses sy'n cael ei phwyso a'i mesur: mae tri o bob deg (30%) sy'n rhannu erthyglau ar Twitter neu Facebook yn cytuno eu bod yn aml yn gwneud hyn heb ddarllen y cynnwys yn llawn yn gyntaf.

Bu gostyngiad bach yn yr ymddiriedaeth mewn cynnwys ar gyfryngau cymdeithasol
Mae nifer yn meddwl yn ofalus ynghylch faint mae modd iddyn nhw ymddiried yn y cynnwys maent yn dod ar ei draws. Ers 2015, mae defnyddwyr cyfryngau cymdeithasol yn ymddiried llai yn y cynnwys sy'n ymddangos ar gyfryngau cymdeithasol. Mae un o bob pedwar (25%) yn anghytuno'n gryf â'r datganiad: "Pan fyddaf yn edrych ar wefannau neu apiau cyfryngau cymdeithasol rwyf yn tueddu i ymddiried yn yr hyn rwyf yn ei ddarllen neu yn ei weld", i fyny o 18% yn 2015. Dywedodd nifer o bobl yn yr astudiaeth ansoddol eu bod yn fwy tebygol o ymddiried mewn cynnwys sy'n cael ei rannu drwy rwydweithiau 'caeedig', fel WhatsApp, yn hytrach na fforymau sy'n fwy agored fel Twitter a Facebook.

Mae pobl yn dewis cyfathrebu drwy drafodaethau grŵp preifat
Bu cynnydd yn nifer y defnyddwyr rhyngrwyd sy'n defnyddio gwasanaethau negeseuon gwib (57% yn 2017[2] o'i gymharu â 53% yn 2016). Roedd amlder defnyddio negeseuon gwib hefyd wedi cynyddu; dywedodd 46% o ddefnyddwyr eu bod wedi gwneud hyn yn ystod yr wythnos flaenorol, o'i gymharu â 41% yn 2016.

Yn ogystal â brys a hyblygrwydd gwasanaethau negeseuon gwib, un nodwedd a oedd yn apelio at rai cyfranogwyr yn yr ymchwil ansoddol oedd y cyfle i gymryd rhan mewn grwpiau trafod 'caeedig' sy'n seiliedig ar berthynas neu grwpiau diddordeb (fel teulu, cydweithwyr, ffrindiau ysgol, neu gymunedau sydd o ddiddordeb). Roedd cyfranogwyr yn credu bod y grwpiau hyn yn cynnig mwy o breifatrwydd wrth rannu cynnwys, gan adlewyrchu eu pryderon (a nodir uchod) ynghylch pwy allai weld y cynnwys roedden nhw'n ei rannu. Yn yr ymchwil meintiol dywedodd pedwar defnyddiwr cyfryngau cymdeithasol o bob deg (42%) eu bod yn postio sylwadau mewn trafodaethau grŵp preifat.

[2] Mae'r data yma yn dod o'r astudiaeth Traciwr Technoleg: mae'r data diweddaraf sydd ar gael yn ymwneud â 2017

Er gwaethaf ymwybyddiaeth gynyddol o faterion sy'n ymwneud â phreifatrwydd, nid ydy un o bob pump yn ystyried golygiadau preifatrwydd na data cyn postio ar gyfryngau cymdeithasol
Dywed y rhan fwyaf o ddefnyddwyr y rhyngrwyd (72%) eu bod yn hyderus yn eu gallu i reoli mynediad at eu data personol ar-lein. Roedd ymwybyddiaeth y cyfranogwyr yn yr ymchwil ansoddol wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae nifer ohonynt nawr yn defnyddio tactegau i reoli'r pryderon hyn, gan gynnwys rheoli eu gosodiadau preifatrwydd, defnyddio nifer o gyfeiriadau e-bost, ac mewn rhai achosion darparu gwybodaeth ffug i gwmnïau i osgoi cael galwadau neu negeseuon e-bost sbam.

Mewn perthynas â phostio cynnwys ar gyfryngau cymdeithasol, dywed 22% o ddefnyddwyr eu bod byth neu bron byth yn ystyried goblygiadau preifatrwydd na diogelwch data cyn iddynt bostio cynnwys fel lluniau.

Mae saith defnyddiwr rhyngrwyd o bob deg (70%) sy'n cofrestru eu manylion ar-lein yn gwneud o leiaf un o'r pum archwiliad a argymhellir y gofynnir iddynt amdanynt, er bod 24% yn defnyddio mesurau llai trwyadl i benderfynu a ydynt am gofrestru eu manylion ar-lein, gan gynnwys 11% sy'n defnyddio'r safle sut bynnag, os dyma'r unig ffordd o gael y cynnyrch neu'r gwasanaeth mae arnynt ei eisiau neu ei angen. Mae dros un defnyddiwr rhyngrwyd o bob tri yn cytuno eu bod yn fodlon darparu gwybodaeth bersonol ar-lein ar yr amod eu bod yn cael yr hyn mae arnynt ei eisiau (35%).

Dywed traean o'r defnyddwyr rhyngrwyd sy'n prynu ar-lein nad ydynt yn gwirio i weld a ydy'r safle yn ddiogel drwy chwilio am y symbol clo neu 'https' yn y cyfeiriad gwe cyn rhoi manylion eu cerdyn.

Mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr rhyngrwyd yn gwirio rhai pethau i farnu cywirdeb gwybodaeth ffeithiol ar-lein
Gofynnir i'r ymatebwyr am chwe gwiriad gwahanol y byddai modd iddynt eu gwneud i farnu cywirdeb gwybodaeth ar-lein; dywed y mwyafrif (67%) eu bod yn gwneud un neu ragor o'r gwiriadau hyn. Dywed mwy na phedwar o bob deg (45%) eu bod yn edrych ar wefannau eraill i weld a ydy'r un wybodaeth yn ymddangos ar bob un ohonynt, mae un o bob tri (32%) yn gwirio cyfeiriad y wefan i weld a yw'n edrych fel un go iawn, mae un o bob pedwar (25%) yn gwirio hygrededd yr wybodaeth (fel enw'r awdur neu'r ddolen i'r cyhoeddiad gwreiddiol). Mae defnyddwyr yn y grŵp oed 65-74 yn llai tebygol na'r cyfartaledd o wneud unrhyw un o'r gwiriadau hyn (53% o'i gymharu â 67%) ac mae'r grŵp oed 16-24 yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o wneud unrhyw un o'r gwiriadau hyn (75% o'i gymharu â 67%). Nid ydy tri o bob deg defnyddiwr (31%) yn gwneud unrhyw wiriad.

Ond mae bwlch yn dal i fodoli rhwng hyder, gwybodaeth ac ymddygiad wrth ddeall sut mae'r rhyngrwyd yn gweithio
Fel yn 2015, mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr rhyngrwyd yn disgrifio eu hunain fel defnyddwyr hyderus ar-lein (89%), er y bu symudiad i ffwrdd oddi wrth ddefnyddwyr rhyngrwyd yn disgrifio eu hunain fel defnyddwyr 'hyderus iawn' (52% o'i gymharu â 59% yn 2015), gyda rhagor yn dweud eu bod yn 'weddol hyderus' (37% o'i gymharu â 29% yn 2015). Fodd bynnag, nid ydy'r hyder ar-lein hwn o reidrwydd yn golygu dealltwriaeth o'r ffordd mae'r rhyngrwyd yn gweithio.

Er bod 97% o ddefnyddwyr rhyngrwyd wedi defnyddio peiriannau chwilio fel ffynhonnell o wybodaeth ar-lein mae dal diffyg dealltwriaeth ynghylch sut mae peiriannau chwilio yn gweithio, ac nid ydy ychydig o dan hanner oedolion yn gwybod sut mae peiriannau chwilio'n cael eu hariannu (47%).

Wrth holi am gywirdeb a gogwydd canlyniadau ar beiriannau chwilio, roedd y mwyafrif (58%) o ddefnyddwyr peiriannau chwilio wedi datgan yn gywir y byddai rhai o'r gwefannau a restrir

yn gywir neu heb ogwydd ond na fyddai rhai eraill felly. Fodd bynnag, dywed un oedolyn o bob pump (21%) os caiff canlyniadau eu rhestru gan y peiriant chwilio, bydd y gwefannau'n gywir/heb ogwydd, gan ddangos diffyg dealltwriaeth gritigol o sut mae peiriannau chwilio yn gweithio a tharddiad y cynnwys.

Er bod y rhan fwyaf o ddefnyddwyr rhyngrwyd yn hyderus eu bod yn gallu adnabod hysbysebion ar-lein, dim ond hanner y defnyddwyr peiriannau chwilio allai adnabod hysbysebion ar Google.

Mae mwyafrif (84%) o ddefnyddwyr rhyngrwyd naill ai'n hyderus iawn neu'n weddol hyderus eu bod yn gallu adnabod hysbysebion ar-lein. Fodd bynnag, wrth ddangos enghraifft o'r canlyniadau a ddangosodd Google ar gyfer chwiliad penodol ar-lein a gan dynnu eu sylw at yr hysbysebion a oedd yn ymddangos yn y canlyniadau hyn, dim ond hanner yr oedolion (48%) roddodd yr ateb cywir drwy eu hadnabod fel dolenni noddedig, er bod blwch yn ymddangos wrth eu hymyl gyda'r gair 'Ad' ynddo.

Mae dros hanner y defnyddwyr rhyngrwyd (56%) yn gwybod am hysbysebion personol, o ran eu bod yn ymwybodol y gallai pobl eraill weld hysbysebion sy'n wahanol i'r rheini maen nhw'n eu gweld. Dywed mwy nag un defnyddiwr rhyngrwyd o bob pedwar (27%) y byddai pawb yn gweld yr un hysbysebion, gyda 17% yn ansicr. Mae ymwybyddiaeth yn is ar gyfer defnyddwyr rhyngrwyd yn y grwpiau oed 65-74 (40%) a 75+ (28%).

Rhoddwyd rhestr i ddefnyddwyr safleoedd rhannu fideos o'r rhesymau posibl pam y byddai flogwyr yn cymeradwyo cynnyrch. Roedd saith defnyddiwr o bob deg (72%) yn ymwybodol efallai fod flogwyr yn cael eu talu gan gwmni i ddweud pethau ffafriol am gynnyrch neu am frand, ac nid oedd 28% wedi dewis yr opsiwn hwn, ac roedd 12% ohonynt yn ansicr. Mae hyn yn atseinio pryderon a godwyd yn yr astudiaeth ansoddol; roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo nad oedd hi bob tro'n hawdd dweud pam roedd YouTuber neu seren cyfryngau cymdeithasol yn cael eu talu i gymeradwyo cynnyrch.

Adran 2

Y prif ganfyddiadau meintiol

Bwriedir i'r adran hon gael ei defnyddio fel canllaw cyfeirio cyflym i rai o'r prif ganfyddiadau meintiol yn yr adroddiad hwn.

Mae'r prif ganfyddiadau'n cael eu cyflwyno fesul pennod.

2.1 Derbyn a defnyddio cyfryngau digidol

Ers 2015 bu gostyngiad mewn mynediad at gyfrifiadur bwrdd gwaith, gliniadur neu gyfrifiadur gwe a defnydd ohonynt yn y cartref, yn enwedig ymysg y grŵp oed 16-34.

- Mae dwy ran o dair o oedolion y DU yn defnyddio cyfrifiadur, boed hynny'n gyfrifiadur bwrdd gwaith, gliniadur neu gyfrifiadur gwe (66%). Mae hyn yn ostyngiad ers 2015, o 73% a chaiff ei briodoli i oedolion iau (16-34) a'r rheini mewn aelwydydd DE.
- Mae oedolion hefyd yn fwy tebygol nag oeddent yn 2015 i fod yn berchen ar ddyfeisiau tabled, recordwyr fideo digidol, setiau teledu clyfar a chwaraewyr ffrydio cyfryngau fel Apple TV, blwch Now TV, Amazon Fire TV, Chromecast a Roku.

Mae chwarter oedolion (24%) nawr *ddim ond* yn defnyddio dyfais ar wahân i gyfrifiadur i fynd ar-lein; caiff hyn ei briodoli i'r grŵp oed 16-34.

- Mae oedolion nawr yn llai tebygol o fynd ar-lein ar gyfrifiaduron (62% o'i gymharu â 71% yn 2015), ac maent nawr yn fwy tebygol o ddefnyddio ffonau clyfar (66%) na chyfrifiaduron i fynd ar-lein.
- Mae dyfeisiau tabled nawr yn fwy tebygol o gael eu defnyddio i fynd ar-lein (49% o'i gymharu â 45% yn 2015), yn yr un modd â chwaraewyr ffrydio cyfryngau (9% o'i gymharu â 5%). Mae chwaraewyr neu gonsol gemau nawr yn llai tebygol o gael eu defnyddio at y diben hwn nag oeddent yn 2015 (11% o'i gymharu â 15%).
- Mae chwarter oedolion (24%) nawr yn mynd ar-lein drwy ddefnyddio dyfeisiau ar wahân i gyfrifiadur, i fyny o 16% yn 2015. Mae hyn yn codi i 31% ar gyfer y grŵp oed 16-24, 37% ar gyfer y grŵp oed 25-34 a 33% ar gyfer oedolion mewn aelwydydd DE.
- Bydd wyth y cant o oedolion ond yn mynd ar-lein drwy ddefnyddio ffôn clyfar, i fyny o 6% ers 2015.

Mae pobl dros 65 yn fwy tebygol nawr nag oeddent yn 2015 i ddefnyddio ffôn clyfar, a dweud mai ffôn symudol yw'r ddyfais y byddent yn gweld ei cholli fwyaf.

- Mae'r rhan fwyaf (72%) o'r holl oedolion 16 oed a hŷn yn defnyddio ffôn clyfar a'r rheini o dan 55 oed yn fwy tebygol na'r cyfartaledd i ddefnyddio un.
- Er bod lleiafrif o'r grŵp oed 65-74 (39%) a'r rheini dros 75 (15%) yn defnyddio ffôn clyfar, mae'r naill a'r llall wedi cynyddu ers 2015 (o 28% a 8% y naill a'r llall). Dyma'r unig ddau grŵp oed sydd wedi gweld cynnydd yn y defnydd o ffôn clyfar ers y llynedd.
- Dywed pedwar oedolyn o bob deg (41%) mai eu ffôn symudol ydy'r ddyfais y byddent yn gweld ei cholli fwyaf petai'n cael ei cholli. Ers 2015, mae'r rheini yn y grŵp oed 65-74 nawr ddwywaith mor debyg o ddewis eu ffôn symudol fel y ddyfais y byddent yn gweld ei cholli fwyaf (20% o'i gymharu â 10% yn 2015); efallai fod hyn yn cael ei sbarduno gan y cynnydd yn y grŵp oed hwn sy'n defnyddio ffonau clyfar.

2.2 Ymgysylltu a chyfranogi

Mae pedwar defnyddiwr rhyngrwyd o bob deg sydd dros 75 oed nawr â chyfrif neu broffil cyfryngau cymdeithasol.

- Mae gan dri defnyddiwr rhyngrwyd o bob pedwar (76%) broffil cyfryngau cymdeithasol, sydd heb newid ers 2015.
- Mae defnyddwyr rhyngrwyd dros 75 oed yn fwy tebygol nag yn 2015 i fod â phroffil cyfryngau cymdeithasol (41% o'i gymharu â 19%).

Er mai Facebook ydy'r prif ddarparwr cyfryngau cymdeithasol o hyd, mae llai o ddefnyddwyr cyfryngau cymdeithasol nawr *dim ond* â chyfrif Facebook

- Mae gan naw deg pump y cant o ddefnyddwyr safleoedd cyfryngau cymdeithasol broffil/cyfrif ar Facebook, sydd heb newid ers 2015, sy'n golygu mai dyma'r safle cyfryngau cymdeithasol mwyaf poblogaidd o hyd.
- O'i gymharu â 2015 bu cynnydd yn y defnydd o WhatsApp (45% o'i gymharu â 28%), Instagram (31% o'i gymharu â 22%), YouTube (30% o'i gymharu â 22%), Snapchat (23% o'i gymharu â 12%), Google+ (16% o'i gymharu â 11%) a Pinterest (12% o'i gymharu â 7%). O'r herwydd, un o bob tri sydd â phroffil neu gyfrif Facebook *yn unig* (32%), i lawr o 43% yn 2015.

Mae cyfryngau cymdeithasol yn rhoi'r cyfle i bobl ddod ar draws barn a safbwyntiau gwahanol

- Mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr cyfryngau cymdeithasol (56%) yn dweud eu bod weithiau'n gweld safbwyntiau maent yn anghytuno â nhw, ac mae tri o bob deg (29%) yn dweud eu bod yn aml yn gweld safbwyntiau maent yn anghytuno â nhw.
- Dywed un oedolyn o bob tri (32%) sydd â phroffil safle cyfryngau cymdeithasol eu bod wedi rhannu safbwyntiau ar y safleoedd hyn â phobl dydyn nhw ddim yn eu hadnabod, a dywed y rhan fwyaf o'r grŵp hwn (88%) eu bod yn fodlon rhannu'r safbwyntiau hyn gan ddefnyddio eu henw go iawn.

Mae'r posibilrwydd o ennyn ymatebion neu sylwadau sarhaus yn fwy tebygol o wneud i fenywod beidio â chyflwyno sylwadau neu bostio cynnwys ar gyfryngau cymdeithasol

- Mae ychydig dros bedwar defnyddiwr cyfryngau cymdeithasol o bob deg (44%) yn cytuno eu bod yn peidio â phostio cynnwys rhag ofn iddynt gael sylwadau neu ymatebion sarhaus. Mae menywod yn fwy tebygol na dynion o gytuno (49% o'i gymharu â 38%).

Dywed dros bedwar defnyddiwr o bob deg eu bod wedi gweld rhywbeth a oedd wedi eu cynhyrfu neu beri tramgwydd iddynt ar gyfryngau cymdeithasol yn ystod y 12 mis diwethaf: roedd y mwyafrif wedi gweithredu ynghylch hyn

- Dywed dros bedwar defnyddiwr cyfryngau cymdeithasol o bob deg (43%) dros 16 oed eu bod wedi gweld rhywbeth a oedd wedi peri tramgwydd neu a oedd wedi'u cynhyrfu ar gyfryngau cymdeithasol dros y 12 mis diwethaf, gyda 17% yn dweud bod hyn wedi digwydd yn amlach nag unwaith neu ddwy. Roedd chwech o bob deg (62%) o'r defnyddwyr hyn wedi gweithredu o ganlyniad i weld cynnwys a oedd wedi'u cynhyrfu; y weithred fwyaf poblogaidd oedd rhoi gwybod i'r wefan drwy'r nodwedd 'riportio neu rwystro cynnwys' (40%).
- Mae menywod yn fwy tebygol na dynion o ddweud eu bod wedi gweld rhywbeth sy'n eu cynhyrfu neu'n achosi tramgwydd (52% o'i gymharu â 32%) a hefyd yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi gweld hyn yn amlach nag unwaith neu ddwy (20% o'i gymharu â 13%).

Mae defnyddwyr ffonau clyfar yn fwy tebygol nawr nag yn 2015 o fod wedi defnyddio eu ffonau ar gyfer trafodion.

- Mae pedwar defnyddiwr ffôn clyfar o bob deg wedi defnyddio eu ffôn fel tocyn neu docyn hedfan neu fel tocyn mynediad i ddigwyddiad (41% o'i gymharu â 33% yn 2016) ac mae

bron i dri o bob deg (28%) wedi defnyddio eu ffôn ar gyfer taliadau di-gyswllt (20% yn 2015).

Er mai cyfrifiaduron ydy'r ddyfais sy'n cael ei defnyddio amlaf er mwyn cyflawni prosesau'r Llywodraeth ar-lein, mae hyn yn llai tebygol nawr nag oedd yn 2015

- Mae chwech defnyddiwr rhyngrwyd o bob deg (60%) sydd wedi mynd ar-lein i gyflawni prosesau'r Llywodraeth yn dweud eu bod yn defnyddio gliniadur/cyfrifiadur gwe neu gyfrifiadur bwrdd gwaith gan fwyaf i wneud hyn, gostyngiad o 68% yn 2015.
- Mae tua un defnyddiwr rhyngrwyd o bob pump (22%) yn defnyddio dyfais tabled gan fwyaf i gyflawni prosesau'r Llywodraeth, o'i gymharu â 16% yn 2015, ac nid ydy'r nifer sy'n dweud eu bod yn defnyddio ffôn clyfar gan fwyaf heb newid, sef 17%.

2.3 Cynnwys

Peiriannau chwilio ydy'r ffynhonnell fwyaf poblogaidd o bell ffordd ar gyfer chwilio am wybodaeth ar-lein

- Dangosir rhestr i'r cyfranogwyr sy'n defnyddio'r rhyngrwyd o wyth ffynhonnell bosibl ar gyfer chwilio am wybodaeth ar-lein. Peiriannau chwilio ydy'r unig ffynhonnell sy'n cael ei defnyddio gan fwyafrif (97%) y defnyddwyr rhyngrwyd. Mae pedwar o bob deg wedi defnyddio Wikipedia (41%), gwefannau gydag adolygiadau gan ddefnyddwyr fel Amazon, TripAdvisor neu OpenTable (40%) neu wefan y BBC (40%), a dywed cyfran debyg (37%) eu bod wedi defnyddio gwefan Llywodraeth neu wefan cyngor lleol.
- Dywed wyth defnyddiwr o bob deg (80%) sy'n mynd ar-lein i chwilio am wybodaeth ar gyfer eu hamser hamdden, gan gynnwys y sinema a cherddoriaeth fyw, eu bod yn fwyaf tebygol o ddefnyddio peiriannau chwilio ar gyfer hyn.
- Mae nifer tebyg o ddefnyddwyr (79%) yn dweud eu bod yn mynd ar-lein i chwilio am wybodaeth sy'n ymwneud â gwaith, coleg neu dasgau swyddogol eraill eu bod yn fwyaf tebygol o ddefnyddio peiriant chwilio i wneud hyn, ac mae'n agos at un o bob deg (8%) yn dweud y byddent yn defnyddio un o wefannau'r Llywodraeth neu wefan cyngor lleol.

Mae argymhellion gan deulu a ffrindiau yn bwysig ar gyfer dod o hyd i gynnwys ar-lein.

- Dywed hanner y rheini sy'n gwylio cynnwys ar-alwad eu bod yn dewis cynnwys i'w wylio ar sail argymhellion gan ffrindiau neu deulu (49%) a dywed dros dri o bob pump o'r rheini sy'n defnyddio safleoedd rhannu fideo (fel YouTube neu Vimeo) eu bod yn dod o hyd i bethau i wylio ar y safleoedd hyn ar sail argymhellion gan ffrindiau neu deulu (62%).
- Mae teulu a ffrindiau hefyd yn ffynhonnell o gefnogaeth ar-lein. Mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr rhyngrwyd (58%) yn dweud os byddant yn sownd neu'n ansicr ynghylch sut mae gwneud rhywbeth ar-lein y byddent yn gofyn i ffrind neu i aelod o'r teulu am help.

Mae pryderon ynghylch beth sydd ar y teledu wedi disgyn ers 2015.

- Mae oedolion sydd â theledu yn y cartref yn llai tebygol nag yn 2015 o ddweud bod ganddynt unrhyw bryderon ynghylch yr hyn sydd ar y teledu (35% o'i gymharu â 39% yn 2015), gyda phryderon am ansawdd cynnwys neu ailddarllediadau, yn benodol, yn llai tebygol yn 2016 nag oeddent yn 2015 (16% o'i gymharu â 21%).
- Yn yr un modd â 2014 a 2015, mae gan lai nag un o bob deg bryderon am hysbysebu/nawdd (6%), am amrywiaeth mewn cynnwys (5%) neu am beidio ag ymddiried mewn cynnwys maen nhw'n credu sydd wedi'i ystumio/yn ffug/yn rhagfarnllyd/yn anghywir (2%).

2.4 Dealltwriaeth gritigol

Er bod y mwyafrif o ddefnyddwyr rhyngrwyd yn disgrifio eu hunain fel defnyddwyr hyderus ar-lein, fydd tua chwarter ddim yn gwneud gwiriadau dibynadwy cyn rhoi manylion ariannol

- Mae bron i naw defnyddiwr rhyngrwyd o bob deg (89%) yn disgrifio eu hunain fel defnyddwyr hyderus ar-lein. Er nad yw'r lefel gyffredinol hon o hyder wedi newid ers 2015, bu gostyngiad yn nifer y defnyddwyr rhyngrwyd sy'n disgrifio eu hunain fel defnyddwyr 'hyderus iawn' (52% o'i gymharu â 59% yn 2015).
- Dywed dros saith defnyddiwr rhyngrwyd o bob deg (72%) eu bod yn hyderus eu bod yn gwybod sut mae rheoli pwy sydd â mynediad i'w data personol ar-lein. Wrth gymharu â'r cyfartaledd (40%), mae'r grwpiau oed 16-24 (60%) a 25-34 (47%) yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn 'hyderus iawn'. Er bod 8% o ddefnyddwyr rhyngrwyd 'ddim yn hyderus o gwbl' yn yr agwedd hon o'u defnydd o'r rhyngrwyd, mae hyn yn fwy tebygol ar gyfer y grwpiau oed 65-74 (18%) a dros 75 (17%).
- Fydd un defnyddiwr rhyngrwyd o bob pedwar (24%) ddim yn defnyddio gwiriadau dibynadwy cyn rhoi eu manylion personol ar-lein. Fydd un rhan o dair (33%) o ddefnyddwyr rhyngrwyd sy'n prynu pethau ar-lein ddim yn gwirio bod y safle yn edrych yn ddiogel drwy chwilio am y symbol clo neu'r 'https' cyn rhoi manylion ariannol, gyda 5% yn dweud eu bod yn rhoi eu manylion pryd bynnag y bydd angen, a 11% yn gwneud hynny os mai dyma'r unig ffordd o gael yr eitem mae arnyn nhw eisiau ei phrynu.

Dywed y rhan fwyaf o ddefnyddwyr cyfryngau cymdeithasol eu bod yn ystyried goblygiadau preifatrwydd neu ddata posibl cyn postio cynnwys.

- Mae tua saith defnyddiwr cyfryngau cymdeithasol o bob deg sy'n postio lluniau, neu'n 'tagio' pobl, a 68% o ddefnyddwyr cyfryngau cymdeithasol sy'n postio sylwadau, neu'n datgan eu bod mewn lleoliadau, yn dweud eu bod bob amser neu weithiau'n ystyried unrhyw oblygiadau diogelwch data neu breifatrwydd wrth wneud hynny. Ar gyfer pob un o'r gweithgareddau hyn, mae defnyddwyr 16-24 oed yn llai tebygol na'r cyfartaledd o ddweud eu bod bob amser yn ystyried y goblygiadau diogelwch (26% o'i gymharu â 36%).

Mae mwy na phedwar defnyddiwr rhyngrwyd o bob deg yn dweud eu bod yn hyderus eu bod yn gallu adnabod hysbysebion ar-lein, ond mae llai yn ymwybodol o hysbysebion personol

- Mae'r mwyafrif (84%) o ddefnyddwyr rhyngrwyd naill ai'n hyderus iawn neu'n weddol hyderus eu bod yn gallu adnabod hysbysebion ar-lein. Mae defnyddwyr rhyngrwyd yn y grwpiau oed 55-64 (12%), 65-74 (15%) a 75+ (18%) yn fwy tebygol o ddweud 'nad ydynt yn hyderus' wrth adnabod hysbysebion ar-lein.
- Dywed dros hanner y defnyddwyr rhyngrwyd (56%) eu bod yn ymwybodol o hysbysebion personol ond nid ydy tua chwarter (27%) a doedd 17% ddim yn siŵr. Mae ymwybyddiaeth yn is ar gyfer defnyddwyr rhyngrwyd yn y grwpiau oed 65-74 (40%) a 75+ (28%), ac ymysg y rheini mewn aelwydydd C2 (49%) a DE (48%).

Mae hanner y rheini sy'n defnyddio peiriannau chwilio yn adnabod hysbysebion ar Google ond dydy 28% o oedolion sy'n defnyddio safleoedd rhannu fideos ddim yn sylweddoli efallai fod flogwyr yn cael eu talu i gymeradwyo cynnyrch.

- Wrth ddangos enghraifft o'r canlyniadau a ddangosodd Google ar gyfer chwiliad penodol ar-lein a gan dynnu eu sylw at yr hysbysebion a oedd yn ymddangos yn y canlyniadau hyn, dim ond hanner yr oedolion (48%) roddodd yr ateb cywir drwy eu hadnabod fel dolenni noddedig, er bod blwch yn ymddangos wrth eu hymyl gyda'r gair 'Ad' ynddo.

- Dywed saith o bob deg sy'n defnyddio safleoedd rhannu fideos (72%) eu bod yn gwybod y gallai fod flogwyr yn cael eu talu gan y cwmni i ddweud pethau ffafriol, wrth ddangos rhestr o'r rhesymau posibl pam y gallai flogwyr gymeradwyo cynnyrch. Nid oedd dau ddeg wyth y cant wedi dewis yr opsiwn hwn, ac roedd 12% yn ansicr.

Mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr rhyngrwyd yn gwirio rhai pethau i farnu cywirdeb gwybodaeth ffeithiol ar-lein, ond mae hyn yn anodd i rai

- Dangoswyd chwe gwiriad i'r ymatebwyr y byddai modd iddynt ei wneud i farnu cywirdeb gwybodaeth ar-lein. Dywed dau ddefnyddiwr rhyngrwyd o bob tri (67%) eu bod yn dilysu cywirdeb yr wybodaeth ffeithiol maent yn dod o hyd iddi ar-lein drwy wneud o leiaf un o'r chwe gwiriad.
- Nid oedd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr rhyngrwyd yn gwneud un gwiriad, ond dywed bron i hanner (45%) eu bod yn gwirio gwefannau eraill i weld a ydy'r un wybodaeth yn ymddangos arnynt i gyd, ac mae un o bob tri (32%) yn gwirio bod cyfeiriad y wefan yn edrych fel un go iawn. Mae un o bob pedwar (25%) yn gwirio hygrededd yr wybodaeth (fel enw'r awdur neu ddolen i'r cyhoeddiad gwreiddiol). Roedd gwiriadau eraill yn cael eu gwneud gan lai nag un defnyddiwr rhyngrwyd o bob pedwar.
- Ni fydd tri deg un y cant yn gwneud unrhyw un o'r gwiriadau y gofynnwyd amdanynt. Mae defnyddwyr yn y grŵp oed 65-74 yn llai tebygol na'r cyfartaledd o wneud unrhyw un o'r gwiriadau hyn (53% o'i gymharu â 67%) ac mae'r grŵp oed 16-24 yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o wneud unrhyw un o'r gwiriadau hyn (75% o'i gymharu â 67%).

Dywed un oedolyn o bob pump os caiff canlyniadau eu rhestru gan beiriant chwilio, y bydd y wefan yn gywir/diduedd.

- Mae'r mwyafrif o ddefnyddwyr peiriannau chwilio (58%) yn datgan yn gywir y bydd rhai o'r gwefannau sy'n cael eu rhestru ar dudalen canlyniadau peiriant chwilio yn gywir/diduedd ac ni fydd rhai eraill. Fodd bynnag, dywed un oedolyn o bob pump (21%) os caiff canlyniadau eu rhestru gan beiriant chwilio, y bydd y wefan yn gywir/diduedd.
- Mae defnyddwyr mwy newydd y rhyngrwyd yn llai tebygol o roi'r ateb cywir i'r cwestiwn hwn (47% o'i gymharu â 59%), ac yn fwy tebygol na defnyddwyr sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro i ddweud nad ydynt yn gwybod (12% o'i gymharu â 4%).

Mae tri defnyddiwr o bob deg yn aml yn rhannu dolenni at erthyglau ar Twitter a Facebook heb ddarllen y cynnwys yn llawn yn gyntaf.

- Ymysg pawb sy'n rhannu dolenni at erthyglau ar Twitter a Facebook, mae 30% yn cytuno eu bod yn aml yn rhannu'r erthyglau hyn heb eu darllen yn llawn yn gyntaf, er bod dwywaith cynifer yn anghytuno (60%).
- Wrth gymharu â'r cyfartaledd, mae'r rheini dros 55 oed yn fwy tebygol o anghytuno (74% o'i gymharu â 60%). Mae menywod yn fwy tebygol na dynion o anghytuno'n gryf â'r datganiad hwn (49% o'i gymharu â 37%).

Mae defnyddwyr cyfryngau cymdeithasol yn fwy tebygol nawr nag yn 2015 i anghytuno'n gryf eu bod yn tueddu i ymddiried yn y cynnwys ar safleoedd neu apiau cyfryngau cymdeithasol

- Yn yr un modd ag yn 2015 mae oedolion yn fwy tebygol o anghytuno'n gyffredinol (50%) nag ydynt i gytuno (23%) â'r datganiad: "Pan fyddaf yn edrych ar wefannau neu apiau cyfryngau cymdeithasol rwyf yn tueddu i ymddiried yn yr hyn rwyf yn ei ddarllen neu yn ei weld". Wrth gymharu â 2015, serch hynny, maent yn fwy tebygol o anghytuno'n gryf (25% o'i gymharu â 18%).

Mae'r mwyafrif o oedolion yn gwybod sut caiff teledu ei ariannu, ond nid ydy gwybodaeth am sut caiff gwasanaethau digidol eu hariannu mor eang

- Mae'r rhan fwyaf o oedolion yn gwybod sut caiff rhaglenni teledu eu hariannu'n bennaf: Mae 81% yn gwybod mai ffi'r drwydded ydy'r brif ffynhonnell gyllid ar gyfer rhaglenni

teledu'r BBC ac mae 73% yn gwybod mai hysbysebion ydy'r brif ffynhonnell gyllid ar gyfer rhaglenni teledu ar y sianeli masnachol darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

- Mae oedolion iau (16-34) yn llai tebygol o wybod, o'i gymharu â'r cyfartaledd: Mae 57% o'r rheini yn y grŵp oed 16-24 a 73% o'r rheini yn y grŵp oed 25-34 yn gwybod sut caiff rhaglenni'r BBC eu cyllido'n bennaf ac mae 54% o'r grŵp oed 16-24 a 59% o'r grŵp oed 25-34 yn gwybod sut caiff rhaglenni ar y gorsafoedd masnachol eu cyllido'n bennaf.
- Mae llai o bobl yn gwybod sut mae gwefan y BBC (63%) yn cael ei chyllido'n bennaf. Wrth gymharu â'r cyfartaledd, mae'r rheini sydd yn y grŵp oed 55-64 (71%) ac aelwydydd AB (72%) yn fwy tebygol o wybod ac mae'r rheini sydd yn y grŵp oed 16-24 (44%), dros 75 (55%) ac aelwydydd DE (54%) yn llai tebygol o wybod.
- Yn yr un modd, mae ychydig dros hanner y bobl (54%) yn gwybod mai ffi'r drwydded ydy'r brif ffynhonnell gyllid ar gyfer gwasanaeth yr i-Player. Mae llai o bobl rhwng 16 a 24 oed (42%) a dros 75 (36%) yn gwybod hyn. Mae'r rheini sydd rhwng 45 a 54 oed (61%) a rhwng 55 a 64 oed (63%) yn fwy tebygol o roi'r ateb cywir.
- Mae pedwar deg pedwar y cant o oedolion yn gwybod mai prif ffynhonnell gyllid YouTube ydy hysbysebion, gan godi i 55% ymysg defnyddwyr safleoedd rhannu fideos.
- Roedd ymwybyddiaeth ynghylch sut caiff peiriannau chwilio eu cyllido gan fwyaf yn cynyddu o 46% i 53% rhwng 2015 a 2016.

2.5 Defnyddwyr mwy newydd, defnyddwyr cul a'r rheini sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd

Mae defnyddwyr sy'n fwy newydd yn tueddu i fod yn hŷn, yn llai hyderus, ac yn defnyddio'r rhyngrwyd lai na defnyddwyr eraill, ond maent yn fwy tebygol o ddefnyddio dim ond ffôn clyfar i fynd ar-lein.

- Mae 'defnyddwyr mwy newydd' yn cael eu diffinio fel y rheini a aeth ar-lein am y tro cyntaf lai na pum mlynedd yn ôl. Mae un defnyddiwr rhyngrwyd o bob deg (9%) yn ddefnyddwyr mwy newydd – mae hyn yn codi i 21% ar gyfer y rheini sy'n 75 a hŷn ac i 14% ar gyfer oedolion mewn aelwydydd C2 neu DE.
- Wrth gymharu â'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro (y rheini a aeth ar-lein dros bum mlynedd yn ôl), mae defnyddwyr mwy newydd ddwywaith yn fwy tebygol o ddim ond defnyddio ffôn clyfar i fynd ar-lein (21% o'i gymharu â 8%) a chwe gwaith mor debygol o ddim ond defnyddio dyfais tabled i fynd ar-lein (18% o'i gymharu â 3%). Maent hefyd yn dweud eu bod yn treulio llai o amser ar-lein (11.9 o'i gymharu â 24.1 awr), eu bod yn ddefnyddwyr rhyngrwyd llai hyderus a'u bod yn fwy tebygol o ddim ond mynd ar wefannau neu apiau maen nhw wedi'u defnyddio o'r blaen. Mae defnyddwyr mwy newydd yn llai tebygol o fod yn ymwybodol o brif ffynonellau cyllid gwasanaethau ar-lein fel gwefan y BBC neu'r gwasanaeth iPlayer, gwefannau peiriannau chwilio neu'r wefan YouTube. Maent hefyd yn llai tebygol o fod yn ymwybodol bod y canlyniadau sy'n cael eu cyflwyno gan beiriannau chwilio yn gallu cynnwys gwybodaeth anghywir neu ragfarnllyd, ac yn llai tebygol o adnabod y cynnwys noddedig sy'n cael ei gyflwyno gan beiriannau chwilio fel hysbysebion.

Dywed un rhan o dair o ddefnyddwyr rhyngrwyd cul eu bod yn mynd ar-lein lai nag unwaith y dydd.

- Mae defnyddwyr cul yn cael eu diffinio fel y rheini sy'n gwneud rhwng un a phedwar o'r 15 math o ddefnydd ar-lein rydyn ni'n holi defnyddwyr rhyngrwyd amdanynt. Maent yn cynnwys 28% o'r holl ddefnyddwyr rhyngrwyd. Mae'r rheini sydd dros 65 oed yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o fod yn ddefnyddwyr cul (44% o'r grŵp oed 65-74 a 51% o'r rheini dros 75). Mae defnyddwyr mewn aelwydydd C2 neu DE hefyd yn fwy tebygol na'r cyfartaledd i fod yn ddefnyddwyr cul (32% ar gyfer C2 a 40% ar gyfer DE).

- Mae defnyddwyr cul yn llai tebygol na'r cyfartaledd i wylio teledu ar-alwad yn gyffredinol, gwylio cynnwys ar wasanaethau dal-i-fyny darlledwr neu wylio cynnwys drwy ffôn symudol neu ar-lein.
- Wrth gymharu â'r cyfartaledd, mae defnyddwyr cul yn llai tebygol o ddweud eu bod yn mynd ar-lein bob dydd (64%); maen nhw'n fwy tebygol o ddweud eu bod yn mynd ar-lein yn llai aml, boed hynny sawl gwaith yr wythnos (21%) neu o leiaf unwaith yr wythnos (10%). O'r herwydd, mae un defnyddiwr cul o bob tri (36%) yn dweud eu bod yn mynd ar-lein yn llai aml na bob dydd.

Mae'r rhan fwyaf o'r rheini nad ydynt yn defnyddio'r rhyngrwyd yn teimlo na fyddai unrhyw beth yn eu hannog i fynd ar-lein yn ystod y 12 mis nesaf.

- Nid ydy un deg pedwar y cant o oedolion yn y DU ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd, nid ydy hyn wedi newid ers 2015. Nid ydy un oedolyn o bob tri (35%) o'r grŵp oed 65-74 yn defnyddio'r rhyngrwyd, ac nid ydy'r rhan fwyaf o'r rheini sydd dros 75 oed (56%) yn defnyddio'r rhyngrwyd chwaith. Nid ydy chwarter oedolion aelwydydd DE (27%) yn defnyddio'r rhyngrwyd.
- Mae tri chwarter (75%) y rheini nad ydynt yn defnyddio'r rhyngrwyd yn dweud na fyddai unrhyw beth yn eu cymell i fynd ar-lein yn ystod y 12 mis nesaf; y rheswm mwyaf cyffredin am beidio defnyddio'r rhyngrwyd oedd bod yr ymatebwyr yn teimlo 'nad oedd o'n rhywbeth i bobl fel nhw/doedden nhw ddim yn gweld yr angen' (43%). Fodd bynnag, dywed bron i bedwar o bob deg (38%) o'r rheini nad ydynt yn defnyddio'r rhyngrwyd eu bod wedi gofyn i rywun ddefnyddio'r rhyngrwyd ar eu rhan yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Adran 3

Tabl ffigurau

Ffigur 1: Crynodeb o fynediad at ddyfeisiau/cyfryngau yn y cartref a defnydd ohonynt, yn ôl oed: 2016 28
Ffigur 2: Crynodeb o fynediad at ddyfeisiau/cyfryngau yn y cartref a defnydd ohonynt, yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol a rhyw: 2016 31
Ffigur 3: Defnyddio ffonau symudol, yn ôl oed: 2010-2016 32
Ffigur 4: Defnyddio ffonau symudol, yn ôl grwpiau economaidd-gymdeithasol: 2010-2016 33
Ffigur 5: Gweithgaredd mae defnyddwyr ffonau clyfar yn dweud y byddent yn ei golli defnyddio eu ffôn ar ei gyfer, yn ôl oed 34
Ffigur 6: Defnyddio mapiau neu lywio lloeren ar ffôn clyfar: 2010-2016 35
Ffigur 7: Defnyddio ffôn clyfar i lenwi ffurflen neu gais 36
Ffigur 8: Cytuno â'r datganiad: "Mae llenwi ffurflenni a gweithio ar ddogfennau'n anoddach ar fy ffôn clyfar nag ar liniadur neu gyfrifiadur bwrdd gwaith", yn ôl oed, grŵp economaidd-gymdeithasol a rhyw. 37
Ffigur 9: Y ddyfais cyfryngau y byddid yn gweld ei cholli fwyaf yn ôl oed 39
Ffigur 10: Y ddyfais cyfryngau y byddid yn gweld ei cholli fwyaf yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol a rhyw 40
Ffigur 11: Dyfais cyfryngau y byddid yn gweld ei cholli fwyaf: 2014 o'i gymharu â 2015 a 2016 41
Ffigur 12: Dyfeisiau a ddefnyddir i fynd ar-lein: 2010-2016 42
Ffigur 13: Defnyddio dyfeisiau eraill i fynd ar-lein: 2010-2016 43
Ffigur 14: Dyfeisiau sy'n cael eu defnyddio i fynd ar-lein yn y cartref neu mewn mannau eraill, yn ôl oed y defnyddiwr 44
Ffigur 15: Dyfeisiau sy'n cael eu defnyddio i fynd ar-lein, yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol a rhyw 46
Ffigur 16: Defnyddio'r rhyngrwyd bob wythnos: 2005-2016 48
Ffigur 17: Gweithgareddau mae'r rhyngrwyd yn cael eu defnyddio ar eu cyfer, yn ôl categori **Error! Bookmark not defined.**
Ffigur 18: Gweithgareddau mae'r rhyngrwyd wedi cael ei ddefnyddio ar eu cyfer yn ystod yr wythnos diwethaf, yn ôl oed **Error! Bookmark not defined.**
Ffigur 19: Gweithgareddau y defnyddiwyd y rhyngrwyd ar eu cyfer yn ystod yr wythnos flaenorol, yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol a rhyw **Error! Bookmark not defined.**
Ffigur 20: Dyfeisiau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer chwarae gemau gartref neu mewn mannau eraill: 2010-2016 **Error! Bookmark not defined.**
Ffigur 21: Dyfeisiau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer chwarae gemau gartref neu mewn mannau eraill, yn ôl grŵp demograffig **Error! Bookmark not defined.**
Ffigur 22: Gwirio lwfans data symudol, yn ôl oed, grŵp economaidd-gymdeithasol a rhyw **Error! Bookmark not defined.**
Ffigur 23: Amlder defnyddio lwfans data, yn ôl oed, grŵp economaidd-gymdeithasol a rhyw **Error! Bookmark not defined.**
Ffigur 24: Gweithredoedd a wneir pan fydd perygl o redeg allan o ddata 59
Ffigur 25: Defnyddio Wi-Fi cyhoeddus 60
Ffigur 26: Cyfathrebu ar-lein: 2014-2017 64
Ffigur 27: Cyfathrebu ar-lein yn yr wythnos flaenorol yn ôl oed, rhyw a grŵp economaidd-gymdeithasol 65
Ffigur 28: Cael proffil/cyfrif cyfryngau cymdeithasol, yn ôl oed: 2007-2016 66
Ffigur 29: Cael proffil/cyfrif cyfryngau cymdeithasol, yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol a rhyw: 2007-2016 67
Ffigur 30: Safleoedd cyfryngau cymdeithasol a ddefnyddiwyd: 2012, 2014, 2015 a 2016 **Error! Bookmark not defined.**
Ffigur 31: Gwasanaeth sy'n cael ei ystyried yn brif broffil/cyfrif cyfryngau cymdeithasol, yn ôl blwyddyn a grŵp demograffeg **Error! Bookmark not defined.**
Ffigur 32: Mathau o ddefnydd o safleoedd cyfryngau cymdeithasol: 2016 **Error! Bookmark not defined.**
Ffigur 33: Rhannu dolenni at erthyglau ar Twitter neu Facebook, yn ôl grŵp demograffeg **Error! Bookmark not defined.**
Ffigur 34: Cytuno â'r datganiad: "Byddaf yn aml yn rhannu dolenni at erthyglau ar Twitter neu Facebook heb ddarllen y cynnwys yn llawn yn gyntaf", yn ôl oed, rhyw a grŵp economaidd-gymdeithasol **Error! Bookmark not defined.**
Ffigur 35: Rhannu safbwyntiau ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol gyda phobl nad ydynt yn eu hadnabod, yn ôl oed, rhyw a grŵp economaidd-gymdeithasol 75
Ffigur 36: I ba raddau mae pobl yn gweld safbwyntiau ar y cyfryngau cymdeithasol y maent yn anghytuno â nhw yn ôl oed, rhyw a grŵp economaidd-gymdeithasol 76
Ffigur 37: Cytuno â'r datganiad: "Mae'r posibilrwydd o ennyn ymatebion neu sylwadau sarhaus yn gwneud i mi beidio â chyflwyno sylwadau neu bostio cynnwys ar gyfryngau cymdeithasol", yn ôl oed, rhyw a grŵp economaidd-gymdeithasol 78
Ffigur 38: Pa mor aml mae defnyddwyr wedi gweld rhywbeth sydd wedi eu cynhyrfu neu beri tramgwydd iddynt ar gyfryngau cymdeithasol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn ôl oed, rhyw a grŵp economaidd-gymdeithasol 79
Ffigur 39: Math o gynnwys sy'n cael ei ystyried yn gynnwys sy'n cynhyrfu neu'n peri tramgwydd 82
Ffigur 40: Y camau a gymerwyd ar ôl gweld cynnwys a oedd yn cynhyrfu neu'n peri tramgwydd 83

Ffigur 41: Defnyddio gwasanaethau cyhoeddus neu ddinesig ar-lein, yn ôl math o weithgaredd: 2016 **Error! Bookmark not defined.**
Ffigur 42: Defnyddio gwasanaethau cyhoeddus neu ddinesig ar-lein, yn ôl oed **Error! Bookmark not defined.**
Ffigur 43: Defnyddio gwasanaethau cyhoeddus neu ddinesig ar-lein, yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol a rhyw **Error! Bookmark not defined.**
Ffigur 44: Y ddyfais a ddefnyddir fwyaf ar gyfer cyflawni tasgau'r Llywodraeth ar-lein, yn ôl grŵp demograffeg **Error! Bookmark not defined.**
Ffigur 45: Rhesymau dros beidio â chyflawni tasgau'r Llywodraeth ar-lein **Error! Bookmark not defined.**
Ffigur 46: Hyder â gweithgareddau creadigol ar-lein: 2010-2016 **Error! Bookmark not defined.**
Ffigur 47: Llwytho cynnwys i fyny ar-lein: 2014-2017 92
Ffigur 48: Defnyddio ffôn clyfar ar gyfer gweithgareddau creadigol: 2016 93
Ffigur 49: Defnyddio ffôn clyfar ar gyfer gweithgareddau creadigol o leiaf unwaith yr wythnos 94
Ffigur 50: Cytuno â'r datganiad: "Rydw i'n teimlo'n fwy creadigol pan fydda i'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol", yn ôl oed, rhyw a grŵp economaidd-gymdeithasol 95
Ffigur 51: Gwneud trafodion ar-lein: 2014-2017 96
Ffigur 52: Gwneud trafodion ar-lein yn yr wythnos flaenorol, yn ôl oed, rhyw a grŵp economaidd-gymdeithasol 97
Ffigur 53: Defnyddio ffôn clyfar i wneud trafodion: 2015 a 2016 **Error! Bookmark not defined.**
Ffigur 54: Defnyddio ffôn clyfar i wneud trafodion o leiaf unwaith yr wythnos **Error! Bookmark not defined.**
Ffigur 55: Cytuno â'r datganiad: "Dylid gwarchod defnyddwyr rhyngrwyd rhag gweld cynnwys amhriodol neu gynnwys sy'n achosi tramgwydd": 2005-2016 **Error! Bookmark not defined.**
Ffigur 56: Pryderon ynghylch y cyfryngau ymysg defnyddwyr: 2005-2016 **Error! Bookmark not defined.**
Ffigur 57: Pryderon ynghylch y teledu ymysg defnyddwyr: 2010-2016 **Error! Bookmark not defined.**
Ffigur 58: Pryderon ynghylch y rhyngrwyd ymysg defnyddwyr: 2010-2016 106
Ffigur 59: Pryderon ynghylch chwarae gemau ymysg defnyddwyr: 2010-2016 107
Ffigur 60: Pryderon ynghylch ffonau symudol ymysg defnyddwyr: 2010-2016 108
Ffigur 61: Faint o oedolion sy'n gwylio cynnwys ar-alwad 109
Ffigur 62: Faint sy'n gwylio cynnwys ar safleoedd rhannu fideos 110
Ffigur 63: Math o gynnwys sy'n cael ei wylio ar safleoedd rhannu fideos 111
Ffigur 64: Gwrando ar wasanaethau sain ar-lein: 2014-2017 **Error! Bookmark not defined.**
Ffigur 65: Gwrando ar wasanaethau sain ar-lein yn ystod yr wythnos flaenorol, yn ôl oed, rhyw a grŵp economaidd-gymdeithasol **Error! Bookmark not defined.**
Ffigur 66: Chwarae gemau ar-lein gyda phobl eraill neu yn eu herbyn: 2016 **Error! Bookmark not defined.**
Ffigur 67: Cytuno â datganiadau am chwarae gemau ar-lein **Error! Bookmark not defined.**
Ffigur 68: Ffyrdd o ddewis/dod o hyd i gynnwys ar-alwad **Error! Bookmark not defined.**
Ffigur 69: Ffyrdd o ddewis/dod o hyd i gynnwys ar safleoedd rhannu fideos **Error! Bookmark not defined.**
Ffigur 70: Dod o hyd i wybodaeth ar-lein, yn ôl math o weithgaredd: 2014-2017 120
Ffigur 71: Dod o hyd i wybodaeth ar-lein yn ystod yr wythnos diwethaf, yn ôl oed, rhyw a grŵp economaidd-gymdeithasol 121
Ffigur 72: Dod o hyd i wybodaeth ar-lein, yn ôl math o weithgaredd: 2016 123
Ffigur 73: Dod o hyd i wybodaeth ar-lein yn ystod yr wythnos flaenorol, yn ôl oed, rhyw a grŵp economaidd-gymdeithasol 124
Ffigur 74: Ffynonellau a ddefnyddiwyd i chwilio am wybodaeth ar-lein 126
Ffigur 75: Ffynhonnell wybodaeth sydd fwyaf tebygol o gael ei defnyddio wrth chwilio am wybodaeth am amser hamdden neu ar gyfer hobïau neu adloniant 127
Ffigur 76: Ffynhonnell wybodaeth sydd fwyaf tebygol o gael ei defnyddio wrth chwilio am wybodaeth ar gyfer gwaith, coleg, ysgol neu ryw dasg swyddogol arall 128
Ffigur 77: Defnyddio gwefannau neu apiau nad ydyn nhw wedi cael eu defnyddio o'r blaen, y rhan fwyaf o wythnosau: 2010-2016 **Error! Bookmark not defined.**
Ffigur 78: Defnyddio gwefannau neu apiau nad ydyn nhw wedi'u defnyddio o'r blaen, yn ôl oed, grŵp economaidd-gymdeithasol a rhyw **Error! Bookmark not defined.**
Ffigur 79: Darllen ac ysgrifennu adolygiadau ar-lein, yn ôl grŵp demograffig **Error! Bookmark not defined.**
Ffigur 80: Ffynonellau cymorth os nad ydy rhywun yn siŵr sut mae gwneud rhywbeth ar-lein **Error! Bookmark not defined.**
Ffigur 81: Hyder fel defnyddiwr rhyngrwyd, fesul blwyddyn **Error! Bookmark not defined.**
Ffigur 82: Gwybod sut mae rhaglenni teledu'r BBC yn cael eu cyllido'n bennaf: 2005-2016 **Error! Bookmark not defined.**
Ffigur 83: Gwybod sut mae rhaglenni teledu masnachol yn cael eu cyllido'n bennaf: 2005-2016 **Error! Bookmark not defined.**
Ffigur 84: Gwybod sut mae gwasanaethau teledu Sky a Virgin Media yn cael eu cyllido'n bennaf **Error! Bookmark not defined.**
Ffigur 85: Gwybod sut mae gwefan y BBC yn cael ei chyllido'n bennaf: 2005-2016**Error! Bookmark not defined.**
Ffigur 86: Gwybod sut mae gwasanaeth BBC iPlayer yn cael ei gyllido'n bennaf yn ôl oed, grŵp economaidd-gymdeithasol a rhyw 141
Ffigur 87: Gwybod sut mae peiriannau chwilio'n cael eu cyllido'n bennaf: 2005-2016 142
Ffigur 88: Gwybod sut mae YouTube yn cael ei gyllido'n bennaf yn ôl oed, grŵp economaidd-gymdeithasol a rhyw 143

Ffigur 89: Cytuno â'r datganiad: "Gyhyd â bod gwefannau da ar gael ar y rhyngrwyd, does dim ots pwy sy'n berchen arnyn nhw na sut maen nhw'n cael eu cyllido". 2007-2016 144
Ffigur 90: Hyder eu bod yn gwybod sut i reoli pwy sydd â mynediad at eu data personol ar-lein yn ôl oed, grŵp economaidd-gymdeithasol a rhyw 145
Ffigur 91: Ystyried goblygiadau diogelwch data/preifatrwydd wrth bostio lluniau ar gyfryngau cymdeithasol yn ôl oed, grŵp economaidd-gymdeithasol a rhyw 147
Ffigur 92: Ystyried goblygiadau diogelwch data/preifatrwydd wrth dagio pobl mewn lluniau ar gyfryngau cymdeithasol yn ôl oed, grŵp economaidd-gymdeithasol a rhyw 148
Ffigur 93: Ystyried goblygiadau diogelwch data/preifatrwydd wrth bostio sylwadau ar gyfryngau cymdeithasol yn ôl oed, grŵp economaidd-gymdeithasol a rhyw 149
Ffigur 94: Ystyried goblygiadau diogelwch data/preifatrwydd wrth ddatgan lleoliad ar gyfryngau cymdeithasol yn ôl oed, grŵp economaidd-gymdeithasol a rhyw 150
Ffigur 95: Gwiriadau a wneir cyn cofrestru â gwefannau **Error! Bookmark not defined.**
Ffigur 96: Gwiriadau a wneir wrth brynu ar-lein cyn rhoi manylion cerdyn debyd neu gredyd **Error! Bookmark not defined.**
Ffigur 97: Mesurau diogelwch sydd ar waith ymysg defnyddwyr rhyngrwyd **Error! Bookmark not defined.**
Ffigur 98: Cytuno â'r datganiad: "Rwy'n rhoi manylion anghywir neu ffug ar rai gwefannau er mwyn gwarchod fy manylion personol ar-lein" yn ôl oed, grŵp economaidd-gymdeithasol a rhyw **Error! Bookmark not defined.**
Ffigur 99: Cytuno â'r datganiad: "Rwy'n fodlon rhoi gwybodaeth bersonol ar-lein er mwyn cael yr hyn rydw i eisiau ei gael", yn ôl oed, grŵp economaidd-gymdeithasol a rhyw **Error! Bookmark not defined.**
Ffigur 100: Profiad o ddigwyddiadau 'negyddol' ar-lein yn ystod y 12 mis diwethaf **Error! Bookmark not defined.**
Ffigur 101: Hyder wrth adnabod hysbysebion ar-lein: 2014-2016 **Error! Bookmark not defined.**
Ffigur 102: Gwybod am hysbysebion ar-lein personol yn ôl oed, grŵp economaidd-gymdeithasol a rhyw **Error! Bookmark not defined.**
Ffigur 103: Deall twriaeth ymysg y rheini sy'n defnyddio safleoedd rhannu fideos fod posibilrwydd y gallai flogwyr fod yn cymeradwyo cynnyrch 160
Ffigur 104: Agweddau at hysbysebion ar-lein yn ôl oed, grŵp economaidd-gymdeithasol a rhyw 161
Ffigur 105: Camau a gymerid gan ddefnyddwyr rhyngrwyd i osgoi hysbysebion ar-lein 162
Ffigur 106: Deall canlyniadau y telir amdanynt sy'n cael eu cyflwyno drwy chwiliadau Google, ymysg oedolion sy'n defnyddio apiau neu wefannau peiriannau chwilio: 2015-2016 **Error! Bookmark not defined.**
Ffigur 107: Deall sut mae peiriannau chwilio'n gweithio: 2010-2016 **Error! Bookmark not defined.**
Ffigur 108: Cytuno â'r datganiad: "Pan fyddaf yn edrych ar wefannau neu apiau cyfryngau cymdeithasol rwyf yn tueddu i ymddiried yn yr hyn rwyf yn ei ddarllen neu yn ei weld", yn ôl oed, rhyw a grŵp economaidd-gymdeithasol 166
Ffigur 109: Gwirio cywirdeb gwybodaeth ffeithiol sydd ar gael ar-lein 168
Ffigur 110: I ba raddau mae defnyddwyr rhyngrwyd sy'n mynd i wefannau newyddion neu faterion cyfoes yn dweud eu bod yn dilysu'r cynnwys maen nhw'n ei ddarllen mwyn cael amrywiaeth o safbwyntiau 169
Ffigur 111: Cyfran y defnyddwyr mwy newydd a'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro, yn ôl blwyddyn ac oed 173
Ffigur 112: Dyfeisiau sy'n cael eu defnyddio i fynd ar-lein: defnyddwyr mwy newydd o'u cymharu â'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro 174
Ffigur 113: Defnyddio'r rhyngrwyd bob wythnos: defnyddwyr mwy newydd o'u cymharu â'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro 174
Ffigur 114: Defnyddio gwefannau nad ydynt wedi cael eu defnyddio o'r blaen: defnyddwyr mwy newydd o'u cymharu â'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro 175
Ffigur 115: Hyder fel defnyddiwr rhyngrwyd: defnyddwyr mwy newydd o'u cymharu â'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro 176
Ffigur 116: Ymwybyddiaeth o sut caiff gwefannau neu wasanaethau ar-lein eu cyllido: defnyddwyr mwy newydd o'u cymharu â'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro 178
Ffigur 117: Barn ar gywirdeb peiriannau chwilio: defnyddwyr mwy newydd o'u cymharu â'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro 179
Ffigur 118: Deall canlyniadau y telir amdanynt sy'n cael eu cyflwyno drwy chwiliadau Google, ymysg oedolion sy'n defnyddio apiau neu wefannau peiriannau chwilio: defnyddwyr mwy newydd o'u cymharu â'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro. 180
Ffigur 119: Ymwybyddiaeth o hysbysebion ar-lein personol: defnyddwyr mwy newydd o'u cymharu â'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro 181
Ffigur 120: Mesurau diogelwch a ddefnyddir yn y cartref: defnyddwyr mwy newydd o'u cymharu â'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro 182
Ffigur 121: Dilysu gwybodaeth ffeithiol ar-lein: defnyddwyr mwy newydd o'u cymharu â'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro 183
Ffigur 122: Gwneud gwiriadau cyn cofrestru â gwefannau: defnyddwyr mwy newydd o'u cymharu â defnyddwyr sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro 184
Ffigur 123: Pryderon ynghylch y rhyngrwyd: defnyddwyr mwy newydd o'u cymharu â'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro 185
Ffigur 124: Hyd a lled defnyddio'r rhyngrwyd, yn ôl grŵp demograffeg 187
Ffigur 125: Categorïau defnydd rhyngrwyd: defnyddwyr cul, canolig ac eang 188
Ffigur 126: Defnyddio'r rhyngrwyd y tu allan i'r cartref: defnyddwyr cul, canolig ac eang 189

Ffigur 127: Amlder defnyddio'r rhyngrwyd: defnyddwyr cul, canolig ac eang 190
Ffigur 128: Dyfais bwysicaf ar gyfer mynd ar-lein: defnyddwyr cul, canolig ac eang 191
Ffigur 129: Ymwybyddiaeth o sut mae cael gwybodaeth am gyflymder band-eang gartref: defnyddwyr cul, canolig ac eang 192
Ffigur 130: Ymwybyddiaeth o VoIP: defnyddwyr cul, canolig ac eang 192
Ffigur 131: Defnyddio gwasanaethau ar-alwad: defnyddwyr cul, canolig ac eang 193
Ffigur 132: Faint o bobl sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd, yn ôl grŵp demograffeg 195
Ffigur 133: Proffil demograffeg pob oedolyn yn y DU: defnyddwyr rhyngrwyd a'r rheini sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd 196
Ffigur 134: Prif reswm dros beidio â mynd ar-lein yn ôl oed y person sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd 197
Ffigur 135: Defnyddio'r rhyngrwyd drwy ddirprwy yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ymysg y rheini sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd 198
Ffigur 136: Rhesymau posibl dros fynd ar-lein yn ystod y 12 mis nesaf 199

Adran 4

Cyflwyniad

4.1 Dyletswyddau Ofcom

Mae hyrwyddo llythrennedd yn y cyfryngau yn gyfrifoldeb a roddir ar Ofcom drwy Adran 11 Deddf Cyfathrebiadau 2003. O dan Adran 14 (6a) o'r Ddeddf mae gennym ddyletswydd i lunio trefniadau ar gyfer cynnal ymchwil i'r materion mae Adran 11(1) yn eu trafod.

Beth ydy llythrennedd yn y cyfryngau?

Mae llythrennedd yn y cyfryngau yn galluogi pobl i gael y sgiliau, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen arnynt er mwyn gallu manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a ddaw yn sgil gwasanaethau cyfathrebu. Mae llythrennedd yn y cyfryngau hefyd yn helpu pobl i reoli cynnwys a chyfathrebiadau, ac i amddiffyn eu hunain a'u teuluoedd rhag y risgiau posibl sydd ynghlwm wrth ddefnyddio'r gwasanaethau hyn.

Dyma ddiffiniad Ofcom o lythrennedd yn y cyfryngau:

"Y gallu i ddefnyddio, deall a chreu cyfryngau a chyfathrebiadau mewn amrywiaeth o gyd-destunau".

Dyma amcanion yr ymchwil hwn:

- Darparu darlun cyfoethog o elfennau gwahanol llythrennedd yn y cyfryngau ar draws y rhyngrwyd, teledu, radio, gemau a ffonau symudol.

- Dod o hyd i faterion sy'n dod i'r amlwg a bylchau mewn sgiliau sy'n helpu i dargedu adnoddau rhanddeiliaid ar gyfer hyrwyddo llythrennedd yn y cyfryngau.

4.2 Methodoleg a dadansoddi'r ymchwil

Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei ddylunio i roi trosolwg manwl ond hwylus o lythrennedd yn y cyfryngau ymysg oedolion dros 16 oed, gan ddadansoddi'r demograffeg yn ôl oed, rhyw a grŵp economaidd-gymdeithasol.

Mae'n defnyddio data o'r don ddiweddaraf o Draciwr Llythrennedd yn y Cyfryngau Oedolion gydag oedolion 16 oed a hŷn. Cynhaliwyd arolwg meintiol 2016 gan Saville Rossiter-Base ymysg 1,846 o oedolion yn eu cartref gan ddefnyddio methodoleg CAPI (cyfweliadau personol gyda chymorth cyfrifiadur) rhwng mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2016. Yn yr adroddiad hwn caiff cymariaethau eu gwneud rhwng data 2016 a thon flaenorol yr ymchwil o 2015. Ar ben hynny, dangosir patrymau o donnau blaenorol o ymchwil yn y siartiau, er mwyn gallu cyfeirio atynt.

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn defnyddio data ychwanegol o astudiaeth ymchwil arall gan Ofcom - yr arolwg Traciwr Technoleg yn 2017[3]. Roedd yr astudiaeth feintiol hon, a gynhaliwyd eto gan Saville Rossiter-Base, wedi cyfweld â 3743 o oedolion 16 oed a hŷn rhwng mis Ionawr a mis Chwefror 2017 (ac roedd 3221 o'r rheini'n defnyddio'r rhyngrwyd). Gan fod y don ddiweddaraf o'r ymchwil hwn wedi cael ei chynnal yn 2017, pan fyddwn yn sôn am ddata o'r astudiaeth hon, byddwn yn cymharu rhwng 2017 a 2016. Pan ddaw'r data

[3] Mae'r ymchwil yn y Traciwr Technoleg yn digwydd dros ddwy don y flwyddyn ac mae'r data sydd yn yr adroddiad hwn (yn mynd yn ôl i 2014) yn ymwneud â'r don gyntaf a gynhelir bob blwyddyn.

o'r arolwg Traciwr Technoleg, bydd hyn yn cael ei grybwyll yn y naratif ac yn cael ei amlygu yn y nodiadau ynghylch y ffynhonnell o dan unrhyw siart perthnasol.

Mae'r holl adroddiadau blaenorol am agweddau oedolion a'u defnydd o gyfryngau ar gael yn https://www.ofcom.org.uk/research-and-data/media-literacy-research ac mae maint y sampau a chyfnodau'r gwaith maes fel a ganlyn:

Cyhoeddi'r adroddiad	Maint y sampl Oedolion 16 oed a hŷn	Misoedd gwaith maes (Blwyddyn cofnodi'r data)
2016	1,841	1 don : Medi-Hydref 2015
2015	1,890	1 don : Hydref-Tachwedd 2014
2014	1,642	1 don : Hydref-Tachwedd 2013
2013	1,805	1 don : Medi-Tachwedd 2012
2012	1,823	1 don : Medi-Hydref 2011
2011	2,117	2 don: Ebrill-Mai a Medi-Hydref 2010
2010	1,824	2 don: Ebrill-Mai a Medi-Hydref 2009
2008	2,905	1 don : Hydref-Rhagfyr 2007
2005	3,244	1 don : Mehefin-Awst 2005

Profion arwyddocâd

Cynhaliwyd profion arwyddocâd ar y lefel hyder 95%, canfuwyd bod unrhyw ganfyddiadau a fanylir yn yr adroddiad hwn yn arwyddocaol i lefel hyder o 95%. Mae hyn yn golygu pan fyddwn yn rhoi sylw ar ganfyddiadau, mae'r tebygolrwydd bod y gwahaniaeth rhwng y samplau ar hap yn ddim ond 5% neu lai.

Rhwng 2016 a 2017 roedd y Traciwr Technoleg wedi newid o arolwg a oedd yn cael ei weinyddu drwy ddefnyddio papur a phensil (PAPI) i un a oedd yn cael ei weinyddu drwy ddefnyddio dyfais tabled (CAPI). Oherwydd y gallai hyn effeithio ar y canlyniadau a ddangosir, mae unrhyw wahaniaeth rhwng 2016 a 2017 wedi cael ei brofi ar y lefel 99%, sy'n golygu bod y tebygolrwydd bod y gwahaniaeth ar hap yn ddim ond 1%.

Caiff canfyddiadau sy'n ystadegol arwyddocaol rhwng 2015 a 2016 (ar gyfer y Traciwr Llythrennedd yn y Cyfryngau) a rhwng 2016 a 2017 (ar gyfer y Traciwr Technoleg) eu dynodi gan saethau yn y ffigurau yn yr adroddiad. Yn ogystal â chofnodi'r gwahaniaethau dros amser, rydyn ni'n edrych ar oedolion yn y grwpiau oed a'r grwpiau economaidd-gymdeithasol gwahanol, ac yn cymharu'r rhain ag oedolion yn gyffredinol yn 2016, i weld a oes unrhyw wahaniaethau arwyddocaol yn yr is-grwpiau hyn. Rydyn ni hefyd yn cofnodi'r gwahaniaethau rhwng dynion a menywod.

Ffigurau derbyn

Mae'r ffigurau derbyn yn yr adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol sy'n rhoi cyd-destun i agweddau ac ymddygiad pobl o ran llythrennedd yn y cyfryngau. Mae ffigurau

derbyn Ofcom ar gyfer y DU i gyd, ar sail y data o'r arolwg Traciwr Technoleg, ar gael yn yr *Adroddiad ar y Farchnad Gyfathrebu* blynyddol a gyhoeddir bob haf. Mae'r cyhoeddiad diweddaraf ar gael yma: https://www.ofcom.org.uk/research-and-data/cmr/cmr16

Derbyn a defnyddio cyfryngau digidol

5.1 Trosolwg o'r adran

Mae'r adran hon yn edrych ar fynediad oedolion yn y DU at ddyfeisiau cyfryngau a'u defnydd personol ohonynt. Mae hefyd yn rhoi sylw i berthynas oedolion â'r dyfeisiau maen nhw'n eu defnyddio, o ran y rheini y byddent yn gweld eu colli fwyaf. Mae'n canolbwyntio ar y dyfeisiau sy'n cael eu defnyddio i fynd ar-lein, ac wedyn yn rhoi manylion ynghylch faint maen nhw'n defnyddio'r rhyngrwyd. Caiff hyn ei ddilyn gan grynodeb o'r gweithgareddau a wneir ar-lein (ymhelaethir ar hyn ar lefel categori yn Adran 6 ac yn Adran 7). Mae'r adran hon hefyd yn cofnodi defnydd o ffonau symudol (ffonau clyfar yn benodol) ac mae'n edrych ar sut mae defnyddwyr ffonau clyfar yn rheoli faint o ddata maen nhw'n ei ddefnyddio.

5.2 Prif ganfyddiadau

- Wrth gymharu â 2015, mae oedolion yn llai tebygol o fod â mynediad i gyfrifiadur yn y cartref a'i ddefnyddio - boed hynny'n gyfrifiadur bwrdd gwaith, gliniadur neu gyfrifiadur gwe. Ar yr un pryd, mae dyfeisiau fel dyfeisiau tabled, recordwyr fideo digidol (DVRs), setiau teledu clyfar a chwaraewyr ffrydio cyfryngau nawr yn fwy tebyg o fod yn y cartref a chael eu defnyddio yno.

- Caiff y gostyngiad mewn mynediad at gyfrifiadur yn y cartref a defnyddio un ei briodoli i oedolion iau (16-34), y rheini mewn aelwydydd DE a dynion a menywod.

- Wrth gymharu â 2015, mae bod yn berchen ar ddyfais tabled a defnyddio un wedi cynyddu ymysg oedolion yn y grwpiau oed 25-34, 55-64 a'r rheini dros 75, yn ogystal ag oedolion mewn aelwydydd C2 a DE, a dynion.

- At ei gilydd, nid ydy defnyddio ffôn symudol (90%) wedi newid wrth gymharu â 2015, na defnyddio ffôn clyfar (72%). Ni fu newid chwaith yn y naill na'r llall ymysg oedolion yn y grŵp oed 16-64 nac yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol. Fodd bynnag, mae oedolion yn y grŵp oed 65-74 yn fwy tebygol o ddefnyddio ffôn clyfar (39% o'i gymharu â 28% yn 2015), yn yr un modd â'r rheini sydd dros 75 oed (15% o'i gymharu â 8%).

- Dywed y rhan fwyaf o ddefnyddwyr ffonau clyfar (69%) mai gwneud galwadau neu anfon negeseuon testun ydy'r gweithgareddau y byddent yn gweld eu colli fwyaf o ran defnyddio eu ffôn clyfar. Wrth gymharu â'r cyfartaledd hwn, mae oedolion iau 16-34 oed yn llai tebygol o ddweud hyn, ac mae defnyddwyr hŷn, 45 oed a hŷn, yn fwy tebygol. Er bod un defnyddiwr ffôn clyfar o bob wyth yn dweud y byddent yn gweld colli edrych ar gyfryngau cymdeithasol fwyaf neu anfon negeseuon at bobl (12%), mae hyn yn cael ei grybwyll ddwywaith cyn amled gan y rheini yn y grŵp oed 16-24 (24%).

- Mae pobl yn dal i ddweud mai ffonau symudol ydy'r ddyfais y byddent yn gweld ei cholli fwyaf ac mae hyn yn dal i fod yn wir ymysg oedolion yn y grwpiau oed rhwng 16 a 54. Mae'r rheini sydd dros 55 yn dal i ddweud y byddent yn gweld colli eu teledu fwyaf. Wrth gymharu â 2015, fodd bynnag, mae'r rheini yn y grŵp oed 65-74 ddwywaith mor debygol o ddweud y byddent yn gweld colli eu ffôn symudol fwyaf (20% o'i gymharu â 10% yn 2015). Gallai hyn fod oherwydd eu bod wedi defnyddio mwy ar ffonau clyfar yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

- Yn 2016, mae 86% o oedolion yn mynd ar-lein, sydd heb newid wrth gymharu â 2015 (87%).

- Nid ydy defnyddio ffonau clyfar i fynd ar-lein wedi cynyddu ers 2015, ond oherwydd bod oedolion nawr yn llai tebygol o fynd ar-lein drwy gyfrifiaduron (62% o'i gymharu â 71% yn 2015), mae ffonau clyfar (66%) nawr yn fwy tebygol o gael eu defnyddio i fynd ar-lein na chyfrifiaduron (62%).

- Mae dyfeisiau tabled nawr yn fwy tebygol o gael eu defnyddio i fynd ar-lein (49% o'i gymharu â 45% yn 2015) yn yr un modd â chwaraewyr ffrydio cyfryngau (9% o'i gymharu â 5%). Mae chwaraewyr neu gonsolau gemau nawr yn llai tebygol o gael eu defnyddio at y diben hwn, o'i gymharu â'r llynedd (11% o'i gymharu â 15%).

- Mae'r gwahaniaethau hyn o ran y dyfeisiau a ddefnyddir i fynd ar-lein yn golygu bod chwarter oedolion (24%) nawr ddim ond yn mynd ar-lein drwy ddefnyddio dyfeisiau ar wahân i gyfrifiadur, cynnydd o 16% yn 2015. Mae hyn yn codi i 31% ar gyfer y grŵp oed 16-24, 37% ar gyfer y grŵp oed 25-34 a 33% ar gyfer oedolion mewn aelwydydd DE. Mae modd priodoli'r cynnydd hwn rhwng 2015 a 2016 i oedolion iau (16-34) yn ogystal â'r pedwar grŵp economaidd-gymdeithasol a dynion a menywod.

- Dywed wyth y cant o oedolion mai dim ond ffôn clyfar maen nhw'n ei ddefnyddio i fynd ar-lein, sy'n fwy tebygol nag yn 2015 (6%), ac mae 4% o oedolion ddim ond yn defnyddio dyfais tabled i fynd ar-lein, sydd heb newid ers y llynedd.

- Ni fu dim newid yn faint mae pobl yn defnyddio'r rhyngrwyd yn ôl eu hadroddiadau eu hunain; ar gyfartaledd mae oedolion y DU yn treulio 22.9 awr ar-lein yr wythnos. Mae oedolion iau (16-34) yn dal i dreulio mwy o oriau ar-lein mewn wythnos arferol. Er nad ydy faint mae pobl yn defnyddio'r rhyngrwyd yn wythnosol yn gyffredinol mewn unrhyw leoliad wedi newid, bu cynnydd yn yr amser sy'n cael ei dreulio ar-lein ers 2015 (14.8 awr o'i gymharu â 13.4 awr)

- Wrth gymharu â'r cyfartaledd, mae defnyddwyr rhyngrwyd iau (16-44 oed) yn fwy tebygol o fod wedi gwneud y rhan fwyaf o fathau o ddefnyddio'r rhyngrwyd yn ystod yr wythnos flaenorol, ac mae'r rheini sydd dros 55 oed yn llai tebygol.

- Mae hanner y rheini sy'n defnyddio ffonau clyfar (49%) yn dweud eu bod yn edrych i weld faint o ddata sydd ganddynt ar ôl yn eu lwfans data, ac mae'r rheini yn y grŵp oed 16-34 yn fwy tebygol na'r cyfartaledd i ddweud eu bod wedi defnyddio eu lwfans data, a dweud eu bod yn gwneud hynny yn y rhan fwyaf o fisoedd.

- Mae dau ddefnyddiwr ffonau clyfar o bob tri (67%) yn defnyddio Wi-Fi cyhoeddus; mae hyn yn fwy tebygol ar gyfer y rheini yn y grŵp oed 16-24 (76%).

5.3 Mynediad at ddyfeisiau yn y cartref a'r defnydd ohonynt

Wrth gymharu â 2015 bu gostyngiad mewn mynediad at gyfrifiadur bwrdd gwaith, gliniadur neu gyfrifiadur gwe a defnydd ohonynt yn y cartref, yn enwedig ymysg y grŵp oed 16-34

Roedden ni wedi gofyn i'r ymatebwyr am amrywiaeth o ddyfeisiau/llwyfannau cyfryngau i gael gwybod pa rai, os o gwbl, mae ganddynt fynediad atynt yn y cartref a pha rai maen nhw'n eu defnyddio'n bersonol. Mae'r mesuriadau hyn yn cael eu dangos yn Ffigur 1 yn ôl oed, ac yn Ffigur 2 yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol a rhyw.

Fel sy'n cael ei ddangos yn Ffigur 1, mae gan y rhan fwyaf o oedolion y DU fynediad at chwe dyfais yn y cartref: teledu - safonol neu glyfar (97%), ffôn symudol (94%), cyfrifiadur bwrdd gwaith, gliniadur neu gyfrifiadur gwe (71%), dyfais tabled (63%), radio (60%) a recordiwr fideo digidol (DVR) (51%). Mae'r mwyafrif o oedolion rhwng 35 a 74 oed yn berchen ar y chwe dyfais hyn. Yn groes i hynny, er bod gan dros hanner y rheini yn y grŵp oed 16-34 fynediad at deledu, ffôn symudol, cyfrifiadur, dyfais tabled neu gonsol gemau/chwaraewr gemau, dim ond lleiafrif sydd â mynediad at set radio (45% ar gyfer y grŵp oed 16-24 a 43% ar gyfer y grŵp oed 25-34) neu DVR (48% a 41% y naill a'r llall). Mae gan y rhan fwyaf o'r rheini sydd dros 75 oed fynediad at dair dyfais: teledu (100%), ffôn symudol (73%) a radio (78%).

Ar draws yr holl oedolion dros 16 oed, mae'r 'bwlch' rhwng mynediad a defnydd ar ei fwyaf ar gyfer chwaraewr neu gonsol gemau - mae gwahaniaeth o 15 pwynt canran rhwng cael un yn y cartref (39%) a'i ddefnyddio (24%). Mae'r bwlch ar gyfer radio yn naw pwynt canran, ac ar gyfer DVT neu ddyfais tabled yn saith pwynt canran. Mae gan bob un o'r dyfeisiau eraill fwlch o oddeutu pum pwynt canran neu lai.

Mae pum dyfais sy'n cael eu defnyddio gan fwyafrif o oedolion: teledu – safonol neu glyfar (93%), ffôn symudol (90%), cyfrifiadur bwrdd gwaith, gliniadur neu gyfrifiadur gwe (66%), dyfais tabled (56%) a set radio (51%). Mae tua dau o bob pump (44%) yn defnyddio DVR ac mae un o bob pedwar (24%) yn defnyddio consol gemau neu chwaraewr gemau.

O'i gymharu â'r cyfartaledd (90%), mae defnyddio ffôn symudol yn fwy tebygol ymysg y rheini yn y grwpiau oed 16-24 (98%), 25-34 (98%), 35-44 (97%) a 45-54 (95%), ac yn llai tebygol ymysg y grwpiau oed 65-74 (75%) a'r rheini dros 75 (60%). Mae defnyddio unrhyw fath o deledu (safonol neu glyfar) yn uwch ymysg y grwpiau oed 55-64 (97%) a'r rheini dros 75 (99%) ac yn is ymysg y rheini yn y grŵp oed 25-34 (88%) wrth gymharu â'r cyfartaledd (93%).

Mae defnyddio cyfrifiadur bwrdd gwaith/gliniadur neu gyfrifiadur gwe (66% yn gyffredinol) yn uwch ymysg y grwpiau oed 35-44 (73%) a 45-54 (74%) ac yn is ymysg y grwpiau oed 65-74 (57%) a'r rheini dros 75 (35%). Mae defnyddio dyfais tabled (56% yn gyffredinol) hefyd yn is ymysg y grwpiau oed 65-74 (40%) a'r rheini dros 75 (27%), ac yn uwch ymysg y grwpiau oed 25-34 (66%) a 45-54 (63%).

Mae defnyddio set radio yn fwy tebygol ymysg y rheini dros 55 oed (64% o'r rheini yn y grŵp oed 55-64, 69% o'r rheini yn y grŵp oed 65-74 a 67% o'r rheini dros 75) ac yn llai tebygol ymysg y grwpiau oed 16-24 (33%) a 25-34 (34%).

Wrth gymharu â'r cyfartaledd (44%), mae'r rheini yn y grŵp oed 35-44 yn fwy tebygol o ddefnyddio DVR (52%) ac mae'r rheini sydd dros 75 yn llai tebygol (29%). Mae defnyddio teledu clyfar yn fwy tebygol na'r cyfartaledd (36%) ymysg y grwpiau oed 35-44 (46%) a 45-54 (45%) ac yn llai tebygol ymysg y rheini sydd dros 65 oed (27% ar gyfer y grŵp oed 65-74 a 12% ar gyfer y rheini dros 75).

Wrth gymharu â'r cyfartaledd (24%), mae defnyddio consol gemau/chwaraewr gemau yn fwy tebygol ymysg y grwpiau oed 16-24 (57%) a 25-34 (39%), ac yn llai tebygol ymysg y rheini sydd dros 45 oed (16% yn y grŵp oed 45-54 10% yn y grŵp oed 55-64, 4% yn y grŵp oed 65-74 a 2% o'r rheini sydd dros 75).

Mae defnyddio chwaraewyr ffrydio cyfryngau (fel Apple TV, Now TV box, Amazon Fire TV, Chromecast, Roku) yn fwy tebygol ymysg y grŵp oed 25-34 (25% o'i gymharu â 18% ar gyfer pawb) ac yn llai tebygol ar gyfer y rheini sy'n 65 oed a hŷn (9% ar gyfer y grŵp oed 65-74 a 3% ar gyfer y rheini dros 75). Yr oedolion hynaf hyn hefyd ydy'r rhai lleiaf tebygol o ddefnyddio technoleg mae modd ei gwisgo (fel oriawr clyfar neu draciwr ffitrwydd) ac mae'r

rheini yn y grŵp oed 35-44 yn fwy tebygol o ddefnyddio'r dechnoleg hon (11% o'i gymharu â 7%).

Mae'r saethau yn Ffigur 1 yn dangos y newidiadau mewn mynediad at a defnyddio cyfryngau yn y cartref wrth gymharu â 2015. Yn gryno:

- Mae mynediad at a defnyddio cyfrifiadur bwrdd gwaith/gliniadur/cyfrifiadur gwe yn is nag yn 2015 ac mae modd priodoli hyn i'r oedolion iau (16-34). Ar gyfer y rheini yn y grŵp oed 35-44 mae mynediad i gyfrifiadur bwrdd gwaith, gliniadur neu gyfrifiadur gwe yn is wrth gymharu â 2015 ond nid ydy'r lefel defnydd wedi newid.

- Mae mynediad at ddyfais tabled a'i defnyddio wedi cynyddu ymysg oedolion ers 2015, gyda'r naill fesur a'r llall yn cynyddu ar gyfer y grwpiau oed 25-34 a 55-64. Yn yr un modd, mae'r rheini sy'n 75 oed a hŷn hefyd yn fwy tebygol o fod â dyfais tabled (30% o'i gymharu ag 19% yn 2015) ac o ddefnyddio un (27% o'i gymharu â 15% yn 2015).

- Er nad ydy'r siart yn dangos hynny, mae oedolion rhwng 65 a 74 oed yn fwy tebygol yn 2016 nag yn 2015 o gael dyfais tabled (51% o'i gymharu â 39% yn 2015).

- Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r cynnydd mewn mynediad at DVRs a setiau teledu clyfar ar lefel gyffredinol hefyd i'w weld ar gyfer yr oedolion hynaf. Er nad ydy'r siart yn dangos hynny, mae'r rheini sydd rhwng 65 a 74 oed ac yn 75 oed a hŷn yn fwy tebygol o ddefnyddio teledu clyfar (27% o'i gymharu ag 16% ar gyfer y bobl rhwng 65 a 74 oed, a 12% o'i gymharu â 4% ar gyfer y rheini sydd dros 75 oed) a meddu ar a defnyddio chwaraewr ffrydio cyfryngau. Ar ben hynny, mae oedolion yn y grŵp oed 35-44 hefyd yn fwy tebygol o gael mynediad at DVR a'i ddefnyddio.

- Mae chwaraewyr ffrydio cyfryngau nawr yn fwy tebygol o fod yn y cartref ac o ganlyniad yn fwy tebygol o gael eu defnyddio, ac mae'r cynnydd i'w weld ar draws y rhan fwyaf o grwpiau oed.

Ffigur 1: Crynodeb o fynediad at ddyfeisiau/cyfryngau yn y cartref a defnydd ohonynt, yn ôl oed: 2016

	Pob oedolyn		16-24		25-34		35-44		45-54		55-64		65-74		75+	
	Mynediad	Defnydd	Mynediad	Defnydd	Mynediad	Defnydd	Mynediad	Defnydd	Mynediad	Defnydd	Mynediad	Defnydd	Mynediad	Defnydd	Mynediad	Defnydd
Ffôn symudol	94%	90%	98%	98%	98%	98%	98%	97%	98%	95%	93%	88%	87%	75%	73% ↑	60%
Set deledu safonol	75%	70%	75%	65%	69%	63%	71% ↓	63% ↓	71%	66%	79%	75%	78%	74%	92%	91%
Cyfrifiadur	71% ↓	66% ↓	74% ↓	69% ↓	70% ↓	65% ↓	78% ↓	73%	80%	74%	77%	71%	66%	57%	40%	35%
Llechen	63% ↑	56% ↑	67%	55%	71% ↑	66% ↑	71%	60%	70%	63%	64% ↑	57% ↑	51% ↑	40%	30% ↑	27% ↑
Set radio (DAB neu fel arall)	60%	51%	45%	33%	43%	34%	56%	48%	66%	58%	71%	64%	76%	69%	78%	67%
DVR/Recordydd Fideo Digidol	51% ↑	44% ↑	48%	37%	41%	38%	58% ↑	52% ↑	56%	49%	59% ↑	50%	52%	43%	39% ↑	29% ↑
Consol gemau/chwaraewr gemau	39%	24%	66%	57%	53%	39%	49%	26%	40%	16%	29% ↑	10%	11%	4%	4%	2%
Teledu clyfar	38% ↑	36% ↑	41%	37%	40%	37%	48%	46%	47%	45%	37%	37% ↑	27%	27% ↑	14% ↑	12% ↑
Chwaraewr ffrydio cyfryngau	21% ↑	18% ↑	26% ↑	21% ↑	28% ↑	25% ↑	25% ↑	22% ↑	24%	18%	18% ↑	15% ↑	9% ↑	9% ↑	4% ↑	3% ↑
Technoleg mae modd ei gwisgo	11%	7%	16%	10%	13%	8%	15%	11%	12%	8%	8%	6%	4%	1%	1%	1%
UNRHYW DELEDU	97%	93%	96%	90%	95%	88%	98%	93%	96%	94%	99%	97%	96%	94%	100%	99% ↑

A1/ A2. Allwch chi edrych ar y rhestr hon a dweud wrtha i pa rai sydd gennych chi yn eich cartref? (Atebion wedi'u cynnig, sawl cod) / A pha rai o'r dyfeisiau hyn rydych chi newydd ddweud sydd gennych chi yn y cartref ydych chi byth yn eu defnyddio'n bersonol, at unrhyw ddiben? (atebion wedi'u cynnig, sawl cod).
Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn (1846 yn 2016, 234 yn 16-24 oed, 272 yn 25-34 oed, 313 yn 35-44 oed, 284 yn 45-54 oed, 270 yn 55-64 oed, 218 yn 65-74 oed, 255 yn 75 oed).
Mae'r saethau'n dangos newidiadau arwyddocaol (lefel 95%) rhwng 2015 a 2016. DS – ni chaiff newidiadau arwyddocaol ar gyfer technoleg mae modd ei gwisgo eu dangos gan nad oedd yr enghreifftiau o'r dechnoleg hon a oedd wedi cael eu cynnwys yn y diffiniad hwn yn gyson dros amser.

Mae oedolion mewn aelwydydd DE yn llai tebygol o fod â mynediad ac felly defnyddio'r rhan fwyaf o ddyfeisiau/cyfryngau.

O'r deg dyfais sy'n cael ei dangos yn Ffigur 2, mae'r nifer sydd â saith yn fwy tebygol ar gyfer oedolion mewn aelwydydd AB, ac mae'r nifer sydd â'r un saith dyfais yn llai tebygol mewn aelwydydd DE: cyfrifiadur bwrdd gwaith/gliniadur neu gyfrifiadur gwe (88% AB o'i gymharu â 47% DE), dyfais tabled (74% AB o'i gymharu â 49% DE), set radio (70% AB o'i gymharu â 51% DE), DVR (63% AB o'i gymharu â 38% DE), teledu clyfar (49% AB o'i gymharu â 29% DE), chwaraewr ffrydio cyfryngau (28% o'i gymharu â 16%) a thechnoleg mae modd ei gwisgo (18% o'i gymharu â 6%). Mae oedolion mewn aelwydydd DE hefyd yn llai tebygol o fod â mynediad at ffôn symudol. Nid yw mynediad at unrhyw fath o deledu neu at chwaraewr neu gonsol gemau yn amrywio yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol aelwyd, wrth gymharu â'r cyfartaledd.

Caiff y gwahaniaethau hyn rhwng grwpiau economaidd-gymdeithasol o ran mynediad at ddyfeisiau yn y cartref hefyd eu hadlewyrchu ym mhatrymau defnyddio pob dyfais.

Yn 2016, mae dynion yn fwy tebygol na menywod o ddweud bod ganddynt chwaraewr ffrydio cyfryngau yn y cartref (24% o'i gymharu â 18%) ac yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn defnyddio teledu clyfar (39% o'i gymharu â 34%), a chwaraewr/consol gemau (31% o'i gymharu â 17%) neu chwaraewr ffrydio cyfryngau (20% o'i gymharu â 15%).

Wrth gymharu â 2015, mae'r gostyngiad cyffredinol mewn mynediad at gyfrifiadur bwrdd gwaith, gliniadur neu gyfrifiadur gwe a defnydd ohono yn cael ei briodoli i oedolion mewn aelwydydd DE, ac mae modd gweld hyn ymysg dynion a menywod. Er nad ydy mynediad wedi newid mewn aelwydydd C1, mae defnyddio cyfrifiadur bwrdd gwaith, gliniadur neu gyfrifiadur gwe yn is ar gyfer yr oedolion hyn.

Wrth gymharu â 2015, mae'r cynnydd mewn mynediad at ddyfais tabled a'r defnydd ohonynt i'w weld ar gyfer y rheini mewn aelwydydd C2 a DE ac ymysg dynion, ac mae modd priodoli cynnydd mewn mynediad at DVR a'r defnydd ohono i oedolion mewn aelwydydd AB a C2, a menywod. Wrth gymharu â'r llynedd, mae menywod hefyd yn fwy tebygol o ddweud bod ganddynt fynediad at deledu clyfar a set radio a'u bod yn eu defnyddio.

Er bod oedolion mewn aelwydydd DE yn fwy tebygol o fod â mynediad at deledu clyfar, ni fu cynnydd yn y defnydd o deledu clyfar ers 2015. Yn groes i hynny, mae defnyddio DVR wedi cynyddu ymysg oedolion DE, er na fu dim cynnydd mewn mynediad.

Mae'r cynnydd mewn mynediad at chwaraewyr ffrydio cyfryngau a'r defnydd ohonynt ers 2015 i'w weld ymysg y pedwar grŵp economaidd-gymdeithasol ac ymysg dynion a menywod.

Ffigur 2: Crynodeb o fynediad at ddyfeisiau/cyfryngau yn y cartref a defnydd ohonynt, yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol a rhyw: 2016

	Pob oedolyn		AB		C1		C2		DE		Dynion		Menywod	
	Mynediad	Defnydd	Mynediad	Defnydd	Mynediad	Defnydd	Mynediad	Defnydd	Mynediad	Defnydd	Mynediad	Defnydd	Mynediad	Defnydd
Ffôn symudol	94%	90%	96%	92%	95%	92%	94%	89%	90%	85%	94%	89%	94%	91%
Set deledu safonol	75%	70%	70%	66%	73%	67%	79%	74%	79%	73%	73%	67%	77%	72%
Cyfrifiadur	71%	66%	88%	83%	78%	73%	69%	63%	47%	42%	72%	68%	70%	64%
Llechen	63%	56%	74%	66%	67%	60%	62%	53%	49%	42%	63%	54%	64%	57%
Set radio (DAB neu fel arall)	60%	51%	70%	62%	58%	50%	61%	50%	51%	43%	60%	51%	60%	52%
DVR/Recordydd Fideo Digidol	51%	44%	63%	55%	50%	44%	52%	43%	38%	32%	51%	44%	51%	43%
Consol gemau/chwaraewr gemau	39%	24%	38%	22%	38%	23%	45%	26%	37%	25%	41%	31%	37%	17%
Teledu clyfar	38%	36%	49%	48%	38%	36%	36%	34%	29%	26%	41%	39%	36%	34%
Chwaraewr ffrydio cyfryngau	21%	18%	28%	24%	21%	18%	18%	15%	16%	13%	24%	20%	18%	15%
Technoleg mae modd ei gwisgo	11%	7%	18%	12%	11%	7%	7%	6%	6%	3%	12%	8%	10%	6%
UNRHYW SET DELEDU	97%	93%	97%	95%	96%	92%	98%	94%	98%	92%	97%	93%	97%	94%

A1/ A2. Allwch chi edrych ar y rhestr hon a dweud wrtha i pa rai sydd gennych chi yn eich cartref? (Atebion wedi'u cynnig, sawl cod) / A pha rai o'r dyfeisiau hyn rydych chi newydd ddweud sydd gennych chi yn y cartref ydych chi byth yn eu defnyddio'n bersonol, at unrhyw ddiben? (atebion wedi'u cynnig, sawl cod).
Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn (1846 yn 16 oed a hŷn, 427 – AB, 566 – C1, 369 – C2, 484 – DE, 885 – dynion, 961 – menywod).
Mae'r saethau'n dangos newidiadau arwyddocaol (lefel 95%) rhwng 2015 a 2016. DS – ni chaiff newidiadau arwyddocaol ar gyfer technoleg mae modd ei gwisgo eu dangos gan nad oedd yr enghreifftiau o'r dechnoleg hon a oedd wedi cael eu cynnwys yn y diffiniad hwn yn gyson dros amser.

5.4 Defnyddio dyfeisiau a pherthynas

Defnyddio ffôn clyfar

Mae saith oedolyn o bob deg yn defnyddio ffôn clyfar, nid ydy hyn wedi newid ers y llynedd, er bod y rheini dros 65 nawr yn fwy tebygol o ddefnyddio un

Fel sy'n cael ei ddangos uchod yn Ffigur 1, maw naw oedolyn o bob deg (90%) yn defnyddio ffôn symudol, sydd heb newid ers 2015 (hefyd yn 90%). Ni fu dim newid o ran defnyddio ffonau symudol ar gyfer unrhyw grŵp oed oedolion, wrth gymharu â'r llynedd.

Mae Ffigur 3 yn rhannu defnydd cyffredinol o ffonau symudol rhwng ffonau clyfar a ffonau nad ydynt yn rhai clyfar, ac mae'n dangos yn 2016 bod oedolion bedair gwaith yn fwy tebyg o ddefnyddio ffôn clyfar (72%) ag ydynt i ddefnyddio ffôn nad yw'n ffôn clyfar (18%). Nid ydy defnyddio ffonau clyfar wedi newid ers 2015 chwaith, yn dilyn cynnydd rhwng 2014 (66%) a 2015 (70%).

Mae'r rhan fwyaf o oedolion yn y grŵp oed 16-64 yn defnyddio ffôn clyfar, a'r rheini o dan 55 oed yn fwy tebygol na'r cyfartaledd i ddefnyddio un. Mae defnyddio ffôn clyfar yn amrywio o 85% ar gyfer y grŵp oed 45-54 i 93% ar gyfer 16-24. Er bod lleiafrif o'r grŵp oed 65-74 (39%) a'r rheini dros 75 (15%) yn defnyddio un, mae'r naill a'r llall wedi cynyddu wrth gymharu â'r llynedd (o 28% a 8% y naill a'r llall). Dyma'r unig ddau grŵp oed sydd wedi gweld cynnydd yn y defnydd o ffôn clyfar wrth gymharu â'r llynedd.

Fel sy'n cael ei ddangos yn Ffigur 4, mae defnyddio ffôn clyfar yn fwy tebygol ymysg oedolion mewn aelwydydd C1 (78%) wrth gymharu â'r cyfartaledd (72%), ac mae'r rheini mewn aelwydydd DE yn llai tebygol o ddefnyddio un (61%). Ni fu dim newid ers y llynedd o ran y defnydd o ffonau clyfar ymysg oedolion yn unrhyw un o'r pedwar grŵp economaidd-gymdeithasol.

Er nad yw'n cael ei ddangos yn Ffigur 4, mae dynion (71%) yr un mor debygol â menywod i ddefnyddio ffonau clyfar (73%), ac nid yw'r naill na'r llall wedi newid wrth gymharu â 2015.

Ffigur 3: Defnyddio ffonau symudol, yn ôl oed: 2010-2016



A4. Roeddech chi'n dweud eich bod yn defnyddio ffôn symudol. Ydy hwn yn ffôn clyfar? (atebion wedi'u cynnig, un cod).
Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn (1846 yn 2016, 234 yn 16-24 oed, 272 yn 25-34 oed, 313 yn 35-44 oed, 284 yn 45-54 oed, 270yn 55-64 oed, 218 yn 65-74 oed, 255 yn 75+ oed).

Mae'r saethau'n dangos newidiadau arwyddocaol (lefel 95%) rhwng 2015 a 2016.

Ffigur 4: Defnyddio ffonau symudol, yn ôl grwpiau economaidd-gymdeithasol: 2010-2016



A4. Roeddech chi'n dweud eich bod yn defnyddio ffôn symudol. Ydy hwn yn ffôn clyfar? (atebion wedi'u cynnig, un cod).
Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn (1846 yn 16 oed a hŷn, 427 – AB, 566 – C1, 369 – C2, 484 – DE).
Mae'r saethau'n dangos newidiadau arwyddocaol (lefel 95%) rhwng 2015 a 2016.

Perthynas â gweithgareddau ffonau clyfar

Dywedodd defnyddwyr y byddent yn gweld colli eu ffôn clyfar fwyaf ar gyfer ffonio neu anfon negeseuon testun

Gofynnwyd i ddefnyddwyr ffonau clyfar (72% o oedolion yn 2016) am ddeg o weithgareddau sy'n cael eu gwneud ar ffonau clyfar a gofynnwyd iddynt ddweud pa un byddent yn gweld ei golli fwyaf ar eu ffôn petai eu ffôn yn cael ei gymryd oddi wrthynt. Caiff y chwe gweithgaredd a grybwyllwyd gan o leiaf 2% o ddefnyddwyr ffonau clyfar yn gyffredinol eu dangos yn Ffigur 5.

Dywed y rhan fwyaf o ddefnyddwyr ffonau clyfar (69%) (a defnyddwyr o unrhyw oed) y byddent yn gweld colli defnyddio eu ffôn clyfar ar gyfer ffonio neu anfon negeseuon testun. Wrth gymharu â'r cyfartaledd hwn, mae defnyddwyr yn y grwpiau oed 45-54 (77%), 55-64 (78%) a dros 65 (83%) yn fwy tebygol o ddweud hyn, ac mae'r rheini yn y grwpiau oed 16-24 (60%) a 25-34 (60%) yn llai tebygol o ddweud hyn.

Dywed un o bob wyth (12%) sy'n defnyddio ffonau clyfar y byddent yn gweld colli edrych ar gyfryngau cymdeithasol neu anfon negeseuon at bobl; mae'r rheini yn y grŵp oed 16-24 ddwywaith mor debyg o ddweud hyn (24%) ac mae'r rheini yn y grwpiau oed 45-54 (6%) a 55-64 (5%) yn llai tebygol o roi'r ymateb hwn. Dywed llai nag un o bob deg sy'n defnyddio ffonau clyfar sy'n 16 oed a hŷn y byddent yn gweld colli unrhyw weithgaredd arall fwyaf. Er bod 2% o ddefnyddwyr yn dweud y byddent yn gweld colli tynnu lluniau, mae hyn yn fwy tebygol ymysg y grŵp oed 25-34 (6%).

Ffigur 5: Gweithgaredd mae defnyddwyr ffonau clyfar yn dweud y byddent yn colli ei wneud fwyaf ar eu ffôn, yn ôl oed



M8. Pa un o'r gweithgareddau hyn byddech chi'n gweld colli ei wneud fwyaf ar eich ffôn clyfar petai eich ffôn clyfar yn cael ei gymryd oddi wrthych chi? (atebion wedi'u cynnig, un cod).
Sail: Pob oedolyn dros 16 sydd â ffôn clyfar (1249 yn 16 oed a hŷn, 216 yn 16-24 oed, 247 yn 25-34 oed, 268 yn 35-44 oed, 235 yn 45-54 oed, 157 yn 55-64 oed, 126 yn 65 oed a hŷn). Dangos atebion gan >2% o'r holl oedolion sydd â ffôn clyfar. Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau sylweddol (lefel 95%) yn ôl oed wrth gymharu â'r holl oedolion sydd â ffôn clyfar.

Mae wyth o bob deg sy'n defnyddio ffonau clyfar yn dweud eu bod wedi defnyddio mapiau/llywio lloeren ar eu ffôn.

Gofynnwyd i ddefnyddwyr ffonau clyfar (72% o oedolion) yn benodol am bori neu chwilio am gynnwys ar eu ffôn symudol. Mae Ffigur 6 yn dangos yn 2016 fod wyth o bob deg (81%) sy'n defnyddio ffonau clyfar wedi defnyddio nodweddion ar eu ffôn fel mapiau neu lywio lloeren i gyrraedd lle roedden nhw eisiau mynd, neu i gynllunio llwybr i gyrchfan, ac mae tua hanner y defnyddwyr hyn (42%) yn gwneud hyn ar eu ffôn o leiaf bob wythnos. Mae 23% arall yn defnyddio'r nodwedd hon o leiaf bob chwarter. Nid ydy'r naill fesur na'r llall o ran amlder defnydd wedi newid ers 2015.

Ffigur 6: Defnyddio mapiau neu lywio lloeren ar ffôn clyfar: 2010-2016



M7D. O'r rhestr hon, dywedwch pa fath o bethau rydych chi'n defnyddio eich ffôn clyfar ar eu cyfer, a pha mor aml rydych chi'n gwneud pob un. (atebion wedi'u cynnig, un cod).
Sail: Pob oedolyn dros 16 oed sy'n defnyddio ffôn clyfar (1249 yn 2016).
Mae'r saethau'n dangos newidiadau arwyddocaol (lefel 95%) rhwng 2015 a 2016.

Wrth gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer defnyddwyr ffonau clyfar (42%), y rheini yn y grwpiau oed 16-24 (50%) a 25-34 (51%) sydd fwyaf tebygol o ddefnyddio nodweddion fel mapiau neu lywio lloeren ar eu ffôn o leiaf unwaith bob wythnos. Mae'r rheini yn y grwpiau oed 45-54 (34%), 55-64 (30%) neu 65+ (16%) yn llai tebygol o wneud hynny.

Mae dynion yn fwy tebygol na menywod o ddweud eu bod yn defnyddio'r nodweddion hyn ar eu ffôn clyfar o leiaf unwaith bob wythnos (46% o'i gymharu â 38%).

Llenwi ffurflenni

Mae chwech o bob deg sy'n defnyddio ffonau clyfar wedi defnyddio eu ffôn i lenwi ffurflen neu gais am rywbeth

Am y tro cyntaf yn 2016, gofynnwyd i ddefnyddwyr ffonau clyfar ynghylch pa mor aml oedden nhw'n defnyddio eu ffôn i lenwi ffurflen neu gais. Mae Ffigur 7 yn dangos bod mwy na chwech o bob deg (63%) sy'n defnyddio ffonau clyfar eu bod wedi gwneud hyn, ac mae un o bob wyth (12%) yn dweud eu bod yn ei wneud bob wythnos. Mae 17% arall yn dweud

eu bod yn ei wneud bob chwarter o leiaf, gyda thua un rhan o dair (35%) yn defnyddio eu ffôn ar gyfer hyn yn llai aml na bob chwarter.

Mae defnyddwyr ffonau clyfar yn y grwpiau oed 16-24 (78%) a 25-34 (76%) yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi defnyddio eu ffôn i lenwi ffurflen neu gais, gyda'r rheini dros 45 yn llai tebygol o ddweud eu bod wedi gwneud hyn (55% ar gyfer y grŵp oed 45-54, 41% ar gyfer y grŵp oed 55-64 a 29% ar gyfer y rheini dros 65 oed).

Wrth gymharu â'r cyfartaledd (63%), mae defnyddwyr ffonau clyfar 16+ oed mewn aelwydydd C2 (55%) yn llai tebygol o ddweud eu bod wedi defnyddio eu ffôn i lenwi ffurflen neu gais. Nid oes dim gwahaniaeth wrth gymharu'r canlyniadau ar gyfer dynion a menywod.

Ffigur 7: Defnyddio ffôn clyfar i lenwi ffurflen neu gais



M7A. O'r rhestr hon, dywedwch pa fath o bethau rydych chi'n defnyddio eich ffôn clyfar ar eu cyfer, a pha mor aml rydych chi'n gwneud pob un. (atebion wedi'u cynnig, un cod).
Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn sy'n defnyddio ffôn clyfar (1249 yn 16 oed a hŷn, 216 yn 16-24 oed, 247 yn 25-34 oed, 268 yn 35-44 oed, 235 yn 45-54 oed, 157 yn 55-64 oed, 126 yn 65 oed a hŷn, 305 – AB, 425 – C1, 247 – C2, 272 – DE, 598 – dynion, 651 – menywod).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (lefel 95%) yn ôl oed/grŵp economaidd-gymdeithasol wrth gymharu â phob defnyddiwr ffôn clyfar, a dynion wrth eu cymharu â menywod.

Mae'r rhan fwyaf sy'n defnyddio ffonau clyfar yn cytuno ei bod hi'n haws llenwi ffurflenni neu weithio ar ddogfennau ar gyfrifiadur.
Gofynnir i'r rheini sy'n defnyddio ffonau clyfar hefyd i ba raddau maen nhw'n cytuno â'r datganiad canlynol: "Mae llenwi ffurflenni a gweithio ar ddogfennau'n anoddach ar fy ffôn clyfar nag ar liniadur neu gyfrifiadur bwrdd gwaith".

At ei gilydd, mae saith o bob deg sy'n defnyddio ffonau clyfar yn cytuno (69%), gyda bron i hanner (46%) yn cytuno'n gryf. Mae un deg chwech yn anghytuno'n gyffredinol, naill ai'n gryf neu rywfaint.

Mae mwyafrif o ddefnyddwyr ym mhob grŵp oed yn cytuno'n gyffredinol, gyda'r rheini yn y grŵp oed 16-24 yn llai tebygol o gytuno'n gryf (36% o'i gymharu â 46%) a'r grŵp oed 55-64 yn fwy tebygol o gytuno'n gryf (66% o'i gymharu â 46%).

Wrth gymharu â'r cyfartaledd, mae defnyddwyr ffonau clyfar mewn aelwydydd AB yn fwy tebygol o gytuno (75% o'i gymharu â 69%) ac mae'r rheini mewn aelwydydd DE yn llai tebygol o gytuno (60% o'i gymharu â 69%).

Er bod dynion a menywod yn debygol o gytuno'n gyffredinol, mae dynion yn fwy tebygol o gytuno'n gryf (50% o'i gymharu â 42% ar gyfer menywod).

Ffigur 8: Cytuno â'r datganiad: "Mae llenwi ffurflenni a gweithio ar ddogfennau'n anoddach ar fy ffôn clyfar nag ar liniadur neu gyfrifiadur bwrdd gwaith", yn ôl oed, grŵp economaidd-gymdeithasol a rhyw



M6. Dywedwch wrtha i i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol - Mae llenwi ffurflenni a gweithio ar ddogfennau'n anoddach ar fy ffôn clyfar nag ar liniadur neu gyfrifiadur bwrdd gwaith (atebion wedi'u cynnig, un cod)
Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn sy'n defnyddio ffôn clyfar (1249 yn 16 oed a hŷn, 216 yn 16-24 oed, 247 yn 25-34 oed, 268 yn 35-44 oed, 235 yn 45-54 oed, 157 yn 55-64 oed, 126 yn 65 oed a hŷn, 305 – AB, 425 – C1, 247 – C2, 272 – DE, 598 – dynion, 651 – menywod).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (lefel 95%) yn ôl oed/grŵp economaidd-gymdeithasol wrth gymharu â phob defnyddiwr ffôn clyfar, a dynion wrth eu cymharu â menywod.

Dyfais cyfryngau y byddid yn gweld ei cholli fwyaf

Ffonau symudol ydy'r ddyfais y byddid yn gweld ei cholli fwyaf ymysg y grŵp oed 16-54, a'r teledu ydy'r ddyfais y byddid yn gweld ei cholli fwyaf ymysg y rheini sydd dros 55 oed.

Er mwyn deall y pwysigrwydd y mae pobl yn ei roi ar ddyfeisiau cyfryngau gwahanol, rydyn ni'n gofyn iddynt ddweud, o'r holl ddyfeisiau maent yn eu defnyddio, pa un ddyfais y byddent yn gweld ei cholli fwyaf petai'n cael ei chymryd oddi wrthynt.

Yn 2016 y ffôn symudol ydy'r ddyfais y mae oedolion yn gyffredinol yn dweud y byddent yn ei cholli fwyaf, a gafodd ei ddewis gan 41%. Dywed un oedolyn o bob tri y byddent yn gweld

colli'r teledu fwyaf (32%) a dywed un o bob deg y byddent yn gweld colli cyfrifiadur (cyfrifiadur bwrdd gwaith/gliniadur/cyfrifiadur gwe) fwyaf (11%). Dywedodd llai nag un oedolyn o bob deg y byddent yn gweld colli dyfais tabled (7%) neu set radio (3%).

Fel sy'n cael ei ddangos yn Ffigur 9 a Ffigur 10, mae nifer o wahaniaethau yn ôl grŵp demograffig:

- Y grwpiau oed 16-24 (74%), 25-34 (60%) a 35-44 (50%) sy'n fwy tebygol na'r cyfartaledd (41%) o ddweud y byddent yn gweld colli ffôn symudol fwyaf. Mae'r rheini yn y grŵp oed 16-24 wyth gwaith yn fwy tebygol o ddweud y byddent yn colli ffôn symudol yn fwy nag unrhyw ddyfais arall. Mae'r grwpiau oed 16-24 (8%) a 25-34 (17%) hefyd yn llai tebygol na'r cyfartaledd (32%) o ddweud y byddent yn gweld colli teledu ac mae'r rheini yn y grŵp oed 16-24 (3%) yn llai tebygol o ddweud y byddent yn gweld colli dyfais tabled (7% yn gyffredinol).

- Yn groes i gynny, mae'r grwpiau oed 55-64 (47%) a 65-74 (50%) yn fwy tebygol na'r cyfartaledd (32%) o ddweud y byddent yn gweld colli'r teledu fwyaf. Mae'r grwpiau oed 55-64 (20%) a 65-74s (20%) yn llai tebygol o ddweud y byddent yn gweld colli eu ffôn symudol fwyaf (41% yn gyffredinol).

- Mae oedolion sydd dros 75 yn fwy tebygol o ddweud y byddent yn gweld colli teledu fwyaf (69% o'i gymharu â 32%) a set radio (11% o'i gymharu â 3%). Maen nhw ddeg gwaith yn llai tebygol o ddweud y byddent yn gweld colli ffôn symudol, wrth gymharu â'r cyfartaledd (4% o'i gymharu â 41%).

- Mae aelwydydd AB yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o ddweud y byddent yn gweld colli cyfrifiadur (cyfrifiadur bwrdd gwaith/gliniadur/cyfrifiadur gwe) (18% o'i gymharu â 11%) a dyfais tabled (10% o'i gymharu â 7%). Mae aelwydydd C1 yn llai tebygol o weld colli teledu (26% o'i gymharu â 32%) ac mae oedolion C2 yn llai tebygol o weld colli cyfrifiadur (7% o'i gymharu â 11%). Mae oedolion mewn aelwydydd DE yn llai tebygol o weld colli cyfrifiadur (5% o'i gymharu â 11%) a dyfais tabled (3% o'i gymharu â 7%) ac yn fwy tebygol o weld colli teledu (40% o'i gymharu â 32%).

- Does dim ond un gwahaniaeth yn 2016 o ran rhyw - mae dynion yn fwy tebygol na menywod o ddweud y byddent yn gweld colli cyfrifiadur (13% o'i gymharu â 9%).

Ffigur 9: Y ddyfais cyfryngau y byddid yn gweld ei cholli fwyaf yn ôl oed



A3. Pa un o'r pethau hyn byddech chi'n gweld ei golli fwyaf petai'n cael ei gymryd oddi wrthych chi? (atebion wedi'u cynnig, un cod).
Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn (1846 yn 16 oed a hŷn, 234 yn 16-24 oed, 272 yn 25-34 oed, 313 yn 35-44 oed, 284 yn 45-54 oed, 270 yn 55-64 oed, 218 yn 65-74 oed, 255 yn 75 oed a hŷn). Dangos atebion gan >2% o'r holl oedolion.
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau sylweddol (lefel 95%) yn ôl oed wrth gymharu â'r holl oedolion.

Ffigur 10: Y ddyfais cyfryngau y byddid yn gweld ei cholli fwyaf yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol a rhyw



A3. Pa un o'r pethau hyn byddech chi'n gweld ei golli fwyaf petai'n cael ei gymryd oddi wrthych chi? (atebion wedi'u cynnig, un cod).
Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn (1846 yn 16 oed a hŷn, 427 – AB, 566 – C1, 369 – C2, 484 – DE, 885 – dynion, 961 – menywod). Dangos atebion gan >2% o'r holl oedolion.
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (lefel 95%) yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol wrth gymharu â phob oedolyn a dynion wrth gymharu â menywod.

Mae oedolion yn y grŵp oed 65-74 yn fwy tebygol o ddweud y byddent yn gweld colli eu ffôn symudol, o bosibl oherwydd y cynnydd yn y defnydd o ffonau clyfar.
Mae Ffigur 11 yn dangos unrhyw newid yn y dyfeisiau y byddid yn gweld eu colli fwyaf, dros amser, ymysg oedolion yn gyffredinol ac yn ôl oed.[4] Wrth gymharu â 2015 ni fu newid yn y dyfeisiau y mae oedolion yn dweud yn gyffredinol y byddent yn gweld eu colli fwyaf. Fodd bynnag, mae'r rheini yn y grŵp oed 16-24 yn fwy tebygol o ddweud y byddent yn gweld colli eu ffôn symudol fwyaf (74% o'i gymharu â 64%), ac mae'r rheini yn y grŵp oed 25-34 yn fwy tebygol o ddweud y byddent yn gweld colli eu dyfais tabled (6% o'i gymharu â 2%).

Gallai cynnydd yn y defnydd o ffonau clyfar ymysg y grŵp oed 65-74 a drafodwyd yn gynharach, fod yn rheswm pam mae'r grŵp oed hwn nawr ddwywaith mor debygol o ddewis eu ffôn symudol fel y ddyfais y byddent yn gweld ei cholli fwyaf (20% o'i gymharu â 10% yn 2015). Mae'r grŵp oed hwn yn llai tebygol o ddweud y byddent yn gweld colli eu set radio (5% o'i gymharu â 11%).

[4] Dylid felly trin y patrymau dros amser fel rhywbeth dangosol yn unig, oherwydd y newidiadau a wnaed i'r holiadur yn 2016 sydd o bosibl wedi effeithio ar y canlyniadau. Yn 2016 gofynnwyd i'r ymatebwyd am ddeg dyfais a pha rai ohonynt oedden nhw'n eu defnyddio'n bersonol, ac o'r rheini a oedd yn cael eu defnyddio, gofynnwyd iddynt ddewis pa un y byddent yn gweld ei cholli fwyaf. Yn 2015 soniwyd am 16 dyfais wrth yr ymatebwyr.

Ffigur 11: Dyfais cyfryngau y byddid yn gweld ei cholli fwyaf: 2014 o'i gymharu â 2015 a 2016



A3. Pa un o'r pethau hyn byddech chi'n gweld ei golli fwyaf petai'n cael ei gymryd oddi wrthych chi? (atebion wedi'u cynnig, un cod).
Sail: Pob oedolyn dros 16 oed (1841 yn 2015, 1846 yn 2016) Dangos atebion gan >2% o'r holl oedolion.
Mae'r saethau'n dangos newidiadau arwyddocaol (lefel 95%) rhwng 2015 a 2016.

5.5 Derbyn a defnyddio'r rhyngrwyd

Dyfeisiau a ddefnyddir i fynd ar-lein

Yn 2016 mae oedolion yn fwy tebygol o fynd ar-lein drwy ddefnyddio ffôn clyfar na chyfrifiadur

Yn 2016, yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol[5], gofynnwyd i oedolion am eu defnydd o ddyfeisiau amrywiol i fynd ar-lein. Dyma oedd y dyfeisiau hynny:

- ffôn clyfar;
- dyfais tabled (fel iPad neu Kindle Fire, wedi'i chynnwys ers 2010);
- cyfrifiadur – yn liniadur, yn gyfrifiadur bwrdd gwaith neu'n gyfrifiadur gwe (PC neu Mac);
- consol gemau neu chwaraewr gemau mae modd ei ddal yn eich llaw;
- teledu clyfar (wedi'i gynnwys ers 2013);
- chwaraewr ffrydio cyfryngau (fel Apple TV, Now TV, Amazon Fire, Chromecast neu Roku, wedi'i ychwanegu yn 2015);

[5] Yn 2016 rhoddwyd saith opsiwn i'r ymatebwyr i ddewis o'u plith, ond yn 2015 roeddent wedi cael 12 opsiwn. Gallai hyn effeithio ar y patrwm a gofnodir yma, yn enwedig wrth ystyried defnyddio dyfais i fynd ar-lein ar wahân i gyfrifiadur.

- technoleg mae modd ei gwisgo (fel oriawr clyfar) - wedi'i ddiwygio yn 2015[6].

Fel sy'n cael ei ddangos yn Ffigur 12, mae 66% o oedolion yn defnyddio ffôn clyfar i fynd ar-lein, ac mae tri o bob pump (62%) yn defnyddio cyfrifiadur[7]. Yn 2016, mae ffonau clyfar yn fwy tebygol na chyfrifiaduron i gael eu defnyddio i fynd ar-lein. Dywed hanner oedolion (49%) eu bod yn defnyddio dyfais tabled i fynd ar-lein. Mae un o bob saith (14%) yn mynd ar-lein ar deledu clyfar ac mae un o bob deg (11%) yn mynd ar-lein drwy gonsol gemau sefydlog neu gludadwy neu chwaraewr ffrydio cyfryngau (9%). Mae tri y cant o oedolion yn dweud eu bod yn mynd ar-lein drwy ddefnyddio technoleg mae modd ei gwisgo.

Wrth gymharu â 2015, mae oedolion yn llai tebygol o fynd ar-lein drwy ddefnyddio cyfrifiadur (62% o'i gymharu â 71%) ac yn fwy tebygol o ddefnyddio dyfais tabled (49% o'i gymharu â 45%). Bu twf hefyd yn y defnydd o chwaraewyr ffrydio cyfryngau (9% o'i gymharu â 5%) a thechnoleg mae modd ei gwisgo (3% o'i gymharu â 1%), ond bu gostyngiad yn y nifer sy'n defnyddio chwaraewr neu gonsol gemau at y diben hwn (11% o'i gymharu â 15% yn 2015).

Ffigur 12: Dyfeisiau a ddefnyddir i fynd ar-lein: 2010-2016



IN1/ IN2. Ydych chi byth yn mynd ar-lein/Ydych chi'n mynd ar-lein drwy ddefnyddio unrhyw rai o'r dyfeisiau hyn? (atebion wedi'u cynnig, sawl cod).
Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn (1846 yn 2016).
Mae'r saethau'n dangos newidiadau arwyddocaol (lefel 95%) rhwng 2015 a 2016.

Fel sy'n cael ei ddangos yn Ffigur 13, ni fu newid mewn defnyddio unrhyw ddyfais i fynd ar-lein wrth gymharu â'r llynedd (86% o'i gymharu â 87% yn 2015). Mae tri oedolyn o bob pedwar (75%) yn defnyddio dyfais ar wahân i gyfrifiadur (cyfrifiadur bwrdd gwaith/gliniadur/cyfrifiadur gwe) i fynd ar-lein, sydd hefyd heb newid ers 2015.

Mae chwarter oedolion (24%) nawr *ddim ond* yn defnyddio dyfais ar wahân i gyfrifiadur i fynd ar-lein; mae hyn yn fwy tebygol nawr nag yn 2015 (16%). Bydd wyth y cant o oedolion ond

[6] Yn 2014, y diffiniad a roddwyd i ymatebwyr oedd 'technoleg mae modd ei gwisgo fel oriawr clyfar (ee Pebble, Samsung, Sony ac ati) neu Google Glass. Ers 2015 cafodd y diffiniad ei ddiwygio i beidio â chyfeirio at Google Glass i 'technoleg mae modd ei gwisgo fel oriawr clyfar (fel Apple Watch).
[7] Cyn 2014, roedd defnyddio cyfrifiadur i fynd ar-lein ddim ond yn seiliedig ar ddefnydd yn y cartref ac nid mewn mannau eraill.

yn mynd ar-lein drwy ddefnyddio ffôn clyfar, cynnydd ers 2015 (6%). Er nad yw'n cael ei ddangos yn Ffigur 13, mae 4% o oedolion yn dweud eu bod ond yn mynd ar-lein drwy ddefnyddio cyfrifiadur tabled, sydd heb newid ers 2015 (3%).

Ffigur 13: Defnyddio dyfeisiau eraill i fynd ar-lein: 2010-2016



IN1/ IN2. Ydych chi byth yn mynd ar-lein/Ydych chi'n mynd ar-lein drwy ddefnyddio unrhyw rai o'r dyfeisiau hyn? (atebion wedi'u cynnig, sawl cod).
Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn (1846 yn 2016).
Mae'r saethau'n dangos newidiadau arwyddocaol (lefel 95%) rhwng 2015 a 2016.

Mae'r cynnydd mewn *dim ond* defnyddio dyfais ar wahân i gyfrifiadur i fynd ar-lein yn cael ei briodoli i'r grŵp oed 16-34

Mae Ffigur 14 a Ffigur 15 yn dangos y dyfeisiau mae modd eu defnyddio i fynd ar-lein, y gofynnwyd i oedolion amdanynt yn 2016. Mae Ffigur 14 yn rhannu hyn yn ôl oed ac mae Ffigur 15 yn ei rannu yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol a rhyw.

Mae'r profion arwyddocâd a ddangosir yn y ddau siart (a ddangosir gan y saethau) yn dangos unrhyw gynnydd neu ostyngiad rhwng 2015 a 2016 ymysg yr is-grwpiau sy'n cael eu dangos.

Cyn edrych ar y patrymau hyn dros amser, yn ôl math o ddyfais, mae hi'n werth nodi yn 2016, bod oedolion yn y grwpiau oed 16-24 (98%), 25-34 (97%), 35-44 (93%) a 45-54 (94%) yn fwy tebygol na'r cyfartaledd (86%) i fynd ar-lein. Mae'r rheini sydd yn y grwpiau oed 65-74 (65%) neu dros 75 (44%) yn llai tebygol o fynd ar-lein.

Mae'r rheini yn y grwpiau oed 16-24 a 25-34 yn fwy tebygol o fynd ar-lein ar ffôn clyfar (94% a 93% o'i gymharu â 66%) neu ar chwaraewr neu gonsol gemau (33% a 16% o'i gymharu â 11%). Wrth gymharu â'r cyfartaledd (24%), mae *dim ond* defnyddio dyfeisiau ar wahân i gyfrifiadur i fynd ar-lein yn fwy tebygol ymysg y grŵp oed 16-24 (31%) a 25-34 (37%), ac mae'r rheini yn y grŵp oed 25-34 ddwywaith yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o ddim ond defnyddio ffôn clyfar i fynd ar-lein (17% o'i gymharu â 8%).

Mae oedolion yn y grwpiau oed 35-44 (82%) a 45-54 (73%) hefyd yn fwy tebygol o ddefnyddio ffôn clyfar i fynd ar-lein; mae'r ail grŵp oed hwn hefyd yn fwy tebygol na'r cyfartaledd i fynd ar-lein ar gyfrifiadur (71% o'i gymharu â 62%), dyfais tabled (58% o'i gymharu â 49%) neu deledu clyfar (20% o'i gymharu â 14%). Mae oedolion yn y grŵp oed

45-54 yn llai tebygol o ddefnyddio consol neu chwaraewr gemau i fynd ar-lein (6% o'i gymharu â 11%).

Mae tair o'r dyfeisiau y gofynnwyd amdanynt yn llai tebygol o gael eu defnyddio gan y grŵp oed 55-64 i fynd ar-lein, wrth gymharu â'r cyfartaledd: ffonau clyfar (48% o'i gymharu â 66%), setiau teledu clyfar (9% o'i gymharu â 14%) a chwaraewyr/consolau gemau (1% o'i gymharu â 11%). Mae oedolion yn y grwpiau oed 65-74 a dros 75 yn llai tebygol na'r cyfartaledd o ddefnyddio pob un o'r dyfeisiau y gofynnwyd amdanynt i fynd ar-lein.

Fel sy'n cael ei ddangos gan y profion arwyddocâd yn Ffigur 14, mae modd priodoli'r twf neu'r gostyngiad cyffredinol ers 2015 yn y defnydd o rai dyfeisiau i fynd ar-lein, ar lefel gyffredinol, i grwpiau oed penodol:

- Mae'r gostyngiad cyffredinol mewn defnyddio cyfrifiadur i fynd ar-lein (62% o 71%) oherwydd gostyngiad ymysg y grŵp oed 25-34 (60% o 78%).
- Mae'r gostyngiad mewn defnyddio chwaraewr neu gonsol gemau i fynd ar-lein (11% o 15%) oherwydd gostyngiad ymysg y grŵp oed 25-34 (16% o 28%), 45-54 (6% o 13%) a 55-64 (1% o 6%).
- Mae'r cynnydd mewn defnyddio dyfais tabled i fynd ar-lein (49% o 45%) o ganlyniad i gynnydd yn y grwpiau oed 55-64 (49% o 38%) a dros 75 (23% o 14%).
- Mae modd priodoli'r cynnydd mewn defnyddio chwaraewyr ffrydio cyfryngau i fynd ar-lein i'r grŵp oed 65-74 (5% o 0%), ac mae modd priodoli'r cynnydd mewn defnyddio technoleg mae modd ei gwisgo i fynd ar-lein i'r grŵp oed 16-24 (3% o 0%).
- Mae modd priodoli'r cynnydd mewn *dim ond* defnyddio dyfais ar wahân i gyfrifiadur i fynd ar-lein (24% i fyny o 16%) i'r oedolion ieuengaf (31%, i fyny o 20% ar gyfer y grŵp oed 16-24, a 37%, i fyny o 19% ar gyfer y grŵp oed 25-34). Mae'r grŵp oed 25-34 hefyd yn llai tebygol nag oeddent yn 2015 o ddweud eu bod ond yn defnyddio ffôn clyfar i fynd ar-lein (17% o'i gymharu â 9%).

Ffigur 14: Dyfeisiau sy'n cael eu defnyddio i fynd ar-lein yn y cartref neu mewn mannau eraill, yn ôl oed y defnyddiwr

	Pob oedolyn	16-24	25-34	35-44	45-54	55-64	65-74	75+
Ffôn clyfar	66%	94%	93%	82%	73%	48%	26%	6%
Cyfrifiadur	62% ↓	68%	60% ↓	68%	71%	65%	52%	33%
Dyfais tabled	49% ↑	49%	55%	54%	58%	49% ↑	36%	23% ↑
Teledu clyfar	14%	20%	18%	19%	20%	9%	5%	2%
Consol/chwaraewr gemau	11% ↓	33%	16% ↓	13%	6% ↓	1% ↓	1%	0%
Chwaraewr ffrydio cyfryngau	9% ↑	11%	11%	12%	9%	5%	5% ↑	1%
Technoleg mae modd ei gwisgo	3% ↑	3% ↑	3%	3%	5%	1%	1%	0%
Mynd ar-lein	86%	98%	97%	93%	94%	82%	65%	44%
Dim ond defnyddio dyfais ar wahân i gyfrifiadur i fynd ar-lein	24% ↑	31% ↑	37% ↑	25%	23%	17%	12%	11%
Dim ond defnyddio ffôn clyfar i fynd ar-lein	8% ↑	12%	17% ↑	10%	8%	2%	1%	0%

IN1/ IN2. Ydych chi byth yn mynd ar-lein/Ydych chi'n mynd ar-lein drwy ddefnyddio unrhyw rai o'r dyfeisiau hyn? (atebion wedi'u cynnig, sawl cod).
Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn (1846 yn 16 oed a hŷn, 234 yn 16-24 oed, 272 yn 25-34 oed, 313 yn 35-44 oed, 284 yn 45-54 oed, 270 yn 55-64 oed, 218 yn 65-74 oed, 255 yn 75 oed a hŷn).
Mae'r saethau'n dangos newidiadau arwyddocaol (lefel 95%) rhwng 2015 a 2016.

Mae un oedolyn o bob tri yn y grŵp economaidd-gymdeithasol DE ond yn defnyddio dyfeisiau ar wahân i gyfrifiadur i fynd ar-lein

Wrth gymharu â'r cyfartaledd (86%), mae oedolion mewn aelwydydd AB (93%) ac aelwydydd C1 (93%) yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn mynd ar-lein, ac mae'r rheini mewn aelwydydd DE yn llai tebygol (73%).

Mae gwahaniaethau yn ôl grwpiau economaidd-gymdeithasol hefyd o ran y dyfeisiau sy'n cael eu defnyddio i fynd ar-lein. Wrth gymharu â'r cyfartaledd, mae pedair o'r dyfeisiau'n fwy tebygol o gael eu defnyddio gan oedolion AB i fynd ar-lein, ac yn llai tebygol o gael eu defnyddio i fynd ar-lein gan y rheini mewn aelwydydd DE: cyfrifiaduron (78% ar gyfer aelwydydd AB o'i gymharu â 39% ar gyfer aelwydydd DE), dyfeisiau tabled (59% o'i gymharu â 35%), setiau teledu clyfar (23% o'i gymharu â 7%) a chwaraewyr ffrydio cyfryngau (14% o'i gymharu â 5%). Ar ben hynny, mae oedolion mewn aelwydydd DE yn llai tebygol na'r cyfartaledd (66%) o fynd ar-lein drwy ddefnyddio ffôn clyfar (57%) ac mae'r rheini mewn aelwydydd C1 yn fwy tebygol (72%). Mae oedolion mewn aelwydydd C1 (71%) hefyd yn fwy tebygol o fynd ar-lein drwy ddefnyddio cyfrifiadur (62% yn gyffredinol).

Mae defnyddio technoleg mae modd ei gwisgo i fynd ar-lein hefyd yn fwy amlwg mewn aelwydydd AB (5% o'i gymharu â 3% yn gyffredino).

Wrth gymharu â'r cyfartaledd (24%), mae oedolion DE yn fwy tebygol o ddefnyddio *dim ond* dyfeisiau ar wahân i gyfrifiadur i fynd ar-lein (33%), ac mae oedolion AB yn llai tebygol o wneud hynny (15%). Mae wyth y cant o oedolion ond yn defnyddio ffôn clyfar i fynd ar-lein; mae oedolion mewn aelwydydd AB yn llai tebygol o wneud hyn (3%) ac mae oedolion mewn aelwydydd DE yn fwy tebygol (13%).

Er bod dynion (85%) yr un mor debygol â menywod (86%) i fynd ar-lein drwy ddefnyddio unrhyw ddyfais, maent yn fwy tebygol o fynd ar-lein drwy ddefnyddio pum dyfais benodol: cyfrifiadur (67% o'i gymharu â 58%), teledu clyfar (18% o'i gymharu â 11%), chwaraewr neu gonsol gemau (16% o'i gymharu â 5%), chwaraewr ffrydio cyfryngau (12% o'i gymharu â 6%) a thechnoleg mae modd ei gwisgo (4% vs. 1%). Fodd bynnag, mae menywod yn fwy tebygol o ddefnyddio *dim ond* dyfeisiau ar wahân i gyfrifiadur i fynd ar-lein (28% o'i gymharu â 19% ar gyfer dynion).

Fel sy'n cael ei ddangos gan y profion arwyddocâd yn Ffigur 15, mae modd priodoli'r twf neu'r gostyngiad cyffredinol ers 2015 yn y defnydd o rai dyfeisiau i fynd ar-lein i is-grwpiau penodol:

- Mae modd priodoli'r gostyngiad cyffredinol yn y defnydd o gyfrifiadur i fynd ar-lein i ostyngiad ymysg aelwydydd AB (78% o'i gymharu â 88% yn 2015), DE (39% o'i gymharu â 54%), dynion (67% o'i gymharu â 75%), a menywod (58% o'i gymharu â 68%).

- Mae'r cynnydd mewn defnyddio dyfais tabled i fynd ar-lein oherwydd aelwydydd C2 (46% o'i gymharu â 37%) a DE (35% o'i gymharu â 26%).

- Mae'r gostyngiad yn y nifer sy'n defnyddio chwaraewr neu gonsol gemau i fynd ar-lein ymysg aelwydydd C1 (11% o'i gymharu â 19%) a menywod (5% o'i gymharu â 13%).

- Mae'r cynnydd mewn defnyddio chwaraewr ffrydio cyfryngau i fynd ar-lein oherwydd aelwydydd AB (14% o'i gymharu â 9%), C2 (7% o'i gymharu â 3%), DE (5% o'i gymharu â 2%) a dynion (12% o'i gymharu â 6%).

- Mae'r cynnydd mewn defnyddio technoleg mae modd ei gwisgo i fynd ar-lein yn amlwg ar gyfer aelwydydd AB (5% o'i gymharu â 2%), C2 (2% o'i gymharu â 0%), dynion (4% o'i gymharu â 2%) a menywod (1% o'i gymharu â 0%).

- Mae'r cynnydd cyffredinol mewn *dim ond* defnyddio dyfais ar wahân i gyfrifiadur i fynd ar-lein i'w weld ar draws pob un o'r pedwar grŵp economaidd-gymdeithasol, ac ymysg dynion a menywod, ac mae'r cynnydd mewn dim ond defnyddio ffôn clyfar i fynd ar-lein oherwydd y rheini yn y grŵp economaidd-gymdeithasol C1 (8% o'i gymharu â 3%).

Ffigur 15: Dyfeisiau sy'n cael eu defnyddio i fynd ar-lein, yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol a rhyw

	Pob oedolyn	AB	C1	C2	DE	Dynion	Menywod
Ffôn clyfar	66%	70%	72%	62%	57%	66%	66%
Cyfrifiadur	62% ↓	78% ↓	71%	58%	39% ↓	67% ↓	58% ↓
Dyfais tabled	49% ↑	59%	53%	46% ↑	35% ↑	48%	49%
Teledu clyfar	14%	23%	14%	12%	7%	18%	11%
Consol/chwaraewr gemau	11% ↓	12%	11% ↓	11%	9%	16%	5% ↓
Chwaraewr ffrydio cyfryngau	9% ↑	14% ↑	8%	7% ↑	5% ↑	12% ↑	6%
Technoleg mae modd ei gwisgo	3% ↑	5% ↑	2%	2% ↑	1%	4% ↑	1% ↑
Mynd ar-lein	86%	93%	93%	84%	73%	85%	86%
Dim ond defnyddio dyfeisiau eraill ar wahân i gyfrifiadur i fynd ar-lein	24% ↑	15% ↑	22% ↑	26% ↑	33% ↑	19% ↑	28% ↑
Dim ond defnyddio ffôn clyfar i fynd ar-lein	8% ↑	3%	8% ↑	8%	13%	7%	9%

IN1/ IN2. Ydych chi byth yn mynd ar-lein/Ydych chi'n mynd ar-lein drwy ddefnyddio unrhyw rai o'r dyfeisiau hyn? (atebion wedi'u cynnig, sawl cod).
Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn (1846 yn 16 oed a hŷn, 427 – AB, 566 – C1, 369 – C2, 484 – DE). Mae'r profion arwyddocâd yn dangos unrhyw newid rhwng 2015 a 2016.
Mae'r saethau'n dangos newidiadau arwyddocaol (lefel 95%) rhwng 2015 a 2016.

Faint mae pobl yn defnyddio'r rhyngrwyd

Mae oedolion iau yn dal i gofnodi'r lefel wythnosol uchaf o ran defnyddio'r rhyngrwyd

Gofynnir i oedolion sy'n mynd ar-lein gartref neu mewn mannau arall i amcangyfrif sawl awr mewn wythnos arferol maen nhw'n defnyddio'r rhyngrwyd ym mhob un o'r tri lleoliad: yn y cartref, yn y gweithle neu leoliad addysg, ac unrhyw le arall. Mae Ffigur 16 yn cymharu'r cyfartaledd ymysg pawb sy'n defnyddio'r rhyngrwyd yn ôl blwyddyn. Oherwydd bod pobl yn cofnodi'r amcangyfrifon hyn eu hunain mae'n debyg y bydd rhywfaint o gofnodi gormod a rhywfaint o beidio â chofnodi digon, a dylid trin y canlyniadau fel rhai dangosol yn unig.

Nid ydy cyfanswm nifer yr oriau wythnosol cyfartalog sy'n cael eu treulio ar-lein wedi newid ers 2015 (22.9 o'i gymharu â 21.6 awr yn 2015) ac ni fu dim newid yn nifer yr oriau sy'n cael eu treulio ar-lein yn y gweithle neu mewn lleoliad addysg (5.9 o'i gymharu â 6.0 awr) nac yn unman arall (2.1 o'i gymharu â 2.2 awr). Wrth gymharu â 2015, mae oedolion yn dweud eu bod yn treulio mwy o oriau ar-lein gartref (14.8 o'i gymharu â 13.4 awr yn 2015).

Er nad yw'n cael ei ddangos yn Ffigur 16, mae gwahaniaethau yn ôl grwpiau demograffig, o ran faint o amser mae pobl yn ei dreulio ar-lein:

- Mae defnyddwyr iau'r rhyngrwyd yn defnyddio'r rhyngrwyd am fwy o amser bob wythnos na defnyddwyr cyffredinol y rhyngrwyd (35.2 awr ar gyfer y grŵp oed 16-24 a 26.4 awr ar gyfer y grŵp oed 25-34). Mae'r lefel yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer y grŵp oed 25-34 gartref (17.1 o'i gymharu â 14.8 awr) ond ar gyfer y grŵp oed 16-24, mae'r lefel yn uwch na'r cyfartaledd yn y tri lleoliad.

- Mae'r rheini sydd yn y grŵp oed 45-54 yn defnyddio'r rhyngrwyd llai gartref (12.5 o'i gymharu â 14.8 awr). Mae defnyddwyr rhyngrwyd yn y grŵp oed 55-64 yn defnyddio'r rhyngrwyd llai bob wythnos (17.1 o'i gymharu â 22.9 awr) oherwydd lefelau is o ddefnydd wythnosol yn y cartref (10.5 o'i gymharu â 14.8 awr) ac mewn lleoliadau ar wahân i'r cartref neu'r gwaith/lleoliad addysg (0.6 awr o'i gymharu â 2.1 awr).

- Mae'r rheini yn y grwpiau oed 65-74 a 75+ yn defnyddio'r rhyngrwyd llai bob wythnos wrth gymharu â defnyddwyr rhyngrwyd yn gyffredinol (14.8 awr ar gyfer y grŵp oed 65-74, 7.4 awr ar gyfer y rheini dros 75). Ar gyfer y rheini yn y grŵp oed 65-74 mae'r defnydd yn is yn y gweithle/lleoliad addysg ac unrhyw le arall, ond nid yw'r defnydd yn y cartref yn wahanol i lefelau pawb arall sy'n defnyddio'r rhyngrwyd. Ar gyfer y rheini sy'n 75 oed a hŷn, mae defnyddio'r rhyngrwyd yn is na'r cyfartaledd yn y tri lleoliad.

- Mae gan ddefnyddwyr sy'n oedolion yn y grŵp economaidd-gymdeithasol AB gyfartaledd cyffredinol tebyg i ddefnyddwyr rhyngrwyd yn gyffredinol, ond mae eu defnydd yn uwch yn y gweithle/lleoliad addysg (8.9 o'i gymharu â 5.9 awr). Mae gan ddefnyddwyr yn y grŵp economaidd-gymdeithasol C1 gyfartaledd wythnosol cyfartalog uwch (25.4 awr) na'r holl ddefnyddwyr rhyngrwyd (22.9 awr), gyda rhagor o oriau'n cael eu treulio ar-lein yn y gweithle neu mewn lleoliad addysg (7.7 awr).

- Mae gan oedolion yn y grŵp economaidd-gymdeithasol C2 gyfartaledd defnyddio wythnosol is wrth gymharu â defnyddwyr yn gyffredinol (18.5 o'i gymharu â 22.9 awr), oherwydd defnydd is yn y gweithle/lleoliad addysg (3.4 o'i gymharu â 5.9 awr). Mae gan y rheini sydd yn y grŵp economaidd-gymdeithasol DE lefel is na'r cyfartaledd o ran defnydd yn y gweithle/lleoliad addysg (2.0 o'i gymharu â 5.9 awr).

- Nid ydy'r lefel defnydd wythnosol cyffredinol a amcangyfrifir yn wahanol rhwng dynion a menywod. Fodd bynnag, mae dynion yn fwy tebygol na menywod o fod â lefelau defnydd uwch yn y gweithle/lleoliad addysg (6.6 o'i gymharu â 5.3 awr) ac mewn lleoliadau ar wahân i'r cartref neu waith/lleoliad addysg (2.4 o'i gymharu â 1.9 awr).

Ffigur 16: Defnyddio'r rhyngrwyd bob wythnos: 2005-2016



IN5A-C. Am sawl awr yr wythnos y byddech chi'n dweud eich bod yn defnyddio'r rhyngrwyd gartref/yn eich gweithle neu eich lleoliad addysg/unrhyw le arall? (atebion heb eu cynnig, un cod).
Sail: Pob oedolyn sy'n 16 oed neu hŷn sy'n mynd ar-lein gartref neu yn rhywle arall (1553 yn 2016).
Mae'r saethau'n dangos newidiadau arwyddocaol (lefel 95%) rhwng 2015 a 2016.

Gweithgareddau ar-lein a wnaed yn rheolaidd (yn ystod yr wythnos diwethaf)

Roedd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr rhyngrwyd wedi defnyddio'r rhyngrwyd ar gyfer pedwar math o weithgaredd yn ystod yr wythnos flaenorol: e-bost, bancio, cyfathrebu a thrafodion

Agwedd arall ar ddeall defnydd ar-lein ydy edrych ar y mathau o weithgareddau mae pobl yn eu gwneud. Mewn adroddiadau blaenorol, roedd y canlyniadau ar gyfer gweithgareddau ar-lein yn dod o'r Traciwr Llythrennedd yn y Cyfryngau. Yn 2016, roedden ni wedi adolygu'r cwestiynau a oedd yn ymwneud â math ac amlder defnyddio'r rhyngrwyd. Gofynnwyd cyfres fyrrach o gwestiynau i'r oedolion sy'n mynd ar-lein, a chafodd yr opsiynau amlder roedd modd i'r ymatebwyr eu dewis eu diwygio.

Mae astudiaeth Traciwr Technoleg Ofcom hefyd yn cynnwys cwestiynau am fathau ac amlder defnyddio'r rhyngrwyd, ac mae'r canlyniadau sydd wedi cael eu cynnwys yma yn dod o'r ymchwil a gynhaliwyd yn yr astudiaeth honno yn 2017.

Dangosir 24 o weithgareddau gwahanol mae modd eu gwneud ar y rhyngrwyd i'r defnyddwyr rhyngrwyd a gofynnir iddynt pa rai ohonynt, os o gwbl, maen nhw wedi bod ar-lein i'w gwneud, a pha rai o'r rhain maen nhw wedi'u gwneud yn ystod yr wythnos diwethaf.

Wrth gofnodi'r gweithgareddau hyn, rydyn ni'n canolbwyntio i ddechrau ar y rheini a gafodd eu gwneud yn ystod yr wythnos flaenorol, er mwyn gweld unrhyw wahaniaethau mewn gweithgareddau sy'n cael eu gwneud yn arferol/rheolaidd. Yn nes ymlaen, yn Adrannau 6 a 7 yr adroddiad hwn, rydyn ni'n edrych yn fanylach ar rai gweithgareddau ar-lein unigol yn ôl pa mor aml maen nhw'n cael eu gwneud.

Ar gyfer y dadansoddiad cychwynnol hwn, mae 23 o'r 24 o weithgareddau[8] wedi cael eu grwpio yn 15 math o ddefnydd, er mwyn gallu cymharu'n ehangach. Mae'r 15 math hyn cael eu manylu yn **Error! Reference source not found.**.

Mae **Error! Reference source not found.** a **Error! Reference source not found.** yn dangos y 15 categori cyffredinol ymysg defnyddwyr y rhyngrwyd, er mwyn gallu cymharu rhwng grwpiau oed, grwpiau economaidd-gymdeithasol ac yn ôl rhyw. Fel y manylir uchod, mae'r data wedi dod o Draciwr Technoleg Ofcom. [9]

1.

[8] At ddibenion y dadansoddiad hwn, nid yw'r gweithgaredd 'Syrffio cyffredinol/pori'r we' wedi cael ei gynnwys.

[9] Mae rhywfaint o orgyffwrdd o ran y mathau o ddefnydd y gofynnir amdano yn y Traciwr Technoleg a'r Traciwr Llythrennedd yn y Cyfryngau, sy'n ymwneud â defnyddio'r rhyngrwyd ar gyfer newyddion, rhwydweithio cymdeithasol, gwasanaethau'r llywodraeth a gwylio cynnwys fideo. Mae'r categorïau defnydd sy'n cael eu dangos yn yr adran hon o'r Traciwr Technoleg yn tueddu i grwpio nifer o fesurau unigol o dan un pennaw, ac nid ydy'r cwestiynau a ofynnir i ddod o hyd i'r mathau o ddefnydd yr un fath ar draws y dau fath o arolwg. Pan fo'n bosibl rydyn ni wedi blaenoriaethu'r dat sydd wedi cael ei gasglu drwy'r Traciwr Llythrennedd yn y Cyfryngau, rydyn ni'n ei ddefnyddio ac yn adrodd arno mewn rhagor o fanylder yn nes ymlaen: cael gafael ar wefannau newyddion/gwleidyddiaeth/materion cyfoes yn nes ymlaen (Ffigur 43 ymlaen), cael proffil / cyfrif cyfryngau cymdeithasol (Ffigur 21 ymlaen), cael gafael ar wasanaethau'r llywodraeth (**Error! Reference source not found.** ymlaen) a gwylio safleoedd rhannu fideos (Ffigur 39 ymlaen).

Ffigur 17: Gweithgareddau mae'r rhyngrwyd yn cael eu defnyddio ar eu cyfer, yn ôl categori

Categori	Gweithgareddau unigol wedi'u cynnwys mewn categori
E-bost	• Anfon/derbyn negeseuon e-bost
Bancio	• Bancio
Cyfathrebiadau	• Cyfathrebu drwy ddefnyddio negeseuon gwib ee Facebook Chat, Skype Chat, Snapchat • Gwneud galwadau llais gan ddefnyddio gwasanaeth VoIP ee Skype • Gwneud galwadau llais ee drwy FaceTime, Skype
Trafodion	• Siopa ar-lein (prynu nwyddau/gwasanaethau/tocynnau ac ati) • Masnachu/arwerthiannau ee eBay
Cyfryngau Cymdeithasol	• Defnyddio rhwydweithio cymdeithasol (fel Facebook, LinkedIn, Bebo neu Snapchat) • Defnyddio Twitter (pori/darllen/postio ar safle)
Newyddion	• Cael gafael ar newyddion
Gwybodaeth ar gyfer gwaith/ysgol/coleg	• Dod o hyd i wybodaeth neu ei llwytho i lawr ar gyfer gwaith/busnes/ysgol/coleg/prifysgol/gwaith cartref
Gwylio clipiau fideo byr	• Gwylio clipiau fideo byr (ee ar YouTube, Dailymotion, Vimeo neu Facebook)

Categori	Gweithgareddau unigol wedi'u cynnwys mewn categori
Gwylio cynnwys ar y teledu	• Gwylio rhaglenni teledu neu ffilmiau ar-lein
Iechyd	• Dod o hyd i wybodaeth am faterion sy'n ymwneud ag iechyd
Gwasanaethau Radio/Sain	• Gwrando ar y radio • Gwasanaethau sain wedi'u ffrydio (di-dâl) ee Spotify (di-dâl) neu Deezer (di-dâl) • Gwasanaethau sain wedi'u ffrydio (tanysgrifio) ee Spotify Premium, Apple Music neu Deezer Premium
Gwasanaethau'r lywodraeth	• Defnyddio safleoedd y cyngor lleol/llywodraeth ee i ddod o hyd i wybodaeth, i gyflawni tasgau fel llenwi ffurflenni treth, i gysylltu â'r AS lleol
Gemau	• Chwarae gemau ar-lein neu'n rhyngweithiol
Llwytho cynnwys i fyny/ychwanegu cynnwys	• Llwytho cynnwys i fyny/ychwanegu cynnwys at y rhyngrwyd ee lluniau, fideos, negeseuon blog
O bell	• Cael mynediad at ffeiliau drwy wasanaeth cwmwl fel Dropbox, Google Drive, Microsoft OneDrive neu Apple iCloud • Rheoli gwasanaethau teledu yn y cartref o bell, fel Sky+, Sky Q neu Tivo gan ddefnyddio dyfais ar-lein • Rheoli neu fonitro offer yn y cartref o bell, ee oergell, popty, peiriant golchi, peiriant sychu dillad a/neu'r system wresogi'r cartref, y system ddiogelwch neu oleuadau neu ddefnydd ynni yn y cartref

Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom, Hanner 1 2017
CE5A/ CE5B. Pa rai, os o gwbl, o'r rhain ydych chi'n defnyddio'r rhyngrwyd ar eu cyfer? (Atebion wedi'u cynnig, sawl cod)/ A, pha rai, os o gwbl, o'r gweithgareddau hyn ydych chi wedi defnyddio'r rhyngrwyd ar eu cyfer yn yr wythnos diwethaf? (atebion wedi'u cynnig, sawl cod).

Wrth gymharu â'r cyfartaledd mae'r rheini yn y grŵp oed 16-44 yn fwy tebygol, a'r rheini sydd dros 55 yn llai tebygol, o fod wedi gwneud y rhan fwyaf o fathau o ddefnyddio'r rhyngrwyd yn ystod yr wythnos flaenorol

Mae Ffigur 18 yn dangos cyfran y defnyddwyr rhyngrwyd a oedd wedi gwneud pob un o'r 15 categori defnydd rhyngrwyd yn ystod yr wythnos flaenorol, ar lefel gyffredinol ac yn ôl oed. At ei gilydd, mae'r rheini sydd dan 45 oed yn fwy tebygol na'r defnyddiwr rhyngrwyd cyfartalog i fod wedi cynnal nifer o weithgareddau ar-lein yn ystod yr wythnos flaenorol, ac mae'r rheini sydd dros 55 yn llai tebygol.

- Mae defnyddwyr y rhyngrwyd 16-24 oed yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o fod wedi gwneud wyth o'r 15 math o ddefnydd yn ystod yr wythnos diwethaf: cyfathrebu (72% o'i gymharu â 53%), cyfryngau cymdeithasol (67% o'i gymharu â 49%), chwilio am wybodaeth ar gyfer gwaith/ysgol/coleg (41% o'i gymharu â 32%), gwylio clipiau fideo byr (45% o'i gymharu â 31%), gwylio cynnwys teledu (32% o'i gymharu â 24%), defnyddio gwasanaethau radio/sain (30% o'i gymharu â 22%), ar gyfer gemau (28% o'i gymharu â 17%) ac ychwanegu / llwytho cynnwys i fyny (28% o'i gymharu â 17%). Wrth gymharu â'r cyfartaledd, mae'r rheini yn y grŵp oed 16-24 yn llai tebygol o fod wedi defnyddio gwasanaethau'r Llywodraeth yn ystod yr wythnos diwethaf (14% o'i gymharu â 21%).

- Mae'r rheini yn y grŵp oed 25-34 yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o fod wedi mynd ar-lein yn ystod yr wythnos flaenorol ar gyfer 11 o'r 15 math o ddefnydd: e-bost (81% o'i gymharu â 76%), bancio (66% o'i gymharu â 53%), cyfathrebu (70% o'i gymharu â 53%), trafodion (62% o'i gymharu â 52%), cyfryngau cymdeithasol (61% o'i gymharu â 49%), gwylio clipiau fideo byr (40% o'i gymharu â 31%), gwylio cynnwys teledu (30% o'i gymharu â 24%), defnyddio gwasanaethau sain/radio (29% o'i gymharu â 22%), ar gyfer gemau (26% o'i gymharu â 17%) ychwanegu/llwytho cynnwys i fyny (23% o'i gymharu â 17%) ac ar gyfer gweithgareddau o bell (23% o'i gymharu â 17%).

- Mae'r rheini yn y grŵp oed 35-44 yn fwy tebygol na'r cyfartaledd i wneud wyth math o ddefnydd: e-bost (81% o'i gymharu â 76%), bancio (61% o'i gymharu â 53%), trafodion (59% o'i gymharu â 52%), cyfryngau cymdeithasol (54% o'i gymharu â 49%), newyddion (43% o'i gymharu â 36%), chwilio am wybodaeth ar gyfer gwaith/ysgol/coleg (37% o'i gymharu â 32%), iechyd (27% o'i gymharu â 22%) a gwasanaethau'r Llywodraeth (26% o'i gymharu â 21%).

- Nid yw defnydd y grŵp oed 45-54 o'r rhyngrwyd yn ystod yr wythnos flaenorol yn ddim gwahanol i ddefnyddiwr rhyngrwyd cyfartalog ar gyfer unrhyw un o'r 15 categori.

- Mae'r rheini yn y grŵp oed 55-64 yn llai tebygol na'r cyfartaledd o fod wedi mynd ar-lein yn ystod yr wythnos flaenorol ar gyfer deg o'r gweithgareddau: bancio (47% o'i gymharu â 53%), cyfathrebu (39% o'i gymharu â 53%), trafodion (46% o'i gymharu â 52%), cyfryngau cymdeithasol (33% o'i gymharu â 49%), gwybodaeth ar gyfer gwaith/ysgol/coleg (26% o'i gymharu â 32%), gwylio clipiau fideo byr (22% o'i gymharu â 31%), gwylio cynnwys teledu (19% o'i gymharu â 24%), defnyddio gwasanaethau sain/radio (14% o'i gymharu â 22%), ar gyfer gemau (9% o'i gymharu â 17%) ac i ychwanegu/llwytho cynnwys i fyny (12% o'i gymharu â 17%).

- Mae defnyddwyr rhyngrwyd yn y grŵp oed 65-74 a'r rheini sydd dros 75 yn llai tebygol na'r cyfartaledd o fod wedi gwneud y 15 math o weithgaredd yn ystod yr wythnos flaenorol. O'r herwydd, mae'r naill grŵp oed a'r llall yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o ddweud nad ydynt wedi gwneud dim un o'r mathau hyn o ddefnydd yn ystod yr wythnos flaenorol (16% ar gyfer 65-74, 28% ar gyfer 75+ o'i gymharu â 8% yn gyffredinol).

Ffigur 18: Gweithgareddau mae'r rhyngrwyd wedi cael ei ddefnyddio ar eu cyfer yn ystod yr wythnos diwethaf, yn ôl oed

Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom, Hanner 1 2017
CE5B. A pha rai, os o gwbl, o'r gweithgareddau hyn ydych chi wedi defnyddio'r rhyngrwyd ar eu cyfer yn yr wythnos diwethaf? (atebion wedi'u cynnig, sawl cod).
Sail: Pob oedolyn sy'n mynd ar-lein (3221 yn 2017, 506 yn 16-24 oed, 536 yn 25-34 oed, 613 yn 35-44 oed, 531 yn 45-54 oed, 520 yn 55-64 oed, 364 yn 65-74 oed, 151 yn 75 oed a hŷn).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau sylweddol (lefel 95%) yn ôl oed wrth gymharu â'r holl ddefnyddwyr rhyngrwyd.

Mae defnydd y rheini yn y grŵp economaidd-gymdeithasol AB o'r rhyngrwyd yn wythnosol yn ehangach

Pan fydd gwahaniaethau rhwng y grwpiau economaidd-gymdeithasol, mae'n tueddu i fod yn wir fod aelwydydd AB yn fwy tebygol na defnyddwyr rhyngrwyd yn gyffredinol i fod wedi gwneud gweithgaredd yn ystod yr wythnos flaenorol, ac mae aelwydydd DE yn llai tebygol.

Mae un deg pedwar o'r 15 math o weithgaredd yn fwy tebygol o fod wedi cael eu gwneud yn ystod yr wythnos flaenorol gan oedolion AB, gyda dim ond gemau'n cyfateb i'r cyfartaledd.

Yn wahanol i'r uchod, mae oedolion DE yn llai tebygol o fod wedi bod ar-lein yn ystod yr wythnos flaenorol ar gyfer deg o'r 15 math o weithgaredd: e-bost (60% o'i gymharu â 76%), bancio (38% o'i gymharu â 53%), trafodion (40% o'i gymharu â 52%), newyddion (25% o'i gymharu â 36%), gwybodaeth ar gyfer gwaith/ysgol/coleg (20% o'i gymharu â 32%), iechyd (17% o'i gymharu â 22%), defnyddio gwasanaethau sain/radio (16% o'i gymharu â 22%), gwasanaethau'r Llywodraeth (13% o'i gymharu â 21%), ychwanegu/llwytho cynnwys i fyny (13% o'i gymharu â 17%) ac ar gyfer gweithgareddau o bell (10% o'i gymharu â 17%).

Nid yw defnydd oedolion C1 o'r rhyngrwyd yn ystod yr wythnos flaenorol yn ddim gwahanol i ddefnyddiwr rhyngrwyd cyfartalog ar gyfer unrhyw un o'r 15 categori unigol. Fodd bynnag, maent yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o ddweud eu bod wedi gwneud unrhyw un o'r 15 gweithgaredd yn ystod yr wythnos flaenorol (94% o'i gymharu â 92%).

Wrth gymharu â'r cyfartaledd, mae defnyddwyr y rhyngrwyd mewn aelwydydd C2 yn llai tebygol o fod wedi gwneud wyth gweithgaredd yn ystod yr wythnos flaenorol: e-bost (69% o'i gymharu â 76%), cyfryngau cymdeithasol (43% o'i gymharu â 49%), newyddion (26% o'i gymharu â 36%), gwybodaeth ar gyfer gwaith/ysgol/coleg (25% o'i gymharu â 32%), gwylio clipiau fideo byr (25% o'i gymharu â 31%), iechyd (14% o'i gymharu â 22%), gwasanaethau'r Llywodraeth (15% o'i gymharu â 21%) a gweithgareddau o bell (13% o'i gymharu â 17%).

Mae gwahaniaethau rhwng dynion a menywod hefyd. Mae dynion yn fwy tebygol na menywod o fod wedi bod ar-lein yn ystod yr wythnos flaenorol ar gyfer newyddion (40% o'i gymharu â 34%), gwybodaeth ar gyfer gwaith/ysgol/coleg (35% o'i gymharu â 29%), gwylio cynnwys teledu (29% o'i gymharu â 20%), ar gyfer gwasanaethau sain/radio (24% o'i gymharu â 19%) ac ar gyfer gwasanaethau'r Llywodraeth (23% o'i gymharu â 19%). Mae menywod yn fwy tebygol na dynion o fod wedi bod ar-lein yn ystod yr wythnos flaenorol ar gyfer cyfryngau cymdeithasol (51% o'i gymharu â 46%) ac ar gyfer iechyd (24% o'i gymharu â 19%).

Ffigur 19: Gweithgareddau y defnyddiwyd y rhyngrwyd ar eu cyfer yn ystod yr wythnos flaenorol, yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol a rhyw

Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom, Hanner 1 2017
CE5B. A pha rai, os o gwbl, o'r gweithgareddau hyn ydych chi wedi defnyddio'r rhyngrwyd ar eu cyfer yn yr wythnos diwethaf? (atebion wedi'u cynnig, sawl cod).
Sail: Pob oedolyn sy'n mynd ar-lein (3221 yn 2017, 789 AB, 1019 C1, 679 C2, 731DE, 1570 dynion, 1651 menywod).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (lefel 95%) yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol wrth gymharu â phob defnyddiwr rhyngrwyd a dynion wrth gymharu â menywod.

1.1 Gemau

Gemau, ar draws dyfeisiau

Wrth gymharu â 2015 mae oedolion yn llai tebygol o ddweud eu bod byth yn chwarae gemau

Dangosir rhestr i oedolion o ddyfeisiau mae modd eu defnyddio ar gyfer gemau, a gofynnir iddynt ddweud pa rai byddant yn eu defnyddio yn y cartref neu mewn mannau eraill (gweler Ffigur 20). Mae mwy nag un oedolyn o bob tri (37%) yn y DU yn defnyddio unrhyw un o'r dyfeisiau rydyn ni'n holi yn eu cylch ar gyfer gemau - gostyngiad o'i gymharu â 2015 (41%). Mae mwy nag un oedolyn o bob pump yn chwarae gemau ar ffôn symudol (19%), gyda mwy nag un o bob deg yn gwneud hynny ar gonsol gemau sydd wedi'i gysylltu â theledu (15%), ar ddyfais tabled (12%), neu ar gyfrifiadur bwrdd gwaith/gliniadur/cyfrifiadur gwe (11%). Dywed llai nag un oedolyn o bobl deg (5%) eu bod yn chwarae gemau ar gonsol gemau mae modd ei ddal yn eich llaw (fel Sony PS Vita neu Nintendo 3DS) neu drwy deledu clyfar (1%). Mae modd priodoli'r gostyngiad cyffredinol mewn chwarae gemau o'i gymharu â 2015 i ostyngiad mewn chwarae gemau ar ffôn symudol (19% o'i gymharu â 26%) a drwy gyfrifiadur bwrdd gwaith/gliniadur/cyfrifiadur gwe (11% o'i gymharu â 14%).

Ffigur 20: Dyfeisiau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer chwarae gemau gartref neu mewn mannau eraill: 2010-2016



G1. Ydych chi byth yn chwarae gemau gartref neu yn rhywle arall yn unrhyw un o'r ffyrdd hyn? (atebion wedi'u cynnig, sawl cod).
Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn (1846 yn 2016).
Mae'r saethau'n dangos newidiadau arwyddocaol (lefel 95%) rhwng 2015 a 2016.

Fel sy'n cael ei ddangos yn Ffigur 21, yn 2016, mae oedolion iau (16-34 oed) yn fwy tebygol na'r cyfartaledd i ddefnyddio unrhyw rai o'r dyfeisiau ar gyfer gemau (67% o'r grŵp oed 16-24 a 50% o'r grŵp oed 25-34 o'i gymharu â 37% yn gyffredinol), ac mae'r rheini dros 45 oed yn llai tebygol (27% o'r grŵp oed 45-54, 23% o'r grŵp oed 55-64, 21% o'r grŵp oed 65-74, a 13% o'r rheini dros 75).

- Mae'r rheini yn y grŵp oed 16-24 yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o chwarae gemau ar y dyfeisiau canlynol: ffôn symudol neu ffôn clyfar (40% o'i gymharu â 19%), ar gonsol gemau sydd wedi'i gysylltu â theledu (41% o'i gymharu â 15%), ar gyfrifiadur bwrdd gwaith, gliniadur neu gyfrifiadur gwe (19% o'i gymharu â 11%) ac ar gonsol gemau mae modd ei ddal yn eich llaw (15% o'i gymharu â 5%).

- Mae'r rheini yn y grwpiau oed 25-34 a 35-44 yn fwy tebygol o chwarae gemau ar ffonau symudol (27% ar gyfer y ddau o'i gymharu â 19% yn gyffredinol). Mae'r rheini yn y grŵp oed 25-34 hefyd yn fwy tebygol o chwarae ar gonsol gemau sydd wedi'i gysylltu â theledu (27% o'i gymharu â 15%).

- Mae'r rheini yn y grŵp oed 45-54 yn llai tebygol o chwarae gemau ar gonsol gemau sydd wedi'i gysylltu â theledu (5% o'i gymharu â 15%) neu ar gyfrifiadur bwrdd gwaith/gliniadur/cyfrifiadur gwe (6% o'i gymharu â 11%).

- Mae'r rheini sydd yn y grwpiau oed 55-64 a 65-74 yn llai tebygol o chwarae gemau ar ffonau symudol (6% a 4% o'i gymharu ag 19%), ar gonsol gemau sydd wedi'i gysylltu â theledu (5% a 2% o'i gymharu â 15%) neu ar gonsol gemau mae modd ei ddal yn eich llaw (2% ac 1% o'i gymharu â 5%).

- Mae oedolion dros 75 oed yn llai tebygol na'r cyfartaledd o chwarae gemau ar bump o'r chwe dyfais a ddangosir. Maent yr un mor debyg o chwarae gêm ar deledu clyfar (0% o'i gymharu â 1%).

  Er nad oes gwahaniaeth mewn chwarae gemau yn ôl grwpiau economaidd-gymdeithasol wrth gymharu â'r cyfartaledd, mae'r rheini mewn aelwydydd DE yn llai tebygol o chwarae gemau ar ddyfais tabled (8% o'i gymharu â 12%) ac mae oedolion mewn aelwydydd AB yn llai tebygol o wneud hynny ar ffôn symudol/ffôn clyfar (15% o'i gymharu â 19%).

Mae dynion yn fwy tebygol na menywod o chwarae gemau yn gyffredinol (41% o'i gymharu â 32%), ac maent dair gwaith yn fwy tebygol o chwarae gemau ar gonsol sydd wedi'i gysylltu â theledu (24% o'i gymharu â 7%). Mae dynion hefyd yn fwy tebygol o chwarae gemau ar gyfrifiadur bwrdd gwaith, gliniadur neu gyfrifiadur gwe (14% o'i gymharu â 8%).

Ffigur 21: Dyfeisiau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer chwarae gemau gartref neu mewn mannau eraill, yn ôl grŵp demograffig

	Pob oedolyn	16-24	25-34	35-44	45-54	55-64	65-74	75+
Sail	1846	234	272	313	284	270	218	255
Unrhyw gêm ar unrhyw ddyfais	37%	67% ↑	50% ↑	42%	27% ↓	23% ↓	21% ↓	13% ↓
Ffôn symudol/ffôn clyfar	19%	40% ↑	27% ↑	27% ↑	18%	6% ↓	4% ↓	1% ↓
Consol gemau wedi'i gysylltu â theledu	15%	41% ↑	27% ↑	19%	5% ↓	5% ↓	2% ↓	1% ↓
Dyfais tabled	12%	16%	13%	14%	10%	10%	12%	5% ↓
Cyfrifiadur (Desg/gliniadur/gwe)	11%	19% ↑	12%	12%	6% ↓	10%	9%	6% ↓
Consol gemau y mae modd ei ddal yn eich llaw	5%	15% ↑	8%	4%	3%	2% ↓	1% ↓	2% ↓
Teledu clyfar	1%	2%	1%	2%	0%	0%	0%	0%

	Pob oedolyn	AB	C1	C2	DE	Dynion	Menywod
Sail	1846	427	566	369	484	885	961
Unrhyw gêm ar unrhyw ddyfais	37%	33%	40%	37%	36%	41% ↑	32%
Ffôn symudol/ffôn clyfar	19%	15% ↓	23%	19%	20%	19%	20%
Consol gemau wedi'i gysylltu â theledu	15%	15%	16%	16%	14%	24% ↑	7%
Dyfais tabled	12%	13%	14%	12%	8% ↓	11%	13%
Cyfrifiadur (Desg/gliniadur/gwe)	11%	11%	11%	12%	8%	14% ↑	8%
Consol gemau y mae modd ei ddal yn eich llaw	5%	3%	6%	6%	5%	6%	4%
Teledu clyfar	1%	0%	1%	1%	1%	1%	1%

G1. Ydych chi byth yn chwarae gemau gartref neu yn rhywle arall yn unrhyw un o'r ffyrdd hyn? (atebion wedi'u cynnig, sawl cod).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (lefel 95%) yn ôl oed / grŵp economaidd-gymdeithasol wrth gymharu â phob oedolyn a dynion wrth gymharu â menywod.

5.7 Defnyddio data

Mae hanner y defnyddwyr ffonau clyfar wedi gwirio eu lwfans data i weld faint o ddata oedd ganddynt ar ôl

Yn 2016, ychwanegwyd cwestiynau at yr astudiaeth er mwyn deall yn well sut mae defnyddwyr ffonau clyfar yn rheoli faint o ddata maent yn ei ddefnyddio.

Fel sy'n cael ei ddangos yn Ffigur 22, mae hanner y defnyddwyr ffonau clyfar (49%) yn dweud eu bod wedi gwirio eu lwfans data i weld faint o ddata sydd ar ôl. Mae hyn yn fwy tebygol ymysg y grŵp oed 25-34 (59%) ac yn llai tebygol ymysg y grwpiau oed 45-54 (40%), 55-64 (40%) a'r rheini dros 65 (35%).

Ffigur 22: Gwirio lwfans data symudol, yn ôl oed, grŵp economaidd-gymdeithasol a rhyw



M2. Ydych chi byth yn gwirio eich lwfans data i weld faint o ddata sydd gennych chi ar ôl? (atebion wedi'u cynnig, un cod)
Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn sy'n defnyddio ffôn clyfar (1249 yn 16 oed a hŷn, 216 yn 16-24 oed, 247 yn 25-34 oed, 268 yn 35-44 oed, 235 yn 45-54 oed, 157 yn 55-64 oed, 126 yn 65 oed a hŷn, 305 - AB, 425 - C1, 247 - C2, 272 - DE, 598 - dynion, 651 - menywod).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (lefel 95%) yn ôl oed/grŵp economaidd-gymdeithasol wrth gymharu â phob defnyddiwr ffôn clyfar, a dynion wrth eu cymharu â menywod.

Mae'r rheini yn y grŵp oed 16-34 yn fwy tebygol o fod wedi defnyddio eu lwfans data

Gofynnir i ddefnyddwyr ffonau clyfar pa mor aml maent yn defnyddio eu lwfans data. Dywed mwyafrif o ddefnyddwyr, mwy na chwech o bob deg (63%), nad ydynt byth yn defnyddio eu lwfans data, gydag un o bob deg (11%) yn dweud eu bod yn gwneud hyn yn aml iawn neu'r rhan fwyaf o fisoedd. Mae 7% arall yn dweud eu bod yn rhedeg allan o ddata'n aml, ond nid o reidrwydd bob mis, ac mae 18% yn dweud eu bod yn rhedeg allan o ddata gwpl o weithiau'r flwyddyn.

Mae'r grwpiau oed 16-24 (50%) a 25-34 (48%) yn fwy tebygol na defnyddwyr yn gyffredinol (36%) o ddweud eu bod byth yn defnyddio eu lwfans data, ac yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gwneud hyn yn aml iawn/rhan fwyaf o fisoedd (20% ar gyfer y grŵp oed 16-24, 18% ar gyfer y grŵp oed 25-34 o'i gymharu â 11%). Mae'r rheini sydd dros 45 oed yn llai tebygol o ddweud eu bod byth yn defnyddio eu lwfans data ffôn clyfar.

Ffigur 23: Amlder defnyddio lwfans data, yn ôl oed, grŵp economaidd-gymdeithasol a rhyw



M3. Ydych chi byth yn defnyddio eich lwfans data at eich ffôn symudol? (atebion heb eu cynnig, un cod)
Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn sy'n defnyddio ffôn clyfar (1249 yn 16 oed a hŷn, 216 yn 16-24 oed, 247 yn 25-34 oed, 268 yn 35-44 oed, 235 yn 45-54 oed, 157 yn 55-64 oed, 126 yn 65 oed a hŷn, 305 - AB, 425 - C1, 247 - C2, 272 - DE, 598 - dynion, 651 - menywod).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (lefel 95%) yn ôl oed/grŵp economaidd-gymdeithasol wrth gymharu â phob defnyddiwr ffôn clyfar, a dynion wrth eu cymharu â menywod.

Dywed un defnyddiwr ffôn clyfar o bob pump sydd byth yn defnyddio eu lwfans data eu bod yn prynu data ychwanegol pan fyddant mewn perygl o redeg allan

Dangoswyd chwe opsiwn wedyn i ddefnyddwyr ffonau clyfar sydd byth yn defnyddio eu lwfans data a gofynnwyd iddynt ddweud pa rai byddant byth yn ei wneud pan fyddant mewn perygl o redeg allan o ddata.

Mae hanner (53%) yn cyfyngu ar eu defnydd data/ddim ond yn mynd ar-lein pan fyddant yn gallu defnyddio Wi-Fi, gyda chyfran debyg (47%) yn dweud eu bod yn defnyddio eu ffôn yn llai aml ar gyfer mynd ar-lein. Mae un o bob pump (21%) yn diffodd llwytho i lawr neu ddiweddaru apiau yn awtomatig, yn osgoi gweithgareddau sy'n defnyddio llawer o ddata fel chwarae fideos neu gemau (20%) neu brynu data ychwanegol gan eu darparwr rhwydwaith

(19%). Mae llai nag un o bob pump (17%) yn mynd i lai o safleoedd neu apiau, neu'n defnyddio llai ar eu porwr.

Nid oes dim gwahaniaeth yn ôl oed wrth gymharu â'r rheini yn y grŵp oed 16-34 â defnyddwyr dros 35,[10] nac wrth gymharu canlyniadau yn ôl rhyw.

Wrth gymharu â'r rheini mewn aelwydydd C2DE[11], mae defnyddwyr ffonau clyfar mewn aelwydydd ABC1 yn fwy tebygol o ddweud eu bod ond yn mynd ar-lein pan fyddant yn gallu defnyddio Wi-Fi (59% o'i gymharu â 46%), neu ddiffodd neu gyfyngu ar lwytho i lawr/diweddaru yn awtomatig (26% o'i gymharu â 15%) neu osgoi gweithgareddau sy'n defnyddio llawer o ddata (26% o'i gymharu â 12%).

Ffigur 17: Gweithredoedd a wneir pan fydd perygl o redeg allan o ddata



M4. Pan fyddwch chi mewn perygl o redeg allan o ddata, ydych chi byth yn gwneud unrhyw rai o'r pethau canlynol? (ateb wedi'i gynnig, sawl cod)
Sail: Y rheini sydd â ffôn clyfar sydd wedi defnyddio eu lwfans data (423)

[10] Roedd maint sail isel yn golygu nad oedd modd dadansoddi rhwng y chwe grŵp oed arferol
[11] Roedd maint sail isel yn golygu nad oedd modd dadansoddi rhwng y pedwar grŵp economaidd-gymdeithasol arferol

Wi-Fi Cyhoeddus

Mae dau ddefnyddiwr ffôn clyfar o bob tri yn defnyddio Wi-Fi cyhoeddus

Yn 2016, gofynnwyd i ddefnyddwyr ffonau clyfar hefyd a oedden nhw erioed wedi defnyddio Wi-Fi cyhoeddus.[12] Dywed dau ddefnyddiwr ffonau clyfar o bob tri (67%) eu bod wedi defnyddio Wi-Fi cyhoeddus; roedd hyn yn uwch ymysg y grŵp oed 16-24 (76%) ac yn is ymysg y rheini sydd dros 65 (53%).

Ffigur 18: Defnyddio Wi-Fi cyhoeddus



28

M5. Ydych chi byth yn defnyddio Wi-Fi cyhoeddus am ddim? (atebion wedi'u cynnig, un cod)
Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn sy'n defnyddio ffôn clyfar (1249 yn 16 oed a hŷn, 216 yn 16-24 oed, 247 yn 25-34 oed, 268 yn 35-44 oed, 235 yn 45-54 oed, 157 yn 55-64 oed, 126 yn 65 oed a hŷn, 305 – AB, 425 – C1, 247 – C2, 272 – DE, 598 – dynion, 651 – menywod).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (lefel 95%) yn ôl oed/grŵp economaidd-gymdeithasol wrth gymharu â phob defnyddiwr ffôn clyfar, a dynion wrth eu cymharu â menywod.

[12] Cafodd y diffiniad canlynol ei ddarllen i'r ymatebwyd os oedd angen: Wi-Fi sy'n cael ei ddarparu am ddim mewn lleoliadau cyhoeddus fel caffis neu westai. Efallai y bydd rhai o'r rhain yn mynnu eich bod yn cofrestru neu'n mewngofnodi i gael mynediad i'r Wi-Fi cyhoeddus.

Adran 6

Ymgysylltu a chyfranogi

6.1 Trosolwg o'r adran

Mae'r adran hon yn edrych ar y ffyrdd y mae defnyddwyr rhyngrwyd yn ymgysylltu ac yn cyfranogi ar-lein. Mae'n rhoi sylw yn y lle cyntaf i sut mae defnyddwyr rhyngrwyd yn cyfathrebu ar-lein, gan ganolbwyntio'n benodol ar y cyfryngau cymdeithasol, ac yn edrych ar y safleoedd a ddefnyddir, y gweithgareddau a wneir, y profiad o rannu cynnwys, a dod ar draws cynnwys sy'n cynhyrfu neu'n achosi tramgwydd.

Mae'n edrych ar ddefnyddio'r rhyngrwyd i gael gafael ar wasanaethau'r Llywodraeth neu wasanaethau cyhoeddus neu ddinesig eraill, yn ogystal â rhesymau dros beidio â chyflawni prosesau'r Llywodraeth ar-lein.

Mae hefyd yn ymdrin â rhai o'r gweithgareddau creadigol y gallai oedolion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd eu gwneud ar-lein, ac yn edrych ar eu profiad o wneud trafodion ar-lein neu drwy ffôn clyfar.

6.2 Prif ganfyddiadau

- Yn 2017[13], mae defnyddwyr rhyngrwyd yn awr yn fwy tebygol o ddefnyddio gwasanaethau negeseuon gwib (57% o'i gymharu â 53% yn 2016) ac o fod wedi gwneud hynny yn yr wythnos flaenorol (46% o'i gymharu â 41%).

- Mae gan dri defnyddiwr rhyngrwyd o bob pedwar (76%) gyfrif neu broffil cyfryngau cymdeithasol - nid yw hyn wedi newid ers 2015. Ni fu gwahaniaeth chwaith yn y defnydd o gyfryngau cymdeithasol ymhlith unigolion rhwng 16 a 74 oed. Fodd bynnag, mae defnyddwyr rhyngrwyd sy'n 75 oed a hŷn yn awr yn fwy tebygol o gael proffil neu gyfrif (41% o'i gymharu â 19% yn 2015).

- Mae gan naw deg pump y cant o ddefnyddwyr safleoedd cyfryngau cymdeithasol broffil/cyfrif ar Facebook, sy'n golygu mai dyma'r safle cyfryngau cymdeithasol mwyaf cyffredin. O'i gymharu â 2015 bu cynnydd yn y defnydd o WhatsApp (45% o'i gymharu â 28%), Instagram (31% o'i gymharu â 22%), YouTube (30% o'i gymharu â 22%), Snapchat (23% o'i gymharu â 12%), Google+ (16% o'i gymharu ag 11%) a Pinterest (12% o'i gymharu â 7%). O'r herwydd, mae un o bob tri sydd â phroffil neu gyfrif Facebook *yn unig* (32%), i lawr o 43% yn 2015.

- Mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn gwneud tri gweithgaredd ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol: postio sylwadau neu rannu fideos neu luniau (78%), hoffi, rhannu neu wneud sylwadau am bethau mae pobl eraill wedi'u rhannu (76%), ac edrych ar bethau sydd wedi'u postio heb wneud sylwadau, hoffi na rhannu (71%). Er bod rhannu cynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol yn weithgaredd poblogaidd, mae'n werth nodi bod tri o bob deg sy'n rhannu dolenni at erthyglau ar Facebook neu Twitter yn cytuno eu bod yn aml yn gwneud hyn heb ddarllen y cynnwys yn llawn yn gyntaf.

[13] Mae'r data hwn yn dod o'r astudiaeth Traciwr Technoleg, ac mae'r data mwyaf diweddar sydd ar gael yn berthnasol i 2017.

- Mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr cyfryngau cymdeithasol yn dweud eu bod weithiau'n gweld safbwyntiau maent yn anghytuno â nhw (56%), ac mae tri arall o bob deg (29%) yn dweud eu bod yn aml yn gweld safbwyntiau maent yn anghytuno â nhw. Mae menywod yn fwy tebygol na dynion o ddweud eu bod yn aml yn gweld sylwadau maent yn anghytuno â nhw (32% o'i gymharu â 26%), ac maent bron ddwywaith mor debygol â dynion o gytuno'n gryf bod y posibilrwydd o ennyn sylwadau sarhaus yn gwneud iddynt beidio â gwneud sylwadau neu bostio cynnwys (26% o'i gymharu ag 14%).

- Dywed dros ddau ddefnyddiwr safleoedd cyfryngau cymdeithasol o bob pump (43%) eu bod wedi gweld rhywbeth a oedd wedi eu cynhyrfu neu beri tramgwydd iddynt ar gyfryngau cymdeithasol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae chwech o bob deg (61%) yn dweud eu bod wedi gweithredu mewn rhyw ffordd o ganlyniad i weld cynnwys a oedd wedi'u cynhyrfu; y weithred fwyaf poblogaidd oedd rhoi gwybod i'r wefan drwy'r nodwedd 'riportio neu rwystro cynnwys' (40%).

- Mae chwech defnyddiwr rhyngrwyd o bob deg wedi chwilio ar-lein am wybodaeth ynghylch gwasanaethau cyhoeddus ar safleoedd y Llywodraeth fel gov.uk, ni.direct neu Cyllid a Thollau EM (60%), neu wedi cyflawni prosesau'r Llywodraeth ar-lein - fel diweddaru eu Credyd Cynhwysol neu adnewyddu trwydded yrru neu basbort (59%). Mae mwy na phedwar o bob deg wedi talu eu treth gyngor neu wedi defnyddio un arall o wasanaethau eu cyngor lleol ar-lein rywbryd (46%), neu wedi llofnodi deiseb ar-lein neu wedi defnyddio gwefan ymgyrchu (43%).

- Yn 2017[14] roedd tri defnyddiwr rhyngrwyd o bob deg (30%) wedi llwytho cynnwys i fyny rywbryd – fel lluniau, fideos neu flog. Nid yw hyn wedi newid ers 2016. Mae bron i un o bob pump (17%) yn dweud eu bod wedi gwneud hyn yn yr wythnos sydd newydd fynd heibio. Nid yw hyn chwaith wedi newid ers 2016. Mae llwytho cynnwys i fyny yn yr wythnos flaenorol yn fwy tebygol ymhlith defnyddwyr rhyngrwyd iau sydd rhwng 16 a 34 oed, ac yn llai tebygol ymhlith y rheini sy'n 55 oed a hŷn. Mae pa mor hyderus mae defnyddwyr rhyngrwyd yn teimlo wrth wneud pethau creadigol ar-lein yn adlewyrchu'r gwahaniaeth o ran oed. O'i gymharu â'r cyfartaledd (41%), mae'r rheini sydd yn y grŵp oed 16-24 (68%) a 25-34 (54%) yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn hyderus iawn wrth wneud pethau creadigol ar-lein, tra mae hyn yn llai tebygol i ddefnyddwyr 45 oed a hŷn.

    - O'i gymharu â 2016, mae defnyddwyr rhyngrwyd yn fwy tebygol o fod wedi mynd ar-lein yn ystod yr wythnos diwethaf i brynu nwyddau, gwasanaethau neu docynnau ac ati (48% o'i gymharu â 40% yn 2016).

    - Mae defnyddwyr ffonau clyfar yn fwy tebygol nawr nag yn 2015 o fod wedi defnyddio eu ffonau ar gyfer trafodion. Mae pedwar o bob deg wedi defnyddio eu ffôn fel tocyn neu docyn hedfan neu fel tocyn mynediad i ddigwyddiad (41% o'i gymharu â 33% yn 2015) ac mae bron i dri o bob deg (28%) wedi defnyddio eu ffôn ar gyfer taliadau di-gyswllt (20% yn 2015).

6.3 Cyfathrebu

Yn 2016, adolygwyd y cwestiynau yn y Traciwr Llythrennedd yn y Cyfryngau a oedd yn ymwneud â math defnyddio'r rhyngrwyd ac amlder. Gofynnwyd cyfres fyrrach o gwestiynau i oedolion sy'n mynd ar-lein, ac roedd yr opsiynau amlder roedd modd i'r ymatebwyr eu dewis hefyd wedi cael eu diwygio.

[14] Mae'r data hwn yn dod o'r astudiaeth Traciwr Technoleg, ac mae'r data diweddaraf sydd ar gael yn ymwneud â 2017.

Mae astudiaeth Traciwr Technoleg Ofcom hefyd yn cynnwys cwestiynau am fathau o ddefnydd o'r rhyngrwyd ac amlder. Felly mae'r gweithgareddau ar-lein penodol y mae modd eu grwpio gyda'i gilydd o dan y pennawd 'cyfathrebu ar-lein' sydd wedi'u cynnwys yn y rhan hon o'r adroddiad yn dod o'r astudiaeth honno yn hytrach na'r Traciwr Llythrennedd yn y Cyfryngau.

Daw'r canlyniadau hyn o'r don ddiweddaraf o ymchwil ar y Traciwr Technoleg a gynhaliwyd yn 2017. Felly mae unrhyw ddadansoddiad sy'n gwneud cymariaethau dros amser ar gyfer y gweithgareddau hyn yn edrych ar y gwahaniaethau rhwng 2016 a 2017, yn hytrach na rhwng 2015 a 2016.

Mae defnyddwyr rhyngrwyd yn fwy tebygol o ddefnyddio gwasanaethau negeseuon gwib heddiw nag yr oeddent yn 2016

Dyma'r pedwar gweithgaredd yr holir defnyddwyr rhyngrwyd yn eu cylch yn arolwg y Traciwr Technoleg, o dan y pennawd 'cyfathrebu ar-lein': anfon neu dderbyn negeseuon e-bost, cyfathrebu drwy negeseuon gwib (ee Facebook Chat, Skype Chat, Snapchat ac ati), gwneud galwadau fideo (ee drwy FaceTime, Skype) neu wneud galwadau llais ar y mathau hyn o wasanaethau Protocol Llais dros y Rhyngrwyd (VoIP). Mae defnyddwyr rhyngrwyd yn fwy tebygol o fod wedi defnyddio gwasanaethau VoIP ar gyfer galwadau fideo na galwadau llais, 'rywbryd' (37% o'i gymharu â 26%) ac yn ystod yr wythnos flaenorol (24% o'i gymharu ag 16%). O'i gymharu â 2016, mae defnyddwyr rhyngrwyd yn llai tebygol o ddweud eu bod wedi defnyddio gwasanaethau VoIP rywbryd ar gyfer galwadau llais (26% o'i gymharu â 30% yn 2016).

Ffigur 19 yn dangos cyfran defnyddwyr y rhyngrwyd sy'n oedolion, rhwng 2014 a 2017,[15] sy'n dweud eu bod yn gwneud y gweithgareddau hyn ar-lein, yn ôl y rheini sydd wedi gwneud hyn yn yr wythnos flaenorol, a defnydd llai aml[16].

Yn 2017, dywed dros wyth defnyddiwr rhyngrwyd o bob deg eu bod wedi bod ar-lein rywbryd i anfon neu dderbyn negeseuon e-bost (85%), tra mae tri chwarter (76%) yn dweud eu bod wedi gwneud hyn yn yr wythnos flaenorol. Nid yw'r ddau fesur hyn wedi newid wrth gymharu â 2016.

Mae dros hanner y defnyddwyr rhyngrwyd wedi defnyddio gwasanaethau negeseuon gwib rywbryd (57%); cynnydd o'i gymharu â 2016 (53%). Mae bron i hanner y defnyddwyr yn dweud eu bod wedi gwneud hyn yn ystod yr wythnos flaenorol (46%); mae hyn hefyd yn fwy tebygol o'i gymharu a'r pedwar o bob deg (41%) a oedd yn dweud eu bod yn gwneud hyn yn 2016.

Mae defnyddwyr rhyngrwyd yn fwy tebygol o fod wedi defnyddio gwasanaethau VoIP ar gyfer galwadau fideo na galwadau llais, 'rywbryd' (37% o'i gymharu â 26%) ac yn ystod yr wythnos flaenorol (24% o'i gymharu ag 16%). O'i gymharu â 2016, mae defnyddwyr rhyngrwyd yn llai tebygol o ddweud eu bod wedi defnyddio gwasanaethau VoIP rywbryd ar gyfer galwadau llais (26% o'i gymharu â 30% yn 2016).

[15] Rhwng 2014 a 2017, cynhaliwyd yr ymchwil ar yr astudiaeth Traciwr Technoleg mewn dwy don bob blwyddyn. Mae'r data a ddangosir yn berthnasol i'r don gyntaf o waith ymchwil a gynhaliwyd ym mis Ionawr/Chwefror bob blwyddyn.

[16] Nid yw'n bosibl dangos tuedd ar gyfer gwneud galwadau fideo dros wasanaethau VoIP gan mai yn arolwg y Traciwr Technoleg yn 2017 y cafodd hyn ei gynnwys am y tro cyntaf.

Ffigur 19: Cyfathrebu ar-lein: 2014-2017



Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom, Hanner 1 2014-2017
CE5A/ CE5B. Pa rai, os o gwbl, o'r rhain ydych chi'n defnyddio'r rhyngrwyd ar eu cyfer? / A pha rai, os o gwbl, o'r gweithgareddau hyn ydych chi wedi defnyddio'r rhyngrwyd ar eu cyfer yn yr wythnos diwethaf? (atebion wedi'u cynnig, sawl cod).
Sail: Pob oedolyn sy'n 16 oed a hŷn sy'n mynd ar-lein (3221 yn 2017).
Mae'r saethau'n dangos newidiadau arwyddocaol (lefel 99%) rhwng 2016 a 2017.

Fel y mae Ffigur 20 yn ei ddangos, yn 2017, mae defnyddwyr rhyngrwyd yn y grŵp oed 16-24 a 25-34 yn fwy tebygol na'r defnyddiwr rhyngrwyd cyffredin o fod wedi bod ar-lein yn yr wythnos flaenorol i ddefnyddio gwasanaethau negeseuon gwib, neu i ddefnyddio gwasanaethau VoIP, ar gyfer galwadau fideo neu alwadau llais. Mae defnyddwyr rhyngrwyd yn y grŵp oed 25-34 a 35-44 yn fwy tebygol o fod wedi bod ar-lein yn yr wythnos flaenorol i anfon neu dderbyn negeseuon e-bost, tra mae'r rheini sydd rhwng 55 a 64 oed yn llai tebygol o fod wedi bod ar-lein yn ystod yr wythnos flaenorol i ddefnyddio gwasanaethau negeseuon gwib neu i wneud galwadau fideo. O'i gymharu â defnyddwyr rhyngrwyd yn gyffredinol, mae'r rheini sy'n 65 oed a hŷn yn llai tebygol o fod wedi bod ar-lein yn yr wythnos flaenorol i wneud pob un o'r pedwar gweithgaredd.

Ar gyfer tri gweithgaredd o'r pedwar (e-bost, galwadau fideo a galwadau llais ar wasanaethau VoIP) mae'r rheini mewn aelwydydd AB yn fwy tebygol o fod wedi gwneud pob un o'r gweithgareddau hyn o'i gymharu â defnyddwyr rhyngrwyd yn gyffredinol, ond mae'n llai tebygol bod y rheini mewn aelwydydd C2 neu DE wedi gwneud hynny.

Mae menywod sy'n mynd ar-lein yn fwy tebygol na dynion o ddweud eu bod wedi defnyddio gwasanaethau negeseuon gwib yn yr wythnos flaenorol (48% o'i gymharu â 43%), tra mae dynion yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi gwneud galwadau llais drwy ddefnyddio gwasanaethau VoIP (18% o'i gymharu ag 14%).

Ffigur 20: Cyfathrebu ar-lein yn yr wythnos flaenorol yn ôl oed, rhyw a grŵp economaidd-gymdeithasol

Pob defnyddiwr rhyngrwyd		16-24	25-34	35-44	45-54	55-64	65-74	75+
Sail	3221	506	536	613	531	520	364	151
Anfon/derbyn negeseuon e-bost	76%	72%	81% ↑	81% ↑	79%	72%	68% ↓	54% ↓
Cyfathrebu drwy ddefnyddio negeseuon gwib e.e. Facebook Chat, Skype Chat, Snapchat	46%	64% ↑	61% ↑	49%	44%	31% ↓	19% ↓	5% ↓
Gwneud galwadau fideo e.e. drwy FaceTime, Skype	24%	36% ↑	34% ↑	27%	20%	14% ↓	9% ↓	6% ↓
Gwneud galwadau llais e.e. drwy FaceTime, Skype	16%	21% ↑	21% ↑	19%	16%	12%	5% ↓	1% ↓

Pob defnyddiwr rhyngrwyd		AB	C1	C2	DE	Dynion	Menywod
Sail	3221	789	1019	679	731	1570	1651
Anfon/derbyn negeseuon e-bost	76%	89% ↑	78%	69% ↓	60% ↓	76%	75%
Cyfathrebu drwy ddefnyddio negeseuon gwib e.e. Facebook Chat, Skype Chat, Snapchat	46%	49%	45%	41%	45%	43%	48% ↑
Gwneud galwadau fideo e.e. drwy FaceTime, Skype	24%	31% ↑	24%	19% ↓	20% ↓	23%	25%
Gwneud galwadau llais e.e. drwy FaceTime, Skype	16%	23% ↑	17%	12% ↓	11% ↓	18% ↑	14%

Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom, Hanner 1 2017
CE5B. A pha rai, os o gwbl, o'r gweithgareddau hyn ydych chi wedi defnyddio'r rhyngrwyd ar eu cyfer yn yr wythnos diwethaf? (atebion wedi'u cynnig, sawl cod).
Sail: Pob oedolyn sy'n 16 oed a hŷn sy'n mynd ar-lein (3221 yn 2017).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (lefel 95%) yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol/oed wrth gymharu â phob defnyddiwr rhyngrwyd, a dynion wrth gymharu â menywod.

6.4 Cyfryngau cymdeithasol

Cael cyfrif/proffil cyfryngau cymdeithasol

Mae gan dri defnyddiwr rhyngrwyd o bob pedwar broffil/cyfrif cyfryngau cymdeithasol, ac mae'n fwy tebygol bod gan bobl dros 75 oed broffil/cyfrif nag yn 2015

Mae gan dri defnyddiwr rhyngrwyd o bob pedwar (76%) broffil/cyfrif cyfryngau cymdeithasol. Er nad yw hyn wedi newid ers 2015 (73%), mae'n fwy tebygol erbyn hyn nag yr oedd yn 2014 (72%). Fel cyfran o'r holl oedolion 16+ (yn hytrach na phob defnyddiwr rhyngrwyd), mae gan tua dau o bob tri (65%) oedolyn broffil/cyfrif cyfryngau cymdeithasol.

Mae defnyddwyr rhyngrwyd yn y grŵp oed 16-24 (96%) a 25-34 (90%) yn fwy tebygol na'r cyffredin (76%) o gael proffil/cyfrif cyfryngau cymdeithasol, ac mae'r rheini yn y grŵp oed 55-64 (59%), 65-74 (48%) a dros 75 (41%) yn llai tebygol.

O'i gymharu â 2015, nid yw defnyddwyr rhyngrwyd 16-74 oed yn fwy nac yn llai tebygol o gael proffil/cyfrif cyfryngau cymdeithasol, tra mae pobl 75 oed a hŷn yn awr yn fwy tebygol o gael un (41% o'i gymharu ag 19%). O'r herwydd, mae gan oddeutu un o bob pump (18%) o bob oedolyn 75 oed a hŷn broffil/cyfrif cyfryngau cymdeithasol erbyn hyn.

Ffigur 21: Cael proffil/cyfrif cyfryngau cymdeithasol, yn ôl oed: 2007-2016



IN21. Hoffwn yn awr ofyn ambell gwestiwn i chi am y cyfryngau cymdeithasol – sef defnyddio gwefannau neu apiau fel Facebook, Twitter, Instagram, Snapchat ac YouTube. Oes gennych chi brofil neu gyfrif cyfryngau cymdeithasol ar unrhyw safleoedd neu apiau? (atebion heb eu cynnig, un cod).
Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn sy'n mynd ar-lein (1553 yn 2016, 16-24 oed – 231, 25-34 oed – 265, 35-44 oed – 293, 45-54 oed – 265, 55-64 oed – 220, 65 oed – 279).
Mae'r saethau'n dangos newidiadau arwyddocaol (lefel 95%) rhwng 2015 a 2016.
*Y sail yn rhy isel at ddiben creu adroddiad ar gyfer pobl rhwng 65 a 74 oed yn 2007, a pobl 75 oed a hŷn yn 2007 a 2010.

Fel y dangosir yn Ffigur 22, mae gan y mwyafrif o ddefnyddwyr rhyngrwyd ym mhob un o'r pedwar grŵp economaidd-gymdeithasol broffil/cyfrif cyfryngau cymdeithasol. Mae oedolion mewn aelwydydd C2 yn fwy tebygol nag yn 2015 o gael proffil/cyfrif (74% o'i gymharu â 65%)[17] yn yr un modd â'r rheini mewn aelwydydd DE (82% o'i gymharu â 73%).

Mae'r cynnydd hwn rhwng 2015 a 2016 i ddefnyddwyr rhyngrwyd mewn aelwydydd DE yn golygu, yn 2016, bod y rheini mewn aelwydydd DE (82%) nawr yn fwy tebygol na'r cyfartaledd (76%) o gael proffil/cyfrif. Nid dyma sut yr oedd hi yn 2015, pan oedd y rheini mewn aelwydydd DE yn cyfateb i'r cyfartaledd (73%).

O'i gymharu â 2015, mae dynion yn fwy tebygol o gael proffil/cyfrif cyfryngau cymdeithasol (73% o'i gymharu ag 67%). Ni welwyd unrhyw newid o ran menywod dros y cyfnod hwn. Er y cynnydd i ddynion rhwng 2015 a 2016, mae menywod yn dal i fod yn fwy tebygol o gael proffil/cyfrif (78% o'i gymharu â 73% i ddynion).

[17] Mae hyn, fodd bynnag, yn dilyn gostyngiad cyfatebol rhwng 2014 (74%) a 2015 (65%).

Ffigur 22: Cael proffil/cyfrif cyfryngau cymdeithasol, yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol a rhyw: 2007-2016



IN21. Hoffwn yn awr ofyn ambell gwestiwn i chi am y cyfryngau cymdeithasol – sef defnyddio gwefannau neu apiau fel Facebook, Twitter, Instagram, Snapchat ac YouTube. Oes gennych chi brofil neu gyfrif cyfryngau cymdeithasol ar unrhyw safleoedd neu apiau? (atebion heb eu cynnig, un cod).
Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn sy'n mynd ar-lein (1553 yn 2016, 394 AB, 521 C1, 300 C2, 338 DE, 745 dynion, 808 menywod).
Mae'r saethau'n dangos newidiadau arwyddocaol (lefel 95%) rhwng 2015 a 2016.

Mae defnyddwyr cyfryngau cymdeithasol yn llai tebygol nag yr oeddent yn 2015[18] o ddweud mai dim ond proffil/cyfrif Facebook sydd ganddynt

Fel y dangosir yn Ffigur 30, mae 95% o oedolion â phroffil/cyfrif cyfryngau cymdeithasol yn dweud eu bod yn defnyddio Facebook. Nid yw'r mwyafrif o'r rheini â phroffil/cyfrif cyfryngau cymdeithasol yn defnyddio safle na gwasanaeth arall. Mae un o bob tri (32%) o'r rheini â phroffil/cyfrif yn dweud mai *dim ond* ar Facebook mae ganddynt broffil/cyfrif, er bod y mesur hwn 11 pwynt canran yn is o'i gymharu â 2015.

Mae gan dros bedwar o bob deg o ddefnyddwyr cyfryngau cymdeithasol broffil/cyfrif WhatsApp (45%), gydag o leiaf un o bob pedwar yn defnyddio Instagram (31%), YouTube (30%), Twitter (26%) neu Snapchat (23%). Mae gan fwy nag un o bob deg broffil/cyfrif LinkedIn (17%), Google+ (16%) neu Pinterest (12%). Mae pob safle arall yn cael ei ddefnyddio gan lai nag un o bob deg sy'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.

O'i gymharu â 2015, mae defnyddwyr safleoedd cyfryngau cymdeithasol yn fwy tebygol o ddweud bod ganddynt broffil/cyfrif ar y chwe safle neu ap: WhatsApp (45% o'i gymharu â 28%), Instagram (31% o'i gymharu â 22%), YouTube (30% o'i gymharu â 22%), Snapchat

[18] Dylid nodi y gellid priodoli'r newidiadau a ddangosir yn y Ffigur i newid mewn agwedd i'r cwestiwn hwn rhwng 2015 a 2016. Yn 2015, cynigiwyd 20 o safleoedd cyfryngau cymdeithasol posibl i'r ymatebwyr (yn ogystal â'r opsiwn i roi ateb arall), ond deg opsiwn a roddwyd yn 2016.

(23% o'i gymharu â 12%), Google+ (16% o'i gymharu â 11%) a Pinterest (12% o'i gymharu â 7%).

Ffigur 30: Safleoedd cyfryngau cymdeithasol a ddefnyddiwyd: 2012, 2014, 2015 a 2016



IN22. Pa safleoedd neu apiau mae gennych chi broffil neu gyfrif ar eu cyfer rydych yn dal i'w defnyddio? (atebion wedi'u cynnig, sawl cod) - dangos ymatebion 3% neu ragor o oedolion 16+ gyda phroffil/ cyfrif cyfryngau cymdeithasol yn 2016.
DS Roedd y cerdyn wedi'i newid yn 2016 ac yn lleihau nifer yr atebion wedi'u cynnig i'r deg mwyaf poblogaidd yn 2015.
Sail: Pob oedolyn 16 oed neu hŷn gyda phroffil/cyfrif cyfryngau cymdeithasol (1136 yn 2016).
Mae'r saethau'n dangos newidiadau arwyddocaol (lefel 95%) rhwng 2015 a 2016

Er nad yw hyn wedi'i nodi ar y siart, mae gwahaniaethau o ran demograffeg:

- O'i gymharu â'r cyfartaledd, mae pobl rhwng 16 a 24 oed yn fwy tebygol o gael proffil/cyfrif ar bump o'r deg safle/ap cyfryngau cymdeithasol uchod: Instagram (61%), Snapchat (59%) YouTube (46%), Twitter (39%) a Tumblr (11%). Mae oedolion yn y grŵp oed 25-34 yn fwy tebygol o gael proffil/cyfrif ar WhatsApp (57%), Instagram (40%) neu YouTube (38%).

- Mae pobl dros 35 oed gyda phroffil/cyfrif cyfryngau cymdeithasol yn tueddu i fod yn llai tebygol na'r cyfartaledd o gael proffil/cyfrif ar YouTube neu Snapchat, ac mae pobl dros 45 oed yn tueddu i fod yn llai tebygol o gael proffil/cyfrif ar Instagram neu WhatsApp.

- Does dim gwahaniaeth o ran oed i gael proffil/cyfrif Facebook o'i gymharu â'r cyfartaledd, ond mae *dim ond* defnyddio Facebook yn fwy tebygol i'r rheini sydd rhwng 45-54 (40% o'i gymharu â 32%) a dros 65 oed (58%).

- Mae gwahaniaethau o ran grwpiau economaidd-gymdeithasol: Mae oedolion AB yn fwy tebygol o gael proffil/cyfrif LinkedIn (34%) tra mae'r rheini mewn aelwydydd C2 (6%) neu DE (5%) yn llai tebygol o ddefnyddio'r safle hwn. Mae oedolion mewn aelwydydd AB hefyd yn llai tebygol o ddefnyddio Snapchat (15%).

- Mae menywod yn fwy tebygol na dynion o gael proffil/cyfrif Instagram (34% o'i gymharu â 27%) a Pinterest (17% o'i gymharu â 7%), tra mae dynion yn fwy tebygol na menywod o gael proffil/cyfrif YouTube (34% o'i gymharu â 26%) neu LinkedIn (20% o'i gymharu â 14%).

Mae wyth defnyddiwr cyfryngau cymdeithasol o bob deg yn teimlo mai eu proffil/cyfrif Facebook yw eu prif un

Yn ogystal â holi ymatebwyr am yr apiau neu'r safleoedd cyfryngau cymdeithasol mae ganddynt broffil/cyfrif ar eu cyfer, gofynnir iddynt ddweud pa un yw eu prif broffil/cyfrif. Mae'r canlyniadau i'w gweld yn Ffigur 31.

Mae wyth o bob deg sydd â phroffil/cyfrif cyfryngau cymdeithasol ar unrhyw safle neu ap yn ystyried mai Facebook yw eu prif broffil/cyfrif (80%); mae hyn yn llai tebygol nag yn 2015 (84%). Mae saith y cant yn dweud WhatsApp a llai na 5% yn dweud Twitter, Instagram, YouTube neu Snapchat.

Mae rhai gwahaniaethau o fewn y mesurau cyffredinol hyn o ran oed, grŵp economaidd-gymdeithasol a rhyw. Mae'r rheini sy'n 16-24 oed yn llai tebygol na'r cyffredin o enwi Facebook (67% o'i gymharu â 80%) ac yn fwy tebygol o enwi Snapchat (9% o'i gymharu â 2%), Twitter (7% o'i gymharu â 4%) neu Instagram (6% o'i gymharu â 3%) fel eu prif broffil/cyfrif.

Mae oedolion mewn aelwydydd AB yn llai tebygol o ddweud Facebook (71% o'i gymharu ag 80%) tra mae aelwydydd DE yn llai tebygol o ddweud WhatsApp (2% o'i gymharu â 7%). Mae Facebook yn fwy tebygol o gael ei enwi gan fenywod na dynion (82% o'i gymharu â 76%), tra mae dynion yn fwy tebygol na menywod o ddweud mai YouTube (4% o'i gymharu ag 1%) yw eu prif broffil/cyfrif.

Ffigur 31: Gwasanaeth sy'n cael ei ystyried yn brif broffil/cyfrif cyfryngau cymdeithasol, yn ôl blwyddyn a grŵp demograffeg



IN23. A pha un fyddech chi'n ei ddweud yw eich prif ap neu safle cyfryngau cymdeithasol - yr un rydych chi'n ei ddefnyddio amlaf? (atebion wedi'u cynnig, un cod).
Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn gyda phroffil/cyfrif cyfryngau cymdeithasol (1136 yn 16 oed neu'n hŷn, yn amrywio yn ôl demograffeg).
Dangos atebion gan >1% yn 2016 o'r holl oedolion sydd â phroffil/cyfrif.
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (lefel 95%) rhwng 2015 a 2016 ar y lefel gyffredinol, ac yn ôl grŵp oed/economaidd-gymdeithasol wrth gymharu â phawb sydd â phroffil/cyfrif, a dynion wrth eu cymharu â menywod.

Yr hyn y mae pobl yn ei wneud ar apiau neu safleoedd cyfryngau cymdeithasol

Mae pedwar defnyddiwr o bob deg yn dweud eu bod yn postio sylwadau mewn trafodaethau grŵp preifat rywbryd. Fel y dangosir yn Ffigur 32, mae o leiaf saith o bob deg oedolyn sy'n defnyddio safleoedd cyfryngau cymdeithasol yn gwneud tri gweithgaredd arnynt: postio sylwadau neu rannu fideos neu luniau (78%), hoffi, rhannu neu wneud sylwadau am bethau mae pobl eraill wedi'u rhannu (76%), ac edrych ar bethau sydd wedi'u postio heb wneud sylwadau, hoffi na rhannu (71%).

Mae pedwar defnyddiwr o bob deg yn dweud eu bod wedi postio sylwadau mewn trafodaethau grŵp preifat (42%) ac mae tri o bob deg yn eu defnyddio i ddatgan eu bod yn y lleoliadau maent yn ymweld â nhw (32%). Mae un defnyddiwr o bob pedwar wedi hoffi, rhannu neu wneud sylwadau i geisio ennill gwobrau (25%), wedi postio sylwadau mewn grwpiau cyhoeddus (24%) neu wedi creu grwpiau/trefnu digwyddiadau (24%). Mae un o bob pump (19%) wedi cwyno i gwmnïau drwy gyfryngau cymdeithasol. Mae un o bob wyth (12%) yn dweud eu bod yn clicio ar yr hysbysebion sy'n ymddangos yn eu ffrwd newyddion.

O'i gymharu â'r cyfartaledd, mae oedolion 16-24 oed sydd â phroffil/cyfrif cyfryngau cymdeithasol yn fwy tebygol o hoffi, rhannu neu o roi sylw ar bethau mae pobl eraill wedi'u rhannu (85% o'i gymharu â 76%) neu o ddweud eu bod yn creu grwpiau neu'n trefnu digwyddiadau (34% o'i gymharu â 24%). Mae'r rheini sydd yn y grŵp oed 25-34 yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn postio eu sylwadau eu hunain, yn rhannu eu fideos neu'u lluniau eu hunain (86% o'i gymharu â 78%) neu'n postio sylwadau mewn grwpiau cyhoeddus (32% o'i gymharu â 24%).

Rhwng 45 a 64 oed, mae rhai gweithgareddau'n llai tebygol o gael eu gwneud ar y cyfryngau cymdeithasol: postio sylwadau mewn grwpiau cyhoeddus (15% ar gyfer pobl 45-54 oed o'i gymharu â 24% yn gyffredinol), postio sylwadau neu rannu fideos neu luniau (65% ar gyfer pobl 55-64 oed o'i gymharu â 78%) a chreu grwpiau neu drefnu digwyddiadau (11% ar gyfer pobl 55-64 oed o'i gymharu â 24%). O'i gymharu â'r cyfartaledd, mae pobl dros 65 oed yr un mor debygol o ddweud eu bod yn edrych ar bethau wedi'u postio heb wneud sylwadau, hoffi na rhannu, neu gysylltu â sefydliadau i gwyno, ac maent yn llai tebygol o fod wedi gwneud pob un o'r wyth gweithgaredd sy'n weddill.

O'i gymharu â'r cyfartaledd, mae oedolion sy'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol mewn aelwydydd AB yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn postio sylwadau mewn trafodaethau grŵp preifat (51% o'i gymharu â 42%) neu'n creu grwpiau neu'n trefnu digwyddiadau (31% o'i gymharu â 24%) ac maent yn llai tebygol o ddatgan lleoliadau maent yn ymweld â nhw (24% o'i gymharu â 32%). Mae'r rheini mewn aelwydydd DE sydd â phroffil/cyfrif cyfryngau cymdeithasol yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o hoffi, gwneud sylw neu rannu i geisio ennill gwobr (34% o'i gymharu â 25%).

Mae menywod yn fwy tebygol na dynion o ddweud eu bod yn gwneud pump o'r gweithgareddau hyn: postio sylwadau, rhannu fideos neu luniau (81% o'i gymharu â 75%), postio sylwadau mewn trafodaethau grŵp preifat (46% o'i gymharu â 38%), datgan eu lleoliad (35% o'i gymharu â 28%), gwneud cwyn i sefydliad (22% o'i gymharu ag 16%), neu glicio ar hysbysebion sy'n ymddangos yn y ffrwd newyddion (14% o'i gymharu â 9%).

Ffigur 32: Mathau o ddefnydd o safleoedd cyfryngau cymdeithasol: 2016



37

IN24. Ydych chi'n gwneud unrhyw un o'r pethau hyn ar apiau neu safleoedd cyfryngau cymdeithasol? (atebion wedi'u cynnig, sawl cod)
Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn gyda phroffil/cyfrif cyfryngau cymdeithasol (1136 yn 16 oed a hŷn).

Rhannu dolenni at erthyglau ar y cyfryngau cymdeithasol

Mae tri o bob deg sy'n rhannu dolenni at erthyglau ar Facebook neu Twitter yn dweud eu bod yn aml yn gwneud hyn heb ddarllen y cynnwys yn llawn yn gyntaf

Mae Ffigur 33 yn dangos y niferoedd sy'n rhannu dolenni at erthyglau ar Twitter neu Facebook. Mae chwech unigolyn o bob deg (59%) sydd â phroffil/cyfrif Twitter neu Facebook yn dweud eu bod yn gwneud hyn rywbryd; mae'r niferoedd yn is ar gyfer y rheini sy'n 65 oed a hŷn (35%). Nid oes gwahaniaethau yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol aelwydydd o'i gymharu â'r cyfartaledd, na rhwng dynion a menywod chwaith.

Ffigur 33: Rhanu dolenni at erthyglau ar Twitter neu Facebook, yn ôl grŵp demograffeg



IN26. Fyddwch chi'n rhannu dolenni at erthyglau ar Twitter neu Facebook? (atebion wedi'u cynnig, un cod).
Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn sydd â phroffil/cyfrif cyfryngau cymdeithasol ar Twitter neu Facebook (1097 yn 16 oed neu hŷn, yn amrywio yn ôl demograffeg).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (lefel 95%) yn ôl oed/grŵp economaidd-gymdeithasol wrth gymharu â phawb sydd â phroffil/cyfrif cyfryngau cymdeithasol ar Twitter neu Facebook, a dynion o'u cymharu â menywod.

Mae'r rheini sydd â phroffil/cyfrif Twitter neu Facebook sy'n dweud eu bod yn rhannu dolenni rywbryd at erthyglau ar y safleoedd cyfryngau cymdeithasol hyn cael eu holi wedyn i ba raddau maent yn cytuno â'r datganiad canlynol: "Byddaf yn aml yn rhannu dolenni at erthyglau ar Twitter a Facebook heb ddarllen y cynnwys yn llawn yn gyntaf". Dangosir yr atebion yn ôl oed, grŵp economaidd-gymdeithasol a rhyw yn Ffigur 34.

Ymysg y rheini sy'n rhannu dolenni at erthyglau ar Twitter a Facebook, mae'r mwyafrif (60%) yn anghytuno eu bod yn aml yn rhannu'r erthyglau hyn heb eu darllen yn llawn. Mae hynny ddwywaith cynifer â'r rheini sy'n cytuno (30%). Prin iawn yw'r gwahaniaethau yn y naill na'r llall o ran oed. O'i gymharu â'r cyfartaledd, mae pobl dros 55 oed yn fwy tebygol o anghytuno'n gyffredinol (74% o'i gymharu â 60%), oherwydd eu bod yn fwy tebygol o anghytuno'n gryf (60% o'i gymharu â 43%).

Mae menywod yn fwy tebygol na dynion o anghytuno'n gryf â'r datganiad hwn (49% o'i gymharu â 37%).

Ffigur 34: Cytuno â'r datganiad: "Byddaf yn aml yn rhannu dolenni at erthyglau ar Twitter neu Facebook heb ddarllen y cynnwys yn llawn yn gyntaf", yn ôl oed, rhyw a grŵp economaidd-gymdeithasol



IN27. Dywedwch wrtha i i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol - Byddaf yn aml yn rhannu dolenni at erthyglau ar Twitter neu Facebook heb ddarllen y cynnwys yn llawn yn gyntaf (atebion wedi'u cynnig, un cod).
Sail: Pawb sy'n rhannu dolenni at erthyglau ar Twitter neu Facebook (662 yn 16 oed neu hŷn, yn amrywio yn ôl demograffeg).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (lefel 95%) yn ôl oed / grŵp economaidd-gymdeithasol wrth gymharu â phawb sy'n rhannu dolenni at erthyglau ar Twitter neu Facebook, a dynion o'u cymharu â menywod.

Rhannu safbwyntiau ar apiau neu safleoedd cyfryngau cymdeithasol

Mae un defnyddiwr cyfryngau cymdeithasol o bob tri yn dweud eu bod yn rhannu safbwyntiau â phobl nad ydynt yn eu hadnabod ar y safleoedd hyn

Fel y dangosir yn Ffigur 35, mae un oedolyn o bob tri (32%) sydd â phroffil/cyfrif ar safle cyfryngau cymdeithasol yn dweud eu bod wedi rhannu safbwyntiau am y safleoedd hyn â phobl nad ydynt yn eu hadnabod.

O'i gymharu â'r cyfartaledd, does dim gwahaniaethau yn ôl oed. Fodd bynnag, mae'r rhai sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol (16-34 oed) yn fwy tebygol o wneud hyn na'r rheini sydd dros 45 oed.

Yna gofynnir cwestiynau ychwanegol i'r rheini sy'n dweud eu bod yn rhannu eu safbwyntiau â phobl nad ydynt yn eu hadnabod ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae mwy na phedwar o bob pump (88%) yn dweud eu bod yn hapus i rannu eu safbwyntiau gan ddefnyddio'u henw go iawn.[19]

[19] Oherwydd bod maint y sail oed yn isel, does dim modd dadansoddi ymhellach yn ôl y maen prawf hwn.

Ffigur 23: Rhannu safbwyntiau ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol gyda phobl nad ydynt yn eu hadnabod, yn ôl oed, rhyw a grŵp economaidd-gymdeithasol



IN29. Fyddwch chi yn rhannu eich safbwyntiau â phobl nad ydych yn eu hadnabod ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol? (atebion wedi'u cynnig, un cod).
Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn gyda phroffil/cyfrif cyfryngau cymdeithasol (1136 yn 16 oed neu'n hŷn, yn amrywio yn ôl demograffeg).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (lefel 95%) yn ôl oed/grŵp economaidd-gymdeithasol wrth gymharu â phawb sydd â phroffil/cyfrif cyfryngau cymdeithasol, a dynion o'u cymharu â menywod.

Mae mwyafrif yr oedolion sydd â phroffil/cyfrif cyfryngau cymdeithasol yn dweud eu bod yn gweld safbwyntiau y maent yn anghytuno â nhw

I geisio cael syniad o'r amrywiaeth o opsiynau sydd ar gael i bobl ar y cyfryngau cymdeithasol, mae oedolion sydd â phroffil/cyfrif cyfryngau cymdeithasol yn cael cynnig tri ateb, a gofynnir iddynt ddweud pa un sy'n fwyaf perthnasol i'w profiad nhw o'r cyfryngau cymdeithasol. Dyma'r atebion:

- Rwy'n aml yn gweld safbwyntiau rwy'n anghytuno â nhw
- Weithiau rwy'n gweld safbwyntiau rwy'n anghytuno â nhw
- Anaml rwy'n gweld safbwyntiau rwy'n anghytuno â nhw

Fel y dangosir yn Ffigur 24, mae un o bob deg sydd â phroffil/cyfrif cyfryngau cymdeithasol (12%) yn dweud mai anaml y byddant yn gweld safbwyntiau y maent yn anghytuno â nhw. Mae'r rhan fwyaf (56%) yn dweud eu bod weithiau'n gweld safbwyntiau maent yn anghytuno â nhw, ac mae tri o bob deg (29%) yn dweud eu bod yn aml yn gweld safbwyntiau maent yn anghytuno â nhw.

Mae'r rheini sydd yn y grŵp oed 25-34 yn llai tebygol o ddweud mai anaml y maent yn gweld safbwyntiau y maent yn anghytuno â nhw (6% o'i gymharu â 12% yn gyffredinol) ac mae menywod yn fwy tebygol na dynion o ddweud eu bod yn aml yn gweld safbwyntiau y maent yn anghytuno â nhw (32% o'i gymharu â 26%).

Ffigur 24: I ba raddau mae pobl yn gweld safbwyntiau ar y cyfryngau cymdeithasol y maent yn anghytuno â nhw yn ôl oed, rhyw a grŵp economaidd-gymdeithasol



IN33. Pan fyddwch chi'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, pa un o'r rhain sydd fwyaf perthnasol? (atebion wedi'u cynnig, un cod).
Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn gyda phroffil/cyfrif cyfryngau cymdeithasol (1136 yn 16 oed neu'n hŷn, yn amrywio yn ôl demograffeg).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (lefel 95%) yn ôl oed / grŵp economaidd-gymdeithasol wrth gymharu â phawb sydd â phroffil/cyfrif cyfryngau cymdeithasol, a dynion o'u cymharu â menywod.

Mae’r posibilrwydd o ennyn ymatebion neu sylwadau sarhaus yn fwy tebygol o wneud i fenywod beidio â chyflwyno sylwadau neu bostio cynnwys ar gyfryngau cymdeithasol.

Gofynnir i oedolion sydd â phroffil/cyfrif cyfryngau cymdeithasol i ba raddau maent yn cytuno â’r datganiad: “Mae’r posibilrwydd o ennyn ymatebion neu sylwadau sarhaus yn gwneud i mi beidio â chyflwyno sylwadau neu bostio cynnwys ar gyfryngau cymdeithasol".

Ymhlith y rheini sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol nid oes un farn yn cael ei rhannu gan y mwyafrif, er bod defnyddwyr yn fwy tebygol o gytuno (44%) nag anghytuno (38%). Mae’r rheini sy’n 16-24 oed yn fwy tebygol o anghytuno’n gryf (30% o'i gymharu â 22%), ac mae pobl yn y grŵp oed 55-64 yn fwy tebygol o gytuno’n gryf (29% o’i gymharu â 21%).

Mae menywod sydd â phroffil/cyfrif cyfryngau cymdeithasol yn fwy tebygol na dynion o gytuno eu bod yn peidio â phostio cynnwys rhag ofn iddynt gael sylwadau neu ymatebion sarhaus (49% o'i gymharu â 38%).

Ffigur 25: Cytuno â’r datganiad: “Mae’r posibilrwydd o ennyn ymatebion neu sylwadau sarhaus yn gwneud i mi beidio â chyflwyno sylwadau neu bostio cynnwys ar gyfryngau cymdeithasol", yn ôl oed, rhyw a grŵp economaidd-gymdeithasol



IN25A. Dywedwch wrtha i i ba raddau rydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r datganiadau canlynol ynghylch safleoedd cyfryngau cymdeithasol – Mae’r posibilrwydd o ennyn ymatebion neu sylwadau sarhaus yn gwneud i mi beidio cyflwyno sylwadau neu bostio cynnwys ar gyfryngau cymdeithasol (atebion wedi’u cynnig, un cod).
Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn gyda phroffil/cyfrif cyfryngau cymdeithasol (1136 yn 16 oed neu'n hŷn, yn amrywio yn ôl demograffeg).
Mae’r saethau’n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (lefel 95%) yn ôl oed / grŵp economaidd-gymdeithasol wrth gymharu â phawb sydd â phroffil/cyfrif cyfryngau cymdeithasol, a dynion o’u cymharu â menywod.

Gweld cynnwys ar apiau neu safleoedd cyfryngau cymdeithasol sy'n cynhyrfu neu'n peri tramgwydd

Dywed dros bedwar defnyddiwr o bob deg eu bod wedi gweld rhywbeth a oedd wedi eu cynhyrfu neu beri tramgwydd iddynt ar gyfryngau cymdeithasol yn ystod y 12 mis diwethaf

Gofynnir i'r rheini sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol a ydynt wedi gweld rhywbeth sydd wedi eu cynhyrfu neu beri tramgwydd iddynt ar y safleoedd y maent yn eu defnyddio yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae'r canlyniadau i'w gweld yn Ffigur 26.

Dywed tua pedwar defnyddiwr cyfryngau cymdeithasol o bob deg (43%) sy'n 16 oed neu hŷn eu bod wedi gweld rhywbeth sydd wedi peri tramgwydd iddynt neu wedi'u cynhyrfu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gyda llai nag un o bob pump (17%) yn dweud eu bod wedi gweld hyn yn amlach nag unwaith neu ddwy.

O'i gymharu â'r cyfartaledd (43%), mae defnyddwyr yn y grŵp oed 55-64 (28%) a defnyddwyr sydd dros 65 oed (24%) yn llai tebygol o ddweud bod rhywbeth wedi eu cynhyrfu neu beri tramgwydd iddynt yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae menywod yn fwy tebygol na dynion o ddweud eu bod wedi gwneud hynny (52% o'i gymharu â 32%), a hefyd yn fwy tebygol o ddweud bod hyn wedi digwydd yn amlach nag unwaith neu ddwy (20% o'i gymharu ag 13%).

Ffigur 26: Pa mor aml mae defnyddwyr wedi gweld rhywbeth sydd wedi eu cynhyrfu neu beri tramgwydd iddynt ar gyfryngau cymdeithasol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn ôl oed, rhyw a grŵp economaidd-gymdeithasol



IN56. Fe ddywedoch chi yn gynharach fod gennych chi broffil neu gyfrif cyfryngau cymdeithasol. Ydych chi wedi gweld unrhyw beth sydd wedi eich cynhyrfu neu beri tramgwydd i chi dros y 12 mis diwethaf ar unrhyw un o'r safleoedd cyfryngau cymdeithasol rydych chi'n eu defnyddio? (atebion wedi'u cynnig, un cod).
Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn gyda phroffil/cyfrif cyfryngau cymdeithasol (1136 yn 16 oed neu'n hŷn, yn amrywio yn ôl demograffeg).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (lefel 95%) yn ôl oed/grŵp economaidd-gymdeithasol wrth gymharu â phawb sydd â phroffil/cyfrif cyfryngau cymdeithasol, a dynion o'u cymharu â menywod.

Roedd dau o bob pump a oedd wedi gweld rhywbeth a oedd wedi eu cynhyrfu neu beri tramgwydd iddynt ar gyfryngau cymdeithasol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn dweud ei fod yn gysylltiedig ag adroddiadau neu ddelweddau o greulondeb, trais, rhyfel neu farwolaeth

Yna mae'r defnyddwyr hynny sydd wedi gweld rhywbeth sydd wedi'u cynhyrfu neu beri tramgwydd iddynt ar gyfryngau cymdeithasol yn ystod y 12 mis diwethaf yn cael cynnig ystod o wahanol fathau o gynnwys[20], yn ogystal ag opsiwn i sôn am rywbeth arall, a gofynnir iddynt ddweud pa un sy'n disgrifio orau'r math o gynnwys maent wedi'i weld.

Fel y dangosir yn Ffigur 27, y math mwyaf cyffredin o gynnwys y soniwyd amdano oedd adroddiadau neu ddelweddau o greulondeb, trais, rhyfel neu farwolaeth (43%). Mae hyn yn gyfystyr â 12% fel cyfran o bob oedolyn 16 oed a hŷn (yn hytrach na defnyddwyr cyfryngau cymdeithasol sydd wedi gweld rhywbeth sydd wedi'u cynhyrfu neu beri tramgwydd iddynt).

Mae'r nifer sy'n sôn am bob math arall o gynnwys yn llai nag un o bob deg fel cyfran o'r holl oedolion 16 oed a hŷn (yn hytrach na defnyddwyr cyfryngau cymdeithasol sydd wedi gweld rhywbeth sydd wedi'u cynhyrfu neu beri tramgwydd iddynt).

Mae tri math o gynnwys yn cael ei grybwyll gan un o bob tri o'r rheini sydd wedi gweld rhywbeth sydd wedi'u cynhyrfu neu beri tramgwydd iddynt ar gyfryngau cymdeithasol; cynnwys gwahaniaethol, yn seiliedig ar hil, rhyw, crefydd, rhywioldeb neu hunaniaeth o ran rhyw (34%), safbwyntiau neu gynnwys eithafol (33%) neu rywun yn gwneud sylwadau cas neu ymosodol am rywun arall (33%). Pan mae hyn yn cael ei fynegi fel cyfran o'r holl oedolion 16 oed a hŷn, mae hyn yn gyfystyr â 9% o bob un o'r rhain.

Mae llai na dau o bob deg o'r rheini sydd wedi gweld rhywbeth sydd wedi'u cynhyrfu neu beri tramgwydd iddynt ar gyfryngau cymdeithasol yn sôn am bedwar math o gynnwys; sylwadau digroeso, lluniau neu fideos o natur rywiol gan rywun (18%), cynnwys arall o natur rywiol (17%) a gweithgarwch troseddol/anghyfreithlon (17%). Pan mae hyn yn cael ei fynegi fel cyfran o'r holl oedolion 16 oed a hŷn, mae hyn yn gyfystyr â 5% o bob un o'r rhain.

Dywed un deg pedwar y cant ei fod yn ymwneud â rhywun yn gwneud sylwadau cas neu ymosodol amdanynt, sy'n gyfystyr â 4% o'r boblogaeth oedolion.

Soniodd lai nag un o bob deg o bobl a oedd wedi gweld rhywbeth a oedd wedi'u cynhyrfu neu beri tramgwydd iddynt ar y cyfryngau cymdeithasol am bob un o'r mathau eraill o gynnwys.

Mae oedolion yn y grŵp oed 16-44[21] yn fwy tebygol nag oedolion dros 45 oed o ddweud eu bod wedi gweld cynnwys sydd wedi'u cynhyrfu neu wedi peri tramgwydd iddynt o weithgarwch troseddol neu anghyfreithlon ar gyfryngau cymdeithasol (20% o'i gymharu â 10%), neu 'gynnwys arall o natur rywiol' (20% o'i gymharu ag 8%).

Mae'r rheini yng ngrŵp economaidd-gymdeithasol C2DE[22] yn fwy tebygol na'r rheini yng ngrŵp ABC1 i ddweud bod y mathau canlynol o gynnwys wedi'u cynhyrfu neu beri tramgwydd iddynt ar gyfryngau cymdeithasol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf: adroddiadau

[20] Gan na ddarparwyd diffiniadau ffurfiol o'r categorïau hyn i'r ymatebwyr, dylid ystyried y canfyddiadau hyn fel rhai dangosol yn unig oherwydd natur oddrychol bosibl yr ymatebion sy'n gysylltiedig â'r gwahaniaethau o ran dehongli a dealltwriaeth.
[21] Mae meintiau sail isel yn golygu nad oes modd dadansoddi rhwng pob un o'r chwe grŵp oed (16-24, 25-34, 35-44, 45-54, 55-64 a 65+).
[22] Roedd maint sail isel yn golygu nad oedd modd dadansoddi rhwng y pedwar grŵp economaidd-gymdeithasol (AB, C1, C2 a DE).

neu ddelweddau o greulondeb, trais, rhyfel neu farwolaeth (51% o'i gymharu â 36%), sylwadau, lluniau neu fideos digroeso o natur rywiol gan rywun (22% o'i gymharu ag 14%) neu rywun yn gwneud sylwadau cas neu ymosodol amdanynt (19% o'i gymharu â 11%).

Mae menywod yn fwy tebygol na dynion o ddweud bod y cynnwys sydd wedi eu cynhyrfu neu beri tramgwydd iddynt yn adroddiadau neu'n ddelweddau o greulondeb, trais, rhyfel neu farwolaeth (47% o'i gymharu â 36%).

Ffigur 27: Math o gynnwys sy'n cael ei ystyried yn gynnwys sy'n cynhyrfu neu'n peri tramgwydd



IN58. Edrychwch ar y rhestr hon os gwelwch yn dda a dweud a oedd y cynnwys a wnaeth eich cynhyrfu neu beri tramgwydd i chi yn dod o dan un o'r categorïau hyn. (atebion wedi'u cynnig, sawl cod).
Sail: Pob oedolyn 16 oed neu hŷn sydd wedi gweld rhywbeth sydd wedi'u cynhyrfu neu beri tramgwydd iddynt ar y safleoedd cyfryngau cymdeithasol maent yn eu defnyddio yn ystod y 12 mis diwethaf (454).

Er bod dau o bob pump yn dweud eu bod wedi riportio'r cynnwys i'r safle cyfryngau cymdeithasol, ni chymerodd cyfran debyg unrhyw gamau o gwbl.

Gofynnir i ddefnyddwyr safleoedd cyfryngau cymdeithasol sydd wedi gweld rhywbeth sydd wedi'u cynhyrfu neu beri tramgwydd ar gyfryngau cymdeithasol yn ystod y 12 mis diwethaf a wnaethant gymryd unrhyw gamau ar ôl gweld y cynnwys hwn. Cynigir chwe opsiwn penodol iddynt, yn ogystal ag opsiwn i ddweud na wnaethant gymryd dim un o'r chwe cham hynny. Mae'r canlyniadau i'w gweld yn Ffigur 28.

Dywedodd pedwar o bob deg (40%) eu bod wedi riportio'r cynnwys gan ddefnyddio'r nodwedd riportio ar y wefan, gyda tri o bob deg (28%) yn dweud eu bod wedi blocio'r person a rannodd y cynnwys neu a wnaeth y sylwadau. Roedd oddeutu un o bob deg neu lai wedi ymateb yn gyhoeddus (10%) neu'n breifat (6%) i'r sawl a wnaeth y cynnwys/sylwadau neu a'u rhannodd. Yn ôl wyth y cant, roeddent wedi'i rannu er mwyn codi ymwybyddiaeth am y mater, ond roedd 5% wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio'r safle cyfryngau cymdeithasol hwnnw. Dywedodd pedwar o bob deg (38%) nad oeddent wedi cymryd unrhyw un o'r camau hyn. Felly cymerodd chwech o bob deg unrhyw un o'r chwe cham hyn (62%).

Mae'r rheini sy'n 16-44 oed yn fwy tebygol na'r rhai sydd dros 45 oed i ddweud eu bod wedi'i riportio drwy'r nodwedd riportio ar y wefan (46% o'i gymharu â 25%) tra mae'r rheini sydd dros 45 oed yn fwy tebygol o ddweud nad oeddent wedi cymryd dim un o'r camau hyn (50% o'i gymharu â 32%).

Mae'r rheini yng ngrŵp economaidd-gymdeithasol C2DE yn fwy tebygol na'r rhai yng ngrŵp ABC1 i ddweud eu bod wedi'u riportio drwy'r nodwedd riportio ar y wefan (46% o'i gymharu â 35%). Mae menywod yn fwy tebygol na dynion o ddweud eu bod wedi gwneud hyn (46% o'i gymharu â 29%) neu o ddweud eu bod wedi ymateb yn breifat i'r person a oedd wedi rhannu'r cynnwys neu wedi gwneud y sylwadau (8% o'i gymharu â 3%). Mae dynion yn fwy tebygol o ddweud nad ydynt wedi gwneud dim byd (47% o'i gymharu â 32%).

Ffigur 28: Y camau a gymerwyd ar ôl gweld cynnwys a oedd yn cynhyrfu neu'n peri tramgwydd



IN57. A wnaethoch chi gymryd unrhyw un o'r camau canlynol ar ôl gweld cynnwys a oedd yn cynhyrfu neu'n peri tramgwydd (atebion wedi'u cynnig, sawl cod).
Sail: Pawb sydd wedi gweld rhywbeth sydd wedi'u cynhyrfu neu beri tramgwydd iddynt ar y safleoedd cyfryngau cymdeithasol maent yn eu defnyddio yn ystod y 12 mis diwethaf (454 16 oed neu hŷn).

6.5 Cael Mynediad at wasanaethau'r Llywodraeth/ gweithgareddau cyhoeddus/dinesig

Defnyddio gwasanaethau cyhoeddus neu ddinesig ar-lein

Roedd pymtheg y cant o ddefnyddwyr y rhyngrwyd wedi edrych ar-lein am wybodaeth am wasanaethau cyhoeddus yn ystod yr wythnos flaenorol

O blith y gweithgareddau ar-lein yr holwyd defnyddwyr y rhyngrwyd yn eu cylch yn 2016 yn y Traciwr Llythrennedd yn y Cyfryngau[23], gellir grwpio pedwar gweithgaredd o dan y pennawd gwasanaethau dinesig neu gyhoeddus. Y rhain yw:

[23] Gan fod y cwestiynau hyn ar y Traciwr Llythrennedd yn y Cyfryngau yn 2016, maent wedi cael eu cynnwys yma, yn hytrach na'r data ynglŷn â gweithgareddau ar-lein Traciwr Technoleg 2017. Fodd

1. chwilio am wybodaeth am wasanaethau cyhoeddus ar safleoedd y Llywodraeth, fel gov.uk, ni direct neu Gyllid a Thollau EM;

2. cyflawni prosesau'r Llywodraeth ar-lein - fel diweddaru Credyd Cynhwysol, adnewyddu trwydded yrru neu basbort ac ati;

3. talu treth gyngor neu dalu am wasanaeth arall sy'n cael ei ddarparu gan y cyngor lleol (tocyn parcio, tâl atal tagfeydd ac ati); a

4. llofnodi deiseb ar-lein neu ddefnyddio gwefan ymgyrchu fel change.org.

Mae Ffigur 41 yn dangos cyfran defnyddwyr y rhyngrwyd sy'n oedolion yn 2016 sy'n dweud eu bod wedi gwneud pob gweithgaredd ar-lein, wedi'u rhannu yn ôl y rheini a oedd wedi gwneud hynny yr wythnos diwethaf a'r rheini sy'n gwneud hynny'n llai aml.
Mae'r mwyafrif o ddefnyddwyr y rhyngrwyd wedi cyflawni dau o'r pedwar gweithgaredd cyhoeddus neu ddinesig: chwilio ar-lein am wybodaeth am wasanaethau cyhoeddus ar safleoedd y Llywodraeth (60%) a chyflawni prosesau'r llywodraeth ar-lein (59%). Mae bron i hanner (46%) wedi talu eu treth gyngor neu wedi talu am wasanaeth arall gan y cyngor lleol ar-lein, tra mae dros bedwar o bob deg wedi llofnodi deiseb ar-lein neu wedi defnyddio gwefan ymgyrchu (43%).
Mae dros un defnyddiwr rhyngrwyd o bob deg (15%) yn dweud eu bod wedi chwilio ar-lein am wybodaeth am wasanaethau cyhoeddus ar safleoedd y Llywodraeth yn ystod yr wythnos diwethaf. Mae oddeutu un defnyddiwr rhyngrwyd o bob deg wedi talu eu treth gyngor neu dalu am un o wasanaethau'r cyngor lleol ar-lein (10%), wedi cyflawni un o brosesau'r Llywodraeth (15%), neu wedi llofnodi deiseb ar-lein/wedi defnyddio gwefan ymgyrchu (8%) yn ystod yr wythnos diwethaf.

Ffigur 41: Defnyddio gwasanaethau cyhoeddus neu ddinesig ar-lein, yn ôl math o weithgaredd: 2016



bynnag, nid oes modd dangos tuedd oherwydd newidiadau yn yr opsiynau amlder y gofynnwyd i'r ymatebwyr eu dewis.

IN13/ IN14. Pa rai o'r gweithgareddau hyn, os o gwbl, ydych chi wedi'u gwneud ar-lein? Pa rai, os o gwbl, o'r gweithgareddau hyn ydych chi wedi defnyddio'r rhyngrwyd ar eu cyfer yn yr wythnos diwethaf? (atebion wedi'u cynnig, sawl cod)
Sail: Pob oedolyn sy'n 16 oed a hŷn sy'n mynd ar-lein (1553 yn 2016).

Mae Ffigur 42 yn dangos unrhyw amrywiadau yn y niferoedd sydd wedi gwneud pob un o'r gweithgareddau cyhoeddus neu ddinesig hyn ar-lein, yn ôl oed, tra mae Ffigur 43 yn dangos unrhyw amrywiadau yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol a rhyw.

O'i gymharu â'r cyfartaledd, mae defnyddwyr y rhyngrwyd sydd yn y grŵp oed 16-24 yn llai tebygol o fod wedi cyflawni tri gweithgaredd o'r pedwar: chwilio ar-lein am wybodaeth am wasanaethau cyhoeddus ar safleoedd y Llywodraeth (50% o'i gymharu â 60%), cyflawni prosesau'r Llywodraeth ar-lein (49% o'i gymharu â 59%) a thalu am dreth gyngor neu wasanaeth arall gan y cyngor lleol ar-lein (28% o'i gymharu â 46%).

Mae defnyddwyr y rhyngrwyd sydd yn y grwpiau oed 25-34 a 35-44 oed yn fwy tebygol na'r cyffredin o fod wedi talu am eu treth gyngor neu wasanaeth arall gan y cyngor lleol ar-lein (57% ar gyfer pobl yn y grŵp oed 25-34 a 59% ar gyfer pobl yn y grŵp oed 35-44 o'i gymharu â 46%). Mae oedolion yn y grŵp oed 35-44 hefyd yn fwy tebygol o fod wedi chwilio ar-lein am wybodaeth am wasanaethau cyhoeddus ar safleoedd y Llywodraeth (68% o'i gymharu â 60%).

Mae oedolion yn y grŵp oed 55-64 hefyd yn fwy tebygol o fod wedi chwilio ar-lein am wybodaeth am wasanaethau cyhoeddus ar safleoedd y Llywodraeth (68% o'i gymharu â 60%) neu o fod wedi cyflawni prosesau'r Llywodraeth ar-lein (68% o'i gymharu â 59%). Mae pobl dros 65 oed sy'n mynd ar-lein yn llai tebygol na'r cyffredin o fod wedi gwneud gweithgareddau cyhoeddus/dinesig ar-lein. Mae'r rheini sydd yn y grŵp oed 65-74 a dros 75 oed yn llai tebygol o fod wedi talu am eu treth gyngor neu wasanaeth arall gan y cyngor lleol ar-lein (31% ar gyfer pobl 65-74 oed ac 19% ar gyfer pobl 75 oed a hŷn o'i gymharu â 46%).

Mae'r rheini sydd dros 75 oed hefyd yn llai tebygol o fod wedi gwneud y tri gweithgaredd arall: chwilio ar-lein am wybodaeth am wasanaethau cyhoeddus ar safleoedd y Llywodraeth (34% o'i gymharu â 60%), cyflawni prosesau'r Llywodraeth ar-lein (46% o'i gymharu â 59%) neu lofnodi deiseb ar-lein neu ddefnyddio gwefan ymgyrchu (25% o'i gymharu â 43%).

Ffigur 42: Defnyddio gwasanaethau cyhoeddus neu ddinesig ar-lein, yn ôl oed

Pob defnyddiwr rhyngrwyd		16-24	25-34	35-44	45-54	55-64	65-74	75+
Sail	1553	231	265	293	265	220	141	138
Chwilio ar-lein am wybodaeth am wasanaethau cyhoeddus ar safleoedd y llywodraeth, fel gov.uk, ni direct neu HMRC	60%	50% ↓	59%	68% ↑	63%	68% ↑	56%	34% ↓
Cyflawni prosesau'r llywodraeth ar-lein – fel diweddaru Credyd Cynhwysol, adnewyddu trwydded yrru neu basbort ac ati	59%	49% ↓	62%	58%	64%	68% ↑	59%	46% ↓
Talu am eich treth gyngor neu wasanaeth arall sy'n cael ei ddarparu gan y cyngor lleol ar-lein (tocyn parcio, tâl atal tagfeydd ac ati)	46%	28% ↓	57% ↑	59% ↑	47%	48%	31% ↓	19% ↓
Llofnodi deiseb ar-lein neu ddefnyddio gwefan ymgyrchu fel change.org	43%	46%	42%	45%	45%	45%	40%	25% ↓

IN13. Pa rai o'r gweithgareddau hyn, os o gwbl, ydych chi wedi'u gwneud ar-lein? (atebion wedi'u cynnig, sawl cod)
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau sylweddol (lefel 95%) yn ôl oed wrth gymharu â'r holl ddefnyddwyr rhyngrwyd

Mae oedolion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd mewn aelwydydd AB yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o fod wedi gwneud pob un o'r pedwar gweithgaredd cyhoeddus neu ddinesig ar-lein.

Mae oedolion mewn aelwydydd C2 yn llai tebygol o ddweud eu bod wedi llofnodi deiseb ar-lein neu ddefnyddio gwefan ymgyrchu (31% o'i gymharu â 73%). Mae oedolion mewn aelwydydd DE yn llai tebygol o fod wedi gwneud tri gweithgaredd o'r pedwar, ond maent yr un mor debygol â defnyddwyr rhyngrwyd yn gyffredinol i fod wedi llofnodi deiseb ar-lein neu ddefnyddio gwefan ymgyrchu.

Mae menywod yn fwy tebygol na dynion o ddweud eu bod wedi llofnodi deiseb ar-lein neu ddefnyddio gwefan ymgyrchu (47% o'i gymharu â 39%).

Ffigur 43: Defnyddio gwasanaethau cyhoeddus neu ddinesig ar-lein, yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol a rhyw

Pob defnyddiwr rhyngrwyd		AB	C1	C2	DE	Dynion	Menywod
Sail	1553	394	521	300	338	745	808
Chwilio ar-lein am wybodaeth am wasanaethau cyhoeddus ar safleoedd y llywodraeth, fel gov.uk, ni direct neu HMRC	60%	75% ↑	61%	54%	46% ↓	58%	62%
Cyflawni prosesau'r llywodraeth ar-lein – fel diweddaru Credyd Cynhwysol, adnewyddu trwydded yrru neu basbort ac ati	59%	75% ↑	60%	55%	41% ↓	60%	59%
Talu am eich treth gyngor neu wasanaeth arall sy'n cael ei ddarparu gan y cyngor lleol ar-lein (tocyn parcio, tâl atal tagfeydd ac ati)	46%	59% ↑	48%	42%	32% ↓	46%	47%
Llofnodi deiseb ar-lein neu ddefnyddio gwefan ymgyrchu fel change.org	43%	53% ↑	46%	31% ↓	37%	39%	47% ↑

IN13. Pa rai o'r gweithgareddau hyn, os o gwbl, ydych chi wedi'u gwneud ar-lein? (atebion wedi'u cynnig, sawl cod)
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (lefel 95%) yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol wrth gymharu â phob defnyddiwr rhyngrwyd a dynion wrth gymharu â menywod.

Y dyfeisiau a ddefnyddir fwyaf ar gyfer cyflawni prosesau'r Llywodraeth ar-lein

Cyfrifiaduron yw'r dyfeisiau a ddefnyddir amlaf ar gyfer cyflawni prosesau'r Llywodraeth ar-lein

Mae Ffigur 44 yn dangos sut mae'r ddyfais a defnyddir fwyaf i gyflawni prosesau'r Llywodraeth ar-lein yn amrywio dros amser, yn ogystal ag oed, grŵp economaidd-gymdeithasol a rhyw.

Mae chwech defnyddiwr rhyngrwyd o bob deg a fydd yn mynd ar-lein i wneud tasg fel hon yn dweud eu bod gan fwyaf yn defnyddio gliniadur/cyfrifiadur gwe neu gyfrifiadur bwrdd gwaith at y diben hwn, gydag oddeutu un o bob pump (22%) yn defnyddio dyfais tabled gan fwyaf. Mae oddeutu un o bob chwech (17%) yn dweud eu bod gan amlaf yn defnyddio ffôn clyfar i gyflawni prosesau'r Llywodraeth.

O'i gymharu â 2015, mae'r rheini sy'n mynd ar-lein i gyflawni prosesau'r Llywodraeth erbyn hyn yn llai tebygol o ddweud eu bod gan amlaf yn defnyddio cyfrifiadur (60% o'i gymharu â 68%), ac yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn defnyddio dyfais tabled gan fwyaf (22% o'i gymharu ag 16%).

Cyfrifiadur yw'r ddyfais fwyaf cyffredin a ddefnyddir i gyflawni prosesau'r Llywodraeth, ymhlith defnyddwyr rhyngrwyd o bob oed. O'i gymharu â'r cyfartaledd (60%), mae pobl dros 55 oed yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn defnyddio'r ddyfais hon gan fwyaf (73% o'r grŵp oed 55-74 a 72% o'r rheini sydd dros 65 oed), ac mae'r rheini yn y grŵp oed 25-34 yn llai tebygol o ddweud hynny (44%). Nid yw defnyddio dyfais tabled gan amlaf i gyflawni prosesau'r Llywodraeth ar-lein yn amrywio yn ôl oed, o'i gymharu â'r cyfartaledd. Mae un o bob tri yn y grŵp oed 25-34 (34%) yn dweud eu bod yn defnyddio ffôn clyfar gan amlaf, sy'n uwch na chyfartaledd y DU (17%). Mae llai nag un o bob deg oedolyn sydd dros 45 oed yn dweud mai ffôn clyfar y maent yn eu defnyddio fel arfer, sy'n is na'r cyfartaledd ar gyfer y DU.

Mae'r rheini mewn aelwydydd AB sy'n cyflawni prosesau'r Llywodraeth ar-lein yn fwy tebygol o ddweud mai cyfrifiadur y byddant yn ei ddefnyddio gan fwyaf ar gyfer y gweithgaredd hwn, o'i gymharu â'r cyfartaledd (67% o'i gymharu â 60%), ac maent yn llai tebygol o ddweud eu bod yn defnyddio ffôn clyfar gan fwyaf (10% o'i gymharu ag 17%). Mewn cyferbyniad, mae oedolion mewn aelwydydd DE yn fwy tebygol o ddefnyddio ffôn clyfar (33% o'i gymharu ag 17%) ac yn llai tebygol o ddefnyddio cyfrifiadur (44% o'i gymharu â 60%).

Mae dynion yn fwy tebygol na menywod o ddweud eu bod yn defnyddio cyfrifiadur gan fwyaf i wneud y gweithgaredd hwn (68% o'i gymharu â 51%), tra mae menywod yn fwy tebygol o ddweud eu bod gan fwyaf yn defnyddio dyfais tabled (26% o'i gymharu â 19%) neu ffôn clyfar (22% o'i gymharu â 12%).

Ffigur 44: Y ddyfais a ddefnyddir fwyaf ar gyfer cyflawni prosesau'r Llywodraeth ar-lein, yn ôl grŵp demograffeg



IN16. Fe ddywedoch yn gynharach eich bod yn mynd ar-lein i gyflawni prosesau'r Llywodraeth, fel diweddaru Credyd Cynhwysol, neu adnewyddu trwydded yrru neu basbort. Pa un o'r dyfeisiau hyn fyddwch chi'n ei ddefnyddio fwyaf ar gyfer cyflawni prosesau'r Llywodraeth ar-lein? (atebion wedi'u cynnig, un cod).
Sail: Pob oedolyn 16+ oed sy'n mynd ar-lein ac yn cyflawni prosesau'r Llywodraeth ar-lein (883 yn 2016, 102 yn 16-24 oed, 164 yn 25-34 oed, 173 yn 35-44 oed, 164 yn 45-54 oed, 136 yn 55-64, 144 yn 65 oed a hŷn, 289 - AB, 301 - C1, 156 - C2, 137 - DE, 434 - dynion, 449 - menywod).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (lefel 95%) rhwng 2015 a 2016 ar y lefel gyffredinol ac yn ôl grŵp oed/economaidd-gymdeithasol wrth gymharu â phob defnyddiwr rhyngrwyd a dynion wrth gymharu â menywod.

Rhesymau dros beidio â chyflawni prosesau'r Llywodraeth ar-lein

Mae tri o bob deg sydd erioed wedi cyflawni prosesau'r Llywodraeth ar-lein yn dweud mai'r rheswm am hynny yw ei bod yn well ganddynt ddefnyddio pensel a phapur/llenwi ffurflen/defnyddio'r post

Mae defnyddwyr rhyngrwyd sydd erioed wedi cwblhau unrhyw un o brosesau'r Llywodraeth ar-lein (fel diweddaru Credyd Cynhwysol, neu adnewyddu trwydded yrru neu basbort, sy'n cyfrif am 41% o bob defnyddiwr rhyngrwyd) yn cael cynnig wyth rheswm dros beidio â gwneud hyn, ac yn cael eu holi pa rai sy'n berthnasol iddyn nhw.

Fel y dangosir yn Ffigur 45, mae 30% o'r grŵp hwn yn dweud nad ydynt yn cyflawni unrhyw un o brosesau'r Llywodraeth ar-lein oherwydd ei bod yn well ganddynt lenwi ffurflen a defnyddio'r post. Mae oddeutu un o bob pedwar (23%) yn dweud mai'r rheswm yw bod dim angen iddynt gyflawni prosesau'r Llywodraeth, ac mae un o bob pump (19%) yn dweud ei bod yn well ganddynt siarad â rhywun yn bersonol. Mae un o bob chwech yn dweud mai'r rheswm yw ei bod yn well ganddynt wneud galwad ffôn (16%). Mae'r holl ymatebion eraill yn cael eu rhoi gan un o bob deg neu lai.
Yn gyffredinol, dywed tri defnyddiwr rhyngrwyd o bob deg (29%) sydd ddim yn cyflawni prosesau'r Llywodraeth ar-lein mai'r rheswm am hynny yw ei bod yn well ganddynt gael rhyw fath o gyswllt llafar, naill ai dros y ffôn neu drwy siarad â rhywun yn bersonol, neu gan nad ydynt yn meddwl bod modd gwneud y broses ar-lein.
Mae defnyddwyr rhyngrwyd sydd wedi cyflawni unrhyw un o brosesau'r Llywodraeth ar-lein yn llai tebygol nag yn 2015 i ddweud mai'r rheswm am hyn yw ei bod yn well ganddynt wneud galwad ffôn (165 o'i gymharu â 22% yn 2015), gan ddychwelyd i'r lefel a welwyd yn flaenorol yn 2014.

Ffigur 45: Rhesymau dros beidio â chyflawni prosesau'r Llywodraeth ar-lein



IN15. Fe ddywedoch yn gynharach nad ydych yn mynd ar-lein i gyflawni prosesau'r Llywodraeth, fel diweddaru Credyd Cynhwysol, neu adnewyddu trwydded yrru neu basbort. Beth yw'ch rhesymau dros beidio â gwneud hyn ar-lein? (atebion wedi'u cynnig, sawl cod) **Yn 2016 mae'r opsiwn hwn yn cael ei greu o'r hyn a oedd yn ddau god ar wahân yn y blynyddoedd a fu, felly dylid edrych ar y duedd fel un ddangosol yn unig.
Sail: Oedolion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd sy'n 16 oed neu hŷn ac erioed wedi cyflawni un o brosesau'r Llywodraeth ar-lein (670 yn 2016).
Mae'r saethau'n dangos newidiadau arwyddocaol (lefel 95%) rhwng 2015 a 2016.

6.6 Creadigrwydd

Yr hyder i wneud gweithgareddau creadigol ar-lein

Bu cynnydd yn nifer y bobl sy'n dweud eu bod yn hyderus wrth fod yn greadigol ar-lein

Gofynnir i'r rheini sy'n mynd ar-lein i ba raddau maent yn teimlo'n hyderus wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd i wneud pethau fel creu blog, rhannu lluniau ar-lein a llwytho fideos byr i fyny.

Fel y dangosir yn Ffigur 46, dywed dau ddefnyddiwr rhyngrwyd o bob tri (68%) yn gyffredinol eu bod yn hyderus wrth wneud y mathau hyn o weithgareddau creadigol ar-lein, gyda phedwar o bob deg yn dweud eu bod yn hyderus iawn (41%). Dywedodd bron i dri o bob deg (28%) eu bod yn weddol hyderus o'i gymharu â 23% yn 2015. Dywed un defnyddiwr rhyngrwyd o bob pump nad yw'n teimlo'n hyderus yn gyffredinol (20%), gydag un o bob wyth (12%) yn dweud nad ydynt yn hyderus o gwbl.

Mae defnyddwyr rhyngrwyd yn y grwpiau oed 16-24 (68%) a 25-34 (54%) yn fwy tebygol na'r defnyddwyr rhyngrwyd cyffredin (41%) o ddweud eu bod yn hyderus iawn, ac mae'r rheini sydd dros 45 oed (45-54 - 33%, 55-64 - 24%, 65-74 - 26%, dros 75 - 9%) yn llai tebygol o ddweud hynny. Mae'r rheini sydd yn y grŵp oed 65-74 (30%) a dros 75 oed (37%) yn fwy na dwywaith mor debygol na defnyddwyr rhyngrwyd yn gyffredinol (12%) o ddweud nad ydynt yn teimlo'n hyderus o gwbl.

Mae dynion yn fwy tebygol na menywod o ddweud eu bod yn hyderus iawn wrth wneud y mathau hyn o weithgareddau creadigol ar-lein (45% o'i gymharu â 37%) ac mae menywod yn fwy tebygol o ddweud nad ydynt yn hyderus o gwbl (14% o'i gymharu â 10% i ddynion).

Ffigur 46: Hyder â gweithgareddau creadigol ar-lein: 2010-2016



IN11B. Pa mor hyderus ydych chi wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd i wneud pethau fel creu blog, rhannu lluniau ar-lein a llwytho fideos byr i fyny? (atebion wedi'u cynnig, un cod).
Sail: Oedolion 16 oed a hŷn sy'n mynd ar-lein (1553 yn 2016).
Mae'r saethau'n dangos newidiadau arwyddocaol (lefel 95%) rhwng 2015 a 2016.

Llwytho cynnwys i fyny ar-lein

Mae tri defnyddiwr rhyngrwyd o bob deg wedi llwytho cynnwys i fyny ar-lein

Mae un o'r gweithgareddau y gofynnir i ddefnyddwyr rhyngrwyd amdanynt yn yr arolwg Traciwr Technoleg[24] yn dod o dan y pennawd gweithgareddau creadigol: llwytho cynnwys i fyny neu ychwanegu cynnwys at y rhyngrwyd (ee lluniau, fideos neu flogiau).

Mae Ffigur 29 yn dangos cyfran yr oedolion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd sy'n dweud eu bod, rhwng 2014 a 2017[25], wedi gwneud y gweithgaredd hwn ar-lein, wedi'i rhannu yn ôl y rheini sydd wedi gwneud y gweithgaredd yn ystod yr wythnos diwethaf a defnydd llai aml.

Yn 2017, dywed tri defnyddiwr rhyngrwyd o bob deg eu bod wedi llwytho cynnwys i fyny neu ychwanegu cynnwys at y rhyngrwyd, gydag oddeutu hanner y rhain (17%) yn dweud eu bod wedi gwneud hyn yn yr wythnos diwethaf.

Nid yw'r niferoedd hyn wedi newid ers 2016, er bod oedolion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd yn fwy tebygol o fod wedi gwneud hyn nag yn 2014, boed nhw wedi gwneud hynny 'rywbryd' (30% o'i gymharu â 22% yn 2014) neu yn ystod yr wythnos diwethaf (17% o'i gymharu â 11% yn 2014).

Ffigur 29: Llwytho cynnwys i fyny ar-lein: 2014-2017



Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom, Hanner 1 2014-2017
CE5A/ CE5B. Pa rai, os o gwbl, o'r rhain ydych chi'n defnyddio'r rhyngrwyd ar eu cyfer?/ A pha rai, os o gwbl, o'r gweithgareddau hyn ydych chi wedi defnyddio'r rhyngrwyd ar eu cyfer yn yr wythnos diwethaf? (atebion wedi'u cynnig, sawl cod).
Sail: Pob oedolyn sy'n 16 oed a hŷn sy'n mynd ar-lein (3221 yn 2017).

Yn 2017, mae defnyddwyr rhyngrwyd yn y grŵp oed 16-24 (28%) a 25-34 (23%) yn fwy tebygol na'r cyfartaledd (17%) o ddweud eu bod wedi llwytho cynnwys i fyny neu ychwanegu cynnwys ar-lein yn ystod yr wythnos flaenorol, tra mae'r rheini yn y grwpiau oed 55-64 (12%), 65-74 (4%) neu 75+ (3%) yn llai tebygol.

[24] Fel y soniwyd yn gynharach, mae'r data sy'n ymwneud â'r mathau o weithgareddau y mae defnyddwyr rhyngrwyd yn eu gwneud ar-lein yn dod o don ddiweddaraf yr astudiaeth Traciwr Technoleg neu o'r Traciwr Llythrennedd yn y Cyfryngau.
[25] Gan mai yn 2017 yr oedd y don ddiweddaraf o ymchwil Traciwr Technoleg, mae unrhyw ddadansoddiadau tuedd yn gwahaniaethu rhwng 2016 a 2017 (yn hytrach na rhwng 2015 a 2016).

Mae oedolion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd mewn aelwydydd AB (23%) yn fwy tebygol na'r cyffredin (17%) o fod wedi gwneud hyn yn yr wythnos flaenorol, tra mae'r rheini mewn aelwydydd DE (13%) yn llai tebygol.

Defnyddio ffôn clyfar ar gyfer gweithgareddau creadigol

Mae mwy na thraean o ddefnyddwyr ffôn clyfar yn golygu lluniau neu fideos ar eu ffôn bob wythnos

Gofynnir i ddefnyddwyr ffonau clyfar (72% o oedolion) am ddau weithgaredd creadigol y gallant ddefnyddio eu ffon clyfar i'w wneud: tynnu lluniau neu fideos a golygu lluniau neu fideos.

Mae Ffigur 30 yn dangos bod bron bob defnyddiwr ffôn clyfar (97%) yn 2016 wedi defnyddio'u ffôn i dynnu lluniau neu fideos, gyda saith o bob deg (69%) yn gwneud hyn bob wythnos.

Dywed ychydig mwy na saith defnyddiwr ffôn clyfar o bob deg (72%) eu bod wedi golygu lluniau neu fideos ar eu ffôn clyfar; mae dros draean (37%) yn dweud eu bod yn gwneud hyn bob wythnos o leiaf.

Ffigur 30: Defnyddio ffôn clyfar ar gyfer gweithgareddau creadigol: 2016



M7B/ C. O'r rhestr hon, dywedwch pa fath o bethau rydych chi'n defnyddio eich ffôn clyfar ar eu cyfer, a pha mor aml rydych chi'n gwneud pob un. (atebion wedi'u cynnig, un cod).
Sail: Pob oedolyn dros 16 oed sy'n defnyddio ffôn clyfar (1249 yn 2016).

Fel y dangosir yn Ffigur 31, o'i gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer defnyddwyr ffonau clyfar, mae'r rheini yn y grwpiau oed 16-24 a 25-34 yn fwy tebygol o ddefnyddio'u ffôn clyfar o leiaf unwaith yr wythnos ar gyfer y ddau weithgaredd creadigol hyn. Mewn cyferbyniad, mae'r rheini sy'n 45 oed neu hŷn yn llai tebygol o wneud hynny.

Mae menywod yn fwy tebygol na dynion o ddweud eu bod yn tynnu lluniau neu'n gwneud fideo ar eu ffôn clyfar bob wythnos o leiaf (72% o'i gymharu â 65%).

Ffigur 31: Defnyddio ffôn clyfar ar gyfer gweithgareddau creadigol o leiaf unwaith yr wythnos

Pob defnyddiwr ffôn clyfar		16-24	25-34	35-44	45-54	55-64	65+
Sail	1249	216	247	268	235	157	126
Tynnu lluniau neu wneud fideo	69%	82% ↑	83% ↑	70%	60% ↓	46% ↓	44% ↓
Golygu lluniau neu fideos	37%	54% ↑	48% ↑	41%	24% ↓	20% ↓	17% ↓

Pob defnyddiwr ffôn clyfar		AB	C1	C2	DE	Dynion	Menywod
Sail	1249	305	425	247	272	598	651
Tynnu lluniau neu wneud fideo	69%	70%	67%	70%	68%	65%	72% ↑
Golygu lluniau neu fideos	37%	35%	37%	41%	38%	35%	40%

M7B/ C. O'r rhestr hon, dywedwch pa fath o bethau rydych chi'n defnyddio eich ffôn clyfar ar eu cyfer, a pha mor aml rydych chi'n gwneud pob un. (atebion wedi'u cynnig, un cod).
Sail: Pob oedolyn dros 16 oed sy'n defnyddio ffôn clyfar (1249 yn 2016).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (lefel 95%) yn ôl oed/grŵp economaidd-gymdeithasol wrth gymharu â phob defnyddiwr ffôn clyfar, a dynion wrth eu cymharu â menywod.

Creadigrwydd a'r cyfryngau cymdeithasol

Mae tri defnyddiwr o bob deg yn dweud eu bod yn teimlo'n fwy creadigol wrth ddefnyddio safleoedd cyfryngau cymdeithasol; mae hyn yn fwy tebygol ymysg y rheini sydd rhwng 25 a 34 oed

Gofynnir i'r rheini sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol i ba raddau maen nhw'n cytuno â'r datganiad canlynol: "Rydw i'n teimlo'n fwy creadigol pan fydda i'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol". Mae tri o bob deg yn cytuno (30%), tra mae cyfran uwch yn anghytuno (36%). Mae defnyddwyr yn y grŵp oed 25-34 (37%) yn fwy tebygol o gytuno, tra mae'r rheini yn y grŵp oed 55-64 (49%) yn fwy tebygol o anghytuno.

Mae menywod yn fwy tebygol na dynion o anghytuno (39% o'i gymharu â 32%).

Ffigur 32: Cytuno â'r datganiad: "Rydw i'n teimlo'n fwy creadigol pan fydda i'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol", yn ôl oed, rhyw a grŵp economaidd-gymdeithasol



IN25C. Dywedwch wrthyf i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol ynghylch safleoedd cyfryngau cymdeithasol – rydw i'n teimlo'n fwy creadigol pan fydda i'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol (atebion wedi'u cynnig, un cod).
Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn gyda phroffil/cyfrif cyfryngau cymdeithasol (1136 yn 16 oed neu'n hŷn, yn amrywio yn ôl demograffeg).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (lefel 95%) yn ôl oed/grŵp economaidd-gymdeithasol wrth gymharu â phawb sydd â phroffil/cyfrif cyfryngau cymdeithasol, a dynion o'u cymharu â menywod.

6.7 Gwneud trafodion ar-lein

Wrth gymharu â'r llynedd, mae defnyddwyr rhyngrwyd yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi siopa ar-lein yn ystod yr wythnos flaenorol

Mae dau weithgaredd y gofynnir i ddefnyddwyr rhyngrwyd amdanynt yn yr arolwg Traciwr Technoleg yn dod o dan bennawd gwneud trafodion ar-lein: siopa ar-lein (prynu nwyddau, gwasanaethau, tocynnau ac ati) a bancio.

Mae Ffigur 33 yn dangos cyfran yr oedolion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd sy'n dweud eu bod, rhwng 2014 a 2017[26], wedi gwneud pob un o'r gweithgareddau hyn ar-lein, wedi'i rhannu yn ôl y rheini sydd wedi gwneud y gweithgaredd yn ystod yr wythnos diwethaf a defnydd llai aml.

Yn 2017, dywed saith defnyddiwr rhygnrwyd o bob deg eu bod wedi siopa ar-lein (69%) tra mae mwy na chwech o bob deg (64%) yn dweud eu bod wedi mynd ar-lein er mwyn bancio. Er nad yw'r niferoedd wedi newid o'u cymharu â'r llynedd, mae'r ddau weithgaredd yn fwy tebygol nag yn 2014.

Mae bron i hanner y defnyddwyr rhyngrwyd yn dweud eu bod wedi siopa ar-lein yn ystod yr wythnos flaenorol yn 2017 (48%), sy'n fwy na'r pedwar o bob deg (40%) a ddywedodd hyn

[26] Gan mai yn 2017 yr oedd y don ddiweddaraf o ymchwil Traciwr Technoleg, mae unrhyw ddadansoddiadau tuedd yn gwahaniaethu rhwng 2016 a 2017 (yn hytrach na rhwng 2015 a 2016).

yn 2016. Mae dros hanner y defnyddwyr rhyngrwyd yn dweud eu bod wedi mynd ar-lein yn ystod yr wythnos flaenorol ar gyfer bancio (53%); nid yw hynny wedi newid ers 2016 (50%).

Ffigur 33: Gwneud trafodion ar-lein: 2014-2017



Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom, Hanner 1 2014-2017
CE5A/ CE5B. Pa rai, os o gwbl, o'r rhain ydych chi'n defnyddio'r rhyngrwyd ar eu cyfer?/ A pha rai, os o gwbl, o'r gweithgareddau hyn ydych chi wedi defnyddio'r rhyngrwyd ar eu cyfer yn yr wythnos diwethaf? (atebion wedi'u cynnig, sawl cod).
Sail: Pob oedolyn sy'n 16 oed a hŷn sy'n mynd ar-lein (3221 yn 2017).
Mae'r saethau'n dangos newidiadau arwyddocaol (lefel 99%) rhwng 2016 a 2017.

Fel y mae Ffigur 34 yn ei ddangos, yn 2017, mae defnyddwyr rhyngrwyd yn y grwpiau oed 25-24 a 35-44 yn fwy tebygol na defnyddwyr rhyngrwyd yn gyffredinol o ddweud eu bod wedi mynd ar-lein yn yr wythnos diwethaf at ddibenion siopa neu fancio. Mae'r rheini yn y grwpiau oed 65-74 neu dros 75 yn llai tebygol o fod wedi gwneud pob math o weithgaredd ar-lein. Mae'r rheini yn y grŵp oed 55-64 yn llai tebygol o fod wedi bancio ar-lein yn ystod yr wythnos diwethaf.

Mae oedolion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd mewn aelwydydd AB yn fwy tebygol na'r cyffredin o fod wedi siopa neu fancio ar-lein yn yr wythnos flaenorol, tra mae'r rheini mewn aelwydydd DE yn llai tebygol o fod wedi gwneud y gweithgareddau hyn ar-lein.

Ffigur 34: Gwneud trafodion ar-lein yn yr wythnos flaenorol, yn ôl oed, rhyw a grŵp economaidd-gymdeithasol

Pob defnyddiwr rhyngrwyd		16-24	25-34	35-44	45-54	55-64	65-74	75+
Sail	3221	506	536	613	531	520	364	151
Bancio	53%	50%	66%↑	61%↑	55%	47%↓	34%↓	26%↓
Siopa ar-lein (prynu nwyddau/gwasanaethau/tocynnau ac ati)	48%	44%	56%↑	55%↑	52%	43%	34%↓	15%↓

Pob defnyddiwr rhyngrwyd		AB	C1	C2	DE	Dynion	Menywod
Sail	3221	789	1019	679	731	1570	1651
Bancio	53%	66%↑	55%	48%	38%↓	53%	53%
Siopa ar-lein (prynu nwyddau/gwasanaethau/tocynnau ac ati)	48%	58%↑	50%	43%	35%↓	47%	48%

Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom, Hanner 1 2017
CE5B. A pha rai, os o gwbl, o'r gweithgareddau hyn ydych chi wedi defnyddio'r rhyngrwyd ar eu cyfer yn yr wythnos diwethaf? (atebion wedi'u cynnig, sawl cod).
Sail: Pob oedolyn sy'n 16 oed a hŷn sy'n mynd ar-lein (3221 yn 2017).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (lefel 95%) yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol/oed wrth gymharu â phob defnyddiwr rhyngrwyd, a dynion wrth gymharu â menywod.

Defnyddio ffôn clyfar i wneud trafodion

Wrth gymharu â 2015, mae defnyddwyr ffonau clyfar yn awr yn fwy tebygol o ddefnyddio'u ffôn i wneud taliadau di-gyswllt

Gofynnir i ddefnyddwyr ffonau clyfar (72% o oedolion) pa mor aml maent yn defnyddio'u ffôn symudol 'fel tocyn neu docyn hedfan neu fel tocyn mynediad i ddigwyddiad' neu 'i wneud taliad di-gyswllt mewn siop neu gaffi gan ddefnyddio gwasanaethau fel Apple Pay neu Android Pay'[27].

Mae Ffigur 53 yn dangos, yn 2016, fod pedwar defnyddiwr ffôn clyfar o bob deg wedi defnyddio'u ffôn fel tocyn neu docyn hedfan neu i gael mynediad i ddigwyddiad (41%) gyda 5% yn dweud eu bod yn defnyddio'u ffôn i wneud hyn o leiaf unwaith yr wythnos.
Mae bron i dri defnyddiwr ffôn clyfar o bob deg (28%) yn dweud eu bod yn defnyddio'u ffôn i wneud taliadau di-gyswllt, gydag oddeutu hanner y rhain yn gwneud hynny o leiaf unwaith bob wythnos (14%).
Wrth gymharu â 2015, mae defnyddwyr ffonau clyfar yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn defnyddio'u ffôn fel tocyn neu docyn hedfan neu i gael mynediad i ddigwyddiad (415 o'i

[27] Gallai'r gwahaniaethau a ddangosir ar gyfer y mesur hwn (o'i gymharu â 2015) gael eu priodoli i'r newidiadau a wnaed i'r holiadur yn 2016. Yn 2015, gofynnwyd i atebwyr pa mor aml maent yn defnyddio'u ffôn symudol i wneud taliad mewn siop, drwy ei roi ar ddarllenydd digyswllt.

gymharu â 33%) neu i wneud taliad di-gyswllt (285 o'i gymharu ag 20%). Mae defnyddwyr ffonau clyfar hefyd yn fwy tebygol nag yn 2015 o ddefnyddio'u ffôn i wneud taliadau di-gyswllt bob wythnos (14% o'i gymharu â 9%).

Ffigur 53: Defnyddio ffôn clyfar i wneud trafodion: 2015 a 2016



M7E/ F. O'r rhestr hon, dywedwch pa fath o bethau rydych chi'n defnyddio eich ffôn clyfar ar eu cyfer, a pha mor aml rydych chi'n gwneud pob un. (atebion wedi'u cynnig, un cod).
Sail: Pob oedolyn dros 16 oed sy'n defnyddio ffôn clyfar (1249 yn 2016).
Mae'r saethau'n dangos newidiadau arwyddocaol (lefel 95%) rhwng 2015 a 2016.

Fel y dangosir yn Ffigur 54, wrth gymharu â'r ffigur cyfartalog ar gyfer defnyddwyr ffonau clyfar (14%), mae'r rheini yn y grŵp oed 25-34 yn fwy tebygol o ddefnyddio'u ffôn i wneud taliad di-gyswllt bob wythnos o leiaf (21%), tra mae'r rheini sy'n 65 oed a hŷn yn llai tebygol (1%).

Mae defnyddwyr ffonau clyfar yn y grŵp oed 16-24 ddwywaith mor debygol â'r cyfartaledd i ddweud eu bod yn defnyddio'u ffôn fel tocyn, tocyn hedfan neu ffordd o gael mynediad i ddigwyddiad' bob wythnos o leiaf (10% o'i gymharu â 5% yn gyffredinol). Nid oes dim defnyddwyr ffonau clyfar sy'n 65 oed neu hŷn yn dweud eu bod yn gwneud hyn bob wythnos o leiaf. Mae dynion hefyd yn fwy tebygol na menywod o ddefnyddio'u ffôn at y diben hwn (6% o'i gymharu â 3%).

Ffigur 54: Defnyddio ffôn clyfar i wneud trafodion o leiaf unwaith yr wythnos

Pob defnyddiwr ffôn clyfar		16-24	25-34	35-44	45-54	55-64	65+
Sail	1249	216	247	268	235	157	126
Defnyddio eich ffôn i wneud taliad digyswllt mewn siop neu gaffi gan ddefnyddio gwasanaethau fel Apple Pay neu Android Pay	14%	18%	21% ↑	15%	10%	8%	1% ↓
Defnyddio eich ffôn fel tocyn neu docyn hedfan neu i gael mynediad i ddigwyddiad	5%	10% ↑	5%	5%	3%	2%	0% ↓

Pob defnyddiwr ffôn clyfar		AB	C1	C2	DE	Dynion	Menywod
Sail	1249	305	425	247	272	598	651
Defnyddio eich ffôn i wneud taliad digyswllt mewn siop neu gaffi gan ddefnyddio gwasanaethau fel Apple Pay neu Android Pay	14%	15%	14%	14%	14%	15%	13%
Defnyddio eich ffôn fel tocyn neu docyn hedfan neu i gael mynediad i ddigwyddiad	5%	7%	2%	5%	4%	6% ↑	3%

M7E/ F. O'r rhestr hon, dywedwch pa fath o bethau rydych chi'n defnyddio eich ffôn clyfar ar eu cyfer, a pha mor aml rydych chi'n gwneud pob un. (atebion wedi'u cynnig, un cod).
Sail: Pob oedolyn dros 16 oed sy'n defnyddio ffôn clyfar (1249 yn 2016).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (lefel 95%) yn ôl oed/grŵp economaidd-gymdeithasol wrth gymharu â phob defnyddiwr ffôn clyfar, a dynion wrth eu cymharu â menywod.

Adran 7

Cynnwys

7.1 Trosolwg o'r adran

Mae'r adran hon yn edrych ar y ffyrdd y mae oedolion yn ymgysylltu â chynnwys y cyfryngau. Mae'n cychwyn drwy edrych i weld i ba raddau y mae defnyddwyr cyfryngau yn pryderu am y cyfryngau maent yn eu defnyddio.

Mae'n rhoi sylw i'w profiadau wrth chwarae gemau ar-lein gyda phobl eraill neu yn erbyn pobl eraill, a'u hagweddau at hynny. Mae'n edrych ar eu profiadau o wylio cynnwys ar-lein ac yn edrych ar y ffyrdd y maent yn dod i wybod am gynnwys ar-alwad yn ogystal â chynnwys am safleoedd rhannu fideos.

Mae'n adrodd ynghylch sut mae defnyddwyr y rhyngrwyd yn cael gafael ar gynnwys sain ar-lein - pa un ai eu bod yn gwrando ar radio ar-lein, neu ar wasanaethau sain premiwm neu am ddim sydd wedi'u ffrydio.

Daw i gasgliad drwy edrych ar y ffyrdd y byddant yn dod o hyd i wybodaeth ar-lein drwy'r amrywiol senarios ffynonellau sydd ar gael iddynt.

7.2 Prif ganfyddiadau

- Mae pryderon ynghylch yr hyn sydd ar y teledu yn llai tebygol yn awr nag yn 2015 (35% o'i gymharu â 39% yn 2015); mae pryderon am ansawdd cynnwys neu ailddarllediadau, yn benodol, yn llai tebygol (16% o'i gymharu â 21% yn 2015).

- Dywed hanner y defnyddwyr rhyngrwyd (50%) fod ganddynt bryderon ynghylch yr hyn sydd ar y rhyngrwyd, mae gan dri o bob deg (30%) o'r rheini sy'n defnyddio ffôn symudol bryderon ynghylch ffonau symudol, ac mae gan bron i un o bob pedwar (23%) o'r rheini sy'n chwarae gemau bryderon ynghylch chwarae gemau. Nid oes un o'r mesurau hyn wedi newid o'u cymharu â 2015.

- Yn 2017, mae defnyddwyr rhyngrwyd yn fwy tebygol o fod wedi bod ar-lein yn ystod yr wythnos flaenorol i edrych am wybodaeth am faterion sy'n ymwneud ag iechyd (22% o'i gymharu â 17% yn 2016).

- Mae dau ddefnyddiwr rhyngrwyd o bob tri (67%) wedi ymweld â gwefannau newyddion/gwleidyddiaeth/materion cyfoes, gyda dwy ran o dair (44%) o'r rhain wedi gwneud hynny yn ystod yr wythnos flaenorol. Mae hanner (53%) wedi edrych am gyfleoedd swyddi neu wedi gwneud cais am swydd ar-lein, gydag 16% wedi gwneud hyn yn ystod yr wythnos flaenorol.

- Peiriannau chwilio ydy'r ffynhonnell fwyaf boblogaidd o bell ffordd ar gyfer chwilio am wybodaeth ar-lein: defnyddir nhw gan 97% o ddefnyddwyr rhyngrwyd yn 2016.

- Dywed pedwar defnyddiwr rhyngrwyd o bob deg (41%) eu bod yn defnyddio ffynonellau fel Wikipedia, gwefannau ag adolygiadau defnyddwyr (40%) neu wefan y BBC (40%) i edrych am wybodaeth ar-lein. Mae tri o bob deg (31%) yn defnyddio YouTube at ddibenion gwybodaeth ac mae un o bob pedwar (26%) wedi defnyddio apiau neu safleoedd y cyfryngau cymdeithasol. Mae'r ddwy ffynhonnell ddiwethaf yn

fwy tebygol o gael eu defnyddio gan bobl rhwng 16 a 24 oed o'i gymharu â'r cyfartaledd.

- Dywed bron i hanner (46%) y defnyddwyr rhyngrwyd mai yn ystod y rhan fwyaf o wythnosau, yr unig wefannau neu apiau maent yn eu defnyddio yw'r rhai maent wedi eu defnyddio o'r blaen, sydd heb newid ers 2015.

- Mae dau ddefnyddiwr rhyngrwyd o bob tri wedi bod ar-lein i gymharu cynnyrch neu wasanaethau - fel edrych ar adolygiadau neu gymharu prisiau (68%), gyda hanner y rheini (35%) wedi gwneud hynny yn ystod yr wythnos flaenorol.

- Mae argymhellion personol hefyd yn chwarae rhan allweddol wrth edrych am gynnwys neu wybodaeth ar-lein. Mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr rhyngrwyd (58%) yn dweud os byddant yn sownd neu'n ansicr ynghylch sut mae gwneud rhywbeth ar-lein y byddent yn gofyn i ffrind neu i aelod o'r teulu am help.

- Mae hanner yr holl niferoedd sy'n gwylio cynnwys ar-alwad yn dewis pa gynnwys i'w wylio ar sail argymhellion gan ffrindiau neu deulu (49%). Dywed dros dri o bob pump (62%) o'r rheini sy'n defnyddio safleoedd rhannu fideos (fel YouTube neu Vimeo) eu bod yn dod o hyd i bethau i'w gwylio ar y safleoedd hyn yn seiliedig ar ffrindiau neu deulu yn dweud wrthynt am y cynnwys.

7.3 Pryderon ynghylch y cyfryngau

Mae'r mwyafrif o ddefnyddwyr rhyngrwyd yn credu y dylid gwarchod pobl rhag gweld cynnwys amhriodol neu gynnwys sy'n achosi tramgwydd

Fel cyd-destun ar gyfer deall mwy am lefelau'r pryderon sydd gan bobl ynghylch y cyfryngau, gofynnwn i ba raddau y maent yn teimlo bod angen gwarchod rhag cynnwys amhriodol neu gynnwys sy'n achosi tramgwydd.

Mae Ffigur 55 yn dangos y lefelau cyffredinol o ran a yw defnyddwyr rhyngrwyd yn cytuno neu'n anghytuno. Mae'r mwyafrif yn cytuno'n gryf y dylid gwarchod defnyddwyr rhag cynnwys amhriodol neu gynnwys sy'n achosi tramgwydd (56%), mesuriad sydd heb newid o'i gymharu â 2015. Mae 5% yn anghytuno'n gryf â'r datganiad hwn, sy'n uwch nag yn 2015 (3%).

Yn gyffredinol, mae tri defnyddiwr rhyngrwyd o bob pedwar (76%) yn cytuno, ac mae hyn yn fwy tebygol ymysg y rheini sy'n 75 oed neu hŷn (87%) ac ymysg menywod (80%) o'u cymharu â dynion (72%).

Ffigur 55: Cytuno â'r datganiad: "Dylid gwarchod defnyddwyr rhyngrwyd rhag gweld cynnwys amhriodol neu gynnwys sy'n achosi tramgwydd": 2005-2016



IN38A. Rwy'n mynd i ddarllen yn uchel rai o'r pethau mae pobl eraill wedi'u dweud am fod ar-lein. Defnyddiwch y cerdyn hwn i ddweud wrthyf i ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno â phob datganiad rwy'n ei ddarllen - Dylid gwarchod defnyddwyr rhyngrwyd rhag gweld cynnwys amhriodol neu gynnwys sy'n achosi tramgwydd (atebion wedi'u cynnig, un cod).
Sail: Oedolion 16 oed a hŷn sy'n mynd ar-lein (1553 yn 2016).
Mae'r saethau'n dangos newidiadau arwyddocaol (lefel 95%) rhwng 2015 a 2016.

Nid yw'r pryderon ynghylch y cyfryngau wedi newid rhyw lawer ers 2015, ond mae'r pryderon ynghylch yr hyn sydd ar y teledu wedi lleihau

Elfen bwysig sy'n cael ei monitro gennym yw i ba raddau y mae gan bobl bryderon ynghylch y cyfryngau maent yn eu defnyddio, a pha fath o bryderon sydd ganddynt. Gofynnwn i ddefnyddwyr a oes ganddynt bryderon ynghylch yr hyn sydd ar y teledu, y rhyngrwyd, ac ynghylch ffonau symudol neu chwarae gemau. Mae Ffigur 56 yn cymharu'r sôn cyffredinol am unrhyw bryderon ymysg defnyddwyr pob un o'r platfformau hyn ers 2005.

Dywed hanner y defnyddwyr rhyngrwyd (50%) fod ganddynt bryderon ynghylch yr hyn sydd ar y rhyngrwyd. Mae hyn yn cymharu â 35% o'r rheini sydd â theledu gartref sy'n dweud bod ganddynt bryderon ynghylch cynnwys teledu. Dywed tri defnyddiwr ffôn symudol o bob deg (30%) fod ganddynt bryderon ynghylch ffonau symudol a dywed un o bob pedwar (23%) o'r rheini sy'n chwarae gemau fod ganddynt bryderon ynghylch chwarae gemau.

Mae pryderon ynghylch yr hyn sydd ar y teledu yn llai tebygol nag yr oeddent yn 2015 (35% o'i gymharu â 39%).

Dyma'r gwahaniaethau rhwng grwpiau demograffeg:

- Rhyngrwyd: Mae defnyddwyr rhwng 16 a 24 oed (35%) yn llai tebygol na'r cyfartaledd (50%) o fod â phryderon ynghylch yr hyn sydd ar-lein, ac mae'r rheini rhwng 55 a 64 oed yn fwy tebygol (61%). Mae menywod (56%) yn fwy tebygol o fod â phryderon na dynion (45%). Mae oedolion mewn aelwydydd AB (60%) sy'n mynd

ar-lein yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o fod â phryderon, ac mae'r rheini mewn aelwydydd C2 yn llai tebygol (41%).

- Teledu: Mae defnyddwyr rhwng 65 a 74 oed (45%) a 75 oed neu hŷn (60%) yn fwy tebygol na'r cyfartaledd (35%) o fod â phryderon ynghylch yr hyn sydd ar y teledu, ac mae'r rheini rhwng 16 a 24 oed (18%) a 25 a 34 oed (27%) yn llai tebygol. Yn yr un modd â'r rhyngrwyd, mae menywod (39%) yn fwy tebygol na dynion (31%) o fod â phryderon ynghylch y teledu. Wrth gymharu â'r cyfartaledd, mae'r rheini mewn aelwydydd AB (42%) yn fwy tebygol o fod â phryderon, ac mae'r rheini mewn aelwydydd C2 yn llai tebygol (29%).
- Ffônau symudol: Wrth gymharu â'r cyfartaledd (30%), mae pryderon ynghylch ffonau symudol yn llai tebygol ymysg y rheini rhwng 16 a 24 oed (21%) ac yn uwch ymysg y rheini rhwng 55 a 64 oed (39%). Mae defnyddwyr ffonau symudol mewn aelwydydd AB (40%) yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o fod â phryderon ynghylch ffonau symudol, ac mae'r rheini mewn aelwydydd C2 yn llai tebygol (24%).
- Gemau: Mae menywod yn fwy tebygol na dynion o ddweud fod ganddynt bryderon ynghylch chwarae gemau (31% o'i gymharu ag 16%). Wrth gymharu â'r cyfartaledd (23%), mae'r rheini sy'n chwarae gemau mewn aelwydydd AB (32%) yn fwy tebygol o fod â phryderon.

Ffigur 56: Pryderon ynghylch y cyfryngau ymysg defnyddwyr: 2005-2016



IN20/ T7/ M1/ G2. Allwch chi ddweud wrtha i a oes gennych chi bryderon ynghylch yr hyn sydd ar y rhyngrwyd/teledu? Oes gennych chi bryderon ynghylch ffonau symudol/chwarae gemau? (atebion heb eu cynnig, sawl cod).
Sail: Oedolion sy'n 16 oed neu hŷn sy'n defnyddio pob llwyfan (sail amrywiol).
Mae'r saethau'n dangos newidiadau arwyddocaol (lefel 95%) rhwng 2015 a 2016.

Pryderon ynghylch cynnwys teledu

Mae pryderon penodol ynghylch ansawdd cynnwys teledu yn llai o'u cymharu â 2015

Pan ofynnir iddynt a oes ganddynt bryderon ynghylch yr hyn sydd ar y teledu, dywed dros un o bob tri oedolyn sydd â theledu gartref (35%) fod ganddynt. Fel yr uchod, mae hyn yn llai nag yr oedd yn 2015 (39%).

Fel y dangosir yn Ffigur 57, mae'r pryderon[28] hyn yn ymwneud yn bennaf â chynnwys sy'n achosi niwed neu dramgwydd (20%), neu ansawdd gwael cynnwys neu ailddarllediadau (16%), gyda'r ail fesur hwn yn llai tebygol nag yr oedd yn 2015 (21%).

Yn yr un modd â 2014 a 2015, mae gan lai nag un o bob deg bryderon am hysbysebu/nawdd (6%), am amrywiaeth mewn cynnwys (5%) neu am beidio ag ymddiried mewn cynnwys maen nhw'n credu sydd wedi'i ystumio/ffug/rhagfarnllyd (2%).

Mae oedolion rhwng 16 a 24 oed yn llai tebygol na'r cyfartaledd i fod â phryderon ynghylch cynnwys sy'n achosi niwed neu dramgwydd ar y teledu (10% o'i gymharu ag 20%) neu ynghylch ansawdd cynnwys/ailddarllediadau (6% o'i gymharu ag 16%). Mae'r rheini rhwng 25 a 34 oed hefyd yn llai tebygol o fod â phryderon ynghylch cynnwys sy'n achosi tramgwydd (13% o'i gymharu ag 20%). Mae pryderon ynghylch cynnwys sy'n achosi niwed neu dramgwydd yn fwy tebygol ymysg pobl 75 oed neu hŷn (38% o'i gymharu ag 20%), ac mae pryderon ynghylch ansawdd cynnwys/darllediadau yn fwy tebygol ymysg pobl rhwng 65 a 74 oed (23% o'i gymharu ag 16%) a phobl 75 oed neu hŷn (24%).

Er bod aelwydydd AB yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o gael unrhyw bryderon ynghylch teledu ac aelwydydd C2 yn llai tebygol, fel y trafodwyd yn gynharach, nid yw'r gwahaniaethau hyn yn berthnasol i unrhyw fath penodol o gynnwys. Mae menywod yn fwy tebygol na dynion (25% o'i gymharu â 15%) o fod â phryderon ynghylch cynnwys sy'n achosi niwed neu dramgwydd.

[28] Y tri phrif bryder penodol ynghylch teledu yw: trais yn gyffredinol (10%), iaith anweddus (fel rhan o sgwrs neu mewn geiriau caneuon) (8%) a gormod o ailddarllediadau (7%). Mae'r pryderon penodol hyn (heb eu cynnig) yna'n cael eu rhoi yn y categorïau a ddisgrifiwyd.

Ffigur 57: Pryderon ynghylch y teledu ymysg defnyddwyr: 2010-2016



T7. Allwch chi ddweud wrtha i a oes gennych chi bryderon ynghylch yr hyn sydd ar y teledu? (atebion heb eu cynnig, sawl cod).
Sail: Oedolion sy'n 16 oed neu hŷn sydd ag unrhyw deledu gartref (1801 yn 2016).
Mae'r saethau'n dangos newidiadau arwyddocaol (lefel 95%) rhwng 2015 a 2016.

Pryderon ynghylch cynnwys ar y rhyngrwyd

Nid yw'r pryderon ynghylch yr hyn sydd ar y rhyngrwyd wedi newid o'u cymharu â 2015

Dywed hanner y defnyddwyr rhyngrwyd fod ganddynt bryderon ynghylch yr hyn sydd ar y rhyngrwyd, ffigur sydd heb newid ers 2015 (50% o'i gymharu â 49% yn 2015). Mae'r pryderon hyn yn ymwneud yn bennaf â chynnwys anghyfreithlon/cynnwys sy'n achosi tramgwydd (38%), peryglon i bobl eraill/y gymdeithas (22%) a phryderon ynghylch diogelwch/twyll (20%). Mae'r pryderon eraill yn cynnwys preifatrwydd personol (9%) a hysbysebion (7%). Nid yw'r mathau hyn o bryderon wedi newid ers 2015.

Er na ddangosir hyn ar y siart, y tri phrif bryder penodol[29] ynghylch y rhyngrwyd a grybwyllwyd gan oedolion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd yw: cynnwys sy'n anaddas i blant (20%), cynnwys rhywiol/pornograffi (17%) a phobl ddieithr yn cysylltu â phlant (16%).

Yn 2016, o'u cymharu ag oedolion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd yn gyffredinol, mae'r rheini rhwng 16 a 24 oed yn llai tebygol o fod â phryderon ynghylch cynnwys anghyfreithlon/cynnwys sy'n achosi tramgwydd (27% o'i gymharu â 38%), peryglon i bobl eraill/y gymdeithas (11% o'i gymharu â 22%) a phreifatrwydd personol (4% o'i gymharu â

[29] Mae'r pryderon penodol hyn (heb eu cynnig) yna'n cael eu rhoi yn y categorïau a ddisgrifiwyd.

9%). Mae oedolion rhwng 25 a 34 oed yn llai tebygol o fod â phryderon ynghylch diogelwch/twyll (14% o'i gymharu ag 20%).

Mae oedolion rhwng 55 a 64 oed yn fwy tebygol o fod â phryderon ynghylch peryglon i bobl eraill/y gymdeithas (31% o'i gymharu â 22%) ac ynghylch diogelwch/twyll (28% o'i gymharu ag 20%).

Mae oedolion mewn aelwydydd AB yn fwy tebygol o fod â phryderon ynghylch cynnwys anghyfreithlon/cynnwys sy'n achosi tramgwydd (46% o'i gymharu â 38%) ac ynghylch diogelwch/twyll (27% o'i gymharu ag 20%), ond mae pryderon ynghylch cynnwys anghyfreithlon/cynnwys sy'n achosi tramgwydd yn llai tebygol ymysg aelwydydd C2 (31% o'i gymharu â 38%).

Mae menywod yn fwy tebygol na dynion o fod â phryderon ynghylch cynnwys anghyfreithlon/cynnwys sy'n achosi tramgwydd (41% o'i gymharu â 35%).

Ffigur 35: Pryderon ynghylch y rhyngrwyd ymysg defnyddwyr: 2010-2016



IN20. Allwch chi ddweud wrtha i a oes gennych chi bryderon ynghylch yr hyn sydd ar y rhyngrwyd? (atebion heb eu cynnig, sawl cod).
Sail: Oedolion 16 oed a hŷn sy'n mynd ar-lein (1553 yn 2016).

Pryderon ynghylch chwarae gemau

Nid yw'r pryderon ynghylch chwarae gemau wedi newid o'u cymharu â 2015 chwaith

Pan ofynnir iddynt a oes ganddynt bryderon ynghylch chwarae gemau, dywed tua un o bob pedwar oedolyn sydd wedi chwarae gemau fod ganddynt (23%); nid yw hyn wedi newid ers 2015 (25%). Mae'r pryderon yn ymwneud â chynnwys sy'n achosi tramgwydd, peryglon iechyd (8%), peryglon i bobl eraill/y gymdeithas (7%) a fforddiadwyedd (6%).

Mae menywod yn fwy tebygol na dynion o fod â phryderon ynghylch cynnwys sy'n achosi tramgwydd (18% o'i gymharu â 6%).

Ffigur 36: Pryderon ynghylch chwarae gemau ymysg defnyddwyr: 2010-2016



G2. Allwch chi ddweud wrtha i a oes gennych chi bryderon ynghylch chwarae gemau? (atebion heb eu cynnig, sawl cod).
Sail: Oedolion 16 oed neu hŷn sy'n chwarae gemau (605 yn 2016).

Pryderon ynghylch ffonau symudol

Nid yw'r pryderon ynghylch ffonau symudol wedi newid o'u cymharu â 2015

Pan ofynnir iddynt a oes ganddynt bryderon ynghylch ffonau symudol, dywed tri o bob deg (30%) sy'n defnyddio ffôn ynsymudol yn bersonol fod ganddynt. Nid oes un categori yn ben ar y gweddill, gydag un o bob deg yn crybwyll pryderon ynghylch y peryglon i bobl eraill neu i'r gymdeithas yn gyffredinol (10%) a fforddiadwyedd (10%). Mae llai nag un o bob deg yn crybwyll pryderon ynghylch diogelwch/twyll (8%), preifatrwydd (7%) neu iechyd (6%). Yn yr un modd â'r pryderon yn gyffredinol, nid yw'r mathau hyn o bryderon wedi newid ers 2015.

Mae defnyddwyr ffonau symudol rhwng 55 a 64 oed (13%) yn fwy tebygol na'r cyfartaledd (8%) o fod â phryderon ynghylch diogelwch/twyll, ac mae'r rheini sy'n 75 oed neu hŷn yn llai tebygol (3%). Mae defnyddwyr rhwng 16 a 24 oed yn llai tebygol o ddweud bod ganddynt bryderon ynghylch preifatrwydd (2% o'i gymharu â 7%).

Mae defnyddwyr mewn aelwydydd AB yn fwy tebygol o fod â phryderon ynghylch fforddiadwyedd (14% o'i gymharu â 10%) ac ynghylch preifatrwydd (11% o'i gymharu â 7%). Mae pryderon ynghylch preifatrwydd yn llai ymysg defnyddwyr mewn aelwydydd DE (3% o'i gymharu â 7%), ac mae'r rheini mewn aelwydydd C2 yn llai tebygol o fod â phryderon sy'n ymwneud ag iechyd (1% o'i gymharu â 6%). Mae menywod yn fwy tebygol na dynion o fod â phryderon sy'n ymwneud ag iechyd (7% o'i gymharu â 4%).

Ffigur 37: Pryderon ynghylch ffonau symudol ymysg defnyddwyr: 2010-2016



M1. Allwch chi ddweud wrtha i a oes gennych chi bryderon ynghylch ffonau symudol? (atebion heb eu cynnig, sawl cod).
Sail: Pob oedolyn dros 16 oed sy'n defnyddio ffôn symudol yn bersonol (1625 yn 2016).

7.4 Gwylio: Cynnwys ar y teledu, clipiau fideo byr a pha mor hawdd yw dod o hyd i gynnwys

Cynnwys ar-alwad

Mae hanner o oedolion yn gwylio cynnwys ar-alwad

Gofynnwyd i oedolion 16 oed neu hŷn a oeddent erioed wedi gwylio rhaglenni teledu neu ffilmiau ar-alwad, a rhoddwyd y diffiniad canlynol ar gyfer cynnwys ar-alwad iddynt: "Mae ar-alwad yn golygu gwylio rhaglenni teledu neu ffilmiau drwy wasanaethau ar-lein fel BBC iPlayer, Netflix, Amazon Prime, Sky Go ac ati. Gallai hyn fod drwy eich gwasanaeth teledu neu ar unrhyw ddyfais arall rydych chi'n ei defnyddio i fynd ar-lein".

Mae Ffigur 38 yn dangos faint o oedolion sy'n gwylio cynnwys ar-alwad yn gyffredinol yn ogystal ag yn ôl oed, grŵp economaidd-gymdeithasol a rhyw yn 2016.

Dywed hanner o oedolion (51%) eu bod yn gwylio cynnwys ar-alwad; mae hyn yn fwy tebygol ymysg y rheini sydd rhwng 16 a 24 oed (63%), rhwng 35 a 44 oed (61%) a rhwng 45 a 54 oed (59%). Mae'r rheini mewn aelwydydd AB (59%) neu C1 (56%) hefyd yn fwy tebygol o wylio'r math hwn o gynnwys.

Mae oedolion hŷn yn llai tebygol o wylio cynnwys ar-alwad (32% o'r grŵp oed 65-74 ac 17% o'r grŵp oed 75+), fel y mae'r rheini mewn aelwydydd C2 (44%) neu DE (41%).

Nid oes gwahaniaeth rhwng dynion a menywod o ran gwylio cynnwys ar-alwad.

Ffigur 38: Faint o oedolion sy'n gwylio cynnwys ar-alwad



T2. Ydych chi'n gwylio rhaglenni teledu neu ffilmiau ar-alwad? Mae ar-alwad yn golygu gwylio rhaglenni teledu neu ffilmiau drwy wasanaethau ar-lein fel BBC iPlayer, Netflix, Amazon Prime, Sky Go ac ati. Gallai hyn fod drwy eich gwasanaeth teledu neu ar unrhyw ddyfais arall rydych chi'n ei defnyddio i fynd ar-lein (atebion heb eu cynnig, un cod).
Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn (1846 yn 16 oed a hŷn, 234 yn 16-24 oed, 272 yn 25-34 oed, 313 yn 35-44 oed, 284 yn 45-54 oed, 270 yn 55-64 oed, 218 yn 65-74, 255 yn 75 oed a hŷn, 427 – AB, 566 – C1, 369 – C2, 484 – DE, 885 – dynion, 961 – menywod).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (lefel 95%) yn ôl oed / grŵp economaidd-gymdeithasol wrth gymharu â phob oedolyn, a dynion wrth gymharu â menywod.

Cynnwys ar safleoedd rhannu fideos

Dywed tri defnyddiwr rhyngrwyd o bob pedwar eu bod yn gwylio cynnwys ar safleoedd rhannu fideos; mae hyn yn fwy tebygol ymysg pobl rhwng 16 a 34 oed (wrth gymharu â'r cyfartaledd) ac ymysg dynion (wrth gymharu â menywod)

Gofynnwyd i oedolion sy'n mynd ar-lein (86% o'r holl oedolion yn gyffredinol) a ydynt wedi gwylio fideos ar safleoedd neu apiau fel YouTube neu Vimeo.

Dywed dros dri o bob pedwar (77%) o'r oedolion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd eu bod wedi gwylio cynnwys ar safleoedd rhannu fideos; mae hyn yn cynyddu i 97% ymysg defnyddwyr rhyngrwyd rhwng 16 a 24 oed ac 89% ymysg y rheini rhwng 25 a 34 oed. Er bod y mwyafrif o ddefnyddwyr rhyngrwyd rhwng 55 a 64 oed (68%) a rhwng 65 a 74 oed (57%) wedi gwylio'r math hwn o gynnwys, mae hyn yn llai tebygol na'r cyfartaledd. Mae defnyddwyr rhyngrwyd sy'n 75 oed neu hŷn hefyd yn llai tebygol o wylio fideos drwy'r safleoedd hyn (25%).

Nid yw'r niferoedd yn amrywio rhwng grwpiau economaidd-gymdeithasol aelwydydd wrth gymharu â'r cyfartaledd, ac mae dynion yn fwy tebygol na menywod o ddweud eu bod wedi gwylio'r math hwn o gynnwys ar-lein (82% o'i gymharu â 72%).

Ffigur 39: Faint sy'n gwylio cynnwys ar safleoedd rhannu fideos



[68]

IN17. Ydych chi wedi gwylio fideos ar safleoedd neu apiau fel YouTube neu Vimeo? (atebion heb eu cynnig, un cod).
Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn sy'n mynd ar-lein (1553 16 oed a hŷn, 231 16-24 oed, 265 25-34 oed, 293 35-44 oed, 265 45-54 oed, 220 55-64 oed, 279 65 oed a hŷn, 394 AB, 521 C1, 300 C2, 338 DE, 745 dynion, 808 menywod).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (lefel 95%) yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol / oed wrth gymharu â phob defnyddiwr rhyngrwyd a dynion wrth gymharu â menywod.

Gwylio cynnwys ar safleoedd rhannu fideos

Mae defnyddwyr safleoedd rhannu fideos yn fwyaf tebygol o ddefnyddio'r safleoedd hyn at ddibenion adloniant – yn enwedig y rheini rhwng 16 a 24 oed

Caiff y defnyddwyr rhyngrwyd sy'n dweud eu bod wedi gwylio fideos ar safleoedd fel YouTube a Vimeo (77% o ddefnyddwyr rhyngrwyd; 66% o oedolion yn gyffredinol) naw opsiwn a gofynnir iddynt ddweud pa rai sy'n disgrifio'r mathau o fideos maent yn dueddol o'u gwylio ar safleoedd rhannu fideos. Mae'r canlyniadau i'w gweld yn Ffigur 40.

Mae tri math o gynnwys yn cael eu gwylio gan y mwyafrif o ddefnyddwyr: fideos adloniant byr (fel cerddoriaeth, rhagflas o ffilmiau, clipiau rhaglenni teledu neu uchafbwyntiau) (63%), fideos doniol, jôcs, pranciau neu heriau (56%), a fideos 'sut mae gwneud', fideos awgrymiadau neu fideos tiwtorial (54%). Mae dros un o bob tri (37%) yn edrych ar adolygiadau o bethau y mae ganddynt ddiddordeb yn eu prynu, gydag o leiaf un o bob pedwar yn gwylio cynnwys newyddion, materion cyfoes neu ddogfen (31%) neu fideos adloniant hir (fel rhaglenni teledu neu ffilmiau cyfan) (26%). Dywed un o bob wyth (13%) eu bod yn gwylio areithiau neu ymgyrchoedd gwleidyddol, ac mae un o bob deg yn edrych ar flogiau fideos gan flogwyr (9%). Dywed 4% eu bod wedi edrych ar areithiau neu ddigwyddiadau crefyddol.

Wrth gymharu â'r cyfartaledd, mae pedwar math o gynnwys sy'n fwy tebygol o gael eu gwylio gan bobl rhwng 16 a 24 oed, ac yn llai tebygol o gael eu gwylio gan bobl 65 oed neu

hŷn: fideos adloniant byr (72% o'r grŵp oed 16-24, 43% o'r grŵp oed 65+ o'i gymharu â 63% yn gyffredinol), fideos doniol, jôcs, pranciau neu heriau (72% o'r grŵp oed 16-24, 38% o'r grŵp oed 65+ o'i gymharu â 56% yn gyffredinol, fideos adloniant hir (36% o'r grŵp oed 16-24, 15% o'r grŵp oed 65+ o'i gymharu â 26% yn gyffredinol) a flogiau fideos/flogwyr (24% o'r grŵp oed 16-24, 2% o'r grŵp oed 65+ o'i gymharu â 9% yn gyffredinol)

Mae defnyddwyr rhwng 45 a 54 oed a rhwng 55 a 64 oed hefyd yn llai tebygol o ddweud eu bod yn gwylio fideos doniol jôcs, pranciau neu heriau (45% o'r grŵp oed 45-54, 40% o'r grŵp oed 55-64 o'i gymharu â 56% yn gyffredinol) neu wylio flogiau fideos/flogwyr (3% o'r grŵp oed 45-54, 2% o'r grŵp oed 55-64 o'i gymharu â 9% yn gyffredinol). Mae defnyddwyr rhwng 45 a 54 oed hefyd yn llai tebygol o ddweud eu bod yn gwylio fideos adloniant hir (18% o'i gymharu â 26%).

Wrth gymharu â'r cyfartaledd, mae defnyddwyr safleoedd rhannu fideos mewn aelwydydd AB yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gwylio cynnwys newyddion/materion cyfoes neu ddogfen (41% o'i gymharu â 31%) ac yn llai tebygol o wylio fideos doniol, jôcs, pranciau neu heriau (45% o'i gymharu â 56%). Mae'r rheini mewn aelwydydd DE yn llai tebygol o wylio cynnwys newyddion/materion cyfoes neu ddogfen (20% o'i gymharu â 31%) ac yn llai tebygol o edrych ar adolygiadau o bethau y mae ganddynt ddiddordeb yn eu prynu (29% o'i gymharu â 37%).

Mae dau fath o gynnwys sy'n fwy tebygol o gael eu gwylio gan ddynion yn hytrach na menywod: cynnwys newyddion/materion cyfoes a dogfen (34% o'i gymharu â 28%) ac areithiau ac ymgyrchoedd gwleidyddol (15% o'i gymharu â 10%).

Ffigur 40: Math o gynnwys sy'n cael ei wylio ar safleoedd rhannu fideos

IN18. A pha fath o fideos ydych chi'n dueddol o'u gwylio ar y safleoedd neu'r apiau hyn? (atebion wedi'u cynnig, sawl cod).
Sail: Pawb sy'n 16 oed neu hŷn sydd wedi gwylio fideos ar y mathau hyn o safleoedd (1114).

7.5 Gwrando: radio a gwasanaethau sain eraill

Mae'r defnydd o wasanaethau sain sy'n cael eu ffrydio yn uwch nag yr oedd yn 2016

Mae tri gweithgaredd yr holwyd defnyddwyr rhyngrwyd amdanynt yn yr arolwg Traciwr Technoleg[30] yn perthyn i'r pennawd - gwrando ar gynnwys sain ar-lein: gwrando ar radio ar-lein a defnyddio gwasanaethau sain sy'n cael eu ffrydio, boed hynny'n wasanaethau di-dâl neu rai y mae'n rhaid tanysgrifio iddynt.

Mae **Error! Reference source not found.** yn dangos cyfran yr oedolion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd sy'n dweud eu bod, rhwng 2014 a 2017[31], wedi gwneud pob un o'r gweithgareddau hyn ar-lein, wedi'i rhannu yn ôl y rheini sydd wedi gwneud y gweithgaredd yn ystod yr wythnos flaenorol a'r rheini sy'n ei wneud yn llai aml.

Yn 2017, dywed un defnyddiwr rhyngrwyd o bob pump eu bod wedi gwrando ar radio ar-lein (19%), gyda chyfran debyg (18%) yn dweud eu bod yn defnyddio gwasanaethau sain wedi'u ffrydio di-dâl (fel Spotify neu Deezer). Dywed ychydig yn llai o ddefnyddwyr eu bod wedi defnyddio fersiynau tanysgrifio'r gwasanaethau hyn; er enghraifft safleoedd fel Spotify Premium, Deezer Premium neu Apple Music (14%). Ar gyfer pob un o'r mathau hyn o wasanaeth sain, mae defnydd yn ystod yr wythnos flaenorol yn fwy tebygol na defnydd llai aml. Dywed tua un o bob wyth eu bod wedi gwrando ar radio ar-lein (13%) neu wasanaethau ffrydio di-dâl (12%) yn ystod yr wythnos flaenorol, ac un o bob deg (9%) yw'r ffigur ar gyfer gwasanaethau ffrydio y mae'n rhaid tanysgrifio iddynt.

Wrth gymharu â 2016, mae defnyddwyr rhyngrwyd yn fwy tebygol o fod wedi defnyddio gwasanaethau sain wedi'u ffrydio di-dâl (18% o'i gymharu ag 14%) neu rai y mae'n rhaid tanysgrifio iddynt (14% o'i gymharu â 7%), ac o fod wedi gwneud hynny yn ystod yr wythnos flaenorol (12% o'i gymharu â 9% ar gyfer gwasanaethau di-dâl a 9% o'i gymharu â 4% ar gyfer gwasanaethau mae'n rhaid tanysgrifio iddynt).

Ffigur 64: Gwrando ar wasanaethau sain ar-lein: 2014-2017

[30] Fel y soniwyd yn gynharach, mae'r data sy'n ymwneud â'r mathau o weithgareddau y mae defnyddwyr rhyngrwyd yn eu gwneud ar-lein un ai'n dod o don ddiweddaraf yr astudiaeth Traciwr Technoleg neu o'r Traciwr Llythrennedd yn y Cyfryngau.
[31] Gan mai yn 2017 yr oedd y don ddiweddaraf o ymchwil Traciwr Technoleg, mae unrhyw ddadansoddiadau tuedd yn gwahaniaethu rhwng 2016 a 2017 (yn hytrach na rhwng 2015 a 2016).



Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom, Hanner 1 2014-2017
CE5A/ CE5B. Pa rai, os o gwbl, o'r rhain ydych chi'n defnyddio'r rhyngrwyd ar eu cyfer?/ A pha rai, os o gwbl, o'r gweithgareddau hyn ydych chi wedi defnyddio'r rhyngrwyd ar eu cyfer yn yr wythnos diwethaf? (atebion wedi'u cynnig, sawl cod).
Sail: Pob oedolyn sy'n 16 oed a hŷn sy'n mynd ar-lein (3221 yn 2017).
Mae'r saethau'n dangos newidiadau arwyddocaol (lefel 99%) rhwng 2016 a 2017.

Fel y dangosir yn Ffigur 65, yn 2017 mae defnyddwyr rhyngrwyd rhwng 16 a 24 oed a rhwng 25 a 34 oed yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o ddweud eu bod wedi bod ar-lein yn ystod yr wythnos flaenorol i wrando ar wasanaethau sain wedi'u ffrydio, boed hynny'n rhai di-dâl neu'n rhai y mae'n rhaid tanysgrifio iddynt, ond mae'r rheini sy'n 55 oed neu hŷn yn llai tebygol o fod wedi gwneud hyn. Ar ben hynny, mae'r rheini rhwng 65 a 74 oed a 75 oed neu hŷn yn llai tebygol o ddweud eu bod wedi gwrando ar radio ar-lein yn ystod yr wythnos flaenorol.

Mae oedolion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd mewn aelwydydd AB yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o fod wedi bod ar-lein yn ystod yr wythnos flaenorol i wrando ar radio neu i ddefnyddio gwasanaethau sain y mae'n rhaid tanysgrifio iddynt, ond mae'r rheini mewn aelwydydd DE yn llai tebygol o fod wedi gwneud un o'r rhain.
Mae dynion sy'n mynd ar-lein yn fwy tebygol na merched o ddweud eu bod wedi defnyddio'r tri math o wasanaethau sain yn ystod yr wythnos flaenorol.

Ffigur 65: Gwrando ar wasanaethau sain ar-lein yn ystod yr wythnos flaenorol, yn ôl oed, rhyw a grŵp economaidd-gymdeithasol

Pob defnyddiwr rhyngrwyd		16-24	25-34	35-44	45-54	55-64	65-74	75+
Sail	3221	506	536	613	531	520	364	151
Gwrando ar y radio ar-lein	13%	12%	17%	14%	16%	11%	6% ↓	4% ↓
Gwasanaethau sain wedi'u ffrydio (di-dâl) ee Spotify neu Deezer (di-dâl)	12%	19% ↑	20% ↑	15%	10%	4% ↓	1% ↓	1% ↓
Gwasanaethau sain wedi'u ffrydio (tanysgrifio) ee Spotify Premium, Apple Music neu Deezer Premium	9%	15% ↑	14% ↑	12%	8%	5% ↓	1% ↓	0% ↓

Pob defnyddiwr rhyngrwyd		AB	C1	C2	DE	Dynion	Menywod
Sail	3221	789	1019	679	731	1570	1651
Gwrando ar y radio ar-lein	13%	17% ↑	14%	11%	8% ↓	15% ↑	11%
Gwasanaethau sain wedi'u ffrydio (di-dâl) ee Spotify neu Deezer (di-dâl)	12%	15%	12%	9%	10%	14% ↑	10%
Gwasanaethau sain wedi'u ffrydio (tanysgrifio) ee Spotify Premium, Apple Music neu Deezer Premium	9%	14% ↑	8%	9%	6% ↓	12% ↑	7%

Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom, Hanner 1 2017
CE5B. A pha rai, os o gwbl, o'r gweithgareddau hyn ydych chi wedi defnyddio'r rhyngrwyd ar eu cyfer yn yr wythnos diwethaf? (atebion wedi'u cynnig, sawl cod).
Sail: Pob oedolyn sy'n 16 oed a hŷn sy'n mynd ar-lein (3221 yn 2017).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (lefel 95%) yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol/oed wrth gymharu â phob defnyddiwr rhyngrwyd, a dynion wrth gymharu â menywod.

7.6 Gemau

Chwarae gemau ar-lein

Mae un oedolyn o bob wyth yn chwarae gemau ar-lein, un ai gyda phobl eraill neu yn eu herbyn, gan godi i bedwar o bob deg oedolyn rhwng 16 a 24 oed

Gofynnwyd i oedolion sy'n dweud eu bod yn chwarae gemau ar unrhyw fath o ddyfais chwarae gemau (fel y trafodwyd yn Ffigur 21 yn gynharach yn yr adroddiad hwn) a oeddent wedi chwarae gemau ar-lein, gyda phobl eraill neu yn eu herbyn.
Mae Ffigur 66 yn dangos y niferoedd sy'n chwarae gemau ar-lein, wedi'u mynegi fel cyfran o oedolion yn gyffredinol.

Fel y dangoswyd yn gynharach, wrth gymharu â'r cyfartaledd, mae chwarae unrhyw fath o gemau yn fwy tebygol ymysg oedolion ifanc (rhwng 16 a 34 oed) ac ymysg dynion. Mae hyn hefyd yn wir ar gyfer chwarae gemau ar-lein gyda phobl eraill neu yn eu herbyn. Er bod un oedolyn o bob wyth yn gyffredinol (13%) yn chwarae gemau ar-lein yn y modd hwn, mae hyn dair gwaith yn fwy tebygol ymysg pobl rhwng 16 a 24 oed (41%). Mae oedolion rhwng 25 a 34 oed (20%) hefyd yn fwy tebygol o wneud hyn, ond mae'r rheini sy'n 45 oed neu hŷn yn llai tebygol (6% o'r grŵp oed 45-54, 6% o'r grŵp oed 55-64, 2% o'r grŵp oed 65-74 a 3% o'r grŵp oed 75+).

Nid oes gwahaniaethau yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol aelwydydd o'i gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer pob oedolyn. Mae dynion dair gwaith yn fwy tebygol na menywod o chwarae gemau ar-lein yn y modd hwn (20% o'i gymharu â 7%).

Ffigur 66: Chwarae gemau ar-lein gyda phobl eraill neu yn eu herbyn: 2016



G3. Gellir chwarae llawer o gemau ar-lein. Fyddwch chi byth yn chwarae gemau ar-lein gyda phobl eraill neu yn eu herbyn? (atebion heb eu cynnig, un cod).
Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn (1846 yn 16 oed a hŷn, 234 yn 16-24 oed, 272 yn 25-34 oed, 313 yn 35-44 oed, 284 yn 45-54 oed, 270 yn 55-64 oed, 218 yn 65-74, 255 yn 75 oed a hŷn, 427 - AB, 566 - C1, 369 - C2, 484 - DE, 885 - dynion, 961 - menywod).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (lefel 95%) yn ôl oed / grŵp economaidd-gymdeithasol wrth gymharu â phob oedolyn, a dynion wrth gymharu â menywod.

Agweddau at chwarae gemau ar-lein

Mae'r mwyafrif o'r rheini sy'n chwarae gemau ar-lein gyda phobl eraill neu yn eu herbyn yn cytuno bod sgwrsio neu negeseua yn y gêm yn gwella eu profiad wrth chwarae'r gêm

Caiff oedolion sy'n chwarae gemau ar-lein gyda phobl eraill neu yn eu herbyn ddau ddatganiad am chwarae gemau ar-lein, a gofynnir iddynt i ba raddau y maent yn cytuno neu'n anghytuno â nhw.

Mae'r canlyniadau i'w gweld yn Ffigur 67 ac maent yn eithrio'r rheini a ddewisodd roi ymateb 'ddim yn berthnasol', a hynny un ai oherwydd nad ydynt yn chwarae'r mathau hyn o gemau sy'n seiliedig ar gymeriadau (wedi'u heithrio o'r datganiad cyntaf a ddangosir) neu oherwydd nad ydynt yn sgwrsio â phobl nac yn anfon negeseuon atynt wrth chwarae gemau ar-lein (wedi'u heithrio o'r ail ddatganiad a ddangosir). O ystyried y sail gymharol isel o oedolion sy'n chwarae gemau ar-lein gyda phobl eraill neu yn eu herbyn (13% o oedolion yn gyffredinol), nid yw'n bosibl gwneud unrhyw ddadansoddi pellach yn ôl oedran, grŵp economaidd-gymdeithasol na rhyw.

Ymysg y rheini sy'n dweud eu bod yn chwarae'r mathau hyn o gemau, mae'r mwyafrif (58%) yn cytuno “Pan fydda i wedi ymgolli mewn gêm, dydw i ddim yn meddwl rhyw lawer am bwy yw'r bobl eraill, dim ond diddordeb yn eu cymeriadau yn y gêm sydd gen i”. Mae hyn yn cymharu ag 20% sy'n anghytuno.

Dywed dwy rain o dair (68%) o oedolion sy'n dweud eu bod yn sgwrsio neu'n anfon negeseuon yn y gêm eu bod yn cytuno “Pan fydda i'n sgwrsio â'r bobl sy'n chwarae gyda mi,

neu'n anfon negeseuon atynt, mae'n gwella fy mhrofiad wrth chwarae'r gêm". Mae un o bob deg (11%) yn anghytuno â'r datganiad hwn.

Ffigur 67: Cytuno â datganiadau am chwarae gemau ar-lein



G4A. Pan fydda i wedi ymgolli mewn gêm, dydw i ddim yn meddwl rhyw lawer am bwy yw'r bobl eraill, dim ond diddordeb yn eu cymeriadau yn y gêm sydd gen i. (atebion wedi'u cynnig, un cod).
Sail: Pob oedolyn sy'n dweud ei fod yn chwarae'r mathau hyn o gemau ar-lein (119 16 oed neu hŷn)
G4B Pan fydda i'n sgwrsio â'r bobl sy'n chwarae gyda mi, neu'n anfon negeseuon atynt, mae'n gwella fy mhrofiad wrth chwarae'r gêm (atebion wedi'u cynnig, un cod).
Sail: Pob oedolyn sy'n dweud ei fod yn sgwrsio â phobl neu'n anfon negeseuon atynt wrth chwarae'r mathau hyn o gemau (180 yn 16 oed a hŷn)

7.7 Dod o hyd i gynnwys a gwybodaeth

Pa mor hawdd yw dod o hyd i gynnwys

Mae hanner y rheini sy'n gwylio cynnwys ar-alwad yn dewis cynnwys ar sail argymhellion gan ffrindiau neu deulu

Gofynnir i oedolion sy'n gwylio cynnwys teledu ar-alwad (51% o'r oedolion i gyd) sut maen nhw'n dewis rhaglenni teledu neu ffilmiau i'w gwylio ar-alwad.

Mae dros chwech o bob deg yn dewis cynnwys ar-alwad am eu bod wedi colli'r cynnwys hwnnw pan gafodd ei ddarlledu'n wreiddiol (64%). Mae pob ymateb arall yn cael ei roi gan leiafrif o ddefnyddwyr ar-alwad.

Dywed hanner (49%) eu bod yn dewis cynnwys ar sail argymhellion gan ffrindiau neu deulu, gyda thraean (34%) yn gweld rhagflas neu hysbysebion ar y teledu neu'r radio. Dywed oddeutu un o bob pump eu bod yn dod o hyd i gynnwys i'w wylio oherwydd bod y gwasanaeth ar-alwad yn ei argymell iddyn nhw (21%), oherwydd ei fod wedi'i drafod ar y cyfryngau (18%) ac oherwydd bod sôn amdano ar y cyfryngau cymdeithasol (18%).

Mae gwylwyr cynnwys ar-alwad rhwng 16 a 24 oed yn fwy tebygol na'r cyffredin i ddweud eu bod yn dod o hyd i gynnwys drwy argymhellion ffrindiau neu deulu (60% o'i gymharu â 49%) neu drwy'r cyfryngau cymdeithasol (34% o'i gymharu â 18%). Mae pobl rhwng 16 a 24 oed a phobl rhwng 25 a 34 oed yn llai tebygol o ddweud eu bod yn gweld cynnwys am eu bod wedi colli'r cynnwys pan gafodd ei ddarlledu'n wreiddiol (53% ar gyfer pobl rhwng 16 a 24 oed a 54% ar gyfer pobl rhwng 25 a 34 oed o'i gymharu â 64%) ond mae pobl rhwng 45 a 54 oed (74%) yn fwy tebygol o ddweud mai dyma'r rheswm.

Mae defnyddwyr ar-alwad 65 oed a hŷn yn llai tebygol o ddweud eu bod yn dewis cynnwys ar sail argymhellion gan ffrindiau neu deulu (26% o'i gymharu â 49%), o ragflas neu hysbysebion ar y teledu neu'r radio (17% o'i gymharu â 24%) neu drwy'r cyfryngau cymdeithasol (5% o'i gymharu â 18%).

Dim ond un gwahaniaeth sydd yn ôl rhyw. Mae menywod yn fwy tebygol na dynion o ddweud eu bod yn gwylio cynnwys ar-alwad am eu bod wedi colli'r cynnwys pan gafodd ei ddarlledu (68% o'i gymharu â 59%).

Ffigur 68: Ffyrdd o ddewis/dod o hyd i gynnwys ar-alwad

T3. Sut rydych chi'n dewis pan raglenni teledu neu ffilmiau i'w gwylio ar-alwad? (atebion wedi'u cynnig, sawl cod)
Sail: Pawb sydd wedi gwylio cynnwys ar-alwad (891)

Mae argymhellion personol yn chwarae rôl bwysig wrth ddod o hyd i gynnwys ar safleoedd rhannu fideos

Gofynnir i ddefnyddwyr safleoedd rhannu fideos (77% o ddefnyddwyr y rhyngrwyd) hefyd sut maen nhw'n dod o hyd i gynnwys i'w wylio ar y mathau hyn o wefannau.

Mae mwy na chwech o bob deg yn dweud bod ffrindiau neu deulu yn dweud wrthyn nhw am y cynnwys neu'n ei anfon ymlaen atyn nhw (62%), ac mae mwy na phedwar o bob deg (45%) yn dweud eu bod yn dod o hyd iddo mewn canlyniadau peiriant chwilio. Mae oddeutu un o bob tri yn dod o hyd iddo drwy ddolenni ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol (38%)

neu'n ei weld yn cael ei hyrwyddo yn yr adran 'argymhellir/trendio/mwyaf poblogaidd' ar y safle (32%). Mae oddeutu un o bob wyth yn dweud eu bod yn dod o hyd iddo am eu bod wedi tanysgrifio i sianel (14%) neu'n gweld erthyglau neu hysbysebion yn y cyfryngau (ar-lein neu all-lein) (12%). Mae llai nag un o bob deg yn dweud eu bod yn dod o hyd iddo drwy glicio ar hysbysebion ar-lein (6%).

O'i gymharu â'r cyfartaledd (38%), mae defnyddwyr rhwng 16 a 24 oed (52%) a rhwng 25 a 34 oed (49%) yn fwy tebygol o ddod o hyd i gynnwys drwy'r cyfryngau cymdeithasol, ac mae'r defnyddwyr rhwng 45 a 54 oed (29%), rhwng 55 a 64 oed (22%) a 65 oed a hŷn (17%) yn llai tebygol o ddweud hyn. Mae defnyddwyr rhwng 16 a 24 oed yn fwy tebygol o ddweud hefyd eu bod yn dod o hyd i gynnwys drwy'r adran 'argymhellir/trendio/mwyaf poblogaidd' ar y safle (46% o'i gymharu â 32%) neu drwy eu tanysgrifiadau i sianel (28% o'i gymharu â 14%).

Mae defnyddwyr rhwng 55 a 64 oed (16%) a 65 oed a hŷn (11%) yn llai tebygol o ddweud eu bod yn dod o hyd i gynnwys drwy'r adran 'argymhellir/trendio/mwyaf poblogaidd' ar y safle (32% i gyd) ac mae'r grŵp olaf yn llai tebygol o ddweud hefyd eu bod yn dod o hyd i gynnwys drwy eu tanysgrifiadau i sianel (4% o'i gymharu â 14%) neu drwy glicio ar hysbyseb ar-lein (2% o'i gymharu â 6%).

O'i gymharu â'r cyfartaledd, mae defnyddwyr safleoedd rhannu fideos mewn aelwydydd DE yn llai tebygol o ddweud eu bod yn dod o hyd i gynnwys o ganlyniadau peiriant chwilio (33% o'i gymharu â 45%), tra mae'r rheini mewn aelwydydd AB yn llai tebygol o ddweud hynny oherwydd eu tanysgrifiadau i sianeli (9% o'i gymharu ag 14%).

Mae dynion yn fwy tebygol na menywod o ddweud eu bod yn dod o hyd i gynnwys mewn dwy ffordd: drwy ganlyniadau peiriant chwilio (49% o'i gymharu â 41%) a drwy eu tanysgrifiadau i sianeli ar y safleoedd hyn (17% o'i gymharu â 11%). Mae menywod yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn dod o hyd i gynnwys am fod ffrindiau/teulu wedi argymell y cynnwys (65% o'i gymharu â 58%) neu drwy ddolenni ar y cyfryngau cymdeithasol (41% o'i gymharu â 35%).

Ffigur 69: Ffyrdd o ddewis/dod o hyd i gynnwys ar safleoedd rhannu fideos

IN19. Pa rai o'r ffyrdd hyn sy'n disgrifio sut rydych chi'n dod o hyd i fideos i'w gwylio ar y safleoedd neu'r apiau hyn
(atebion wedi'u cynnig, sawl cod)
Sail: Pawb sydd wedi gwylio fideos ar y mathau hyn o safleoedd (1114)
Dod o hyd i wybodaeth[32]

Yn 2016, adolygwyd y cwestiynau a oedd yn ymwneud â math ac amlder defnyddio'r rhyngrwyd. Gofynnwyd cyfres fyrrach o gwestiynau i oedolion sy'n mynd ar-lein, ac roedd yr opsiynau amlder roedd modd i'r ymatebwyr eu dewis hefyd wedi cael eu diwygio.

Mae holiadur Traciwr Technoleg Ofcom hefyd yn cynnwys cwestiynau am fathau ac amlder defnyddio'r rhyngrwyd, felly mae'r gweithgareddau ar-lein penodol y mae modd eu grwpio gyda'i gilydd o dan y pennawd 'dod o hyd i wybodaeth ar-lein' sydd wedi'u cynnwys yn y rhan hon o'r adroddiad. Daw'r canlyniadau hyn o'r don ddiweddaraf o ymchwil y Traciwr Technoleg, a gynhaliwyd yn 2017 (yn hytrach na 2016). Yn wahanol i'r Traciwr Llythrennedd yn y Cyfryngau , mae'n bosibl hefyd dangos data tueddiad ar gyfer y mesurau hyn (ers 2014), felly mae'r data wedi'i ddangos ar wahân (Ffigur 41) i unrhyw fesurau tebyg o'r ymchwil ar lythrennedd yn y cyfryngau (Ffigur 43).

Mae defnyddwyr y rhyngrwyd yn fwy tebygol nag yn 2016 o fod wedi bod ar-lein i ddod o hyd i wybodaeth yn ymwneud ag iechyd yn yr wythnos diwethaf

O blith y gweithgareddau ar-lein yr holwyd defnyddwyr y rhyngrwyd yn eu cylch ar y Traciwr Technoleg yn 2017, gellir grwpio tri gweithgaredd o dan y pennawd dod o hyd i wybodaeth. Y rhain yw:

1. syrffio neu bori drwy'r rhyngrwyd yn gyffredinol;

2. dod o hyd i wybodaeth neu ei llwytho i lawr ar gyfer gwaith, busnes, ysgol, coleg, prifysgol neu waith cartref[33]; a

3. dod o hyd i wybodaeth am faterion sy'n ymwneud ag iechyd.

Mae Ffigur 41 yn dangos cyfran defnyddwyr y rhyngrwyd sy'n oedolion ym mhob blwyddyn rhwng 2014 a 2017 sy'n dweud eu bod wedi gwneud pob gweithgaredd ar-lein, wedi'u rhannu yn ôl y rheini a oedd wedi gwneud hynny yr wythnos diwethaf a'r rheini sy'n gwneud hynny'n llai aml.

Mae agos o naw o bob deg defnyddiwr y rhyngrwyd (87%) yn dweud eu bod yn defnyddio'r rhyngrwyd i syrffio/pori'n gyffredinol, gydag wyth o bob deg (80%) yn dweud eu bod wedi

[32] Yn 2016, adolygwyd y cwestiynau a oedd yn ymwneud â math ac amlder defnyddio'r rhyngrwyd. Gofynnwyd cyfres fyrrach o gwestiynau i oedolion sy'n mynd ar-lein, ac roedd yr opsiynau amlder roedd modd i'r ymatebwyr eu dewis hefyd wedi cael eu diwygio. Mae holiadur Traciwr Technoleg Ofcom hefyd yn cynnwys cwestiynau am fathau ac amlder defnyddio'r rhyngrwyd, felly mae'r gweithgareddau ar-lein penodol y mae modd eu grwpio gyda'i gilydd o dan y pennawd 'dod o hyd i wybodaeth ar-lein' sydd wedi'u cynnwys yn y rhan hon o'r adroddiad. Daw'r canlyniadau hyn o'r don ddiweddaraf o ymchwil y Traciwr Technoleg, a gynhaliwyd yn 2017 (yn hytrach na 2016). Yn wahanol i'r Traciwr Llythrennedd yn y Cyfryngau , mae'n bosibl hefyd dangos data tueddiad ar gyfer y mesurau hyn (ers 2014), felly mae'r data wedi'i ddangos ar wahân (Ffigur 41) i unrhyw fesurau tebyg o'r ymchwil ar lythrennedd yn y cyfryngau (Ffigur 43).

[33] Yn y blynyddoedd blaenorol, gofynnwyd ynghylch dod o hyd i wybodaeth at ddibenion gwaith neu fusnes ar wahân i ddod o hyd i wybodaeth at ddibenion ysgol/coleg/prifysgol/gwaith cartref; a chyfunwyd y ddau gwestiwn hyn i greu un cwestiwn yn 2017. Mae'r mesurau ar gyfer 2014 a 2016 yn dangos mesur 'net' felly ar sail cyfuno'r cwestiynau unigol. Felly, nid yw'r gwahaniaethau rhwng 2016 a 2017 wedi'u profi i weld a oes unrhyw arwyddocâd ystadegol.

gwneud yn yr wythnos diwethaf. Mae bron hanner (46%) yn dweud eu bod yn dod o hyd i wybodaeth neu'n ei llwytho i lawr at ddibenion gwaith, busnes, ysgol, coleg, prifysgol neu waith cartref, gydag un o bob tri (32%) wedi gwneud hyn yn ystod yr wythnos flaenorol. Mae pedwar o bob deg o ddefnyddwyr y rhyngrwyd (41%) yn dweud eu bod yn mynd ar-lein i ddod o hyd i wybodaeth am faterion yn ymwneud ag iechyd, ac mae oddeutu hanner o'r rhain (22%) wedi gwneud hynny yn ystod yr wythnos flaenorol.

Mae Ffigur 41 yn dangos newid rhwng 2016 a 2017 ar gyfer un mesur [34]. Er nad oes newid yn y defnydd o'r rhyngrwyd yn gyffredinol i chwilio am wybodaeth yn ymwneud ag iechyd (41% yn 2017 o'i gymharu â 44% yn 2016), mae defnyddwyr y rhyngrwyd yn fwy tebygol yn awr o fod wedi gwneud hyn yn ystod yr wythnos flaenorol (22% o'i gymharu ag 17%).

Ffigur 41: Dod o hyd i wybodaeth ar-lein, yn ôl math o weithgaredd: 2014-2017



Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom, Hanner 1 2014-2017
CE5A/ CE5B. Pa rai, os o gwbl, o'r rhain ydych chi'n defnyddio'r rhyngrwyd ar eu cyfer? / A pha rai, os o gwbl, o'r gweithgareddau hyn ydych chi wedi defnyddio'r rhyngrwyd ar eu cyfer yn yr wythnos diwethaf? (atebion wedi'u cynnig, sawl cod).
* D.S. – cyn 2017, gofynnwyd ynghylch dod o hyd i wybodaeth at ddibenion gwaith neu fusnes ar wahân i ddod o hyd i wybodaeth at ddibenion ysgol/coleg/prifysgol/gwaith cartref felly ar gyfer 2014-2016, mae'r ffigurau a ddangosir yn fesurau net.
Sail: Pob oedolyn sy'n 16 oed a hŷn sy'n mynd ar-lein (3221 yn 2017).
Mae'r saethau'n dangos newidiadau arwyddocaol (lefel 99%) rhwng 2016 a 2017.

Mae Ffigur 42 yn dangos unrhyw amrywiadau yn y niferoedd sydd wedi gwneud pob un o'r gweithgareddau hyn ar-lein yn ystod yr wythnos flaenorol, yn ôl oed, grŵp economaidd-gymdeithasol a rhyw, yn 2017.

O'i gymharu â defnyddwyr y rhyngrwyd yn gyffredinol, mae'r rheini sydd rhwng 16 a 24 oed yn fwy tebygol o fod wedi mynd ar-lein yn yr wythnos diwethaf i ddod o hyd i wybodaeth neu

[34] Lle y bo'n bosibl dangos unrhyw newidiadau dros amser – gweler troednodyn 32, uchod.

ei llwytho i lawr at ddibenion gwaith, busnes, ysgol, coleg, prifysgol neu waith cartref (41% o'i gymharu â 32%). Mae oedolion rhwng 35 a 44 oed yn fwy tebygol o fod wedi mynd ar-lein yn ystod yr wythnos diwethaf ar gyfer y tri gweithgaredd: syrffio neu bori drwy'r rhyngrwyd yn gyffredinol (84% o'i gymharu â 80%), dod o hyd i wybodaeth neu ei llwytho i lawr at ddibenion gwaith, busnes, ysgol, coleg, prifysgol neu waith cartref (37% o'i gymharu â 32%), neu ddod o hyd i wybodaeth am faterion yn ymwneud ag iechyd (27% o'i gymharu â 22%).

Mae defnyddwyr rhwng 55 a 64 oed yn llai tebygol o fod wedi mynd ar-lein yn ystod yr wythnos diwethaf i ddod o hyd i wybodaeth neu ei llwytho i lawr at ddibenion gwaith, busnes, ysgol, coleg, prifysgol neu waith cartref (26% o'i gymharu â 32%), ac mae'r un peth yn wir am y rheini rhwng 65 a 74 oed (14%) a 75 oed a hŷn (6%). Yn yr wythnos flaenorol, mae'r defnyddwyr hynaf yn llai tebygol hefyd o fod wedi syrffio'r rhyngrwyd yn gyffredinol (62% ar gyfer pobl rhwng 65 a 74 oed a 66% ar gyfer pobl 75 oed a hŷn o'i gymharu â 80%) neu o fod wedi dod o hyd i wybodaeth am faterion yn ymwneud ag iechyd (13% ar gyfer y ddau grŵp oed o'i gymharu â 22%).

O'i gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer holl ddefnyddwyr y rhyngrwyd, mae oedolion mewn aelwydydd AB yn fwy tebygol, a'r rheini mewn aelwydydd C2 neu DE yn llai tebygol, o fod wedi bod ar-lein yn ystod yr wythnos flaenorol i chwilio am y tri math o wybodaeth.

Mae dynion yn fwy tebygol na menywod o ddweud eu bod wedi bod ar-lein yn ystod yr wythnos diwethaf i ddod o hyd i gynnwys yn ymwneud â gwaith neu addysg (35% o'i gymharu â 29%) ac mae menywod yn fwy tebygol na dynion o ddweud eu bod wedi chwilio am wybodaeth yn ymwneud ag iechyd (24% o'i gymharu â 19%).

Ffigur 42: Dod o hyd i wybodaeth ar-lein yn ystod yr wythnos diwethaf, yn ôl oed, rhyw a grŵp economaidd-gymdeithasol

Pob defnyddiwr rhyngrwyd		16-24	25-34	35-44	45-54	55-64	65-74	75+
Sail	3221	506	536	613	531	520	364	151
Syrffio/Pori drwy'r rhyngrwyd yn gyffredinol	80%	83%	84%	84%↑	83%	75%	62%↓	66%↓
Dod o hyd i wybodaeth neu ei llwytho i lawr ar gyfer gwaith/busnes/ysgol/coleg/prifysgol/gwaith cartref	32%	41%↑	34%	37%↑	37%	26%↓	14%↓	6%↓
Dod o hyd i wybodaeth am faterion sy'n ymwneud ag iechyd	22%	20%	21%	27%↑	23%	24%	13%↓	13%↓

Pob defnyddiwr rhyngrwyd		AB	C1	C2	DE	Dynion	Menywod
Sail	3221	789	1019	679	731	1570	1651
Syrffio/Pori drwy'r rhyngrwyd yn gyffredinol	80%	87% ↑	80%	73% ↓	75% ↓	81%	78%
Dod o hyd i wybodaeth neu ei llwytho i lawr ar gyfer gwaith/busnes/ysgol/coleg/prifysgol/gwaith cartref	32%	44% ↑	35%	25% ↓	20% ↓	35% ↑	29%
Dod o hyd i wybodaeth am faterion sy'n ymwneud ag iechyd	22%	30% ↑	22%	14% ↓	17% ↓	19%	24% ↑

Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom, Hanner 1 2017
CE5B. A pha rai, os o gwbl, o'r gweithgareddau hyn ydych chi wedi defnyddio'r rhyngrwyd ar eu cyfer yn yr wythnos diwethaf? (atebion wedi'u cynnig, sawl cod).
Sail: Pob oedolyn sy'n 16 oed a hŷn sy'n mynd ar-lein (3221 yn 2017).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (lefel 95%) yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol/oed wrth gymharu â phob defnyddiwr rhyngrwyd, a dynion wrth gymharu â menywod.

Mae bron tri chwarter o ddefnyddwyr y rhyngrwyd sy'n oedolion yn dweud eu bod wedi cael gafael ar wybodaeth ar-lein rywbryd ar gyfer eu hamser hamdden

Mae Ffigur 43 yn dangos pa mor aml y mae defnyddwyr y rhyngrwyd yn mynd ar-lein i wneud pedwar gweithgaredd penodol y gofynnwyd amdanynt yn yr arolwg o Lythrennedd yn y Cyfryngau yn 2016[35].

Mae'r pedwar gweithgaredd a ddangosir wedi cael eu gwneud 'rywbryd' gan y rhan fwyaf o ddefnyddwyr y rhyngrwyd. Mae mwy na saith o bob deg (72%) wedi bod ar-lein rywbryd i ddod o hyd i wybodaeth ar gyfer eu hamser hamdden (gan gynnwys sinema a cherddoriaeth fyw) ac mae oddeutu hanner o'r rhain (37%) wedi gwneud hynny yn ystod yr wythnos flaenorol.

Mae dau ddefnyddiwr rhyngrwyd o bob tri (68%) wedi bod ar-lein rywbryd i gymharu cynnyrch neu wasanaethau (fel edrych ar adolygiadau neu gymharu prisiau neu i fynd ar wefannau neu safleoedd newyddion am wleidyddiaeth neu faterion cyfoes (67%). Er bod oddeutu un o bob tri (35%) wedi cymharu cynnyrch neu wasanaethau ar-lein, mae cyfran uwch (44%) wedi mynd ar wefannau newyddion, gwleidyddiaeth neu faterion cyfoes yn ystod yr wythnos flaenorol.

Mae hanner defnyddwyr y rhyngrwyd yn dweud eu bod wedi edrych ar-lein rywbryd am gyfleoedd swyddi neu wedi gwneud cais am swydd ar-lein (53%), ac mae un o bob chwech (16%) wedi gwneud hyn yn ystod yr wythnos diwethaf.

[35] Nid yw'n bosibl dangos tueddiad ar gyfer y mesurau hyn oherwydd bod y gweithgareddau ar-lein a'r atebion y prociwyd defnyddwyr y rhyngrwyd ar eu cyfer wedi cael eu newid yn 2016.

Ffigur 43: Dod o hyd i wybodaeth ar-lein, yn ôl math o weithgaredd: 2016



IN13/ IN14. Pa rai o'r gweithgareddau hyn, os o gwbl, ydych chi wedi'u gwneud ar-lein? Pa rai, os o gwbl, o'r gweithgareddau hyn ydych chi wedi defnyddio'r rhyngrwyd ar eu cyfer yn yr wythnos diwethaf? (atebion wedi'u cynnig, sawl cod).
Sail: Pob oedolyn sy'n 16 oed a hŷn sy'n mynd ar-lein (1553 yn 2016).

Mae Ffigur 44 yn dangos sut mae'r mathau hyn o weithgaredd ar-lein yn amrywio yn 2016 yn ôl oed, rhyw a grŵp economaidd-gymdeithasol.

O'i gymharu â'r cyfartaledd, mae defnyddwyr y rhyngrwyd rhwng 16 a 24 oed yn fwy tebygol o fod wedi bod ar-lein yn yr wythnos flaenorol i ddod o hyd i wybodaeth ar gyfer eu hamser hamdden (45% o'i gymharu â 37%) neu chwilio am gyfleoedd swyddi (29% o'i gymharu â 16%). Mae'r rheini rhwng 25 a 34 oed hefyd yn fwy tebygol o fod wedi chwilio ar-lein am wybodaeth hamdden (45% o'i gymharu â 37%). Yn groes i hyn, mae pobl rhwng 65 a 74 oed yn llai tebygol o fod wedi gwneud tri o'r pedwar gweithgaredd hyn ac mae pobl dros 75 oed yn llai tebygol o fod wedi gwneud y pedwar.

O'i gymharu â'r cyfartaledd, mae oedolion mewn aelwydydd AB yn fwy tebygol o fod wedi bod ar-lein yn yr wythnos flaenorol i fynd ar wefannau newyddion (58% o'i gymharu â 44%) ac mae'r rheini mewn aelwydydd C2 neu DE yn llai tebygol (35% ar gyfer C2 a 28% ar gyfer DE). Mae'r rheini yn aelwydydd C2 (30%) neu DE (29%) yn llai tebygol hefyd na defnyddwyr y rhyngrwyd yn gyffredinol (37%) o fod wedi bod ar-lein i ddod o hyd i wybodaeth hamdden, ac mae aelwydydd C1 yn fwy tebygol o fod wedi bod ar-lein at y diben hwn (43%). Mae aelwydydd AB yn fwy tebygol o gymharu cynnyrch neu wasanaethau yn ystod yr wythnos flaenorol (42%) ac aelwydydd DE yn llai tebygol (29%) o'i gymharu â'r cyfartaledd (35%).

Mae dynion yn fwy tebygol na menywod o ddweud eu bod wedi bod ar-lein yn ystod yr wythnos flaenorol i fynd ar wefannau newyddion (49% o'i gymharu â 38%).

Ffigur 44: Dod o hyd i wybodaeth ar-lein yn ystod yr wythnos flaenorol, yn ôl oed, rhyw a grŵp economaidd-gymdeithasol

Pob defnyddiwr rhyngrwyd		16-24	25-34	35-44	45-54	55-64	65-74	75+
Sail	1553	231	265	293	265	220	141	138
Mynd i wefannau newyddion neu wefannau ynghylch gwleidyddiaeth neu faterion cyfoes	44%	39%	41%	47%	51%	49%	34% ↓	27% ↓
Chwilio am wybodaeth ar-lein ar gyfer eich amser hamdden gan gynnwys cerddoriaeth fyw a sinema	37%	45% ↑	45% ↑	40%	36%	31%	23% ↓	15% ↓
Cymharu cynnyrch neu wasanaethau ar-lein fel edrych ar adolygiadau neu gymharu prisiau	35%	39%	34%	39%	33%	38%	34%	20% ↓
Chwilio am gyfleoedd gwaith ar-lein neu wneud cais am swydd ar-lein	16%	29% ↑	18%	15%	14%	13%	2% ↓	1% ↓

Pob defnyddiwr rhyngrwyd		AB	C1	C2	DE	Dynion	Menywod
Sail	1553	394	521	300	338	745	808
Mynd i wefannau newyddion neu wefannau ynghylch gwleidyddiaeth neu faterion cyfoes	44%	58% ↑	48%	35% ↓	28% ↓	49% ↑	38%
Chwilio am wybodaeth ar-lein ar gyfer eich amser hamdden gan gynnwys cerddoriaeth fyw a sinema	37%	43%	43% ↑	30% ↓	29% ↓	39%	36%
Cymharu cynnyrch neu wasanaethau ar-lein fel edrych ar adolygiadau neu gymharu prisiau	35%	42% ↑	37%	31%	29% ↓	37%	33%
Chwilio am gyfleoedd gwaith ar-lein neu wneud cais am swydd ar-lein	16%	16%	15%	12%	19%	17%	15%

IN14. A pha rai, os o gwbl, o'r gweithgareddau hyn ydych chi wedi defnyddio'r rhyngrwyd ar eu cyfer yn yr wythnos diwethaf? (atebion wedi'u cynnig, sawl cod).
Sail: Pob oedolyn sy'n 16 oed a hŷn sy'n mynd ar-lein (1553 yn 2016).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (lefel 95%) yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol/oed wrth gymharu â phob defnyddiwr rhyngrwyd, a dynion wrth gymharu â menywod.

7.8 Ffynonellau gwybodaeth ar-lein a ddefnyddiwyd

Peiriannau chwilio ydy'r unig ffynhonnell wybodaeth sy'n cael ei defnyddio gan fwy na hanner defnyddwyr y rhyngrwyd

Cafodd oedolion sy'n mynd ar-lein rhestr o wyth o ffynonellau posibl o wybodaeth a gofynnwyd iddyn nhw pa ffynonellau, os o gwbl, roedden nhw wedi'u defnyddio rywbryd i chwilio am wybodaeth ar-lein. Mae Ffigur 45 yn dangos y canlyniadau ar gyfer 2016.

Peiriant chwilio (97%) ydy'r unig ffynhonnell sy'n cael ei defnyddio gan fwyafrif y defnyddwyr rhyngrwyd. Mae pedwar o bob deg wedi defnyddio Wikipedia (41%), gwefannau gydag adolygiadau gan ddefnyddwyr fel Amazon, TripAdvisor neu OpenTable (40%) neu wefan y BBC (40%), a dywed cyfran debyg (37%) eu bod wedi defnyddio gwefan Llywodraeth neu wefan cyngor lleol. Mae tri o bob deg (31%) wedi defnyddio YouTube rywbryd i chwilio am wybodaeth, ac mae un o bob pedwar wedi defnyddio gwefannau cyfryngau cymdeithasol (26%) neu erthyglau ar-lein (25%) rywbryd.

Mae crynodeb isod o'r gwahaniaethau yn y ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddiwyd, yn ôl oed:

- O'i gymharu â'r cyfartaledd, mae defnyddwyr y rhyngrwyd rhwng 16 a 24 oed yn fwy tebygol o fod wedi defnyddio YouTube rywbryd (39% o'i gymharu â 31%), cyfryngau cymdeithasol 39% o'i gymharu â 26%) neu erthyglau ar-lein (33% o'i gymharu â 25%). Mae pobl rhwng 25 a 34 oed (35%) yn fwy tebygol o ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.

- Mae pobl rhwng 35 a 44 oed yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi defnyddio gwefan Llywodraeth neu gyngor lleol (45% o'i gymharu â 37%).

- Mae defnyddwyr rhwng 55 a 64 oed (16%) neu rhwng 65 a 74 oed (13%) yn llai tebygol na defnyddwyr yn gyffredinol (26%) o ddweud eu bod wedi defnyddio cyfryngau cymdeithasol rywbryd, ac mae'r grŵp olaf hwn yn llai tebygol hefyd o fod wedi defnyddio YouTube rywbryd (18% o'i gymharu â 31%) neu erthyglau ar-lein (15% o'i gymharu â 25%).

- Mae oedolion 75 oed a hŷn sy'n mynd ar-lein yn llai tebygol o ddweud eu bod yn defnyddio'r wyth ffynhonnell.

Mae gwahaniaethau hefyd yn ôl grwpiau economaidd-gymdeithasol:

- O'i gymharu â defnyddwyr y rhyngrwyd yn gyffredinol, mae pedair ffynhonnell yn fwy tebygol o fod wedi'u defnyddio rywbryd gan oedolion mewn aelwydydd AB, ac mae'r pedair ffynhonnell hyn yn llai tebygol o fod wedi'u defnyddio gan y rheini mewn aelwydydd DE: Wikipedia (50% ar gyfer AB o'i gymharu â 32% ar gyfer DE), gwefan y BBC (52% o'i gymharu â 24%), gwefannau Llywodraeth neu gyngor lleol (48% o'i gymharu â 28%) ac erthyglau ar-lein (36% o'i gymharu â 15%).

- O'i gymharu â'r cyfartaledd, mae'r rheini sydd mewn aelwydydd C2 yn llai tebygol hefyd o fod wedi defnyddio gwefan y BBC unrhyw bryd (31% o'i gymharu â 40%), neu wefan Llywodraeth neu gyngor lleol (29% o'i gymharu â 37%) neu erthyglau ar-lein (14% o'i gymharu â 25%). Mae oedolion DE yn llai tebygol o ddefnyddio gwefannau sy'n cynnig adolygiadau gan ddefnyddwyr (28% o'i gymharu â 40%).

Mae dynion yn fwy tebygol na menywod o ddweud eu bod wedi edrych am wybodaeth rywbryd ar YouTube (35% o'i gymharu â 28%). Mae menywod yn fwy tebygol o ddweud eu

bod wedi defnyddio gwefan Llywodraeth neu gyngor lleol rywbryd (40% o'i gymharu â 33%) neu wefannau cyfryngau cymdeithasol (30% o'i gymharu â 23%).

Ffigur 45: Ffynonellau a ddefnyddiwyd i chwilio am wybodaeth ar-lein



IN45. Meddyliwch am yr adegau pan fyddwch chi'n chwilio am wybodaeth am rywbeth ar-lein. Pa rai o'r ffynonellau hyn, os o gwbl, ydych chi wedi'u defnyddio o gwbl i chwilio am wybodaeth ar-lein? (atebion wedi'u cynnig, sawl cod).
Sail: Oedolion 16 oed a hŷn sy'n mynd ar-lein (1553 yn 2016).

Ffynonellau sydd fwyaf tebygol o gael eu defnyddio wrth chwilio am wybodaeth ar-lein

Mae defnyddwyr y rhyngrwyd fwyaf tebygol o ddefnyddio peiriannau chwilio i edrych am wybodaeth sy'n ymwneud â'u hamser hamdden/hobïau/at ddibenion adloniant

Gofynnwyd i ddefnyddwyr y rhyngrwyd sy'n dweud eu bod yn mynd ar-lein i chwilio am wybodaeth ar gyfer eu hamser hamdden (72% o ddefnyddwyr y rhyngrwyd yn gyffredinol) pa ffynhonnell wybodaeth maen nhw fwyaf tebygol o'i defnyddio i gael gwybodaeth am eu hamser hamdden, neu ar gyfer hobïau neu adloniant.

Yn 2016, mae pedwar defnyddiwr rhyngrwyd o bob pump (80%) yn dweud eu bod fwyaf tebygol o ddefnyddio peiriannau chwilio; mae hyn yn fwy tebygol ymysg oedolion yng ngrŵp economaidd-gymdeithasol C2 (88%).

Er mai dim ond 4% o ddefnyddwyr y rhyngrwyd sy'n dweud eu bod yn defnyddio gwefan YouTube at y diben hwn, mae hyn yn fwy tebygol ymhlith pobl rhwng 16 a 24 oed (11%) ac ymhlith dynion (6% o'i gymharu â 3% ar gyfer menywod).

Ffigur 46: Ffynhonnell wybodaeth sydd fwyaf tebygol o gael ei defnyddio wrth chwilio am wybodaeth am amser hamdden neu ar gyfer hobïau neu adloniant



IN46C. Rydych chi wedi sôn ynghynt eich bod yn mynd ar-lein i chwilio am wybodaeth ar gyfer eich amser hamdden. Defnyddiwch y cerdyn hwn i ddweud pa un o'r ffynonellau ar-lein canlynol rydych chi fwyaf tebygol o'i defnyddio i chwilio am wybodaeth ar gyfer eich amser hamdden neu ar gyfer eich hobïau neu adloniant? (atebion wedi'u cynnig, un cod).
Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn sy'n mynd ar-lein i chwilio am wybodaeth ar gyfer eu hamser hamdden (1083 yn 16 oed neu'n hŷn, mae'n amrywio yn ôl demograffeg).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (lefel 95%) yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol/oed wrth gymharu â phob defnyddiwr rhyngrwyd sy'n gwneud hyn, a dynion wrth gymharu â menywod.

Dywed wyth defnyddiwr o bob deg sy'n mynd ar-lein i chwilio am wybodaeth ar gyfer gwaith neu goleg neu ar gyfer dibenion swyddogol eraill, eu bod yn fwyaf tebygol o ddefnyddio peiriant chwilio i wneud hyn

Gofynnir i ddefnyddwyr y rhyngrwyd sy'n dweud eu bod yn mynd ar-lein i chwilio am wybodaeth yn ymwneud â gwaith, coleg neu dasgau swyddogol eraill (68% o ddefnyddwyr y rhyngrwyd yn gyffredinol) pa ffynhonnell wybodaeth maen nhw fwyaf tebygol o'i defnyddio i ddod o hyd i'r math hwn o wybodaeth.

Mae wyth o bob deg o'r defnyddwyr hyn (79%) yn dweud eu bod fwyaf tebygol o ddefnyddio peiriant chwilio i wneud hyn, ac mae 8% yn dweud y bydden nhw'n defnyddio gwefan Llywodraeth neu gyngor lleol.

O'i gymharu â'r cyfartaledd, mae pobl rhwng 35 a 44 oed sy'n mynd ar-lein i chwilio am y math hwn o wybodaeth yn llai tebygol o ddweud y bydden nhw'n defnyddio peiriannau chwilio (72% o'i gymharu â 79%) ac maen nhw'n fwy tebygol o ddweud y bydden nhw'n defnyddio gwefan Llywodraeth neu gyngor lleol (13% o'i gymharu â 8%). Mae'r rheini sydd rhwng 16 a 24 oed yn llai tebygol o ddweud y bydden nhw'n defnyddio gwefannau

Llywodraeth neu gyngor lleol (2% o'i gymharu â 8%) tra bod y rheini rhwng 55 a 64 oed yn fwy tebygol o ddweud y bydden nhw'n defnyddio gwefan y BBC (6% o'i gymharu â 2%).

O'i gymharu â dynion, mae menywod yn fwy tebygol o ddweud y bydden nhw'n defnyddio gwefan Llywodraeth neu gyngor lleol (11% o'i gymharu â 5%).

Ffigur 47: Ffynhonnell wybodaeth sydd fwyaf tebygol o gael ei defnyddio wrth chwilio am wybodaeth ar gyfer gwaith, coleg, ysgol neu ryw dasg swyddogol arall



IN46A. Defnyddiwch y cerdyn hwn i ddweud pa un o'r ffynonellau ar-lein canlynol rydych chi fwyaf tebygol o'i defnyddio i chwilio am wybodaeth ar gyfer gwaith, coleg, ysgol neu ryw dasg swyddogol arall (atebion wedi'u cynnig, un cod).
Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn sy'n mynd ar-lein i chwilio am wybodaeth sy'n ymwneud â gwaith neu goleg neu ar gyfer prosesau swyddogol eraill (1016 yn 16 oed neu'n hŷn, mae'n amrywio yn ôl demograffeg).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (lefel 95%) yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol/oed wrth gymharu â phob defnyddiwr rhyngrwyd sy'n gwneud hyn, a dynion wrth gymharu â menywod.

Defnyddio gwefannau neu apiau nad ydyn nhw wedi cael eu defnyddio o'r blaen

Dywed bron i hanner defnyddwyr y rhyngrwyd mai dim ond gwefannau neu apiau maen nhw wedi'u defnyddio o'r blaen maen nhw'n eu defnyddio yn y rhan fwyaf o wythnosau

Mae'n bwysig deall i ba raddau y mae pobl yn fodlon archwilio ar-lein, fel cyd-destun i lawer o'u hagweddau a'u hymddygiad. Er mwyn cael dirprwy ar gyfer y parodrwydd hwn i symud y tu hwnt i'r hyn sy'n gyfarwydd ar-lein, rydym yn gofyn a ydyn nhw, fel arfer, yn defnyddio gwefannau neu apiau nad ydyn nhw wedi'u defnyddio o'r blaen (yn y rhan fwyaf o wythnosau pan fyddan nhw'n mynd ar-lein).

Dywed un o bob pump (18%) o ddefnyddwyr y rhyngrwyd eu bod defnyddio llawer o wefannau neu apiau nad ydyn nhw wedi'u defnyddio o'r blaen. Mae mwy nag un o bob tri (36%) yn dweud eu bod yn defnyddio 'efallai un neu ddau' safle neu ap nad ydyn nhw wedi'u

defnyddio o'r blaen. Dywed bron i hanner (46%) eu bod yn dueddol o ddefnyddio dim ond gwefannau neu apiau maen nhw wedi'u defnyddio o'r blaen. Does dim un o'r mesurau hyn wedi newid ers 2015.[36]

Ffigur 77: Defnyddio gwefannau neu apiau nad ydyn nhw wedi cael eu defnyddio o'r blaen, y rhan fwyaf o wythnosau: 2010-2016



IN12. Yn y rhan fwyaf o wythnosau pan fyddwch chi'n mynd ar-lein ydych chi fel rheol... (atebion wedi'u cynnig, un cod).
Sail: Pob oedolyn sy'n 16 oed neu hŷn sy'n mynd ar-lein (1536 yn 2016) heb fod yn cynnwys atebion 'ddim yn gwybod'

Fel y dangosir yn Ffigur 78, mae defnyddwyr y rhyngrwyd rhwng 55 a 64 oed (54%) a 75 oed a hŷn (60%) yn fwy tebygol na'r cyffredin (46%) o ddweud eu bod ond yn defnyddio gwefannau neu apiau maen nhw wedi'u defnyddio o'r blaen. Does dim gwahaniaethau eraill yn y mesurau hyn yn ôl oed neu grŵp economaidd-gymdeithasol aelwydydd, o'i gymharu â'r cyfartaledd. Does dim gwahaniaeth rhwng dynion a menywod chwaith.

Ffigur 78: Defnyddio gwefannau neu apiau nad ydyn nhw wedi'u defnyddio o'r blaen, yn ôl oed, grŵp economaidd-gymdeithasol a rhyw

[36] Mae atebion a ddangosir yn y ffigur yn adlewyrchu'r rheini a fynegodd farn.



IN12. Yn y rhan fwyaf o wythnosau pan fyddwch chi'n mynd ar-lein ydych chi fel rheol... (atebion wedi'u cynnig, un cod).
Sail: Pob oedolyn sy'n 16 oed neu hŷn sy'n mynd ar-lein (1536 yn 2016, mae'n amrywio yn ôl demograffeg) - heb fod yn cynnwys atebion 'ddim yn gwybod'
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (lefel 95%) yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol / oed wrth gymharu â phob defnyddiwr rhyngrwyd a dynion wrth gymharu â menywod.

Darllen ac ysgrifennu adolygiadau ar-lein

Mae tri o bob pedwar o ddefnyddwyr y rhyngrwyd yn darllen adolygiadau ar-lein, ac mae dau o bob pump yn dweud eu bod yn eu hysgrifennu

Gofynnir i ddefnyddwyr y rhyngrwyd a ydyn nhw (cyn penderfynu prynu cynnyrch neu wasanaeth) yn darllen adolygiadau ar-lein am y cynnyrch neu'r gwasanaeth hwnnw gan aelodau'r cyhoedd. Gofynnir iddyn nhw hefyd a ydyn nhw'n ysgrifennu adolygiadau ar-lein er mwyn i bobl eraill eu darllen ar ôl iddyn nhw brynu cynnyrch neu wasanaeth. Dangosir canlyniadau'r ddau gwestiwn hyn ar lefel gyffredinol, ac yn ôl oed, grŵp economaidd-gymdeithasol a rhyw, yn Ffigur 79.

Tra bo oddeutu tri chwarter o ddefnyddwyr y rhyngrwyd (77%) yn darllen adolygiadau, dim ond pedwar o bob deg (40%) sy'n eu hysgrifennu. Ar gyfer pob grŵp oed a grŵp economaidd-gymdeithasol, maen nhw'n fwy tebygol o ddarllen adolygiadau ar-lein na'u hysgrifennu. Does dim un grŵp oedran o oedolion yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o ddarllen adolygiadau ar-lein, ac mae pobl dros 75 oed yn llai tebygol o wneud hyn (56% o'i gymharu â 77%).

Mae defnyddwyr y rhyngrwyd rhwng 65 a 74 oed (52%) yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o ddweud eu bod yn ysgrifennu adolygiadau ar-lein am gynnyrch neu wasanaeth, ac mae'r rheini dros 75 oed yn llai tebygol (27%).

Mae menywod yn fwy tebygol na dynion o ddweud eu bod yn darllen (80% o'i gymharu â 73%) neu ysgrifennu adolygiadau ar-lein (44% o'i gymharu â 37%).
Er nad yw hyn i'w weld yn Ffigur 79, does dim newid o ran niferoedd darllen ac ysgrifennu adolygiadau ar-lein o'i gymharu â 2015.

Ffigur 79: Darllen ac ysgrifennu adolygiadau ar-lein, yn ôl grŵp demograffig



IN47/ IN48. Cyn i chi benderfynu prynu cynnyrch neu ddefnyddio gwasanaeth, fyddwch chi'n darllen adolygiadau y mae aelodau eraill o'r cyhoedd wedi'u hysgrifennu neu eu postio ar-lein am y cynnyrch neu'r gwasanaeth

hwnnw? / Ar ôl prynu cynnyrch neu ddefnyddio gwasanaeth, fyddwch chi'n ysgrifennu adolygiadau ar-lein i bobl eraill eu darllen am y cynnyrch neu'r gwasanaeth hwnnw (atebion heb eu cynnig, un cod).
Sail: Pob oedolyn sy'n 16 oed a hŷn sy'n mynd ar-lein (1553 yn 2016).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (lefel 95%) yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol / oed wrth gymharu â phob defnyddiwr rhyngrwyd a dynion wrth gymharu â menywod.

Ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddir, os nad ydy rhywun yn siŵr sut mae gwneud rhywbeth ar-lein

Pan na fydd rhywun yn gwybod sut mae gwneud rhywbeth ar-lein, mae oedolion fwyaf tebygol o ddweud y bydden nhw'n gofyn am help, er byddai un o bob pump yn cyfeirio at safleoedd fel YouTube

Mae defnyddwyr y rhyngrwyd yn cael wyth opsiwn[37] a gofynnir iddyn nhw ddweud pa rai o'r opsiynau y bydden nhw'n ei wneud pe na fydden nhw'n gwybod beth i'w wneud neu ddim yn siŵr sut mae gwneud rhywbeth ar-lein. Mae mwy na hanner (58%) yn dweud y bydden nhw'n gofyn i ffrind neu deulu am help, ac mae mwy na phedwar o bob deg (43%) yn dweud y bydden nhw'n ceisio datrys hyn eu hunain.

Mae bron i un o bob pump (18%) yn dweud y bydden nhw'n gwylio fideos 'sut mae gwneud' ar safleoedd fel YouTube neu'r BBC. Dywed wyth y cant y bydden nhw'n rhoi'r ffidil yn y to, neu'n cael rhywun arall i wneud yn eu lle, a byddai cyfran debyg (7%) yn ffonio llinell gymorth. Dim ond un o bob 20 o ddefnyddwyr y rhyngrwyd neu lai sy'n sôn am bob un o'r opsiynau eraill.

Mae defnyddwyr rhwng 16 a 24 oed yn fwy tebygol o ddweud y bydden nhw'n datrys hyn eu hunain (56% o'i gymharu â 43%) neu'n gwylio fideos 'sut mae gwneud' ar safleoedd fel YouTube neu'r BBC (26% o'i gymharu â 18%). Mae'r rheini rhwng 25 a 34 oed yn llai tebygol o ddweud y bydden nhw'n gofyn i ffrind neu aelod o'r teulu am help (48% o'i gymharu â 58%). Mae pobl rhwng 35 a 44 oed (25% o'i gymharu â 18%) yn fwy tebygol hefyd o wylio fideos 'sut mae gwneud'.

Mae defnyddwyr 55 oed a hŷn yn fwy tebygol o ddweud y bydden nhw'n gofyn i ffrind neu aelod o'r teulu am help (69% ar gyfer pobl rhwng 55 a 64 oed, 73% ar gyfer pobl rhwng 65 a 74 oed ac 80% ar gyfer pobl dros 75 oed o'i gymharu â 58% yn gyffredinol) ac maen nhw'n llai tebygol o ddweud y bydden nhw'n datrys hyn eu hunain (34% ar gyfer pobl rhwng 55 a 64 oed, 27% ar gyfer pobl rhwng 65 a 74 oed a 21% ar gyfer pobl dros 75 oed o'i gymharu â 43% yn gyffredinol). O'i gymharu â'r cyfartaledd (18%), mae'r rheini rhwng 65 a 74 oed (11%) a'r rheini 75 oed a hŷn (1%) yn llai tebygol hefyd o ddweud y bydden nhw'n gwylio fideos 'sut mae gwneud'

Mae menywod yn fwy tebygol na dynion o ddweud y byddwn nhw'n gofyn i ffrind/aelod o 'r teulu am help (67% o'i gymharu â 49%) ac mae dynion yn fwy tebygol na menywod o ddweud y bydden nhw'n datrys hyn eu hunain (47% o'i gymharu â 39%).

Ffigur 80: Ffynonellau cymorth os nad ydy rhywun yn siŵr sut mae gwneud rhywbeth ar-lein

[37] Roedden nhw hefyd yn cael enwebu rhywun arall, dweud nad oedden nhw fel arfer yn cael trafferth ar-lein, neu ddweud nad oedden nhw'n siŵr.



IN4. Pa rai o'r canlynol fyddech chi'n ei wneud, os o gwbl, pe byddech chi'n sownd neu'n ansicr ynghylch sut mae gwneud rhywbeth ar-lein? (atebion wedi'u cynnig, sawl cod).
Sail: Oedolion 16 oed a hŷn sy'n mynd ar-lein (1553 yn 2016).

Adran 8

Dealltwriaeth Gritigol

8.1 Trosolwg o'r adran

Mae'r adran hon yn edrych ar y canfyddiadau o ran gwybodaeth oedolion am bynciau sy'n gysylltiedig â meddwl yn feirniadol, eu hymddygiad, a'u hagwedd at hynny, yn ogystal â'u dealltwriaeth o'r cyfryngau maen nhw'n eu defnyddio.

Mae'n dechrau drwy edrych ar ba mor hyderus ydy defnyddwyr wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd yn gyffredinol, cyn edrych ar ddealltwriaeth oedolion o'r prif ffynonellau cyllid ar gyfer gwefannau a rhaglenni teledu (ac, yn benodol, y brif ffynhonnell cyllid ar gyfer gweithredwyr masnachol a chynnwys y BBC, ar gyfer pob un o'r cyfryngau hyn).

Mae hefyd yn rhoi sylw i gwestiynau am ddiogelwch data a phreifatrwydd ar-lein, gan edrych ar elfennau fel y penderfyniadau a wneir wrth roi gwybodaeth bersonol ar-lein, defnyddio gwahanol nodweddion diogelwch a mesurau diogelwch ar-lein, ac unrhyw brofiadau negyddol a gafwyd ar-lein.

Mae'r bennod hon yn mynd ymlaen i edrych ar ymwybyddiaeth defnyddwyr o hysbysebu ar-lein a'u hagweddau at hynny, cyn rhoi sylw i ymddygiad ac agweddau ynghylch gwerthuso cynnwys.

8.2 Prif ganfyddiadau

- Dydy lefelau hyder cyffredinol defnyddwyr rhyngrwyd ddim wedi newid ers 2015 (89% o'i gymharu ag 88% yn 2015). Fodd bynnag, mae newid wedi bod o ran y defnyddwyr rhyngrwyd sy'n dweud eu bod yn 'hyderus iawn' (52% o'i gymharu â 59% yn 2015), gyda mwy'n dweud eu bod yn 'weddol hyderus' (37% o'i gymharu â 29%).

- Mae'r rhan fwyaf o oedolion yn gwybod sut mae rhaglenni teledu'n cael eu cyllido'n bennaf - boed ar y BBC, drwy sianeli masnachol darlledu gwasanaeth cyhoeddus, neu ar Sky neu Virgin Media - ond mae oedolion iau (16-34 oed) yn llai tebygol o fod yn ymwybodol o hynny, o'i gymharu â'r cyfartaledd.

- Mae'r mwyafrif o oedolion yn dweud yn gywir mai ffi'r drwydded ydy'r brif ffynhonnell gyllid ar gyfer gwefan y BBC (63%) a BBC i-Player (54%).

- Cyn 2016, lleiafrif o oedolion oedd yn gwybod sut yr oedd gwefannau peirannau chwilio'n cael eu cyllido'n bennaf (45% yn 2014, 46% yn 2015); mae hyn wedi cynyddu i dros hanner (53%) yn 2016.

- Roedd 44% o oedolion yn gyffredinol yn gwybod sut mae YouTube yn cael ei gyllido'n bennaf. Roedd y ffigur yn cynyddu i 49% ymysg defnyddwyr rhyngrwyd yn gyffredinol, ac i dros hanner (55%) ymysg y rhai sy'n defnyddio safleoedd rhannu fideos (fel YouTube neu Vimeo).

- Mae dros saith defnyddiwr rhyngrwyd o bob deg (72%) yn dweud eu bod yn ffyddiog eu bod yn gwybod sut mae rheoli pwy sydd â mynediad i'w data personol ar-lein. Wrth gymharu â'r cyfartaledd (40%), mae'r grwpiau oed 16-24 (60%) a 25-34 (47%) yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn 'hyderus iawn'. Er bod 8% o ddefnyddwyr

rhyngrwyd ‘ddim yn hyderus o gwbl’ yn yr agwedd hon o’u defnydd o'r rhyngrwyd, mae hyn yn fwy tebygol ar gyfer y grwpiau oed 65-74 (18%) a dros 75 (17%).

- Wrth roi cynnwys ar gyfryngau cymdeithasol, mae o leiaf ddau ddefnyddiwr o bob tri yn dweud eu bod bob amser neu weithiau’n ystyried y goblygiadau diogelwch data neu breifatrwydd - yn enwedig wrth roi lluniau ar gyfryngau cymdeithasol.

- Mae saith defnyddiwr rhyngrwyd o bob deg (70%) sy’n cofrestru manylion personol ar-lein yn dweud eu bod yn gwneud gwiriadau priodol cyn rhoi eu manylion personol, ac mae mwy nag un o bob pedwar (27%) yn dweud eu bod yn rhoi manylion anghywir neu ffug ar-lein er mwyn gwarchod eu gwybodaeth bersonol.

- Er bod tri chwarter y defnyddwyr rhyngrwyd (74%) sy’n prynu ar-lein yn dweud eu bod yn gwneud gwiriadau priodol cyn rhoi manylion eu cerdyn debyd/credyd ar-lein, mae un o bob pedwar (24%) yn dweud eu bod yn gwneud o leiaf un o’r pethau hyn sy’n llai diogel: yn rhoi eu manylion pryd bynnag y mae angen (5%), yn gwneud hynny os mai dyna’r unig ffordd o brynu’r eitem (11%), neu’n edrych i weld a ydy’r safle wedi’i restru ar beiriant chwilio (15%).

- Mae’r rhan fwyaf o ddefnyddwyr rhyngrwyd yn defnyddio dau fesur diogelwch gartref: meddalwedd fel pecynnau gwrthfeirysau neu wrthysbïwedd (65%) neu gyfrineiriau cryf ar ddyfeisiau maen nhw’n eu defnyddio i fynd ar y we (54%). Dywed lleiafrif (46%) eu bod yn defnyddio cyfrineiriau cryf ar gyfer gwasanaethau ar-lein fel e-bost, cyfryngau cymdeithasol a PayPal.

- Mae mwy na phedwar defnyddiwr rhyngrwyd o bob pump (84%) yn dweud eu bod yn hyderus iawn (45%) neu’n weddol hyderus (39%) eu bod yn gwybod pa gynnwys ar-lein sy’n hysbysebion, ac mae mwy na hanner (56%) yn gwybod am hysbysebion personol.

- Mae bron i dri o bob pedwar (72%) o’r rhai sy’n defnyddio safleoedd rhannu fideos (fel YouTube neu Vimeo) yn gwybod am y posibilrwydd bod flogwyr yn cael eu talu i gymeradwyo’r cynnyrch maen nhw’n eu trafod.

- Wrth weld llun o ddolenni ar Google, gyda blwch a’r gair ‘ad’ ynddo wrth eu hymyl, roedd 48% o ddefnyddwyr peiriannau chwilio yn deall bod y rhain yn ymddangos oherwydd eu bod yn hysbysebion y telir amdanynt, nid oherwydd mai dyna’r canlyniadau gorau neu'r rhai mwyaf perthnasol.

- Dywed un oedolyn o bob pump sy'n defnyddio peiriannau chwilio (21%) os caiff canlyniadau eu rhestru gan beiriant chwilio, y bydd y gwefannau’n gywir/diduedd.

- O’i gymharu â 2015, mae defnyddwyr cyfryngau cymdeithasol yn ymddiried llai yn y cynnwys maen nhw’n ei weld ar apiau neu safleoedd cyfryngau cymdeithasol.

- Dywed dau ddefnyddiwr rhyngrwyd o bob tri eu bod yn dilysu cywirdeb yr wybodaeth ffeithiol maen nhw’n dod o hyd iddi ar-lein drwy wneud o leiaf un o’r chwe gwiriad a gynigir. Doedd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr rhyngrwyd ddim yn gwneud dim un gwiriad, ond dywed bron i hanner (45%) eu bod yn edrych ar wefannau gwahanol i weld a ydy'r un wybodaeth yn ymddangos ar bob un ohonyn nhw, ac mae un o bob tri (32%) yn gwirio bod cyfeiriad y wefan yn edrych fel un go iawn. Nid yw tri o bob deg ddim yn gwneud dim un o'r gwiriadau hyn.

8.3 Hyder fel defnyddiwr rhyngrwyd

Hyder ar-lein

Mae hanner y bobl sy'n mynd ar-lein yn dweud eu bod yn ddefnyddwyr hyderus iawn - ond mae'r ffigur yn is nag yn 2015

Rydym yn gofyn i ddefnyddwyr rhyngrwyd ddweud pa mor hyderus ydyn nhw ar sawl agwedd ar ddefnyddio'r rhyngrwyd, ac ar lefel gyffredinol fel defnyddwyr rhyngrwyd. Mae canlyniadau'r lefelau hyder cyffredinol ymysg defnyddwyr rhyngrwyd yn cael eu trafod isod, fel ffordd o fframio yr hyn mae defnyddwyr yn ei wneud ar-lein, ac mae gweddill yr adran hon yn rhoi sylw i hynny.

Fel y gwelir yn Ffigur 81, mae hanner (52%) yr oedolion yn y Deyrnas Unedig sy'n mynd ar-lein yn dweud eu bod yn 'hyderus iawn' fel defnyddiwr rhyngrwyd, ac mae mwy nag un o bob tri yn dweud eu bod yn 'weddol hyderus' (37%). Er nad ydy'r lefelau hyder cyffredinol (hyderus iawn/gweddol hyderus) wedi newid ers 2015 (89% o'i gymharu ag 88% yn 2015), mae'n werth nodi bod newid o ran y defnyddwyr rhyngrwyd sy'n dweud eu bod yn 'hyderus iawn' (52% o'i gymharu â 59% yn 2015).
Mae defnyddwyr rhyngrwyd sydd rhwng 16 a 24 oed (75%) a 25 a 34 oed (63%) yn fwy tebygol nag oedolion cyffredin sy'n defnyddio'r rhyngrwyd (52%) o ddweud eu bod yn 'hyderus iawn', yn yr un modd ag oedolion AB (58%); mae hyn hefyd yn wir am ddynion o'u cymharu â menywod (57% o'i gymharu â 47%).

Mae pobl sydd dros 65 oed yn fwy tebygol na'r cyffredin o ddweud eu bod 'ddim yn hyderus' (20% ar gyfer pobl rhwng 65 a 74 oed, a 23% ar gyfer pobl dros 75 oed, o'i gymharu â 7% o'r holl ddefnyddwyr rhyngrwyd).

Ffigur 81: Hyder fel defnyddiwr rhyngrwyd, fesul blwyddyn



IN11A. Yn gyffredinol, pa mor hyderus ydych chi fel defnyddiwr rhyngrwyd? (atebion wedi'u cynnig, un cod).
Sail: Oedolion 16 oed a hŷn sy'n mynd ar-lein (1553 yn 2016).
Mae'r saethau'n dangos newidiadau arwyddocaol (lefel 95%) rhwng 2015 a 2016.

8.4 Cyllid ar gyfer cyfryngau

Gofynnir i oedolion ddweud, heb gynnig dim byd, beth maen nhw'n ei gredu ydy'r prif ffynonellau cyllid ar gyfer gwefannau a rhaglenni teledu penodol. Ar gyfer pob cyfrwng, gofynnir cwestiynau am y brif ffynhonnell gyllid ar gyfer gweithredwyr masnachol a chynnwys ar y BBC.

Cyllid ar gyfer rhaglenni teledu'r BBC

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn gwybod sut mae rhaglenni teledu'r BBC yn cael eu cyllido'n bennaf, ond mae hyn yn llai tebygol ymysg y rhai rhwng 16 a 34 oed

Fel y gwelir yn

Ffigur 82, ni welwyd newid ers 2015 o ran y rhai sy'n gwybod mai ffi'r drwydded ydy'r brif ffynhonnell gyllid ar gyfer rhaglenni teledu'r BBC (81% yn 2016 o'i gymharu â 79% yn 2015). Mae oedolion rhwng 16 a 24 oed a rhwng 25 a 34 oed yn llai tebygol o wybod mai ffi'r drwydded ydy'r brif ffynhonnell gyllid ar gyfer y BBC (57% ar gyfer y rhai rhwng 16 a 24 oed, a 73% ar gyfer y rhai rhwng 25 a 34 oed). Mae oedolion rhwng 55 a 64 oed (93%), 65 a 74 oed (91%) a dros 75 oed (88%) yn fwy tebygol o roi'r ateb cywir nag oedolion yn gyffredinol. Mae'r rheini mewn aelwydydd AB (87%) yn fwy tebygol o ddweud mai ffi'r drwydded ydy'r brif ffynhonnell gyllid nag oedolion yn gyffredinol. Mae dynion (84%) yn fwy tebygol na menywod (78%) o roi'r ateb cywir.

Ffigur 82: Gwybod sut mae rhaglenni teledu'r BBC yn cael eu cyllido'n bennaf: 2005-2016



T4. Sut ydych chi'n meddwl mae rhaglenni teledu'r BBC yn cael eu cyllido'n bennaf? (atebion heb eu cynnig, un cod).
Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn (1846 yn 2016).

Cyllid ar gyfer teledu masnachol

Mae pobl iau yn llai tebygol o wybod sut mae teledu masnachol yn cael ei gyllido

Fel y gwelir yn Ffigur 83, mae tri o bob pedwar oedolyn yn gwybod mai hysbysebion ydy'r brif ffynhonnell gyllid ar gyfer rhaglenni teledu ar orsafoedd masnachol (73%); dydy hyn ddim wedi newid ers 2015 (74%).

Yn yr un modd â gwybod sut mae rhaglenni'r BBC yn cael eu cyllido'n bennaf, mae'r rhai rhwng 16 a 24 oed (54%) a rhwng 25 a 34 oed (59%) yn llai tebygol o roi'r ateb cywir, ac mae oedolion rhwng 55 a 64 oed (81%), 65 a 74 oed (86%) a dros 75 oed (83%) yn fwy tebygol o roi'r ateb cywir.

Wrth gymharu â'r cyfartaledd, mae oedolion mewn aelwydydd AB (82%) yn fwy tebygol o roi'r ateb cywir, ac mae'r rheini mewn aelwydydd DE yn llai tebygol (67%) o roi'r ateb cywir.

Mae dynion yn fwy tebygol na menywod o wybod mai hysbysebion ydy'r brif ffynhonnell gyllid (76% o'i gymharu â 70%).

Ffigur 83: Gwybod sut mae rhaglenni teledu masnachol yn cael eu cyllido'n bennaf: 2005-2016



T5. Sut ydych chi'n meddwl mae rhaglenni'n cael eu cyllido'n bennaf ar ITV, Channel 4 a Five? (atebion heb eu cynnig, un cod)
Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn (1846 yn 2016).

Gofynnir hefyd i oedolion beth ydy'r brif ffynhonnell gyllid ar gyfer gwasanaethau teledu Sky a Virgin Media. Mae tua hanner (52%) o oedolion yn dweud mai tanysgrifiadau ydy'r brif ffynhonnell gyllid, ac mae un o bob pedwar (25%) yn dweud eu bod yn cael eu cyllido'n bennaf drwy hysbysebion.

O ran gwybodaeth am y ffynonellau cyllid hyn, does dim llawer o wahaniaeth yn ôl oed; o'i gymharu â'r cyfartaledd, mae pobl dros 75 oed (38%) yn llai tebygol o ddweud mai tanysgrifiadau ydy'r brif ffynhonnell gyllid, ac mae'r rhai rhwng 16 a 24 oed yn llai tebygol o sôn am hysbysebion (18%).

Mae un o bob saith oedolyn (14%) yn ansicr beth ydy'r brif ffynhonnell gyllid ar gyfer y darparwyr hyn; mae hyn yn fwy tebygol ymysg y rhai rhwng 16 a 24 oed (23%) a dros 75 oed (28%). Mae'r rheini mewn aelwydydd DE hefyd yn fwy tebygol o fod yn ansicr (21%), ac mae menywod yn fwy tebygol o fod yn ansicr na dynion (18% o'i gymharu â 10%).

Ffigur 84: Gwybod sut mae gwasanaethau teledu Sky a Virgin Media yn cael eu cyllido'n bennaf



T6. Sut mae gwasanaethau teledu Sky neu Virgin Media yn cael eu cyllido'n bennaf? (atebion heb eu cynnig, un cod)
Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn (1846 yn 2016).

Cyllido BBC iPlayer a gwefan y BBC

Mae llai o bobl yn gwybod sut mae gwefan y BBC a BBC iPlayer yn cael eu cyllido o'i gymharu â rhaglenni teledu'r BBC

Mae mwy na chwech oedolyn o bob deg (63%) yn dweud yn gywir mai ffi'r drwydded ydy'r brif ffynhonnell gyllid ar gyfer gwefan y BBC; dydy hyn ddim wedi newid ers 2015.

O'i gymharu â'r cyfartaledd, mae pobl rhwng 55 a 64 oed (71%) a'r rheini mewn aelwydydd AB (72%) yn fwy tebygol o roi'r ateb hwnnw, ac mae pobl rhwng 16 a 24 oed (44%), dros 75 oed (55%) a'r rheini mewn aelwydydd DE (54%) yn llai tebygol o roi'r ateb hwnnw. Mae dynion hefyd yn fwy tebygol na menywod o roi'r ateb hwnnw (67% o'i gymharu â 60%).

Ffigur 85: Gwybod sut mae gwefan y BBC yn cael ei chyllido'n bennaf: 2005-2016



IN34. Sut ydych chi'n meddwl mae gwefan y BBC yn cael ei chyllido'n bennaf? (atebion heb eu cynnig, un cod)
Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn (1846 yn 2016).

Gofynnir hefyd i oedolion sut mae gwasanaeth BBC i-Player yn cael ei gyllido'n bennaf. Mae dros hanner (54%) yn gwybod mai ffi'r drwydded ydy'r brif ffynhonnell gyllid. Mae llai o bobl rhwng 16 a 24 oed (42%) a dros 75 (36%) yn gwybod hyn. Mae'r rheini sydd rhwng 45 a 54 oed (61%) a rhwng 55 a 64 oed (63%) yn fwy tebygol o roi'r ateb cywir.

Mae oedolion mewn aelwydydd AB yn fwy tebygol na'r cyffredin o roi'r ateb cywir (63%), ac mae'r rheini mewn aelwydydd C2 (46%) a DE (45%) yn llai tebygol o roi'r ateb cywir. Mae dynion yn fwy tebygol na menywod o roi'r ateb cywir (57% o'i gymharu â 50%).

Dywed un o bob tri oedolyn (32%) eu bod yn ansicr[38] beth ydy'r brif ffynhonnell gyllid; mae hyn yn fwy tebygol ymysg oedolion hŷn (41% ar gyfer pobl rhwng 65 a 74 oed, a 55% ar gyfer pobl dros 75 oed), y rheini mewn aelwydydd C2 (41%) ac aelwydydd DE (43%). Mae menywod hefyd yn fwy tebygol na dynion o ddweud eu bod yn ansicr (36% o'i gymharu â 28%).

[38] Naill ai'n dweud 'ddim yn gwybod' (31%) neu nad ydyn nhw erioed wedi clywed am wasanaeth BBC i-Player (1%).

Ffigur 48: Gwybod sut mae gwasanaeth BBC iPlayer yn cael ei gyllido'n bennaf yn ôl oed, grŵp economaidd-gymdeithasol a rhyw



IN36. Sut ydych chi'n meddwl mae gwasanaeth BBC iPlayer yn cael ei gyllido'n bennaf (atebion heb eu cynnig, un cod).
Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn (1846 yn 2016, yn amrywio yn ôl demograffeg).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (lefel 95%) yn ôl oed / grŵp economaidd-gymdeithasol wrth gymharu â phob oedolyn, a dynion wrth gymharu â menywod.

Cyllido peiriannau chwilio

Mae mwy o bobl – 53% – yn gwybod sut mae peiriannau chwilio'n cael eu cyllido'n bennaf

Mae dros hanner (53%) o oedolion yn gwybod sut mae gwefannau peiriannau chwilio'n cael eu cyllido'n bennaf, mae tri o bob deg (31%) yn ansicr[39], ac mae un o bob chwech (16%) yn rhoi ateb anghywir. O'i gymharu â 2015 (46%), mae mwy o bobl yn gwybod sut mae peiriannau chwilio'n cael eu cyllido'n bennaf.

7.5.0.1 O'i gymharu â'r cyfartaledd, mae'r rheini sydd rhwng 35 a 44 oed (64%) a 45 a 54 oed (65%) yn fwy tebygol o roi'r ateb cywir[40], ac mae'r rheini sydd rhwng 65 a 74 oed (35%) a 75 oed a hŷn (28%) yn llai tebygol o roi'r ateb cywir.

7.5.0.2 Mae oedolion mewn aelwydydd AB yn fwy tebygol o wybod sut mae gwefannau peiriannau chwilio'n gael eu cyllido'n bennaf (66%), ac mae'r rheini mewn aelwydydd C2 (46%) a DE (41%) yn llai tebygol o wybod hynny. Mae dynion (61%) yn fwy tebygol na menywod (46%) o roi'r ateb cywir.

[39] Naill ai'n dweud 'ddim yn gwybod' (29%) neu nad ydyn nhw erioed wedi clywed am wefannau peiriannau chwilio (2%).
[40] Mae hyn yn seiliedig ar ddau ateb wedi'u codio sy'n cael eu hystyried yn gywir – 1) 'Hysbysebion ar y wefan' a 2) 'Mae hysbysebwyr yn talu pan fydd defnyddwyr yn clicio dolenni noddedig i gyrraedd eu gwefannau'.

7.5.0.3 Er bod rhai grwpiau'n llai tebygol o roi ateb cywir, ansicrwydd sy'n gyfrifol am hynny fel arfer, yn hytrach na'u bod yn anghywir. O'i gymharu â'r cyfartaledd (31%), mae oedolion sydd rhwng 65 a 74 oed (47%), 75 oed a hŷn (62%), menywod (38%) a'r rheini mewn aelwydydd C2(37%) neu DE (44%) yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn ansicr sut mae gwefannau peiriannau chwilio'n cael eu cyllido'n bennaf.

Ffigur 49: Gwybod sut mae peiriannau chwilio'n cael eu cyllido'n bennaf: 2005-2016



IN35. Sut ydych chi'n meddwl mae gwefannau peiriannau chwilio fel Google neu Bing yn cael eu cyllido'n bennaf? (atebion heb eu cynnig, un cod).
Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn (1846 yn 2016).
Mae'r saethau'n dangos newidiadau arwyddocaol (lefel 95%) rhwng 2015 a 2016.

Cyllido YouTube

Mai llai na hanner o oedolion yn gwybod mai hysbysebion ydy'r brif ffynhonnell gyllid ar gyfer YouTube

Yn 2016, mae mwy na phedwar oedolyn o bob deg (44%) yn gwybod mai hysbysebion ydy'r brif ffynhonnell gyllid ar gyfer YouTube, ac mae pobl sydd rhwng 35 a 44 oed (57%) yn fwy tebygol o roi'r ateb hwn. Mae oedolion sydd rhwng 65 a 74 oed (28%) neu dros 75 oed (18%) yn llai tebygol o roi'r ateb cywir.

O'i gymharu ag oedolion yn gyffredinol, mae'r rheini mewn aelwydydd AB yn fwy tebygol o roi'r ateb cywir (57%), ac mae'r rheini mewn aelwydydd C2 (36%) a DE (31%) yn llai tebygol o roi'r ateb cywir. Mae dynion hefyd yn fwy tebygol na menywod o wybod mai hysbysebion ydy'r brif ffynhonnell gyllid ar gyfer YouTube (49% o'i gymharu â 38%).

Mae mwy nag un oedolyn o bob tri (38%) yn ansicr[41] sut mae YouTube yn cael ei gyllido; mae hyn yn cynyddu i'r mwyafrif o'r rheini sydd rhwng 65 a 74 oed (59%) neu dros 75 oed (75%).

Yn gyffredinol, mae bron i hanner y defnyddwyr rhyngrwyd (49%) yn gwybod sut mae YouTube yn cael ei gyllido, ac mae'r ffigur hwn yn cynyddu i dros hanner (55%) ymysg y rheini sy'n defnyddio safleoedd rhannu fideos, fel Vimeo ac YouTube.

Ffigur 50: Gwybod sut mae YouTube yn cael ei gyllido'n bennaf yn ôl oed, grŵp economaidd-gymdeithasol a rhyw



IN37. Sut ydych chi'n meddwl mae YouTube yn cael ei gyllido'n bennaf? (atebion heb eu cynnig, un cod).
Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn (1846 yn 2016, yn amrywio yn ôl demograffeg).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (lefel 95%) yn ôl oed / grŵp economaidd-gymdeithasol wrth gymharu â phob oedolyn, a dynion wrth gymharu â menywod.

Agweddau at gyllido cynnwys ar-lein

Ar y cyfan, mae oedolion yr un mor debygol o gytuno ag ydyn nhw o anghytuno â'r datganiad: "gyhyd â bod gwefannau da ar gael ar y rhyngrwyd, does dim ots pwy sy'n berchen arnyn nhw na sut maen nhw'n cael eu cyllido"

7.5.0.4 Gofynnir i oedolion sy'n mynd ar-lein i ba raddau maen nhw'n cytuno â'r datganiad: "Gyhyd â bod gwefannau da ar gael ar y rhyngrwyd, does dim ots pwy sy'n berchen arnyn nhw na sut maen nhw'n cael eu cyllido".

7.5.0.5 Mae Ffigur 51 yn dangos bod defnyddwyr rhyngrwyd, o'i gymharu â 2015, yn fwy tebygol o anghytuno'n gryf (19% o'i gymharu ag 14% yn 2015), sy'n golygu bod y mesur hwn yn debycach i'r canlyniadau yn 2014.

[41] Naill ai'n dweud 'ddim yn gwybod' (37%) neu nad ydyn nhw erioed wedi clywed am YouTube (2%).

7.5.0.6 Felly, yn yr un modd â 2014, does dim consensws clir ynghylch a ydy defnyddwyr rhyngrwyd yn cytuno'n gyffredinol (39%) ynteu'n anghytuno'n gyffredinol (37%) â'r datganiad hwn.

7.5.0.7 Yn 2016, dydy hyn ddim yn amrywio yn ôl oedran neu grŵp economaidd-gymdeithasol aelwydydd o'i gymharu â'r cyfartaledd. Fel y gwelwyd yn 2015, mae dynion (44%) yn fwy tebygol na menywod (35%) o gytuno â'r datganiad hwn.

Ffigur 51: Cytuno â'r datganiad: "Gyhyd â bod gwefannau da ar gael ar y rhyngrwyd, does dim ots pwy sy'n berchen arnyn nhw na sut maen nhw'n cael eu cyllido". 2007-2016



IN38B. Rwy'n mynd i ddarllen yn uchel rai o'r pethau mae pobl eraill wedi'u dweud am fod ar-lein. Defnyddiwch y cerdyn hwn i ddweud i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â phob datganiad rwy'n eu darllen – Gyhyd â bod gwefannau da ar gael ar y rhyngrwyd, does dim ots pwy sy'n berchen arnyn nhw na sut maen nhw'n cael eu cyllido (atebion wedi'u cynnig, un cod).
Sail: Oedolion 16 oed a hŷn sy'n mynd ar-lein (1553 yn 2016).
Mae'r saethau'n dangos newidiadau arwyddocaol (lefel 95%) rhwng 2015 a 2016.

8.5 Preifatrwydd ar-lein, rheoli data personol a diogelwch ar-lein

Dywed dros saith defnyddiwr rhyngrwyd o bob deg eu bod yn hyderus wrth reoli pwy sydd â mynediad at eu data personol ar-lein

Yn 2016, gofynnwyd i ddefnyddwyr rhyngrwyd pa mor hyderus oedden nhw eu bod yn gwybod sut i reoli pwy oedd yn gallu cael mynediad at eu data personol ar-lein[42].

Mae'r canlyniadau i'w gweld yn Ffigur 52. Dywed mwy na saith defnyddiwr rhyngrwyd o bob deg (72%) eu bod yn hyderus ynghylch yr agwedd hon ar eu defnydd o'r rhyngrwyd, gyda phedwar o bob deg yn dweud eu bod yn hyderus iawn (40%). Ymysg y rheini sydd ddim yn hyderus – tua un o bob pump (18%) – mae'r

[42] Mae defnyddwyr yn cael yr eglurhad canlynol hefyd: 'Mae hyn yn golygu gwybod sut i rwystro cwmnïau rhag cael mynediad at wybodaeth fel eich manylion personol (er enghraifft eich cyfeiriad, eich rhif ffôn, eich dyddiad geni ac ati) neu wybodaeth am bethau fel ble rydych chi'n siopa neu beth ydy'ch diddordebau.

nifer sydd *ddim yn hyderus iawn* (10%) neu *ddim yn hyderus o gwbl* (8%) yn debyg iawn.

Mae defnyddwyr rhyngrwyd sydd rhwng 16 a 24 oed (60%) a rhwng 25 a 34 oed (47%) yn fwy tebygol na'r defnyddiwr rhyngrwyd cyffredin o ddweud eu bod yn hyderus iawn, ac mae'r rheini sydd dros 55 oed (55-64 oed – 28%, 65-74 oed – 26%, a 75 oed a hŷn – 23%) yn llai tebygol o ddweud hynny. Mae pobl sydd rhwng 65 a 74 oed (18%) ac yn 75 oed a hŷn (17%) fwy na dwywaith mor debygol â defnyddwyr rhyngrwyd yn gyffredinol o ddweud nad ydyn nhw'n hyderus o gwbl.

Mae oedolion mewn aelwydydd AB (46%) yn fwy tebygol na'r cyffredin o ddweud eu bod yn hyderus iawn, ac mae dynion (44%) hefyd yn fwy tebygol na menywod (37%) o ddweud hynny.

Ffigur 52: Hyder eu bod yn gwybod sut i reoli pwy sydd â mynediad at eu data personol ar-lein yn ôl oed, grŵp economaidd-gymdeithasol a rhyw



98

IN11C. Pa mor hyderus ydych chi eich bod yn gwybod sut i reoli pwy sydd â mynediad at eich data personol ar-lein? Mae hyn yn golygu gwybod sut i rwystro cwmnïau rhag cael mynediad at wybodaeth fel eich manylion personol (er enghraifft eich cyfeiriad, eich rhif ffôn, eich dyddiad geni ac ati) neu wybodaeth am bethau fel ble rydych chi'n siopa neu beth ydy'ch diddordebau.
Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn sy'n mynd ar-lein (yn amrywio yn ôl demograffeg).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (lefel 95%) yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol/oed wrth gymharu â phob defnyddiwr rhyngrwyd, a dynion wrth gymharu â menywod.

Ystyried goblygiadau diogelwch data wrth roi cynnwys ar gyfryngau cymdeithasol

Wrth roi cynnwys ar gyfryngau cymdeithasol, mae o leiaf ddau ddefnyddiwr o bob tri yn dweud eu bod bob amser neu weithiau yn ystyried y goblygiadau diogelwch data neu breifatrwydd.

Gofynnir i oedolion sydd â chyfrif/proffil ar gyfryngau cymdeithasol i ba raddau maen nhw'n ystyried unrhyw oblygiadau o ran diogelwch data neu breifatrwydd wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i wneud pedwar gweithgaredd penodol: postio eu lluniau eu hunain, tagio pobl eraill mewn lluniau maen nhw'n eu postio, postio sylwadau a datgan eu bod yn rhywle.

Ar gyfer pob un o'r pedwar gweithgaredd hyn, mae defnyddwyr yn cael dweud nad ydyn nhw'n gwneud y gweithgaredd penodol hwnnw. Yn yr achosion hyn, maen nhw'n cael eu heithrio o'r dadansoddiad a welir yn Ffigur 53 i Ffigur 56.

Fel y gwelir yn Ffigur 53, mae bron i hanner y rheini sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol ac sy'n postio lluniau (89% o'r rhai sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol) yn dweud eu bod bob amser yn ystyried unrhyw oblygiadau diogelwch data neu breifatrwydd wrth wneud hynny (46%). Mae tri o bob deg (31%) yn dweud eu bod yn ystyried hyn weithiau, tra mae 13% yn dweud mai anaml y byddan nhw'n gwneud hynny, ac mae un o bob deg (9%) yn dweud nad ydyn nhw byth yn ystyried y goblygiadau diogelwch.

Mae oedolion rhwng 16 a 24 oed sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol (32%) yn llai tebygol na'r cyffredin o ddweud eu bod bob amser yn ystyried y goblygiadau diogelwch wrth bostio lluniau, ond yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gwneud hynny weithiau (40%). Mae defnyddwyr 55 oed a hŷn yn fwy tebygol o ddweud eu bod byth yn ystyried y goblygiadau diogelwch (16% o'i gymharu â 9% yn gyffredinol).

Mae aelwydydd C2 sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol ac yn postio lluniau yn fwy tebygol na'r cyffredin o ddweud nad ydyn nhw byth yn ystyried y goblygiadau diogelwch wrth bostio lluniau (16% o'i gymharu â 9%), ac mae aelwydydd AB sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gwneud hynny (95% o'i gymharu â 90%).

Mae menywod hefyd yn fwy tebygol na dynion o ddweud eu bod yn gwneud hynny bob amser (51% o'i gymharu â 41%).

Ffigur 53: Ystyried goblygiadau diogelwch data/preifatrwydd wrth bostio lluniau ar gyfryngau cymdeithasol yn ôl oed, grŵp economaidd-gymdeithasol a rhyw



IN32A. Pa mor aml ydych chi'n ystyried unrhyw oblygiadau diogelwch data neu breifatrwydd wrth bostio'ch lluniau? (atebion wedi'u cynnig, un cod).
Sail: Pawb sydd â phroffil/cyfrif cyfryngau cymdeithasol sy'n dweud eu bod yn gwneud hyn (1001 yn 16 oed a hŷn, yn amrywio yn ôl demograffeg).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (lefel 95%) yn ôl oed / grŵp economaidd-gymdeithasol wrth gymharu â phawb, a dynion wrth gymharu â menywod.

Mae pedwar o bob deg sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol ac sy'n tagio pobl eraill mewn lluniau (85% o'r rhai sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol) yn dweud eu bod yn ystyried y goblygiadau diogelwch data neu breifatrwydd bob amser cyn gwneud hynny (40%), gydag un o bob tri (32%) yn dweud eu bod yn ystyried hynny weithiau. Mae defnyddwyr yr un mor debygol o ddweud mai anaml y maen nhw'n gwneud hynny (15%) ag ydyn nhw o ddweud nad ydyn nhw byth yn gwneud hynny (13%).

Mae pobl rhwng 16 a 24 oed sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn llai tebygol na'r cyffredin o ddweud eu bod bob amser yn ystyried y goblygiadau diogelwch data/preifatrwydd wrth dagio pobl eraill mewn lluniau (31%). Mae menywod yn fwy tebygol na dynion o ddweud eu bod yn gwneud hynny bob amser (46% o'i gymharu â 34%).

Ffigur 54: Ystyried goblygiadau diogelwch data/preifatrwydd wrth dagio pobl mewn lluniau ar gyfryngau cymdeithasol yn ôl oed, grŵp economaidd-gymdeithasol a rhyw



IN32B. Pa mor aml ydych chi'n ystyried unrhyw oblygiadau diogelwch data neu breifatrwydd wrth dagio pobl eraill yn eich lluniau? (atebion wedi'u cynnig, un cod).
Sail: Pawb sydd â phroffil/cyfrif cyfryngau cymdeithasol sy'n dweud eu bod yn gwneud hyn (945 yn 16 oed a hŷn, yn amrywio yn ôl demograffeg).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (lefel 95%) yn ôl oed / grŵp economaidd-gymdeithasol wrth gymharu â phawb, a dynion wrth gymharu â menywod.

Mae mwy nag un o bob tri sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol ac yn postio sylwadau (92% o'r rhai sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol) yn dweud eu bod bob amser yn ystyried y goblygiadau diogelwch data neu breifatrwydd cyn gwneud hynny (36%), gydag ychydig yn llai yn dweud eu bod yn ystyried hynny weithiau (32%). Mae'r gyfran sy'n dweud mai anaml y maen nhw'n ystyried hynny (16%) yn debyg i'r gyfran sy'n dweud nad ydyn nhw byth yn ystyried hynny (15%).

Mae pobl rhwng 16 a 24 oed sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol hefyd yn llai tebygol na'r cyffredin o ddweud eu bod bob amser yn ystyried y goblygiadau diogelwch data neu breifatrwydd wrth bostio sylwadau (23%). Mae'r rhai rhwng 35 a 44 oed yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn ystyried hynny (91% o'i gymharu â 85%).

O'i gymharu â'r cyfartaledd, mae oedolion mewn aelwydydd AB sy'n postio sylwadau ar gyfryngau cymdeithasol yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn ystyried beth ydy goblygiadau hynny o ran diogelwch data neu breifatrwydd (90% o'i gymharu ag 85%). Mae menywod yn fwy tebygol na dynion o ddweud eu bod yn gwneud hynny bob amser (40% o'i gymharu â 32%).

Ffigur 55: Ystyried goblygiadau diogelwch data/preifatrwydd wrth bostio sylwadau ar gyfryngau cymdeithasol yn ôl oed, grŵp economaidd-gymdeithasol a rhyw



IN32C. Pa mor aml ydych chi'n ystyried unrhyw oblygiadau diogelwch data neu breifatrwydd wrth bostio sylwadau? (atebion wedi'u cynnig, un cod).
Sail: Pawb sydd â phroffil/cyfrif cyfryngau cymdeithasol sy'n dweud eu bod yn gwneud hyn (1040 yn 16 oed a hŷn, yn amrywio yn ôl demograffeg).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (lefel 95%) yn ôl oed / grŵp economaidd-gymdeithasol wrth gymharu â phawb, a dynion wrth gymharu â menywod.

Mae ychydig mwy nag un o bob tri sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol ac yn datgan eu bod yn rhywle (74% o'r rhai sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol) yn dweud eu bod bob amser yn ystyried y goblygiadau diogelwch data neu breifatrwydd cyn gwneud hynny (36%), gyda thraean yn dweud eu bod yn ystyried hynny weithiau (32%). Mae un o bob saith (14%) yn dweud mai anaml maen nhw'n ystyried y goblygiadau diogelwch, ac ychydig mwy (17%) yn dweud nad ydyn nhw byth yn ystyried y goblygiadau diogelwch.

Yn yr un modd â'r gweithgareddau eraill, mae defnyddwyr rhwng 16 a 24 oed yn llai tebygol na'r cyffredin o ddweud eu bod bob amser yn ystyried y goblygiadau diogelwch (26%). Mae defnyddwyr mewn aelwydydd AB yn fwy tebygol o ddweud eu bod rywbryd wedi ystyried y goblygiadau diogelwch wrth ddatgan eu lleoliad (89% o'i gymharu ag 82%). Yn wahanol i'r holl weithgareddau eraill ar gyfryngau cymdeithasol, does dim gwahaniaeth rhwng dynion a menywod ar gyfer y gweithgaredd hwn.

Ffigur 56: Ystyried goblygiadau diogelwch data/preifatrwydd wrth ddatgan lleoliad ar gyfryngau cymdeithasol yn ôl oed, grŵp economaidd-gymdeithasol a rhyw



IN32D. Pa mor aml ydych chi'n ystyried unrhyw oblygiadau diogelwch data neu breifatrwydd wrth ddatgan y lleoliadau rydych yn ymweld â nhw? (atebion wedi'u cynnig, un cod).
Sail: Pawb sydd â phroffil/cyfrif cyfryngau cymdeithasol sy'n dweud eu bod yn gwneud hyn (830 yn 16 oed a hŷn, yn amrywio yn ôl demograffeg).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (lefel 95%) yn ôl oed / grŵp economaidd-gymdeithasol wrth gymharu â phawb, a dynion wrth gymharu â menywod.

Gwiriadau a wneir cyn rhoi gwybodaeth bersonol ar-lein

Dydy tri defnyddiwr rhyngrwyd o bob deg ddim yn gwneud gwiriadau priodol/unrhyw wiriadau cyn rhoi eu gwybodaeth bersonol ar-lein

Mae defnyddwyr rhyngrwyd sy'n mynd ar-lein yn cael rhestr o wiriadau posibl y gallent eu gwneud cyn cyflwyno eu manylion personol ar-lein ac yn cael eu holi ynghylch pa rai, os o gwbl, maen nhw'n eu gwneud. Maen nhw hefyd yn cael dweud eu bod yn cofrestru eu manylion ar-lein bob tro y gofynnir iddyn nhw wneud hynny.[43]

Gellid ystyried pump o'r rhesymau hyn (mewn piws isod) yn wiriadau 'priodol', a'r rheini mewn gwyrdd yn atebion llai dibynadwy (neu lythrennog yn y cyfryngau), o'r opsiynau posibl a oedd ar gael i'r rheini a oedd yn ateb.

Gan edrych ar y gwiriadau 'priodol' hyn yn gyntaf, mae dros hanner (58%) yn dweud eu bod yn edrych i weld a ydy'r safle'n edrych yn ddiogel cyn cofrestru eu manylion ar-lein, a bron i hanner (47%) yn dweud eu bod yn gwneud yn siŵr eu bod yn gyfarwydd â'r cwmni neu'r brand. Mae o leiaf un o bob tri yn dweud eu bod yn edrych i weld a oes dolen ar y wefan at wasanaeth dibynadwy arall (fel PayPal) (38%), neu'n edrych i weld a oes sicrwydd na fydd

[43] Dywedodd dau y cant o ddefnyddwyr rhyngrwyd yn ddigymell nad ydyn nhw byth yn cofrestru â gwefannau/rhoi eu manylion personol ar-lein, ac maen nhw wedi cael eu heithrio o'r canlyniadau a ddangosir.

eu manylion yn cael eu rhannu â neb arall (34%). Mae un o bob pedwar (23%) yn dibynnu ar adolygiad gan gyfeillion i weld a ydy ffrindiau neu deulu yn argymell y safle.

Yn gyffredinol, mae saith defnyddiwr rhyngrwyd o bob deg yn gwneud o leiaf un o'r pum gwiriad hyn, a dydy hyn ddim yn amrywio yn ôl oed na grŵp economaidd-gymdeithasol o'i gymharu â'r cyfartaledd. Does dim gwahaniaeth rhwng dynion a menywod.

Mae un o bob deg yn dibynnu ar wneud yn siŵr bod y safle wedi'i restru ar beiriant chwilio (10%), a byddai cyfran debyg yn cofrestru os mai dyna fyddai'r unig ffordd o gael y cynnyrch neu'r gwasanaeth (11%). Mae llai nag un o bob deg yn dweud eu bod yn tueddu i roi eu manylion personol pryd bynnag y bydd angen (8%). Felly, mae un defnyddiwr rhyngrwyd o bob pedwar (24%) yn rhoi o leiaf un o'r atebion hyn. Dydy hyn ddim yn amrywio yn ôl oed na grŵp economaidd-gymdeithasol o'i gymharu â'r cyfartaledd, a does dim gwahaniaeth rhwng dynion a menywod.

Ffigur 95: Gwiriadau a wneir cyn cofrestru â gwefannau



IN41. Erbyn hyn, mae llawer o wefannau yn gofyn i chi gofrestru eich manylion personol gyda nhw. Pa rai, os o gwbl, o'r pethau hyn ydych chi'n eu gwneud cyn cofrestru manylion personol ar-lein? Rwy'n edrych i weld... (atebion wedi'u cynnig, sawl cod).
Sail: Oedolion 16 oed a hŷn sy'n mynd ar-lein ac yn dweud eu bod yn cofrestru manylion personol ar-lein (1516).

Gwiriadau a wneir cyn rhoi gwybodaeth ariannol

Dydy traean o ddefnyddwyr rhyngrwyd sydd wedi prynu pethau ar-lein ddim yn gwneud yn siŵr bod gan y safle'r symbol clo neu'r cyfeiriad 'https'

Gofynnir i ddefnyddwyr rhyngrwyd hefyd am y mathau o wiriadau maen nhw'n eu gwneud wrth brynu pethau ar-lein, cyn rhoi manylion eu cerdyn debyd neu gredyd. Maen nhw hefyd yn cael dweud nad ydyn nhw'n prynu ar-lein, ac mae'r 15% o ddefnyddwyr rhyngrwyd a roddodd yr ateb hwn wedi cael eu heithrio o'r dadansoddiad a welir yn Ffigur 96.

Mae dau ddefnyddiwr rhyngrwyd o bob tri sy'n dweud eu bod yn prynu pethau ar-lein (67%) yn dweud eu bod yn edrych i weld a ydy'r safle'n edrych yn ddiogel, ac mae dros hanner yn

gwneud yn siŵr eu bod yn gyfarwydd â'r cwmni neu'r brand (56%) neu'n edrych i weld a oes dolen at wasanaeth dibynadwy arall (53%). Mae un o bob tri yn edrych i weld a oes gwarant na fydd eu manylion yn cael eu rhannu â neb arall (33%), ac mae un o bob pedwar yn dibynnu ar argymhellion gan deulu neu ffrindiau (24%). Mae tri defnyddiwr rhyngrwyd o bob pedwar yn gwneud un o'r gwiriadau hyn (74%); mae hyn yn fwy tebygol ymysg y rheini sydd rhwng 35 a 44 oed (84%), ac yn llai tebygol ymysg y rheini sydd rhwng 25 a 34 oed (64%).

Mae un deg pump y cant o'r rheini sy'n prynu ar-lein yn dweud eu bod yn edrych i weld a ydy'r safle maen nhw'n prynu ganddo wedi'i restru ar beiriant chwilio, ac mae un o bob 10 (11%) yn dweud eu bod yn bwrw ymlaen â'r broses brynu beth bynnag os mai dyna ydy'r unig ffordd o gael yr eitem. Mae pump y cant yn dweud eu bod yn rhoi manylion eu cerdyn credyd neu ddebyd pryd bynnag y gofynnir iddyn nhw wneud hynny; mae hyn yn fwy tebygol ymysg pobl rhwng 25 a 34 oed (8% o'i gymharu â 5%). Mae un defnyddiwr rhyngrwyd o bob pedwar sy'n prynu ar-lein (24%) yn dweud eu bod yn gwneud o leiaf un o'r tri pheth hyn; mae hyn yn fwy tebygol ymysg pobl rhwng 25 a 34 oed (34%) ac yn llai tebygol ymysg pobl rhwng 35 a 44 oed (15%). Does dim gwahaniaeth yn hyn o beth yn ôl oed na grŵp economaidd-gymdeithasol o'i gymharu â'r cyfartaledd, a does dim gwahaniaeth rhwng dynion a menywod.

Ffigur 96: Gwiriadau a wneir wrth brynu ar-lein cyn rhoi manylion cerdyn debyd neu gredyd



IN40. Wrth brynu pethau ar-lein, pa un neu fwy - os o gwbl - o'r pethau hyn rydych chi'n eu gwneud cyn rhoi manylion eich cerdyn credyd neu ddebyd? Rwy'n edrych i weld... (atebion wedi'u cynnig, sawl cod).
Sail: Oedolion 16 oed a hŷn sy'n dweud eu bod yn prynu pethau ar-lein (1309 yn 2016).

Mesurau diogelwch ar waith

Mae traean o ddefnyddwyr rhyngrwyd yn dweud nad ydyn nhw'n defnyddio meddalwedd gwrthfeirysau na gwrthysbïwedd

Fel y dangosir yn Ffigur 97, rhoddir naw mesur diogelwch posibl i ddefnyddwyr rhyngrwyd a gofynnir iddyn nhw ddweud pa rai, os o gwbl, o'r rhain maen nhw neu rywun arall yn yr aelwyd yn eu dilyn gartref.

Mae dau fesur diogelwch yn cael eu defnyddio gartref gan y mwyafrif o ddefnyddwyr rhyngrwyd. Dywed dau ddefnyddiwr rhyngrwyd o bob tri (65%) eu bod yn defnyddio meddalwedd diogelwch fel pecynnau gwrthfeirysau neu wrthysbïwedd, a dywed 54% eu bod yn defnyddio cyfrineiriau cryf ar ddyfeisiau a ddefnyddir i fynd ar-lein.

Mae o leiaf bedwar o bob deg yn defnyddio cyfrineiriau cryf ar gyfer gwasanaethau ar-lein fel e-bost, cyfryngau cymdeithasol, PayPal ac ati (46%), yn defnyddio mur cadarn (43%) neu'n llwytho diweddariadau meddalwedd i lawr ar eu dyfeisiau wrth gael eu cymell i wneud hynny (39%). Dywed tua thraean eu bod yn gwneud copi wrth gefn o wybodaeth yn rheolaidd ar eu dyfeisiau (34%), yn dileu cwcis o'u porwyr gwe (33%) ac yn defnyddio meddalwedd neu hidlyddion e-bost sy'n gallu rhwystro sbam (32%). Mae tri o bob deg (29%) yn dweud eu bod yn defnyddio meddalwedd neu hidlyddion rhwystro hysbysebion.

Mae'r defnydd o'r rheini'n amrywio yn ôl grŵp demograffig o'i gymharu â'r cyfartaledd, ac mae hynny wedi'i grynhoi isod:

- O'i gymharu â'r cyfartaledd (65%), mae defnyddwyr rhyngrwyd sydd rhwng 25 a 34 oed yn llai tebygol o ddefnyddio meddalwedd diogelwch fel pecynnau gwrthfeirysau neu wrthysbïwedd (57%); mae'r rhain yn fwy tebygol o gael eu defnyddio gan bobl sydd rhwng 55 a 64 oed (74%).

- Mae oedolion sydd rhwng 65 a 74 oed yn llai tebygol o ddweud eu bod yn defnyddio cyfrineiriau cryf ar gyfer gwasanaethau ar-lein (29% o'i gymharu â 46%), yn gwneud copi wrth gefn o wybodaeth ar eu dyfeisiau'n rheolaidd (25% o'i gymharu â 34%) neu'n defnyddio meddalwedd neu hidlyddion rhwystro hysbysebion (18% o'i gymharu â 29%).

- Heblaw am ddefnyddio pecynnau gwrthfeirysau a gwrthysbïwedd a chyfrineiriau cryf ar ddyfeisiau y gellir eu defnyddio i fynd ar-lein, mae defnyddwyr rhyngrwyd sy'n 75 oed neu'n hŷn yn llai tebygol o ddefnyddio pob un o'r saith nodwedd ddiogelwch arall.

- Mae oedolion mewn aelwydydd AB yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn defnyddio pob un o'r naw nodwedd ddiogelwch, ac mae defnyddwyr rhyngrwyd mewn aelwydydd C2 neu DE yn llai tebygol o lwytho diweddariadau meddalwedd i lawr wrth gael eu cymell i wneud hynny (32% ar gyfer aelwydydd C2 a DE o'i gymharu â 39% yn gyffredinol), o wneud copi wrth gefn o wybodaeth ar eu dyfeisiau yn rheolaidd (25% ar gyfer aelwydydd C2 a 21% ar gyfer aelwydydd DE o'i gymharu â 34%) ac o ddefnyddio meddalwedd neu hidlyddion e-bost (23% ar gyfer aelwydydd C2 a 22% ar gyfer aelwydydd DE o'i gymharu â 32% yn gyffredinol).

- Hefyd, o'i gymharu â'r cyfartaledd, mae defnyddwyr mewn aelwydydd CE hefyd yn llai tebygol o ddweud eu bod yn defnyddio cyfrineiriau cryf ar ddyfeisiau sy'n cael eu defnyddio i fynd ar-lein (45% o'i gymharu â 54%) ac ar gyfer gwasanaethau ar-lein fel e-bost neu gyfryngau cymdeithasol (37% o'i gymharu â 46%), neu ddweud eu bod yn defnyddio meddalwedd neu hidlyddion rhwystro hysbysebion (19% o'i gymharu â 29%). Mae defnyddwyr mewn aelwydydd DE yn llai tebygol o ddweud eu bod yn defnyddio meddalwedd diogelwch fel pecynnau gwrthfeirysau neu wrthysbïwedd (52% o'i gymharu â 65%) ac yn defnyddio mur cadarn (32% o'i gymharu â 43%).

- Mae dynion hefyd yn fwy tebygol na menywod o ddweud eu bod yn defnyddio'r nodweddion canlynol: mur cadarn (48% o'i gymharu â 38%), llwytho diweddariadau meddalwedd i lawr ar ddyfeisiau wrth gael eu cymell i wneud hynny (44% o'i gymharu â 35%) a defnyddio meddalwedd neu hidlyddion rhwystro hysbysebion (33% o'i gymharu â 25%).

Ffigur 97: Mesurau diogelwch sydd ar waith ymysg defnyddwyr rhyngrwyd



IN6. Pa rai, os o gwbl, o'r pethau hyn ydych chi neu rywun yn eich aelwyd yn eu gwneud gartref? (atebion wedi'u cynnig, sawl cod).
Sail: Oedolion 16 oed a hŷn sy'n mynd ar-lein (1553 yn 2016).

Agweddau at warchod gwybodaeth bersonol ar-lein

Mae mwy nag un defnyddiwr rhyngrwyd o bob pedwar yn dweud eu bod yn rhoi manylion anghywir neu ffug ar-lein er mwyn gwarchod eu manylion personol

Mae mwy nag un defnyddiwr rhyngrwyd o bob pedwar (27%) yn cytuno (naill ai'n gryf neu'n eithaf cryf) eu bod yn rhoi manylion anghywir neu ffug ar rai gwefannau er mwyn gwarchod eu manylion personol ar-lein, fel y gwelir yn Ffigur 98. Mae hyn yn fwy tebygol ymysg pobl sydd rhwng 16 a 24 oed (35%) ac yn llai tebygol ymysg defnyddwyr rhyngrwyd sydd rhwng 55 a 64 oed (18%), 65 a 74 oed (17%) a phobl sydd dros 75 oed (8%).

Mae chwech defnyddiwr rhyngrwyd o bob deg (60%) yn anghytuno'n gyffredinol, gyda bron i hanner (47%) yn anghytuno'n gryf.

Ffigur 98: Cytuno â'r datganiad: "Rwy'n rhoi manylion anghywir neu ffug ar rai gwefannau er mwyn gwarchod fy manylion personol ar-lein" yn ôl oed, grŵp economaidd-gymdeithasol a rhyw



IN42A. Darllenwch y chwe datganiad ar y cerdyn hwn a dweud pa rif ar y raddfa hon, o 1 i 5, sy'n disgrifio orau i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â phob datganiad - Rwy'n rhoi manylion anghywir neu ffug ar rai gwefannau er mwyn gwarchod fy manylion personol ar-lein. (atebion wedi'u cynnig, un cod)
Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn sy'n mynd ar-lein (1553 yn 16 oed a hŷn, yn amrywio yn ôl demograffeg).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (lefel 95%) rhwng 2015 a 2016 ar y lefel gyffredinol ac yn ôl grŵp oed/economaidd-gymdeithasol wrth gymharu â phob defnyddiwr rhyngrwyd a dynion wrth gymharu â menywod.

Mae un defnyddiwr rhyngrwyd o bob tri yn dweud eu bod yn fodlon rhoi eu gwybodaeth bersonol ar-lein er mwyn cael yr hyn maen nhw ei eisiau

Mae tri deg pump y cant o ddefnyddwyr rhyngrwyd yn cytuno (yn cytuno'n gryf neu'n eithaf cryf) eu bod yn fodlon rhoi gwybodaeth bersonol ar-lein er mwyn cael yr hyn maen nhw ei eisiau, ac mae cyfran uwch (46%) yn anghytuno'n gyffredinol.

O'i gymharu â'r cyfartaledd (46%), mae pobl rhwng 65 a 74 oed (56%) ac sy'n 75 oed a hŷn (59%) yn fwy tebygol o anghytuno.

O'u cymharu â dynion, mae menywod yn fwy tebygol o anghytuno'n gryf (35% o'i gymharu â 25%).

Ffigur 99: Cytuno â'r datganiad: "Rwy'n fodlon rhoi gwybodaeth bersonol ar-lein er mwyn cael yr hyn rydw i eisiau ei gael", yn ôl oed, grŵp economaidd-gymdeithasol a rhyw



IN42B. Darllenwch y chwe datganiad ar y cerdyn hwn a dweud pa rif ar y raddfa hon, o 1 i 5, sy'n disgrifio orau i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â phob datganiad - Rwy'n fodlon rhoi gwybodaeth bersonol ar-lein er mwyn cael yr hyn rydw i eisiau ei gael. (atebion wedi'u cynnig, un cod)
Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn sy'n mynd ar-lein (1553 yn 16 oed a hŷn, yn amrywio yn ôl demograffeg).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (lefel 95%) yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol/oed wrth gymharu â phob defnyddiwr rhyngrwyd, a dynion wrth gymharu â menywod.

Profiad o ddigwyddiadau negyddol ar-lein

Mae tua un defnyddiwr rhyngrwyd o bob pedwar wedi cael o leiaf un profiad o ddigwyddiad 'negyddol' ar-lein yn ystod y 12 mis diwethaf

Cynigir saith math o ddigwyddiad i ddefnyddwyr rhyngrwyd, a gofyn iddyn nhw ddweud pa un, os o gwbl, maen nhw wedi cael profiad ohono yn ystod y 12 mis diwethaf - fel y gwelir yn Ffigur 100.

Mae tua un o bob pedwar (27%) yn dweud eu bod wedi cael profiad o unrhyw un o'r saith digwyddiad hyn, gyda 15% yn dweud eu bod wedi cael feirws cyfrifiadur ar ddyfais maen nhw'n ei defnyddio i fynd ar-lein. Mae llai nag un defnyddiwr rhyngrwyd o bob deg yn dweud eu bod wedi cael profiad o bob un o'r chwe digwyddiad arall.

Mae defnyddwyr rhyngrwyd sydd rhwng 16 a 24 oed yn fwy tebygol o ddweud bod rhywun wedi hacio eu cyfrif ar gyfryngau cymdeithasol (7% o'i gymharu â 4%) neu eu bod wedi cael eu trolio ar-lein (5% o'i gymharu ag 1%), ac mae'r rheini sydd rhwng 35 a 44 oed yn fwy tebygol o ddweud bod rhywun wedi dwyn a defnyddio eu manylion ariannol neu bersonol heb ganiatâd (8% o'i gymharu â 4%). Mae defnyddwyr rhyngrwyd sydd rhwng 65 a 74 oed yn llai tebygol o ddweud bod rhywun wedi hacio eu cyfrif ar gyfryngau cymdeithasol (0% o'i gymharu â 4%), ac mae'r rheini sy'n 75 oed neu'n hŷn yn llai tebygol o ddweud eu bod wedi colli arian ar-lein (1% o'i gymharu â 4%) neu fod rhywun wedi dwyn a defnyddio eu manylion ariannol neu bersonol heb ganiatâd (1% o'i gymharu â 4%).

Does dim gwahaniaethau yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol aelwydydd o'i gymharu â'r cyfartaledd. Mae dynion yn fwy tebygol na menywod o ddweud eu bod wedi cael feirws ar ddyfais maen nhw'n ei defnyddio i fynd ar-lein yn ystod y 12 mis diwethaf (19% o'i gymharu

â 12%), a'u bod wedi colli ffeiliau neu ddata ar eu dyfais yn sgil feirws neu sgam (4% o'i gymharu â 2%). Mae menywod yn fwy tebygol na dynion o ddweud bod eu cyfrif e-bost wedi cael ei hacio (10% o'i gymharu â 5%).

Ffigur 100: Profiad o ddigwyddiadau 'negyddol' ar-lein yn ystod y 12 mis diwethaf



IN7. Ydych chi'n bersonol wedi cael profiad o unrhyw un o'r materion canlynol yn ystod y 12 mis diwethaf? (atebion wedi'u cynnig, sawl cod).
Sail: Oedolion 16 oed a hŷn sy'n mynd ar-lein (1553 yn 2016).

8.6 Hysbysebion ar-lein

Hyder wrth adnabod hysbysebion wrth weld neu ddarllen pethau ar-lein

Mae pedwar defnyddiwr rhyngrwyd o bob pump yn dal yn hyderus eu bod yn gallu adnabod hysbysebion ar-lein

Mae mwyafrif (84%) o ddefnyddwyr rhyngrwyd naill ai'n hyderus iawn neu'n weddol hyderus eu bod yn gallu adnabod hysbysebion ar-lein. Fodd bynnag, mae llai na hanner (45%) yn 'hyderus iawn'. Mae llai nag un o bob deg (7%) yn dweud nad ydyn nhw'n hyderus (naill ai ddim yn hyderus iawn, neu ddim yn hyderus o gwbl). Does dim un o'r mesurau hyn wedi newid ers 2015.

O'i gymharu â'r cyfartaledd (45%), mae'r rheini sydd rhwng 16 a 24 oed (57%) a rhwng 25 a 34 oed (54%), a'r rheini mewn aelwydydd AB (52%), yn fwy tebygol o fod yn 'hyderus iawn' eu bod yn adnabod hysbysebion ar-lein.

Mae defnyddwyr rhyngrwyd sydd rhwng 55 a 64 oed (12%), 65 a 74 oed (15%) ac sy'n 75 oed neu'n hŷn (18%) yn fwy tebygol o ddweud eu bod 'ddim yn hyderus'. Mae dynion yn fwy tebygol na menywod o ddweud eu bod yn 'hyderus iawn' (51% o'i gymharu â 40%).

Ffigur 101: Hyder wrth adnabod hysbysebion ar-lein: 2014-2016



IN11D. Rwy'n mynd i ddarllen rhai cwestiynau am hyder wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd, ar gyfer pob un a fyddech chi gystal â dweud pa rai o'r opsiynau ar y cerdyn sy'n berthnasol i chi. - Pan fyddwch chi'n gweld neu'n darllen pethau ar-lein, pa mor hyderus ydych chi eich bod yn adnabod hysbysebion? (atebion wedi'u cynnig, un cod). Sail: Oedolion 16 oed a hŷn sy'n mynd ar-lein (1553 yn 2016).

Hysbysebion personol

Mae dros hanner y defnyddwyr rhyngrwyd yn gwybod am hysbysebion personol

Dangosir dau opsiwn i ddefnyddwyr rhyngrwyd a gofynnir iddyn nhw pa un sy'n berthnasol i unrhyw hysbysebion y gallent eu gweld ar wefan neu ap maen nhw'n ei ddefnyddio[44] .

Mae Ffigur 102 yn dangos bod dros hanner y defnyddwyr rhyngrwyd (56%) yn gwybod am hysbysebion personol, o ran eu bod yn gwybod y gallai rhai pobl weld hysbysebion gwahanol i'r rhai maen nhw'n eu gweld. Dywed mwy nag un defnyddiwr rhyngrwyd o bob pedwar (27%) y byddai pawb yn gweld yr un hysbysebion, gyda 17% yn ansicr.
O'i gymharu â'r cyfartaledd, mae ymwybyddiaeth o hysbysebion personol yn uwch ymysg pobl rhwng 25 a 34 oed (64%) a'r rheini mewn aelwydydd AB (64%). Mae ymwybyddiaeth yn is ymysg defnyddwyr rhyngrwyd sydd rhwng 65 a 74 oed (40%) a phobl sy'n 75 oed neu'n hŷn (28%), yn ogystal â'r rheini mewn aelwydydd C2 (49%) neu DE (48%).

Ffigur 102: Gwybod am hysbysebion ar-lein personol yn ôl oed, grŵp economaidd-gymdeithasol a rhyw

[44] Roedd y cwestiwn penodol yn datgan: *Os oes rhywun yn yr un wlad â chi yn ymweld â'r un wefan neu ap ar yr un pryd â chi, pa un o'r pethau hyn sy'n berthnasol i unrhyw hysbysebion a ddangosir?* Diben y cwestiwn hwn ydy mesur i ba raddau mae defnyddwyr rhyngrwyd yn ymwybodol o hysbysebion personol.



IN52. Os oes rhywun yn yr un wlad â chi yn ymweld â'r un wefan neu ap ar yr un pryd â chi, pa un o'r pethau hyn sy'n berthnasol i unrhyw hysbysebion a ddangosir? (ateb wedi'i gynnig, un cod).
Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn sy'n mynd ar-lein (1553 yn 16 oed a hŷn, yn amrywio yn ôl demograffeg).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (lefel 95%) yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol/oed wrth gymharu â phob defnyddiwr rhyngrwyd, a dynion wrth gymharu â menywod.

Mae saith oedolyn o bob deg sy'n defnyddio safleoedd rhannu fideos yn gwybod ei bod yn bosibl bod flogwyr yn cymeradwyo cynnyrch

Mae oedolion sy'n mynd ar-lein ac yn defnyddio safleoedd rhannu fideos (fel YouTube neu Vimeo) yn cael eu holi am flogwyr yn cymeradwyo neu'n hyrwyddo brandiau ar safleoedd fel YouTube. Maen nhw'n cael cynnig tri ateb, ac yn dweud pa un o'r rhain allai egluro pam byddai flogwyr yn dweud pethau ffafriol am gynnyrch neu frand penodol[45].

Mae bron i dri o bob pedwar sy'n defnyddio safleoedd rhannu fideos (72%) yn gwybod y gallai'r flogwyr fod yn cael eu talu gan y cwmni i ddweud pethau ffafriol. Dydy hyn ddim yn amrywio yn ôl oed na grŵp economaidd-gymdeithasol, o'i gymharu â'r cyfartaledd. Does dim gwahaniaeth rhwng dynion a menywod chwaith.

Mae mwy nag un o bob deg yn ansicr (12%); mae'r ateb hwn yn fwy tebygol mewn aelwydydd DE (18%) ac yn llai tebygol ymysg pobl rhwng 16 a 24 oed (5%).

Felly dydy 28% (a 12% o'r rheini'n ansicr) ddim yn dweud bod posibilrwydd y gallai flogwyr fod yn cymeradwyo cwmni neu frand.

[45] Roedd y cwestiwn penodol yn datgan: 'Ar safleoedd fel YouTube efallai fod rhai flogwyr sydd â llawer o ddilynwyr fel Zoella, Thatcher Joe neu PewDiePie yn dweud pethau da am gwmni, cynnyrch neu frand penodol – fel dillad Nike, gêm newydd neu ddillad TopShop. Pa un o'r rhain, os unrhyw un, sy'n rhesymau pam gallent fod yn dweud pethau da am y cynnyrch neu'r brandiau hyn?

Ffigur 57: Dealltwriaeth ymysg y rheini sy'n defnyddio safleoedd rhannu fideos fod posibilrwydd y gallai flogwyr fod yn cymeradwyo cynnyrch



IN55. Ar safleoedd fel YouTube efallai fod rhai flogwyr sydd â llawer o ddilynwyr fel Zoella, Thatcher Joe neu PewDiePie yn dweud pethau da am gwmni, cynnyrch neu frand penodol – fel dillad Nike, gêm newydd neu ddillad TopShop. Pa un o'r rhain, os unrhyw un, sy'n rhesymau pam gallent fod yn dweud pethau da am y cynnyrch neu'r brandiau hyn? (ateb wedi'i gynnig, sawl cod).
Sail: Oedolion sy'n gwylio fideos ar safleoedd fel YouTube neu Vimeo (1114 yn 2016).

Agweddau at hysbysebion ar-lein

Dywed un rhan o dair o ddefnyddwyr rhyngrwyd nad ydynt yn hoffi unrhyw fath o hysbysebion ar-lein

Cynigir tri datganiad i ddefnyddwyr rhyngrwyd am hysbysebion ar-lein, a gofynnir iddyn nhw ddweud pa un sydd fwyaf perthnasol. Mae'r canlyniadau i'w gweld yn Ffigur 58.

Ar draws defnyddwyr rhyngrwyd, mae nifer yr atebion yn gyfartal ar gyfer y tri datganiad. Mae traean o ddefnyddwyr rhyngrwyd (32%) yn dweud nad oes ots ganddyn nhw weld unrhyw hysbysebion ar-lein, does dim ots gan draean ohonyn nhw eu gweld ar yr amod eu bod yn berthnasol (32%), ac mae traean yn dweud eu bod yn casáu'r holl hysbysebion ar-lein (34%).

Mae defnyddwyr rhwng 16 a 24 oed yn fwy tebygol o ddweud nad oes ots ganddyn nhw weld hysbysebion ar-lein (44%), ac mae'r rheini sy'n 65 oed a hŷn yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn casáu'r holl hysbysebion ar-lein (46% ar gyfer pobl rhwng 65 a 74 oed, a 44% ar gyfer pobl 75 oed neu hŷn). Mae menywod yn fwy tebygol na dynion o ddweud eu bod yn casáu'r holl hysbysebion ar-lein (37% o'i gymharu â 30%).

Ffigur 58: Agweddau at hysbysebion ar-lein yn ôl oed, grŵp economaidd-gymdeithasol a rhyw



IN53. Pa un o'r datganiadau canlynol, os o gwbl, sy'n disgrifio orau eich teimladau am hysbysebion ar-lein (ateb wedi'i gynnig, un cod).
Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn sy'n mynd ar-lein (1553 yn 16 oed a hŷn, yn amrywio yn ôl demograffeg).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (lefel 95%) yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol/oed wrth gymharu â phob defnyddiwr rhyngrwyd, a dynion wrth gymharu â menywod.

Camau a gymerwyd i osgoi hysbysebion ar-lein

Mae bron i hanner y defnyddwyr rhyngrwyd yn dweud eu bod wedi cymryd rhyw fath o gamau i osgoi gweld unrhyw hysbysebion ar-lein

Gofynnir i ddefnyddwyr rhyngrwyd hefyd a oeddent wedi cymryd unrhyw gamau i osgoi gweld hysbysebion ar-lein. Maent yn cael cynnig pedwar opsiwn, a gofynnir iddynt ddweud pa rai maent wedi'u gwneud, ac maent yn cael yr opsiwn i ddweud nad ydynt wedi gwneud unrhyw beth i osgoi gweld hysbysebion ar-lein.

Fel y dangosir yn Ffigur 59, mae un rhan o dair (33%) yn dweud eu bod yn dewis peidio â chael gohebiaeth marchnata, tra mae mwy na chwarter (27%) yn dweud eu bod yn defnyddio hidlyddion neu feddalwedd sy'n rhwystro hysbysebion. Dywed un o bob deg (9%) eu bod yn rhoi gwybodaeth ffug yn fwriadol pan fydd angen er mwyn osgoi sbam, a dim ond yn ymweld â safleoedd sydd ddim yn cynnwys hysbysebion (8%).

Mae bron i hanner (48%) yn dweud eu bod wedi cymryd unrhyw un o'r camau hyn er mwyn osgoi gweld hysbysebion ar-lein; mae hyn yn is ymysg defnyddwyr rhyngrwyd 75 oed a hŷn (28%) a'r rheini mewn aelwydydd DE (40%). Mae defnyddwyr rhyngrwyd mewn aelwydydd AB yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o ddweud eu bod wedi gwneud unrhyw un o'r pethau hyn (57%).

Er nad ydy hyn yn cael ei ddangos yn Ffigur 59, mae'r ganran gyffredinol sy'n cymryd camau i osgoi hysbysebion ar-lein yn cynyddu i 59% i'r rheini sy'n dweud nad ydynt yn hoffi gweld unrhyw hysbysebion ar-lein. Y rheswm am hyn yw eu bod yn fwy tebygol o ddewis peidio

cael deunyddiau marchnata (40% o'i gymharu â 33% yn gyffredinol) ac o ddefnyddio hidlyddion sy'n rhwystro hysbysebion (35% o'i gymharu â 27%).

Ffigur 59: Camau a gymerid gan ddefnyddwyr rhyngrwyd i osgoi hysbysebion ar-lein



IN54. Pa rai o'r camau canlynol, os o gwbl, ydych chi wedi'u cymryd i osgoi gweld hysbysebion ar-lein? (atebion wedi'u cynnig, sawl cod).
Sail: Oedolion 16 oed a hŷn sy'n mynd ar-lein (1553 yn 2016).

Adnabod cynnwys noddedig yng nghanlyniadau peiriant chwilio

Gall bron i dri defnyddiwr peiriant chwilio o bob pump adnabod dolenni noddedig yng nghanlyniadau peiriant chwilio

Dangosir llun i'r oedolion sy'n dangos gwefannau peiriannau chwilio o'r canlyniadau a gyflynir gan Google drwy chwilio ar-lein am 'esgidiau cerdded'. Tynnir eu sylw at y pedwar canlyniad cyntaf ar frig y rhestr, sy'n cael eu gwahaniaethu gan flwch gwyrdd gyda'r gair 'Ad' ynddo. Rhoddir tri opsiwn iddynt a gofynnir a oes unrhyw rai o'r rhain yn berthnasol i'r pedwar canlyniad cyntaf hyn. Dyma'r opsiynau hyn[46]:

- Mae'r rhain yn hysbysebion/ dolenni noddedig/ wedi talu i ymddangos yma
- Dyma'r canlyniadau gorau/ y canlyniadau mwyaf perthnasol
- Dyma'r canlyniadau mwyaf poblogaidd sy'n cael eu defnyddio gan bobl eraill

Mae'r canlyniadau i'w gweld yn Ffigur 106. Mae bron i dri oedolyn o bob pump sy'n defnyddio peiriannau chwilio (57%) yn dweud bod y pedwar canlyniad cyntaf yn ddolenni noddedig/hysbysebion/talu i ymddangos yno. Mae un o bob pump yn dweud mai dyma'r canlyniadau mwyaf poblogaidd a ddefnyddir gan bobl eraill (23%), ac mae'r canlyniadau yw'r rhai gorau neu'r rhai mwyaf perthnasol (21%). Mae oddeutu un o bob wyth (12%) yn dweud nad ydynt yn siŵr.

[46] Cânt hefyd roi rheswm arall, neu ddweud eu bod yn ansicr.

Wrth gymharu â'r cyfartaledd, mae'r rheini sy'n 75 oed neu hŷn yn fwy tebygol o ddweud nad ydynt yn siŵr (27%) ac maent yn llai tebygol o ddweud mai hysbysebion yw'r pedwar canlyniad cyntaf (46%).

Mae oedolion mewn aelwydydd AB (66%) yn fwy tebygol nag oedolion yn gyffredinol i wybod pan mai hysbysebion ydynt, tra mae'r rheini mewn aelwydydd C2 neu DE yn llai tebygol (y ddau yn 49%).

Mae defnyddwyr peiriannau chwilio'n cael dewis mwy nag un ateb i'r cwestiwn hwn, felly mae hi hefyd yn werth edrych ar bwy roddodd yr ateb cywir yn unig heb ddewis yr opsiynau eraill. Mae oddeutu hanner (48%) ddim ond yn rhoi'r ateb cywir; hynny yw, maen nhw'n datgan bod y canlyniadau dan sylw yn hysbysebion. Does dim gwahaniaethau yn ôl oed o'i gymharu â'r cyfartaledd.

Mae defnyddwyr peiriannau chwilio mewn aelwydydd AB (56%) yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o ddweud hyn, ac mae'r rheini mewn aelwydydd C2 yn llai tebygol (41%). Mae dynion yn fwy tebygol na menywod o *ddim ond* dweud bod y canlyniadau'n hysbysebion (51% o'i gymharu â 45%).

Ffigur 106: Deall canlyniadau y telir amdanynt sy'n cael eu cyflwyno drwy chwiliadau Google, ymysg oedolion sy'n defnyddio apiau neu wefannau peiriannau chwilio: 2015-2016



IN51. Dyma ddelwedd (CERDYN O'R DDELWEDD) drwy chwilio ar Google am 'esgidiau cerdded''. Oes unrhyw rai o'r rhain yn berthnasol i'r pedwar canlyniad cyntaf sy'n cael eu rhestru? (atebion wedi'u cynnig, sawl cod). Sail: Oedolion 16 oed a hŷn sy'n mynd ar-lein ac yn defnyddio apiau neu wefannau peiriannau chwilio (1516).

8.7 Gwerthuso cynnwys

<u>Deall sut mae peiriannau chwilio'n gweithio</u>

Mae chwech defnyddiwr o bob deg yn deall sut mae peiriannau chwilio'n gweithio

Gofynnir i'r rhai sy'n defnyddio peiriannau chwilio (98% o ddefnyddwyr rhyngrwyd yn gyffredinol) i ddweud pa rai o'r datganiadau canlynol sydd agosaf at eu barn eu hunain:

- *“Rwy’n credu os ydyn nhw wedi cael eu rhestru gan y peiriant chwilio, bydd y gwefannau hyn yn cynnwys gwybodaeth gywir a diduedd.”*
- *“Rwy’n meddwl y bydd rhai o’r gwefannau’n gywir neu’n ddiduedd a fydd rhai ddim.”*
- *“Fydda i ddim wir yn meddwl a ydyn nhw’n cynnwys gwybodaeth gywir neu ddiduedd, byddaf i ond yn defnyddio’r safleoedd rwy’n hoffi eu golwg nhw.”*

Mae oddeutu chwech o bob deg (58%) yn teimlo bod rhai o’r gwefannau sy'n codi yn gywir neu’n ddiduedd ond eraill ddim; mewn geiriau eraill, ymateb sy’n dangos lefel o ddealltwriaeth gritigol neu ymwybyddiaeth ynglŷn â tharddiad cynnwys. Nid yw'r mesur hwn wedi'i newid o'i gymharu â 2015 (62%), fel y dangosir yn Ffigur 107.

Dywed un oedolyn o bob pump (21%) os caiff canlyniadau eu rhestru gan beiriant chwilio, y bydd y gwefannau’n gywir/diduedd. Dydy’r ymateb hwn ddim wedi'i newid o'i gymharu â 2015 (18%) ac nid yw’n amrywio yn ôl oed na grŵp economaidd-gymdeithasol yr aelwyd wrth gymharu â’r cyfartaledd. Nid oes gwahaniaethau rhwng dynion a menywod.

O’i gymharu â 2015, gwelwyd cynnydd o 12% i 16% o ran nifer y defnyddwyr peiriannau chwilio sy’n dweud nad ydyn nhw’n meddwl rhyw lawer ynghylch a ydy’r wybodaeth ar wefannau yn gywir ac yn ddiduedd - maen nhw’n eu defnyddio am eu bod yn edrych yn dda.

Nid oes un grŵp oed penodol yn sefyll allan, ond mae aelwydydd DE yn llai tebygol o ‘ddeall’ canlyniadau peiriannau chwilio (49% o'i gymharu â 58% yn gyffredinol).

Ffigur 107: Deall sut mae peiriannau chwilio'n gweithio: 2010-2016



IN50. Pan fyddwch chi’n defnyddio peiriant chwilio i ddod o hyd i wybodaeth, byddwch yn rhoi ymholiad yn y blwch chwilio a bydd y peiriant chwilio wedyn yn dangos rhai dolenni i wefannau ar y tudalennau canlyniadau. Pa un o’r rhain sydd agosaf at eich barn chi ynghylch lefel cywirdeb neu ogwydd yr wybodaeth a geir yn y gwefannau sy’n ymddangos ar y tudalennau canlyniadau? (atebion wedi’u cynnig, un cod).
Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn sy’n defnyddio ffôn clyfar (1516 yn 2016).
Mae'r saethau’n dangos newidiadau arwyddocaol (lefel 95%) rhwng 2015 a 2016

Mae oedolion sy'n deall y bydd rhai o'r gwefannau a godir gan beiriannau chwilio yn gywir ac yn ddiduedd, tra bydd eraill ddim, yn fwy tebygol o sylweddoli bod y pedwar canlyniad cyntaf

sy'n codi ar ôl chwilio am ‘esgidiau cerdded’ (fel y trafodir yn Ffigur 106 uchod) yn ddolenni noddedig (67% o’i gymharu â 57% yn gyffredinol), ac yn fwy tebygol o roi’r ymateb cywir hwn yn unig (55% o’i gymharu â 48%).

Ffydd mewn cynnwys ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol

O'i gymharu â 2015, mae defnyddwyr cyfryngau cymdeithasol yn ymddiried llai yn y cynnwys maen nhw'n ei weld ar apiau neu safleoedd cyfryngau cymdeithasol[47]

Gofynnir i oedolion sydd â phroffil/cyfrif cyfryngau cymdeithasol i ba raddau maent yn cytuno â'r datganiad: "Pan fyddaf yn edrych ar wefannau neu apiau cyfryngau cymdeithasol rwyf yn tueddu i ymddiried yn yr hyn rwyf yn ei ddarllen neu yn ei weld".

Yn yr un modd ag yn 2015, mae oedolion yn fwy tebygol o anghytuno'n gyffredinol (50%) nag ydynt i gytuno (23%). Wrth gymharu â 2015, serch hynny, maent yn fwy tebygol o anghytuno'n gryf (25% o'i gymharu â 18%).

Wrth gymharu â'r cyfartaledd, nid oes llawer o amrywiadau mewn barn yn ôl oed neu grŵp economaidd-gymdeithasol yn 2016. Mae menywod yn fwy tebygol na dynion o anghytuno'n gryf (28% o'i gymharu â 22%).

Ffigur 60: Cytuno â'r datganiad: "Pan fyddaf yn edrych ar wefannau neu apiau cyfryngau cymdeithasol rwyf yn tueddu i ymddiried yn yr hyn rwyf yn ei ddarllen neu yn ei weld", yn ôl oed, rhyw a grŵp economaidd-gymdeithasol



IN28. Dywedwch wrthyf i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol – Pan fyddaf yn edrych ar wefannau neu apiau cyfryngau cymdeithasol rwyf yn tueddu i ymddiried yn yr hyn rwyf yn ei ddarllen neu yn ei weld (atebion wedi'u cynnig, un cod).
Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn gyda phroffil/cyfrif cyfryngau cymdeithasol (1136 yn 16 oed neu'n hŷn, yn amrywio yn ôl demograffeg).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (lefel 95%) rhwng 2015 a 2016 ar y lefel gyffredinol, ac yn ôl grŵp oed/economaidd-gymdeithasol wrth gymharu â phawb sydd â phroffil/cyfrif, a dynion wrth eu cymharu â menywod.

[47] Mae'n werth nodi mai cyfnod y gwaith maes ar gyfer yr ymchwil oedd 1 Tachwedd hyd at 9 Rhagfyr 2016, sef cyfnod etholiadau'r Unol Daleithiau.

Dilysu gwybodaeth ffeithiol ar-lein

Mae dau ddefnyddiwr rhyngrwyd o bob tri yn dweud eu bod yn gwirio cywirdeb yr wybodaeth ffeithiol maen nhw'n ei gweld ar-lein

Gofynnir i ddefnyddwyr rhyngrwyd wirio cywirdeb yr wybodaeth ffeithiol maen nhw'n ei gweld ar-lein[48]. Mae Ffigur 61 yn dangos bod dau defnyddiwr rhyngrwyd o bob tri (67%) yn dweud eu bod yn gwneud unrhyw un o'r chwe gwiriad a gynigir.

Mae mwy na phedwar o bob deg (45%) yn dweud eu bod yn mynd i wefannau gwahanol i weld a ydy'r un wybodaeth yn ymddangos ar bob un ohonyn nhw, ac mae un o bob tri (32%) yn gwirio a ydy cyfeiriad y wefan yn ddilys.

Mae un o bob pedwar (25%) yn gwirio hygrededd yr wybodaeth (fel enw'r awdur neu ddolen at y cyhoeddiad gwreiddiol), ac mae un o bob pump yn asesu a ydy'r safle'n edrych yn broffesiynol (21%) neu a ydy pobl maen nhw'n ymddiried ynddyn nhw yn defnyddio'r safle neu'r safleoedd (21%). Mae un o bob chwech yn edrych i weld a ydy'r safle'n cael ei ddiweddaru'n rheolaidd (16%).

Mae defnyddwyr rhyngrwyd sydd rhwng 16 a 24 oed yn fwy tebygol na'r cyffredin o ddweud eu bod yn gwneud unrhyw un o'r gwiriadau hyn (75% o'i gymharu â 67%), ond ni ellir priodoli hyn i'r ffaith eu bod yn fwy tebygol o wneud unrhyw wiriad unigol. Mae defnyddwyr rhwng 25 a 34 oed yn fwy tebygol o wirio bod cyfeiriad y wefan yn edrych yn ddilys (40% o'i gymharu â 32%), ac mae pobl rhwng 55 a 64 oed yn fwy tebygol o wirio hygrededd yr wybodaeth (32% o'i gymharu â 25%).

Mae'r rheini sydd rhwng 65 a 74 oed yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gwneud unrhyw wiriadau (53% o'i gymharu â 67%), a gellir priodoli hynny i bedwar gwiriad penodol: edrych i weld a ydy'r un wybodaeth yn ymddangos ar wefannau gwahanol (31% o'i gymharu â 45%), gwirio bod y wefan yn edrych yn ddilys (17% o'i gymharu â 32%), gwirio hygrededd yr wybodaeth (15% o'i gymharu â 25%) a gwirio a ydy'r safle'n edrych yn broffesiynol (14% o'i gymharu â 21%).

Mae'r rheini sy'n 75 oed a hŷn yn llai tebygol o wneud unrhyw wiriadau (44% o'i gymharu â 67%), ac yn llai tebygol o wneud pob un o'r chwe gwiriad unigol.

Mae defnyddwyr rhyngrwyd mewn aelwydydd AB (78%) yn fwy tebygol na'r cyffredin (67%) o wneud unrhyw wiriadau, ac mae'r rheini mewn aelwydydd DE (57%) yn llai tebygol o wneud hynny. Mae'r gwahaniaethau hyn i'w gweld gyda phedwar gwiriad penodol hefyd: edrych ar ydy'r un wybodaeth yn ymddangos ar wefannau gwahanol (56% ar gyfer aelwydydd AB o'i gymharu â 34% ar gyfer aelwydydd DE), gwirio bod cyfeiriad y wefan yn edrych yn ddilys (39% ar gyfer aelwydydd AB o'i gymharu â 25% ar gyfer aelwydydd DE), gwirio hygrededd yr wybodaeth (33% ar gyfer aelwydydd AB o'i gymharu ag 16% ar gyfer aelwydydd DE) a gwirio a ydy'r wefan yn cael ei diweddaru'n rheolaidd (24% ar gyfer aelwydydd AB o'i gymharu â 9% ar gyfer aelwydydd DE).

[48] Gofynnwyd y cwestiwn canlynol i ddefnyddwyr rhyngrwyd gan gynnig chwe 'gwiriad' posibl, yn ogystal â´r opsiwn i ddweud nad ydyn nhw'n gwneud dim un o'r gwiriadau: *Pan fyddwch yn gweld gwybodaeth ffeithiol ar-lein, efallai ar y cyfryngau cymdeithasol neu beiriannau chwilio fel Google, ydych chi'n gwirio cywirdeb yr wybodaeth hon mewn unrhyw un o'r ffyrdd hyn?*

Ffigur 61: Gwirio cywirdeb gwybodaeth ffeithiol sydd ar gael ar-lein

IN39. Pan fyddwch yn gweld gwybodaeth ffeithiol ar-lein, efallai ar y cyfryngau cymdeithasol neu beiriannau chwilio fel Google, ydych chi'n gwirio cywirdeb yr wybodaeth hon mewn unrhyw un o'r ffyrdd hyn? (atebion wedi'u cynnig, sawl cod).
Sail: Oedolion 16 oed a hŷn sy'n mynd ar-lein (1553 yn 2016).

Ymysg y rheini sy'n edrych ar newyddion neu faterion cyfoes ar-lein, mae pobl hŷn yn llai tebygol o chwilio am amrywiaeth o safbwyntiau ar storïau sydd o ddiddordeb iddyn nhw

Mae defnyddwyr rhyngrwyd sy'n mynd ar-lein i edrych ar wefannau newyddion, gwleidyddiaeth neu faterion cyfoes yn cael cynnig pedwar opsiwn, a gofynnir iddyn nhw ddweud pa un sydd fwyaf perthnasol i'r datganiad canlynol: "*Pan fydda i'n dod ar draws stori newyddion neu faterion cyfoes sydd o ddiddordeb i mi, rwy'n mynd i wefannau neu apiau gwahanol i gael amrywiaeth o safbwyntiau".* Pwrpas y cwestiwn hwn ydy gweld i ba raddau mae storïau newyddion yn cael eu dilysu neu eu gwirio o ran cywirdeb.

Fel y gwelir yn Ffigur 62, mae un o bob pump (20%) o'r rheini sy'n edrych ar newyddion ar-lein yn dweud eu bod bob amser yn gwneud hynny. Mae bron i hanner (44%) yn dweud eu bod yn gwneud hynny weithiau. Mae cyfrannau tebyg yn dweud mai anaml maen nhw'n gwneud hynny (19%), neu nad ydyn nhw byth yn gwneud hynny (18%).

Ffigur 62: I ba raddau mae defnyddwyr rhyngrwyd sy'n mynd i wefannau newyddion neu faterion cyfoes yn dweud eu bod yn dilysu'r cynnwys maen nhw'n ei ddarllen mwyn cael amrywiaeth o safbwyntiau



IN43. Pa un o'r opsiynau canlynol sydd fwyaf perthnasol i'r datganiad canlynol: Pan fydda i'n dod ar draws stori newyddion neu faterion cyfoes sydd o ddiddordeb i mi, rwy'n mynd i wefannau neu apiau gwahanol i gael amrywiaeth o safbwyntiau (atebion wedi'u cynnig, un cod).
Sail: Pawb sy'n mynd ar-lein i edrych ar wefannau newyddion neu faterion cyfoes (999 yn 16 oed neu'n hŷn, mae'n amrywio yn ôl demograffeg).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (lefel 95%) yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol/oed wrth gymharu â phob defnyddiwr rhyngrwyd sy'n gwneud hyn, a dynion wrth gymharu â menywod.

Adran 9

Defnyddwyr mwy newydd, defnyddwyr cul a'r rheini sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd

9.1 Trosolwg o'r adran

Mae'r adran hon yn edrych yn fanwl ar ymddygiad ac agweddau oedolion sy'n llai cyfarwydd â defnyddio'r rhyngrwyd. Yn ogystal â'r rheini sydd ddim yn bersonol yn defnyddio'r rhyngrwyd o gwbl, rydyn ni'n categoreiddio'r rheini sy'n defnyddio'r rhyngrwyd mewn dwy ffordd:

- Pa mor ddiweddar roeddent wedi dechrau ei ddefnyddio hy pryd oeddent wedi dechrau defnyddio'r rhyngrwyd. Yn benodol yr ydym yn canolbwyntio ar y rheini sy'n dweud iddynt ddechrau defnyddio'r rhyngrwyd lai na phum mlynedd yn ôl - defnyddwyr *mwy newydd*.

- Hyd a lled defnyddio hy nifer y gweithgareddau maent yn eu gwneud ar-lein. Mae'r prif ffocws ar y rheini sydd wedi gwneud rhwng un a phedwar categori o weithgaredd rhyngrwyd, allan o'r 15 a gafodd eu hasesu. Rydyn ni'n galw'r rhain yn ddefnyddwyr *cul*.

Ar gyfer y rheini *sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd* rydyn ni'n edrych ar y canlynol:

- Pa mor aml mae hyn yn digwydd yn y boblogaeth oedolion, yn ogystal â'u proffil demograffig wrth gymharu â'r rheini sydd yn defnyddio'r rhyngrwyd.

- I ba raddau y maent wedi gofyn i rywun arall ddefnyddio'r rhyngrwyd ar eu rhan (hy defnyddio drwy ddirprwy) yn ystod y flwyddyn ddiwethaf – ac ar gyfer beth oedd hynny.

- Eu rhesymau dros beidio â mynd ar-lein a beth, os unrhyw beth, fyddai'n eu hannog i wneud hynny.

9.2 Prif ganfyddiadau

- Mae 'defnyddwyr mwy newydd' yn cael eu diffinio fel y rheini a aeth ar-lein am y tro cyntaf lai na pum mlynedd yn ôl. Mae un defnyddiwr rhyngrwyd o bob deg (9%) yn ddefnyddwyr mwy newydd – mae hyn yn codi i 21% ar gyfer y rheini sy'n 75 a hŷn ac i 14% ar gyfer oedolion mewn aelwydydd C2 a DE.

- Wrth gymharu â'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro (y rheini a aeth ar-lein dros bum mlynedd yn ôl), mae defnyddwyr mwy newydd ddwywaith yn fwy tebygol o ddim ond defnyddio ffôn clyfar i fynd ar-lein (21% o'i gymharu â 8%) a chwe gwaith yn fwy tebygol o ddim ond defnyddio dyfais tabled i fynd ar-lein (18% o'i gymharu â 3%).

- Amcangyfrifir bod defnyddwyr mwy newydd yn defnyddio llai ar y rhyngrwyd bob wythnos na'r rheini sydd wedi bod yn ei ddefnyddio ers tro (11.9 o'i gymharu â 24.1 awr). Mae'r gwahaniaeth hwn oherwydd defnydd is ym mhob lleoliad: yn y cartref, yn y gweithle/lleoliad addysg, ac unrhyw le arall.

- Wrth gymharu â'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro, mae defnyddwyr mwy newydd yn ddefnyddwyr rhyngrwyd llai hyderus ac yn fwy tebygol o ddim ond mynd ar wefannau neu apiau maen nhw wedi'u defnyddio o'r blaen.

- Mae defnyddwyr mwy newydd yn llai tebygol o fod yn ymwybodol o brif ffynonellau cyllid gwasanaethau ar-lein fel gwefan y BBC neu'r gwasanaeth iPlayer, gwefannau peiriannau chwilio a'r wefan YouTube. Maent hefyd yn llai tebygol o fod yn ymwybodol bod y canlyniadau sy'n cael eu cyflwyno gan beiriannau chwilio yn gallu cynnwys gwybodaeth anghywir neu ragfarnllyd, ac yn llai tebygol o adnabod cynnwys noddedig sy'n cael ei gyflwyno gan beiriannau chwilio fel hysbysebion.

- Wrth gymharu â'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro, mae defnyddwyr mwy newydd yn llai tebygol o ddefnyddio'r naw mesur diogelwch y gofynnir iddynt amdanynt. Mae llai na hanner yn defnyddio meddalwedd diogelwch fel pecynnau gwrthfeirysau neu wrthysbïwedd (44% o'i gymharu â 67% ar gyfer y rheini sy'n defnyddio'r rhyngrwyd ers tro). Dywed un o'r defnyddwyr mwy newydd o bob tri eu bod yn defnyddio cyfrineiriau cryf ar ddyfeisiau sy'n cael eu defnyddio i fynd ar-lein (33% o'i gymharu â 57% ar gyfer y rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro), ac mae un o bob pump (19% o'i gymharu â 50%) yn defnyddio cyfrineiriau cryf ar wasanaethau ar-lein, fel e-bost, cyfryngau cymdeithasol a PayPal.

- Mae 'defnyddwyr cul' yn cael eu diffinio fel y rheini sy'n gwneud rhwng un a phedwar o'r 15 math o ddefnydd ar-lein roedden ni wedi holi defnyddwyr rhyngrwyd amdanynt. Maent yn cynnwys 28% o'r holl ddefnyddwyr rhyngrwyd. Mae'r rheini sydd dros 65 yn fwy tebygol na'r cyffredin o fod yn ddefnyddwyr cul (44% o'r grŵp oed 65-74 a 51% ar gyfer y rheini dros 75). Mae defnyddwyr mewn aelwydydd C2 neu DE hefyd yn fwy tebygol o fod yn ddefnyddwyr cul (32% ar gyfer C2 a 40% ar gyfer DE).

- Er bod tri defnyddiwr rhyngrwyd o bob pedwar (76%) yn mynd ar-lein y tu allan i'r cartref, mae hyn yn llai tebygol ar gyfer defnyddwyr cul (59%). Mae defnyddwyr cul hefyd yn llai tebygol na defnyddwyr rhyngrwyd yn gyffredinol o fynd ar-lein bob dydd (64% o'i gymharu â 79%).

- Mae defnyddwyr cul yn llai tebygol na'r cyffredin o wylio cynnwys teledu ar-alwad yn gyffredinol, gwylio cynnwys ar wasanaethau dal-i-fyny darlledwr neu wylio cynnwys drwy ffôn symudol neu ar-lein.

- Nid ydy un deg pedwar y cant o oedolion yn y DU ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd, nid ydy hyn wedi newid ers 2015. Nid ydy un oedolyn o bob tri (35%) o'r grŵp oed 65-74 yn defnyddio'r rhyngrwyd, ac nid ydy'r rhan fwyaf o'r rheini sydd dros 75 oed (56%) yn defnyddio'r rhyngrwyd chwaith. Nid ydy chwarter oedolion aelwydydd DE (27%) yn defnyddio'r rhyngrwyd.

- Dywed dros bedwar o bob deg o'r rheini sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd (43%) mai'r prif reswm pam nad ydynt yn mynd ar-lein ydy oherwydd 'nad ydynt yn gweld yr angen'/ 'nid ydy bod ar-lein yn rhywbeth ar gyfer pobl fel nhw', er bod cyfran debyg i'r rheini sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd (38%) yn dweud eu bod wedi gofyn i rywun arall ddefnyddio'r rhyngrwyd ar eu rhan yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

- Dywed tri o bob pedwar o'r oedolion sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd na fyddai dim byd yn eu hannog i fynd ar-lein yn ystod y 12 mis nesaf (75%), er bod hyn yn llai tebygol ar gyfer y rheini sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd sydd yn y grŵp oed 16-64 (63%) nag ar gyfer y rheini sydd dros 65+ (80%).

9.3 Defnyddwyr rhyngrwyd mwy newydd

Mae'r is-adran hon yn edrych yn fanwl ar ddefnyddwyr 'mwy newydd' y rhyngrwyd. Yn ddelfrydol, byddai defnyddwyr mwy newydd y rhyngrwyd y rheini a ddechreuodd fynd ar-lein yn ystod y cwpl o flynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae angen i ni sicrhau bod unrhyw grŵp o ddefnyddwyr mwy newydd yn ddigon mawr (o leiaf 100 o ymatebwyr) er mwyn gallu eu cymharu â'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro.

Yn 2016, roedd 3% o'r rheini sydd yn defnyddio'r rhyngrwyd wedi dechrau mynd ar-lein yn ystod y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf (53 o ymatebwyr), gyda 6% arall wedi mynd ar-lein gyntaf yn ystod y tair i bedair blynedd diwethaf (98 o ymatebwyr). Felly rydyn ni'n diffinio 'defnyddwyr mwy newydd y rhyngrwyd' fel y rheini a ddechreuodd ddefnyddio'r rhyngrwyd hyd at bum mlynedd yn ôl, a 'phobl sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro' fel y rheini a ddechreuodd ddefnyddio'r rhyngrwyd bum mlynedd neu fwy yn ôl.

Faint o ddefnyddwyr mwy newydd sydd yn y boblogaeth ar-lein

Mae'r rheini sy'n mynd ar-lein ac sy'n 75 oed a hŷn yn fwy tebygol o fod yn ddefnyddwyr mwy newydd

Ar draws oedolion y DU sy'n defnyddio'r rhyngrwyd, mae 9% yn ddefnyddwyr mwy newydd, gyda'r 91% arall wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro. Wrth gymharu â 2015 bu gostyngiad yn nifer y defnyddwyr rhyngrwyd mwy newydd (i lawr o 12%). Er nad yw'n cael ei ddangos yn Ffigur 63, mae'r rhan fwyaf sy'n defnyddio'r rhyngrwyd (71%) yn dweud iddynt ddechrau mynd ar-lein deg neu fwy o flynyddoedd yn ôl, sy'n uwch na'r ffigur cyfatebol yn 2015 (64%).

Fel sy'n cael ei ddangos yn Ffigur 63, wrth gymharu â'r cyfartaledd, mae'r rheini sydd yn y grŵp oed 35-44 (5%) yn llai tebygol o fod yn ddefnyddwyr mwy newydd ac mae'r rheini sydd dros 75 (21%) yn fwy tebygol.

Wrth gymharu â'r cyfartaledd, mae'r rheini sydd yn y grwpiau economaidd-gymdeithasol C2 (14%) a DE (14%) yn fwy tebygol o fod yn ddefnyddwyr mwy newydd, ac mae'r rheini yn y grŵp AB yn llai tebygol (4%).

Ffigur 63: Cyfran y defnyddwyr mwy newydd a'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro, yn ôl blwyddyn ac oed



IN3. Pa mor hir yn ôl wnaethoch chi ddechrau mynd ar-lein gyntaf? (atebion wedi'u cynnig, un cod).
Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn sy'n mynd ar-lein (1553 yn 16 oed a hŷn, 231 yn 16-24 oed, 265 yn 25-34 oed, 293 yn 35-44 oed, 265 yn 45-54 oed, 220 yn 55-64 oed, 141 yn 65-74 oed, 138 yn 75 oed a hŷn, 394 – AB, 521 – C1, 300 – C2, 338 – DE, 745 – dynion, 808 – menywod).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (lefel 95%) rhwng 2015 a 2016 ar y lefel gyffredinol ac yn ôl grŵp oed/economaidd-gymdeithasol wrth gymharu â phob defnyddiwr rhyngrwyd a dynion wrth gymharu â menywod.

Dyfeisiau a ddefnyddir i fynd ar-lein

Y ffôn clyfar ydy'r unig ddyfais a ddefnyddir i fynd ar-lein gan y rhan fwyaf o ddefnyddwyr mwy newydd, ac mae dros hanner y defnyddwyr mwy newydd ddim ond yn mynd ar-lein ar ddyfeisiau ar wahân i gyfrifiadur.

Wrth gymharu â'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro, mae defnyddwyr rhyngrwyd mwy newydd yn llai tebygol o fynd ar-lein drwy'r rhan fwyaf o'r dyfeisiau sy'n cael eu dangos yn Ffigur 64, gyda'r mwyafrif o ddefnyddwyr mwy newydd yn mynd ar-lein gyda dim ond un ddyfais – ffôn clyfar (58%).

Fodd bynnag, maent yn fwy tebygol na'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro i fynd ar-lein drwy ddefnyddio dyfeisiau ar wahân i gyfrifiadur (55% o'i gymharu â 25%). Bydd tua un o bob pump o'r defnyddwyr mwy newydd ddim ond yn mynd ar-lein drwy ddefnyddio ffôn clyfar (21%) neu ddyfais tabled (18%); mae'r naill fesur a'r llall yn uwch nag ar gyfer y rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro (8% a 3% y naill a'r llall).

Ffigur 64: Dyfeisiau sy'n cael eu defnyddio i fynd ar-lein: defnyddwyr mwy newydd o'u cymharu â'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro



IN2. Ydych chi'n mynd ar-lein drwy ddefnyddio unrhyw rai o'r dyfeisiau hyn? (atebion wedi'u cynnig, sawl cod).
Sail: Pob oedolyn dros 16 sy'n mynd ar-lein a aeth ar-lein am y tro cyntaf lai na 5 mlynedd yn ôl (151), 5+ mlynedd yn ôl (1353).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (95% lefel) rhwng y defnyddwyr mwy newydd a'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro.

Mae defnyddwyr mwy newydd yn mynd ar-lein am lai o oriau mewn wythnos arferol.

Fel sy'n cael ei ddangos yn Ffigur 65, amcangyfrifir bod defnyddwyr mwy newydd yn defnyddio llai ar y rhyngrwyd bob wythnos na'r rheini sydd wedi bod yn ei ddefnyddio ers tro (11.9 awr o'i gymharu â 24.1 awr). Mae'r gwahaniaeth hwn oherwydd lefel is o ddefnydd yn y cartref (8.5 o'i gymharu â 15.6 awr), yn y gweithle neu leoliad addysg (2.1 o'i gymharu â 6.3 awr) ac mewn mannau eraill (1.2 o'i gymharu â 2.2 awr).

Ffigur 65: Defnyddio'r rhyngrwyd bob wythnos: defnyddwyr mwy newydd o'u cymharu â'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro



IN5A/B/C. Am sawl awr yr wythnos y byddech chi'n dweud eich bod yn defnyddio'r rhyngrwyd gartref/yn eich gweithle neu eich lleoliad addysg/unrhyw le arall? (atebion heb eu cynnig, un cod).
Sail: Pob oedolyn dros 16 sy'n mynd ar-lein (1553), a ddechreuodd ddefnyddio lai na 5 mlynedd yn ôl (151), 5+ mlynedd yn ôl (1353). Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (95% lefel) rhwng y defnyddwyr mwy newydd a'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro.

Mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr mwy newydd fel rheol yn mynd i'r un safleoedd ac apiau ag y maen nhw wedi'u defnyddio o'r blaen.
Yn y rhan fwyaf o wythnosau pan fyddant yn mynd ar-lein, mae defnyddwyr mwy newydd (68%) yn fwy tebygol na'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro (43%) o ddweud eu bod ddim ond yn mynd i wefannau neu apiau maen nhw wedi'u defnyddio o'r blaen. O'r herwydd, maen nhw'n llai tebygol na'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro o ddweud eu bod yn 'defnyddio un neu ddau o safleoedd neu apiau nad ydynt wedi'u defnyddio o'r blaen' (22% o'i gymharu â 37%) neu ddweud eu bod 'yn defnyddio llawer o wefannau neu apiau nad ydynt wedi'u defnyddio o'r blaen' (9% o'i gymharu â 19%).

Ffigur 66: Defnyddio gwefannau nad ydynt wedi cael eu defnyddio o'r blaen: defnyddwyr mwy newydd o'u cymharu â'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro



IN12. Yn y rhan fwyaf o wythnosau pan fyddwch chi'n mynd ar-lein ydych chi fel rheol... (atebion wedi'u cynnig, un cod).
Sail: Pob oedolyn dros 16 sy'n mynd ar-lein (1553), a ddechreuodd ddefnyddio lai na 5 mlynedd yn ôl (151), 5+ mlynedd yn ôl (1353).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (95% lefel) rhwng y defnyddwyr mwy newydd a'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro.

Hyder fel defnyddiwr rhyngrwyd

Mae defnyddwyr rhyngrwyd mwy newydd yn llai hyderus yn eu defnydd o'r rhyngrwyd

Mae Ffigur 67 yn dangos y sgoriau hyder a gofnodwyd gan bobl eu hunain, ar draws y gwahanol agweddau o ddefnyddio'r rhyngrwyd, fel sy'n cael eu rhoi gan ddefnyddwyr mwy newydd a'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro. Ar gyfer pob agwedd, mae defnyddwyr mwy newydd yn llai tebygol o ddisgrifio eu hunain fel defnyddwyr hyderus, ac yn fwy tebygol o ddisgrifio eu hunain fel defnyddwyr di-hyder (naill ai ddim yn hyderus iawn neu ddim yn hyderus o gwbl).

Yn gyffredinol, wrth gymharu â defnyddwyr mwy newydd, mae'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro ddwywaith mor debygol o ddisgrifio eu hunain fel defnyddwyr 'hyderus iawn'. Mae tua un defnyddiwr mwy newydd o bob pedwar yn disgrifio eu hunain fel defnyddwyr hyderus iawn o ran eu bod yn gwybod beth sy'n hysbysebion a beth sydd ddim (26% o'i gymharu â 48%) ac yn hyderus iawn yn gyffredinol fel defnyddwyr rhyngrwyd (27% o'i gymharu â 55%). Mae tua un o bob pump yn hyderus iawn eu bod yn gwybod sut mae

rheoli pwy sydd â mynediad i'w data ar-lein (22% o'i gymharu â 43%) ac o ran defnyddio'r rhyngrwyd i wneud pethau creadigol (20% o'i gymharu â 44%).

Ffigur 67: Hyder fel defnyddiwr rhyngrwyd: defnyddwyr mwy newydd o'u cymharu â'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro



IN11A/B/C/D. Rwy'n mynd i ddarllen rhai cwestiynau am hyder wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd, ar gyfer pob un a fyddech chi gystal â dweud pa rai o'r opsiynau ar y cerdyn sy'n berthnasol i chi. (atebion wedi'u cynnig, un cod).
Sail: Pob oedolyn dros 16 sy'n mynd ar-lein a ddechreuodd ddefnyddio lai na 5 mlynedd yn ôl (151), 5+ mlynedd yn ôl (1353).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (95% lefel) rhwng y defnyddwyr mwy newydd a'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro.

Ymwybyddiaeth o ffynonellau cyllid ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein

Mae defnyddwyr mwy newydd y rhyngrwyd yn llai tebygol o fod yn ymwybodol o'r prif ffynonellau cyllid ar gyfer rhai gwefannau neu wasanaethau ar-lein.

Gofynnir i oedolion ddweud, heb gynnig dim byd, beth maen nhw'n ei gredu ydy'r prif ffynonellau cyllid ar gyfer gwefannau a gwasanaethau ar-lein penodol. Mae Ffigur 68 yn dangos y canlyniadau ymysg y rheini sy'n mynd ar-lein, wedi'u rhannu yn ôl defnyddwyr mwy newydd/y rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro, ar gyfer pedwar safle neu wasanaeth ar-lein: gwefan y BBC, gwefannau peiriannau chwilio, gwasanaeth y BBC iPlayer ac ar gyfer YouTube.

Ar draws y pedwar, mae defnyddwyr rhyngrwyd mwy newydd yn llai tebygol na'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro o roi'r ateb cywir. Er bod y rhan fwyaf o'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro yn gwybod sut caiff pob un o'r pedwar gwasanaeth/gwefan ei gyllido'n bennaf, mae hyn yn wir ar gyfer gwefan y BBC (58%) ymysg defnyddwyr mwy newydd yn unig. Dywed pedwar defnyddiwr mwy newydd o bob deg (39%) eu bod yn gwybod mai ffi'r drwydded sy'n ariannu gwasanaeth y BBC iPlayer. Mae dros un defnyddiwr mwy newydd o bob tri (36%) yn rhoi'r ateb cywir ynghylch y prif ffynhonnell gyllid

ar gyfer gwefannau peiriannau chwilio[49], a dim ond un defnyddiwr mwy newydd o bob pedwar (26%) sy'n gwybod mai hysbysebion ydy'r prif ffynhonnell gyllid ar gyfer YouTube.

Mae un defnyddiwr mwy newydd o bob pedwar yn rhoi ateb anghywir ynghylch sut caiff gwefannau peiriannau chwilio eu cyllido'n bennaf, sy'n fwy na'r ffigur cyfatebol ar gyfer y rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro (25% o'i gymharu â 17%). Ar draws pob un o'r pedwar gwasanaeth ar-lein/gwefan hyn, mae defnyddwyr rhyngrwyd mwy newydd yn fwy tebygol na'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro o ddweud eu bod yn ansicr[50].

[49] Mae hyn yn seiliedig ar ddau ateb wedi'u codio sy'n cael eu hystyried yn gywir – 1) 'Hysbysebion ar y wefan' a 2) 'Mae hysbysebwyr yn talu pan fydd defnyddwyr yn clicio dolenni noddedig i gyrraedd eu gwefannau'.

[50] Naill ai oherwydd eu bod yn rhoi ateb 'Ddim yn gwybod' neu oherwydd eu bod wedi dweud nad oeddent erioed wedi clywed am y gwasanaeth.

Ffigur 68: Ymwybyddiaeth o sut caiff gwefannau neu wasanaethau ar-lein eu cyllido: defnyddwyr mwy newydd o'u cymharu â'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro



IN34/ IN35/ IN36/ IN37. Sut ydych chi'n meddwl caiff gwefan y BBC ei gyllido'n bennaf / Sut ydych chi'n meddwl caiff gwefannau peiriannau chwilio fel Google neu Bing eu cyllido'n bennaf?/ Sut ydych chi'n meddwl caiff gwasanaeth y BBC iPlayer ei gyllido'n bennaf / Sut ydych chi'n meddwl caiff YouTube ei gyllido'n bennaf? (atebion heb eu cynnig, un cod).
Sail: Pob oedolyn dros 16 sy'n mynd ar-lein a aeth ar-lein am y tro cyntaf lai na 5 mlynedd yn ôl (151), 5+ mlynedd yn ôl (1353).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (95% lefel) rhwng y defnyddwyr mwy newydd a'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro.

Canlyniadau deall peiriannau chwilio

Mae defnyddwyr mwy newydd yn llai tebygol o ddeall sut mae peiriannau chwilio yn gweithio

Gofynnir i oedolion sy'n defnyddio peiriannau chwilio (96% o ddefnyddwyr mwy newydd, 98% o'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro) i ddweud pa rai o'r datganiadau canlynol sydd agosaf at eu barn eu hunain:

- "Rwy'n credu os ydyn nhw wedi cael eu rhestru gan y peiriant chwilio, bydd y gwefannau hyn yn cynnwys gwybodaeth gywir a diduedd."
- "Rwy'n meddwl y bydd rhai o'r gwefannau'n gywir neu'n ddiduedd a fydd rhai ddim."
- "Fydda i ddim wir yn meddwl a ydyn nhw'n cynnwys gwybodaeth gywir neu ddiduedd, byddaf i ond yn defnyddio'r safleoedd rwy'n hoffi eu golwg nhw."

Mae Ffigur 69 yn dangos er bod un defnyddiwr mwy newydd o bob pump (23%) a chyfran debyg o'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro (21%) yn teimlo y bydd y canlyniadau a gyflwynir gan beiriannau chwilio yn gywir ac yn ddiduedd, mae defnyddwyr mwy newydd yn llai tebygol o roi'r ateb cywir – y bydd rhai gwefannau'n gywir neu'n ddiduedd a bydd rhai ddim (47% o'i gymharu â 59%). Mae defnyddwyr mwy newydd hefyd yn fwy tebygol o ddweud nad ydynt yn siŵr (12% o'i gymharu â 4%).

Ffigur 69: Barn ar gywirdeb peiriannau chwilio: defnyddwyr mwy newydd o'u cymharu â'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro



IN50. Pan fyddwch chi'n defnyddio peiriant chwilio i ddod o hyd i wybodaeth, byddwch yn rhoi ymholiad yn y blwch chwilio a bydd y peiriant chwilio wedyn yn dangos rhai dolenni i wefannau ar y tudalennau canlyniadau. Pa un o'r rhain sydd agosaf at eich barn chi ynghylch lefel cywirdeb neu ogwydd yr wybodaeth a geir yn y gwefannau sy'n ymddangos ar y tudalennau canlyniadau? (atebion wedi'u cynnig, un cod).
Sail: Pob oedolyn dros 16 sy'n defnyddio peiriannau chwilio (1516) a aeth ar-lein am y tro cyntaf lai na 5 mlynedd yn ôl (144), 5+ mlynedd yn ôl (1326).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (95% lefel) rhwng y defnyddwyr mwy newydd a'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro.

Mae pedwar defnyddiwr mwy newydd o bob deg yn gallu adnabod hysbysebion yng nghanlyniadau peiriant chwilio

Dangosir llun i'r oedolion sy'n dangos gwefannau peiriannau chwilio o'r canlyniadau a gyflynir gan Google drwy chwilio ar-lein am 'esgidiau cerdded'. Tynnir eu sylw at y pedwar canlyniad cyntaf ar frig y rhestr, sy'n cael eu gwahaniaethu gan flwch gwyrdd gyda'r gair 'Ad' ynddo. Rhoddir tri opsiwn iddynt a gofynnir a oes unrhyw rai o'r rhain yn berthnasol i'r pedwar canlyniad cyntaf hyn. Dyma'r opsiynau hyn[51]:

- Mae'r rhain yn hysbysebion/ dolenni noddedig/ wedi talu i ymddangos yma
- Dyma'r canlyniadau gorau/ y canlyniadau mwyaf perthnasol
- Dyma'r canlyniadau mwyaf poblogaidd sy'n cael eu defnyddio gan bobl eraill

Mae'r canlyniadau hyn yn cael eu dangos yn Ffigur 70 isod. Dywed llai na hanner y defnyddwyr mwy newydd (45%) sy'n defnyddio peiriannau chwilio fod y pedwar canlyniad cyntaf yn 'ddolenni noddedig/ hysbysebion/ wedi talu i ymddangos yno', wrth gymharu â chwech o bob deg o'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro (59%).

Er bod defnyddwyr mwy newydd yn ddim mwy tebygol o ddewis y naill ateb anghywir na'r llall - sef mai 'dyma'r canlyniadau mwyaf poblogaidd sy'n cael eu defnyddio gan bobl eraill' (22% o'i gymharu â 24% ar gyfer y rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro) neu'r 'canlyniadau gorau/ mwyaf perthnasol' (17% o'i gymharu â 21%) - maen nhw'n fwy tebygol o fod yn ansicr (23% o'i gymharu â 11%).

[51] Roeddent hefyd yn cael rhoi rheswm arall, neu ddweud nad oeddent nhw'n sicr.

Mae defnyddwyr peiriannau chwilio'n cael dewis mwy nag un ateb i'r cwestiwn hwn, felly mae hi hefyd yn werth edrych ar bwy roddodd yr ateb cywir *yn unig* heb ddewis yr opsiynau eraill. Mae hanner y rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro (49%) ddim ond yn rhoi'r ateb cywir; hynny yw, maen nhw'n datgan bod y canlyniadau dan sylw yn hysbysebion. Mae hyn llai tebygol ar gyfer y defnyddwyr mwy newydd (39%).

Ffigur 70: Deall canlyniadau y telir amdanynt sy'n cael eu cyflwyno drwy chwiliadau Google, ymysg oedolion sy'n defnyddio apiau neu wefannau peiriannau chwilio: defnyddwyr mwy newydd o'u cymharu â'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro.



IN51. Dyma ddelwedd (CERDYN O'R DDELWEDD) drwy chwilio ar Google am 'esgidiau cerdded''. Oes unrhyw rai o'r rhain yn berthnasol i'r tri chanlyniad cyntaf sy'n cael eu rhestru? (atebion wedi'u cynnig, sawl cod).
Sail: Oedolion dros 16 sy'n mynd ar-lein ac sy'n defnyddio apiau neu wefannau peiriannau chwilio a aeth ar-lein am y tro cyntaf lai na 5 mlynedd yn ôl (144), 5+ mlynedd yn ôl (1326).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (95% lefel) rhwng y defnyddwyr mwy newydd a'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro.

Deall hysbysebion personol

Mae traean o ddefnyddwyr mwy newydd yn ymwybodol o hysbysebion personol ar-lein, wrth gymharu â bron i ddwywaith cynifer o'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro.

Dangosir dau opsiwn i ddefnyddwyr rhyngrwyd a gofynnir iddynt pa un sy'n berthnasol i unrhyw hysbysebion y gallent eu gweld ar wefan neu ap maent yn ei ddefnyddio[52].

Mae Ffigur 71 yn dangos er bod dros hanner y rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro (58%) yn gwybod am hysbysebion personol, o ran eu bod yn gwybod y gallai rhai pobl weld hysbysebion gwahanol i'r hysbysebion maen nhw'n eu gweld, mae hyn yn cyfrif am ddim ond traean o ddefnyddwyr newydd (33%). Dywed dros un o bob pedwar o

[52] Roedd y cwestiwn penodol yn datgan: *Os oes rhywun yn yr un wlad â chi yn ymweld â'r un wefan neu ap ar yr un pryd â chi, pa un o'r pethau hyn sy'n berthnasol i unrhyw hysbysebion a ddangosir?* Diben y cwestiwn hwn ydy mesur i ba raddau mae defnyddwyr rhyngrwyd yn ymwybodol o hysbysebion personol.

ddefnyddwyr mwy newydd a'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro (27% y naill a'r llall) y byddai pawb yn gweld yr un hysbysebion. O'r herwydd mae defnyddwyr newydd dros ddwywaith mor debygol â'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro o ddweud nad ydynt yn sicr (39% o'i gymharu â 15%).

Ffigur 71: Ymwybyddiaeth o hysbysebion ar-lein personol: defnyddwyr mwy newydd o'u cymharu â'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro



IN52. Os oes rhywun yn yr un wlad â chi yn ymweld â'r un wefan neu ap ar yr un pryd â chi, pa un o'r pethau hyn sy'n berthnasol i unrhyw hysbysebion a ddangosir? (ateb wedi'i gynnig, un cod).
Sail: Pob oedolyn dros 16 sy'n mynd ar-lein (1553) a aeth ar-lein am y tro cyntaf lai na 5 mlynedd yn ôl (151), 5+ mlynedd yn ôl (1353).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (95% lefel) rhwng y defnyddwyr mwy newydd a'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro.

Mesurau a nodweddion diogelwch ar-lein

Dim ond un o bob pump defnyddiwr rhyngrwyd mwy newydd o sy'n dweud eu bod yn defnyddio cyfrineiriau cryf ar gyfer gwasanaethau ar-lein

Fel y dangosir yn Ffigur 72, rhoddir naw math posibl o fesurau diogelwch i ddefnyddwyr rhyngrwyd, a gofynnir iddynt ddweud pa rai, os o gwbl, o'r rhain y maen nhw neu rywun arall yn yr aelwyd yn eu defnyddio gartref.

O'u cymharu â'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro, mae defnyddwyr rhyngrwyd mwy newydd yn llai tebygol o ddweud eu bod yn defnyddio pob un o'r naw math hyn o fesurau diogelwch.

Er bod tri math o fesurau diogelwch yn cael eu defnyddio gan y mwyafrif o'r rheini sy'n defnyddio'r rhyngrwyd ers tro – pecynnau gwrthfeirysau neu wrthysbïwedd (67%), cyfrineiriau cryf ar ddyfeisiau y gellir eu defnyddio i fynd ar-lein (57%) neu gyfrineiriau cryf ar gyfer gwasanaethau ar-lein fel e-bost, cyfryngau cymdeithasol, PayPal ac ati (50%) – nid yw'r mwyafrif o ddefnyddwyr mwy newydd yn defnyddio'r un o'r rhain.

Mae defnyddwyr mwy newydd yn fwyaf tebygol o ddweud eu bod yn defnyddio pecynnau gwrthfeirysau neu wrthysbïwedd (44%). Dywed un o bob tri eu bod yn defnyddio cyfrineiriau cryf ar ddyfeisiau y gellir eu defnyddio i fynd ar-lein (33%), ond dywed llai eu bod yn

defnyddio cyfrineiriau cryf ar gyfer gwasanaethau ar-lein fel e-bost, cyfryngau cymdeithasol neu PayPal (19%).

Ffigur 72: Mesurau diogelwch a ddefnyddir yn y cartref: defnyddwyr mwy newydd o'u cymharu â'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro



IN6 Pa rai, os o gwbl, o'r pethau hyn ydych chi neu rywun yn eich aelwyd yn eu gwneud gartref? (atebion wedi'u cynnig, sawl cod).
Sail: Pob oedolyn dros 16 a aeth ar-lein am y tro cyntaf lai na 5 mlynedd yn ôl (151), 5+ mlynedd yn ôl (1353).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (95% lefel) rhwng y defnyddwyr mwy newydd a'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro.

Er y dywed tua hanner y defnyddwyr rhyngrwyd mwy newydd y byddent yn dilysu gwybodaeth ffeithiol ar-lein, mae hyn yn is na'r ffigur ymysg defnyddwyr sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro

Gofynnir i ddefnyddwyr rhyngrwyd wirio cywirdeb yr wybodaeth ffeithiol maent yn dod ar ei thraws ar-lein.

Mae Mae pedwar gwiriad penodol sy'n llai tebygol o gael eu gwneud gan ddefnyddwyr mwy newydd: gwirio gwahanol wefannau i weld a yw'r un wybodaeth yn ymddangos ar bob un (27% o'i gymharu â 47%), gwirio bod cyfeiriad y wefan yn edrych fel un go iawn (23% o'i gymharu â 34%), gwirio hygrededd yr wybodaeth (17% o'i gymharu â 26%) a gwirio a yw'r safle yn edrych yn broffesiynol (12% o'i gymharu â 22%).

Ffigur 73 yn dangos bod y mwyafrif o ddefnyddwyr mwy newydd (52%) yn gwneud un neu ragor o'r chwe gwiriad yr awgrymir iddynt, ac mae hyn yn llai tebygol o'i gymharu â defnyddwyr sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro (69%).

Mae pedwar gwiriad penodol sy'n llai tebygol o gael eu gwneud gan ddefnyddwyr mwy newydd: gwirio gwahanol wefannau i weld a yw'r un wybodaeth yn ymddangos ar bob un (27% o'i gymharu â 47%), gwirio bod cyfeiriad y wefan yn edrych fel un go iawn (23% o'i gymharu â 34%), gwirio hygrededd yr wybodaeth (17% o'i gymharu â 26%) a gwirio a yw'r safle yn edrych yn broffesiynol (12% o'i gymharu â 22%).

Ffigur 73: Dilysu gwybodaeth ffeithiol ar-lein: defnyddwyr mwy newydd o'u cymharu â'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro



IN39. Pan fyddwch yn gweld gwybodaeth ffeithiol ar-lein, efallai ar y cyfryngau cymdeithasol neu beiriannau chwilio fel Google, ydych chi erioed yn gwirio cywirdeb yr wybodaeth hon yn unrhyw un o'r ffyrdd hyn? (atebion wedi'u cynnig, sawl cod).
Sail: Pob oedolyn dros 16 a aeth ar-lein am y tro cyntaf lai na 5 mlynedd yn ôl (151), 5+ mlynedd yn ôl (1353).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (95% lefel) rhwng y defnyddwyr mwy newydd a'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro.

Dywed y mwyafrif o ddefnyddwyr rhyngrwyd mwy newydd eu bod yn gwneud gwiriadau cyn cofrestru â gwefannau

Mae defnyddwyr rhyngrwyd yn cael rhestr o wiriadau posibl y gallant eu gwneud cyn cofrestru eu manylion personol ar-lein ac yn cael eu holi pa rai, os o gwbl, maent yn eu gwneud. Maen nhw hefyd yn cael dweud eu bod yn cofrestru eu manylion ar-lein bob tro y gofynnir iddyn nhw wneud hynny.[53]

Gellir ystyried pump o'r rhesymau hyn (mewn piws isod) yn wiriadau 'priodol', a'r rheini mewn gwyrdd yn ymatebion llai dibynadwy (neu lythrennog yn y cyfryngau), o'r rhestr o ddewisiadau a gynigir i ymatebwyr.

O'u cymharu â defnyddwyr sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro, mae defnyddwyr mwy newydd yn llai tebygol o ddweud eu bod yn gwneud pedwar o'r pum gwiriad 'priodol'. Yn gyffredinol, dywed dros hanner y defnyddwyr mwy newydd eu bod yn gwneud o leiaf un o'r gwiriadau (55%).

Mae llai nag un defnyddiwr mwy newydd o bob deg yn rhoi pob un o'r ymatebion llai dibynadwy: cyn rhoi eu gwybodaeth maent yn gwirio a yw'r safle wedi'i restru ar beiriant chwilio (8%), maent yn rhoi eu manylion bob tro y gofynnir amdanynt (7%), neu maent yn pwyso a mesur ai dyma'r unig ffordd o gael gafael ar y gwasanaeth neu'r cynnyrch sydd ei

[53] Dywedodd dau y cant o ddefnyddwyr rhyngrwyd (9% o ddefnyddwyr mwy newydd a 2% o ddefnyddwyr sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro) yn ddigymell nad oeddent erioed wedi cofrestru â gwefannau/rhoi eu manylion personol ar-lein, ac maent wedi cael eu heithrio o'r canlyniadau a ddangosir.

angen arnynt (6%). Mae un defnyddiwr mwy newydd o bob pump (19%) yn rhoi o leiaf un o'r ymatebion hyn. Nid oes gwahaniaeth rhwng defnyddwyr mwy newydd a defnyddwyr sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro o ran rhoi ymatebion 'llai dibynadwy' (a ddangosir mewn gwyrdd).

Ffigur 74: Gwneud gwiriadau cyn cofrestru â gwefannau: defnyddwyr mwy newydd o'u cymharu â defnyddwyr sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro



IN41. Erbyn hyn, mae llawer o wefannau yn gofyn i chi gofrestru eich manylion personol gyda nhw. Pa rai, os o gwbl, o'r pethau hyn ydych chi'n eu gwneud cyn cofrestru manylion personol ar-lein? Rydw i'n edrych i weld...(atebion wedi'u cynnig, sawl cod).
Sail: Oedolion dros 16 sy'n mynd ar-lein ac sy'n dweud eu bod yn cofrestru manylion personol ar-lein a aeth ar-lein am y tro cyntaf lai na 5 mlynedd yn ôl (137), 5+ mlynedd yn ôl (1330).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (95% lefel) rhwng y defnyddwyr mwy newydd a'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro.

Pryderon ynghylch y rhyngrwyd

Nid yw'r pryderon ynghylch y rhyngrwyd yn amrywio rhwng defnyddwyr mwy newydd a'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro

Mae Ffigur 75 yn dangos bod gan tua hanner y defnyddwyr mwy newydd (48%) bryderon ynghylch yr hyn sydd ar y rhyngrwyd; mae'r nifer hwn yn debyg i'r nifer ymysg defnyddwyr sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro (51%).

Mae gan dri defnyddiwr mwy newydd o bob deg bryderon ynghylch cynnwys sy'n achosi tramgwydd neu gynnwys anghyfreithlon (31%), ac mae gan un o bob pedwar bryderon ynghylch y peryglon i bobl eraill neu i'r gymuned (27%), a phryderon ynghylch diogelwch neu dwyll (26%). Mae gan un o bob deg bryderon ynghylch preifatrwydd personol (10%), ond mae llai yn bryderus ynghylch hysbysebion (6%). Nid yw'r mathau hyn o bryderon yn amrywio ymysg defnyddwyr sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro.

Ffigur 75: Pryderon ynghylch y rhyngrwyd: defnyddwyr mwy newydd o'u cymharu â'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro



IN20. Allwch chi ddweud wrtha i a oes gennych chi bryderon ynghylch yr hyn sydd ar y rhyngrwyd? (atebion heb eu cynnig, sawl cod).
Sail: Pob oedolyn dros 16 a aeth ar-lein am y tro cyntaf lai na 5 mlynedd yn ôl (151), 5+ mlynedd yn ôl (1353).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (95% lefel) rhwng y defnyddwyr mwy newydd a'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r rhyngrwyd ers tro.

9.4 Defnyddwyr rhyngrwyd cul

Mewn blynyddoedd blaenorol, roedd y dadansoddi hyd a lled defnyddio sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad yn cael ei redeg gan y Traciwr Llythrennedd yn y Cyfryngau. Yn 2016, roedd y dadansoddi hyd a lled defnyddio sydd wedi'i gynnwys yma yn dod o'r ymchwil a gynhaliwyd yn astudiaeth Traciwr Technoleg Ofcom 2017.

Yn yr astudiaeth Traciwr Technoleg, gofynnwyd i ddefnyddwyr rhyngrwyd a oeddent erioed wedi cyflawni 24 gweithgaredd ar-lein unigol. Mae 23 o'r 24 o weithgareddau[54] wedi cael eu grwpio yn 15 math o ddefnydd ar-lein. Mae defnyddwyr rhyngrwyd wedi cael eu categoreiddio yn ddefnyddwyr rhyngrwyd cul, canolig neu eang, yn dibynnu ar faint o'r 15 math hyn maent wedi'u gwneud.

Diffinnir defnyddwyr cul fel y rheini sydd wedi gwneud hyd at bedwar o'r 15 math o ddefnydd ar-lein, defnyddwyr canolig fel y rheini sydd wedi gwneud rhwng pump a naw o'r mathau, a defnyddwyr eang fel y rheini sydd wedi gwneud rhwng 10 a 15 o'r mathau.

Dyma'r 15 math o ddefnydd:

1. E-bost – anfon neu gael negeseuon e-bost.
2. Trafodion – siopa ar-lein (prynu nwyddau/gwasanaethau/tocynnau ac ati), masnachu/arwerthiannau ee eBay.

[54] At ddibenion y dadansoddiad hwn, nid yw'r gweithgaredd "Syrffio cyffredinol/pori'r we" wedi cael ei gynnwys.

3. Cyfathrebiadau – Cyfathrebu drwy negeseuon gwib ee Facebook Chat, Skype Chat, Snapchat, gwneud galwadau fideo gan ddefnyddio gwasanaeth VoIP ee Skype, gwneud galwadau fideo ee drwy FaceTime, Skype.
4. Bancio
5. Cyfryngau cymdeithasol – defnyddio rhwydweithiau cymdeithasol (fel Facebook, LinkedIn, Bebo neu Snapchat), defnyddio Twitter (pori, darllen, cyhoeddi ar y safle).
6. Newyddion – cael gafael ar newyddion.
7. Gwybodaeth ar gyfer y gwaith/yr ysgol/coleg – dod o hyd i wybodaeth neu ei llwytho i lawr ar gyfer y gwaith/busnes/yr ysgol/coleg/y brifysgol/gwaith cartref.
8. Gwylio clipiau fideo byr – Gwylio clipiau fideo byr (ee ar YouTube, Dailymotion, Vimeo neu Facebook).
9. Iechyd – dod o hyd i wybodaeth am faterion sy'n ymwneud ag iechyd.
10. Gwasanaethau'r llywodraeth – Defnyddio safleoedd y cyngor lleol/y Llywodraeth ee i ddod o hyd i wybodaeth, i gyflawni prosesau fel llenwi ffurflenni treth, i gysylltu â'r AS lleol.
11. Gwylio cynnwys teledu – gwylio rhaglenni teledu neu gynnwys ffilm ar-lein.
12. Gwasanaethau radio/sain – gwrando ar y radio, gwasanaethau sain wedi'u ffrydio (am ddim) ee Spotify (am ddim) neu Deezer (am ddim), gwasanaethau sain wedi'u ffrydio (tanysgrifiad) ee Spotify Premium, Apple Music neu Deezer Premium.
13. Llwytho cynnwys i fyny i'r rhyngrwyd – llwytho cynnwys i fyny i'r rhyngrwyd ee lluniau, fideos, negeseuon blog.
14. O bell – Cael gafael ar ffeiliau drwy wasanaeth cwmwl, fel Dropbox, Google Drive, Microsoft OneDrive neu Apple iCloud, rheoli gwasanaethau teledu cartref fel Sky+, Sky Q neu Tivo o bell gan ddefnyddio dyfais sy'n gallu mynd ar-lein, rheoli neu fonitro teclynnau'r cartref o bell, ee oergell, ffwrn, peiriant golchi, peiriant sychu dillad a/neu ddyfeisiau gwresogi, goleuadau, system ddiogelwch neu ddefnydd ynni y cartref.
15. Gemau – chwarae gemau ar-lein neu'n rhyngweithiol.

Faint o ddefnyddwyr cul sydd yn y boblogaeth ar-lein

Mae oedolion hŷn ac oedolion C2DE yn fwy tebygol o fod yn ddefnyddwyr cul

Mae Ffigur 76 yn cymharu dosbarthiad defnyddwyr cul, canolig ac eang yn 2017 ar draws y grwpiau demograffeg gwahanol.

Mae defnyddwyr cul yn cynrychioli 28% o'r holl ddefnyddwyr rhyngrwyd, defnyddwyr canolig yn cynrychioli 37%, a defnyddwyr eang yn cynrychioli 31%.

Mae'r rheini sy'n 65 oed neu'n hŷn yn fwy tebygol na'r cyfartaledd o fod yn ddefnyddwyr cul (44% o'r grŵp oed 65-74 a 51% o'r rheini 75 a hŷn), ac mae'r rheini yn y grŵp oed 35-44 yn llai tebygol o fod yn ddefnyddwyr cul (21%). Wrth gymharu â'r cyfartaledd, mae'r rheini sydd yn y grwpiau economaidd-gymdeithasol C2 (32%) a DE (40%) yn fwy tebygol o fod yn ddefnyddwyr cul, ac mae defnyddwyr rhyngrwyd mewn aelwydydd AB yn llai tebygol (16%).

Ffigur 76: Hyd a lled defnyddio'r rhyngrwyd, yn ôl grŵp demograffeg



Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom, Hanner 1 2017
CE5A. Pa rai, os o gwbl, o'r rhain ydych chi'n defnyddio'r rhyngrwyd ar eu cyfer? (atebion wedi'u cynnig, sawl cod).
Sail: Pob oedolyn sy'n 16 oed neu hŷn sy'n mynd ar-lein (3221 yn 2017, mae'n amrywio yn ôl demograffeg).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (lefel 95%) yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol / oed wrth gymharu â phob defnyddiwr rhyngrwyd a dynion wrth gymharu â menywod.

Yr unig fath o weithgaredd a wneir gan y mwyafrif o ddefnyddwyr rhyngrwyd cul yw e-bost

Yn seiliedig ar ddadansoddi hyd a lled defnyddio, mae'n rhesymol disgwyl y bydd defnyddwyr cul yn llai tebygol o fod wedi gwneud y rhan fwyaf o'r mathau hyn o weithgaredd. Fodd bynnag, mae Ffigur 77 yn dangos yn glir y cyferbyniad rhwng defnyddwyr cul, sy'n llai tebygol o fod wedi gwneud y 15 math o weithgaredd i gyd, a defnyddwyr eang, sy'n fwy tebygol o fod wedi eu gwneud rhywbryd.

Dim ond un o'r mathau hyn o weithgaredd y mae'r mwyafrif o ddefnyddwyr cul wedi eu gwneud – e-bost (71%) – ond mae'r mwyafrif o ddefnyddwyr rhyngrwyd eang wedi gwneud y 15 math i gyd.

Ffigur 77: Categorïau defnydd rhyngrwyd: defnyddwyr cul, canolig ac eang



Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom, Hanner 1 2017
CE5A Pa rai, os o gwbl, o'r rhain ydych chi'n defnyddio'r rhyngrwyd ar eu cyfer? (atebion wedi'u cynnig, sawl cod).
Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn sy'n mynd ar-lein (3221 yn 2017), defnyddwyr cul (949), canolig (1176) ac eang (932).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (lefel 95%) rhwng unrhyw o'r categorïau math o ddefnyddwyr a phob defnyddiwr rhyngrwyd.

Dywed tri defnyddiwr cul o bob pump eu bod yn mynd ar-lein y tu allan i'r cartref

Yn 2017, dywed tri chwarter (76%) o bob defnyddiwr rhyngrwyd eu bod yn mynd ar-lein y tu allan i'r cartref. Mae hyn yn llai tebygol ymysg defnyddwyr cul (59%) ac yn fwy tebygol ymysg defnyddwyr eang (91%).

Ffigur 78: Defnyddio'r rhyngrwyd y tu allan i'r cartref: defnyddwyr cul, canolig ac eang



Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom, Hanner 1 2017
IN6. Fyddwch chi byth yn mynd ar-lein yn rhywle ar wahân i'ch cartref? OS YDYCH: Ble? (atebion wedi'u cynnig, sawl cod).
Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn sy'n mynd ar-lein (3221 yn 2017), defnyddwyr cul (949), canolig (1176) ac eang (932).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (lefel 95%) rhwng unrhyw o'r categorïau math o ddefnyddwyr a phob defnyddiwr rhyngrwyd.

Dywed un rhan o dair o ddefnyddwyr rhyngrwyd cul eu bod yn mynd ar-lein lai nag unwaith y dydd

Fel y dangosir yn Ffigur 79, dywed pedwar defnyddiwr rhyngrwyd o bob pump eu bod yn mynd ar-lein bob dydd (79%), gydag un o bob wyth (12%) yn mynd ar-lein sawl gwaith yr wythnos. Dywed 4% arall eu bod yn mynd ar-lein o leiaf unwaith yr wythnos, ac mai llai yn mynd ar-lein o leiaf unwaith y mis (1%).

Wrth gymharu â'r cyfartaledd (79%), mae defnyddwyr cul yn llai tebygol o ddweud eu bod yn mynd ar-lein bob dydd (64%); maen nhw'n fwy tebygol o ddweud eu bod yn mynd ar-lein yn llai aml, boed hynny sawl gwaith yr wythnos (21%), o leiaf unwaith yr wythnos (10%) neu o leiaf unwaith y mis (4%). O'r herwydd, mae un defnyddiwr cul o bob tri (36%) yn dweud eu bod yn mynd ar-lein yn llai aml na bob dydd.

Yn groes i hynny, mae bron i bob defnyddiwr eang (96%) yn dweud eu bod yn mynd ar-lein bob dydd, o'i gymharu â 64% o ddefnyddwyr cul.

Ffigur 79: Amlder defnyddio'r rhyngrwyd: defnyddwyr cul, canolig ac eang



Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom, Hanner 1 2017
CE23 A pha mor aml ydych chi'n bersonol yn defnyddio'r rhyngrwyd y dyddiau hyn un ai gartref neu yn rhywle arall? (ateb wedi'i gynnig, un cod).
Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn sy'n mynd ar-lein (3221 yn 2017), defnyddwyr cul (949), canolig (1176) ac eang (932).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (lefel 95%) rhwng unrhyw o'r categorïau math o ddefnyddwyr a phob defnyddiwr rhyngrwyd.

Mae defnyddwyr rhyngrwyd cul yn llai tebygol o ddweud mai eu ffôn clyfar yw'r ddyfais bwysicaf ar gyfer mynd ar-lein

Mae tua phedwar defnyddiwr rhyngrwyd o bob deg (42%) yn meddwl mai eu ffôn clyfar yw eu dyfais bwysicaf ar gyfer mynd ar-lein gartref neu yn rhywle arall, gydag un o bob pedwar (26%) yn meddwl mai eu gliniadur yw'r ddyfais bwysicaf. Dywed 16% mai dyfais tabled yw eu dyfais bwysicaf ar gyfer mynd ar-lein, a dywed un o bob deg (11%) mai cyfrifiadur bwrdd gwaith yw eu dyfais bwysicaf.

Er bod defnyddwyr cul yr un mor debygol o ddewis gliniadur (28%), dyfais tabled (18%) neu gyfrifiadur bwrdd gwaith (12%) fel eu dyfais bwysicaf, maent yn llai tebygol o ddewis ffôn clyfar (36%). O gymharu, dewisa hanner y defnyddwyr eang (51%) ffôn clyfar fel eu dyfais bwysicaf ar gyfer mynd ar-lein.

Ffigur 80: Dyfais bwysicaf ar gyfer mynd ar-lein: defnyddwyr cul, canolig ac eang



Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom, Hanner 1 2017
CE40. Pa un yw'r ddyfais bwysicaf yr ydych chi'n ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd, gartref neu yn rhywle arall? (ateb wedi'i gynnig, un cod) Dangos ymatebion gan >1% o bob defnyddiwr rhyngrwyd.
Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn sy'n mynd ar-lein (3221 yn 2017), defnyddwyr cul (949), canolig (1176) ac eang (932).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (lefel 95%) rhwng unrhyw o'r categorïau math o ddefnyddwyr a phob defnyddiwr rhyngrwyd.

Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r rhyngrwyd

Dywed un defnyddiwr cul o bob pedwar eu bod yn gwybod sut mae dod o hyd i'r cyflymder band-eang maent yn ei gael ar eu cyfrifiadur cartref

Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i ddefnyddwyr rhyngrwyd ynghylch cyflymder eu cysylltiad band-eang gartref. Dywed un defnyddiwr cul o bob pedwar (24%) eu bod yn gwybod sut mae gwneud hyn; mae hynny'n llai na'r cyfartaledd (40%). Dywed dros dri defnyddiwr eang o bob pump (62%) eu bod yn gwybod sut mae gwneud hyn.

Ffigur 81 yn dangos y canlyniadau fesul hyd a lled defnyddio ar gyfer y cwestiwn: "Ydych chi'n gwybod sut mae dod o hyd i'r cyflymder rydych chi'n ei gael ar eich cyfrifiadur gartref?"

Dywed un defnyddiwr cul o bob pedwar (24%) eu bod yn gwybod sut mae gwneud hyn; mae hynny'n llai na'r cyfartaledd (40%). Dywed dros dri defnyddiwr eang o bob pump (62%) eu bod yn gwybod sut mae gwneud hyn.

Ffigur 81: Ymwybyddiaeth o sut mae cael gwybodaeth am gyflymder band-eang gartref: defnyddwyr cul, canolig ac eang



Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom, Hanner 1 2017
CE11C. Ydych chi'n gwybod sut mae dod o hyd i'r cyflymder (band-eang) rydych chi'n ei gael ar eich cyfrifiadur gartref (atebion heb eu cynnig, un cod).
Sail: Pob defnyddiwr rhyngrwyd sy'n 16 oed neu hŷn sy'n defnyddio band-eang i gysylltu â'r rhyngrwyd gartref (2914) defnyddwyr cul (793), canolig (1096) ac eang (897).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (lefel 95%) rhwng unrhyw o'r categorïau math o ddefnyddwyr a phawb sy'n defnyddio band-eang i gysylltu â'r rhyngrwyd gartref.

Mae bron i naw defnyddiwr cul o bob deg yn ymwybodol o VoIP

Er bod yr ymwybyddiaeth o VoIP ymysg defnyddwyr cul, sef 87%, yn uchel, mae hyn yn llai na'r cyfartaledd (92%). Mae bron i bob defnyddiwr eang yn ymwybodol (98%).

Ffigur 82: Ymwybyddiaeth o VoIP: defnyddwyr cul, canolig ac eang



Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom, Hanner 1 2017
CE29. Cyn hyn, oeddech chi'n ymwybodol y gallech wneud galwadau llais neu alwadau fideo drwy ddefnyddio'r rhyngrwyd? (atebion heb eu cynnig, un cod).
Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn sy'n mynd ar-lein (3221 yn 2017), defnyddwyr cul (949), canolig (1176) ac eang (932).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (lefel 95%) rhwng unrhyw o'r categorïau math o ddefnyddwyr a phob defnyddiwr rhyngrwyd.

Gwylio ar-alwad

Mae defnyddwyr cul yn llai tebygol o wylio cynnwys teledu drwy wasanaethau dal-i-fyny darlledwyr neu i wylio cynnwys ar-alwad yn fwy cyffredinol

Holir yr holl ymatebwyr yn yr arolwg Traciwr Technoleg ynghylch eu harferion gwylio teledu. Mae Ffigur 83 yn dangos y canlyniadau sy'n ymwneud â gwylio sy'n gofyn am ryw elfen o gysylltedd ar-lein er mwyn gwylio cynnwys teledu.

Dywed hanner y defnyddwyr rhyngrwyd (51%) eu bod yn gwylio gwasanaethau ar-alwad darparwyr[55]; mae hyn yn llai tebygol ymysg defnyddwyr cul (30%) ac yn fwy tebygol ymysg defnyddwyr eang (76%). Yn gyffredinol, dywed tri chwarter yr holl ddefnyddwyr rhyngrwyd (77%) eu bod yn gwylio rhyw fath o gynnwys ar-alwad[56]; mae hyn hefyd yn llai tebygol ymysg defnyddwyr cul (61%) ac yn fwy tebygol ymysg defnyddwyr eang (97%).

Er y dywed bron i bedwar defnyddiwr rhyngrwyd o bob deg (38%) eu bod yn gwylio cynnwys teledu ar ffôn symudol neu ar-lein, mae hyn yn llai tebygol ymysg defnyddwyr cul (6%) ac yn fwy tebygol ymysg defnyddwyr eang (82%).

Ffigur 83: Defnyddio gwasanaethau ar-alwad: defnyddwyr cul, canolig ac eang



[55] Wedi dewis 'Rhaglenni teledu/ffilmiau ar wasanaethau darlledwyr (ee BBC iPlayer, ITV Hub, All 4, My 5 neu SkyGo) pan ofynnwyd iddynt: Ydych chi'n defnyddio unrhyw o'r mathau canlynol o wasanaeth i wylio rhaglenni teledu neu ffilmiau ar-lein drwy unrhyw fath o ddyfais (gan gynnwys ffôn symudol, dyfais tabled neu deledu).
[56] Yn seiliedig ar yr ymatebwyr hynny a ddywedodd eu bod un ai a) wedi defnyddio eu DVR i wylio rhaglenni wedi'u recordio, b) wedi gwylio cynnwys ar wasanaethau darlledwyr, c) wedi gwylio cynnwys teledu yn fyw ar-lein pan oedd yn cael ei ddarlledu, d) wedi prynu cynnwys drwy wasanaethau talu-i-wylio neu wasanaethau tanysgrifio unigol, neu e) wedi gwylio rhaglenni teledu neu sianeli fideo proffesiynol di-dâl eraill.

Ffynhonnell: Traciwr Technoleg Ofcom, Hanner 1 2017, yn deillio o sawl cwestiwn.
Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn sy'n mynd ar-lein (3221 yn 2017), defnyddwyr cul (949), canolig (1176) ac eang (932).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (lefel 95%) rhwng unrhyw o'r categorïau math o ddefnyddwyr a phob defnyddiwr rhyngrwyd.

9.5 Y rheini sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd

Mae'r adran hon yn edrych ar faint o bobl sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd, hy y rheini sy'n dweud nad ydynt yn mynd ar-lein, ac mae'n cymharu proffiliau demograffeg defnyddwyr rhyngrwyd a'r rheini sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd yn 2016. Mae'r adran hon yn defnyddio data Traciwr Llythrennedd yn y Cyfryngau 2016.

Faint o oedolion sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd

Nid yw dros hanner y bobl dros 75 oed yn defnyddio'r rhyngrwyd

Mae Ffigur 84 yn dangos nad yw 14% o oedolion yn y DU yn defnyddio'r rhyngrwyd, a bod hyn yn fwy tebygol ymysg pobl dros 65 oed (35% o'r grŵp oed 65-74 a 56% o'r rheini 75 a hŷn) a'r grŵp DE (27%).

Er nad yw hyn wedi'i ddangos yn y siart, nid oes newid wedi bod yn nifer y rheini sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd dros y blynyddoedd diwethaf (14% yn 2014, 13% yn 2015).

Ffigur 84: Faint o bobl sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd, yn ôl grŵp demograffeg



IN1. Fyddwch chi byth yn mynd ar-lein? (atebion heb eu cynnig, un cod).
Sail: Pob oedolyn 16 oed a hŷn (1846 yn 16 oed a hŷn, 234 yn 16-24 oed, 272 yn 25-34 oed, 313 yn 35-44 oed, 284 yn 45-54 oed, 270 yn 55-64 oed, 218 yn 65-74, 255 yn 75 oed a hŷn, 427 – AB, 566 – C1, 369 – C2, 484 – DE, 885 – dynion, 961 – menywod). Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (lefel 95%) yn ôl oed / grŵp economaidd-gymdeithasol wrth gymharu â phob oedolyn, a dynion wrth gymharu â menywod.

Proffil demograffeg o'r rheini sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd o'u cymharu â defnyddwyr rhyngrwyd

Mae tua thri o bob pump o'r rheini sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd yn 65 oed neu hŷn

Mae Ffigur 85 yn cymharu oed, grŵp economaidd-gymdeithasol a phroffil rhyw defnyddwyr rhyngrwyd a'r rheini sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd.

Mae'r rheini sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd yn fwy tebygol na defnyddwyr rhyngrwyd o fod yn 65 oed neu hŷn. Mae tri o bob pump (62%) o'r rheini sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd yn y grŵp oed hwn, o'i gymharu â 12% o ddefnyddwyr rhyngrwyd.

Mae bron i hanner y rheini sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd yn perthyn i'r grŵp economaidd-gymdeithasol DE, o'i gymharu ag un defnyddiwr rhyngrwyd o bob pump (48% o'i gymharu â 21%).

Ffigur 85: Proffil demograffeg pob oedolyn yn y DU: defnyddwyr rhyngrwyd a'r rheini sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd

Demograffeg	Pob un Oedolion y DU	Defnyddwyr rhyngrwyd	Y rheini sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd
Sail	1846	1553	293
16-24 oed	13%	14%	1%
25-44 oed	37%	41%	12%
45-64 oed	31%	32%	25%
65-74 oed	11%	8%	24%
75 oed a hŷn	10%	5%	38%
AB	27%	29%	13%
C1	27%	29%	14%
C2	22%	21%	25%
DE	25%	21%	48%
Dynion	49%	49%	50%
Menywod	51%	51%	50%

Rhesymau dros beidio â mynd ar-lein

Dywed dros bedwar o bob deg o'r rheini sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd mai'r prif reswm nad ydynt ar-lein yw nad ydynt yn gweld yr angen

Rhoddir chwe dewis[57] i'r rheini sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd a gofynnir iddynt ddweud pa un yw eu prif reswm dros beidio â mynd ar-lein. Dywed dros bedwar o bob deg (43%) o'r rheini sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd 'nid yw ar gyfer pobl fel nhw/nad ydynt yn gweld yr angen', gydag un o bob pump (19%) yn dweud ei fod yn rhy gymhleth. Dywed un o bob deg ei fod yn rhy ddrud (11%), gyda llai nag un o bob deg yn rhoi unrhyw ymateb arall.

O ystyried nifer cymharol isel y rheini sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd, mae unrhyw ddadansoddi pellach yn ôl oed wedi'i gyfyngu i edrych ar unrhyw wahaniaethau ymysg y rheini sydd o dan 65 ac sy'n 65 neu hŷn. Dim ond un gwahaniaeth sydd wrth edrych ar y grwpiau hyn; mae'r rheini rhwng 16 a 64 oed sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd yn fwy tebygol na'r rheini dros 65 i ddweud mai'r prif reswm dros fynd ar-lein yw 'nad yw werth yr arian/rhy ddrud' (18% o'i gymharu â 7%).

[57] Yn ogystal â dewis i roi unrhyw ymateb arall neu i ddweud nad oeddent yn siŵr.

Ffigur 86: Prif reswm dros beidio â mynd ar-lein yn ôl oed y person sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd



IN8. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau eich prif reswm dros beidio â mynd ar-lein? (atebion wedi'u cynnig, un cod). Dangos ymatebion gan >1% o'r rheini sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd.
Sail: Oedolion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd ac sy'n 16 oed a hŷn sydd ddim yn mynd ar-lein (293 yn 16 oed a hŷn, 99 yn 16-64 oed, 194 yn 65 oed a hŷn).
Mae'r saethau'n dangos gwahaniaethau arwyddocaol (lefel 95%) rhwng y rheini rhwng 16 a 64 oed sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd a'r rheini sy'n 65 oed neu hŷn sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd.

Y rheini sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd yn ei ddefnyddio drwy ddirprwy

Dywed bron i bedwar o bob deg o'r rheini sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd eu bod wedi gofyn i rywun arall ddefnyddio'r rhyngrwyd ar eu rhan yn ystod y flwyddyn ddiwethaf

Gofynnwn i'r rheini sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd a ydynt wedi gofyn i rywun arall wneud rhywbeth ar-lein ar eu rhan yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Os dywedant eu bod wedi, rhoddir pum dewis iddynt a gofynnir iddynt ddweud pa rai o'r rhesymau hynny sy'n berthnasol iddynt.

Dywed bron i bedwar o bob deg (38%) o'r rheini sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd eu bod wedi defnyddio'r rhyngrwyd 'drwy ddirprwy' yn y ffordd hon, gydag un o bob pedwar (25%) yn dweud ei fod er mwyn prynu rhywbeth, ac 13% yn dweud ei fod er mwyn dod o hyd i wybodaeth (ar wahân i wybodaeth am wasanaethau cyhoeddus). Dywed 7% ei fod er mwyn cael gafael ar wasanaethau cyhoeddus a ddarperir gan y Llywodraeth neu gyngor (ee apwyntiadau meddyg neu ysbyty, gwneud cais am docyn bws neu i gael gwybodaeth am dreth ac ati). Mae llai na 5% o'r rheini sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd yn rhoi unrhyw reswm arall dros ei ddefnyddio drwy ddirprwy.

Ffigur 87: Defnyddio'r rhyngrwyd drwy ddirprwy yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ymysg y rheini sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd

IN9. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ydych chi wedi gofyn i rywun arall wneud rhywbeth ar y rhyngrwyd ar eich rhan? OS YDYCH: Ac a oedd hynny i wneud un neu ragor o'r canlynol neu i wneud rhywbeth arall? (atebion wedi'u cynnig, sawl cod).
Sail: Oedolion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd ac sy'n 16 oed â hŷn sydd ddim yn mynd ar-lein (293 yn 16 oed a hŷn)

Roedd tri o bob pedwar o'r rheini sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd yn teimlo na fyddai unrhyw beth yn eu hannog i fynd ar-lein yn ystod y 12 mis nesaf.

Rhoddir saith rheswm posibl[58] i'r rheini sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd a gofynnir iddynt ddweud pa rai, os o gwbl, fyddai'n eu cymell i fynd ar-lein yn ystod y 12 mis nesaf.

Dywed tri chwarter (75%) na fyddai dim byd yn eu cymell i fynd ar-lein yn ystod y 12 mis nesaf; mae hyn yn llai tebygol ymysg y rheini sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd sydd yn y grŵp oed 16-64 (63%) nag ymysg y rheini sy'n 65 oed a hŷn (80%).

Ymysg pawb sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd, mae ychydig yn fwy nag un o bob pump (22%) yn crybwyll rhywbeth a fyddai'n eu cymell i fynd ar-lein. Dywed un o bob deg (9%) y byddent yn cael eu cymell i fynd ar-lein i brynu rhywbeth, a dywed tua hanner y nifer hwn (5%) y byddent yn mynd ar-lein pe bai ganddynt rywun i'w helpu nhw neu i ddangos iddynt sut mae gwneud. Mae pob un o'r 'cymhellion' eraill i fynd ar-lein yn cael eu crybwyll gan lai na 5% o'r rheini sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd.

O'u cymharu â'r rheini sy'n 65 oed neu hŷn, mae'r rheini rhwng 16 a 64 oed sydd ddim yn defnyddio'r rhyngrwyd dros ddwywaith yn fwy tebygol o ddweud y byddent yn cael eu cymell i fynd ar-lein er mwyn prynu rhywbeth (15% o'i gymharu â 6%).

[58] Yn ogystal â dewis i roi unrhyw ymateb arall neu i ddweud nad oeddent yn siŵr.

Ffigur 88: Rhesymau posibl dros fynd ar-lein yn ystod y 12 mis nesaf



IN10. Ac a fyddai unrhyw o'r rhesymau hyn yn eich cymell i fynd ar-lein yn ystod y 12 mis nesaf? (atebion wedi'u cynnig, sawl cod).
Sail: Oedolion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd ac sy'n 16 oed â hŷn sydd ddim yn mynd ar-lein (293 yn 16 oed a hŷn)